# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mawrth, 13 Tachwedd 2012**
**Tuesday, 13 November 2012**

**Cynnwys**
**Contents**


3 Datganiad: Cydsyniad Brenhinol—Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012
Statement: Royal Assent—National Assembly for Wales (Official Languages) Act 2012

3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

32 Cwestiwn Brys: Y Fforwm Clinigol Cenedlaethol
Urgent Question: The National Clinical Forum

36 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

42 Datganiad: Law yn Llaw at Iechyd—Adroddiad Cynnydd Chwe Mis
Statement: Together for Health—Six-month Progress Report

58 Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cynllun 'Gwella Ysgolion', a Gyhoeddwyd ar 10 Hydref 2012
Statement: An Update on the 'Improving Schools' Plan, Published on 10 October 2012

75 Datganiad: Fframwaith Newydd i Adolygu Ymarfer Plant—Diogelu ac Amddiffyn Plant yn Well
Statement: New Child Practice Review Framework—Improving Safeguarding and Protection

86 Y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14
The Draft Budget 2013-14

136 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Datganiad: Cydsyniad Brenhinol—Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012
## Statement: Royal Assent—National Assembly for Wales (Official Languages) Act 2012

**The Presiding Officer:** I am pleased to announce that on 12 November, Royal Assent was given to the National Assembly for Wales (Official Languages) Act 2012. The Act places a statutory duty on the National Assembly for Wales and the Assembly Commission to treat both Welsh and English on the basis of equality. This is a historic occasion for us, as it is the first Act of the Assembly to receive Royal Assent. The letters patent and the Act are on display in the Senedd for Members and the public to see until the end of this term.

**Y Llywydd:** Rwyf yn falch o gyhoeddi bod Cydsyniad Brenhinol wedi ei roi ar 12 Tachwedd i Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae hwn yn achlysur hanesyddol i ni, gan mai dyma Ddeddf gyntaf y Cynulliad i dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Mae'r breinlythyrau a'r Ddeddf wedi eu harddangos yn y Senedd i'r Aelodau a'r cyhoedd gael eu gweld tan ddiwedd y tymor hwn.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Blaenoriaethau

### Priorities

***1. David Rees**: Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl Aberafan dros y 12 mis nesaf. OAQ(4)0765(FM)*

***1. David Rees:** What are the Welsh Government's priorities for the people of Aberavon for the next 12 months. OAQ(4)0765(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** Our priorities for Aberavon are set out in the programme for government.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Mae** ein blaenoriaethau ar gyfer Aberafan wedi eu nodi yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

**David Rees:** Thank you for that answer, First Minister. Yesterday, St Modwen Properties plc launched phase 2 of the Coed Darcy urban village scheme in my constituency, which will create about 900 construction jobs, developing over 300 homes. A key regeneration scheme for Neath Port Talbot, it is set to create over 1,000 homes in total, along with community facilities and a new school. Do you agree that such projects will help the construction industry to lead the economy out of recession and provide local

**David Rees:** Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Ddoe, lansiodd St Modwen Properties ccc gam 2 cynllun pentref trefol Coed Darcy yn fy etholaeth, a fydd yn creu tua 900 o swyddi adeiladu, gan ddatblygu dros 300 o gartrefi. Mae'n gynllun adfywio allweddol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, a bwriedir iddo greu cyfanswm o dros 1,000 o gartrefi, ynghyd â chyfleusterau cymunedol ac ysgol newydd. A ydych chi'n cytuno y bydd prosiectau o'r fath yn helpu'r diwydiant adeiladu i arwain yr economi allan o

employment, and what action is the Welsh Government taking to encourage more such projects?

ddirwasgiad a darparu cyflogaeth yn lleol, a pha gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i annog mwy o brosiectau o'r fath?

**The First Minister:** It is a very good scheme. We were pleased to announce today the new mortgage guarantee scheme, which will help people to take the first step to get on, or to move up, the property ladder. That scheme will help young people and first-time buyers to get into the property market for the first time. It will support the purchase of up to 3,000 new-build homes up to the value of £250,000.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n gynllun da iawn. Roeddem yn falch o gyhoeddi y cynllun gwarant morgais newydd heddiw, a fydd yn helpu pobl i gymryd y cam cyntaf i fynd ar, neu i symud i fyny, yr ysgol eiddo. Bydd y cynllun yn helpu pobl ifanc a phrynwyr tro cyntaf i fynd i mewn i'r farchnad eiddo am y tro cyntaf. Bydd yn cefnogi prynu hyd at 3,000 o gartrefi wedi'u hadeiladu o'r newydd hyd at werth o £250,000.

**Suzy Davies:** Good afternoon, First Minister. People in Aberavon will be just as concerned as the people in your constituency about the possible downgrading of accident and emergency services at the Princess of Wales Hospital in Bridgend, as that is where many of them access their A&E services, with the help of the ambulance service. Would the people of Aberavon be right in being concerned that, if ambulance services are not considered as a central part of any consultation, the consultation is therefore meaningless?

**Suzy Davies:** Prynhawn da, Brif Weinidog. Bydd pobl yn Aberafan yr un mor bryderus â'r bobl yn eich etholaeth chi ynghylch israddio posibl gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan mai dyna lle y mae llawer ohonynt yn cael mynediad at eu gwasanaethau damweiniau ac achosion brys, gyda chymorth y gwasanaeth ambiwlans. A fyddai pobl Aberafan yn iawn i bryderu, os nad ystyrir gwasanaethau ambiwlans yn rhan ganolog o unrhyw ymgynghoriad, bod yr ymgynghoriad hwnnw felly'n ddiystyr?

**The First Minister:** I do not agree that consultation is meaningless. That is the view put forward by your party, but not by the public, either in Bridgend or in Aberavon.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn cytuno bod ymgynghori yn ddiystyr. Dyna'r farn a gyflwynwyd gan eich plaid chi, ond nid gan y cyhoedd, naill ai ym Mhen-y-bont ar Ogwr nac yn Aberafan.

### Gwasanaethau Iechyd yn y Gogledd

### Health Services in North Wales

***2. Janet Finch-Saunders:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau iechyd yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0768(FM)*

***2. Janet Finch-Saunders***: *Will the First Minister make a statement on the provision of health services in north Wales. OAQ(4)0768(FM)*

**The First Minister:** Yes. Our plans and priorities can be found in our programme for government and in 'Together for Health'.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Mae ein cynlluniau a'n blaenoriaethau i'w gweld yn ein rhaglen ar gyfer llywodraethu ac yn 'Law yn Llaw at Iechyd'.

**Janet Finch-Saunders:** First Minister, it is a damning indictment of your Government's approach to health services in Wales that, hot on the heels of the controversy over the Marcus Longley report, we now see yet another questionable redrafting of a

**Janet Finch-Saunders:** Brif Weinidog, mae'n gondemniad llwyr o agwedd eich Llywodraeth at wasanaethau iechyd yng Nghymru, ein bod yn awr, yn dynn ar sodlau pwnc llosg adroddiad Marcus Longley, yn gweld ailddrafftio amheus arall eto o

supposedly independent report. Is it not the case that your Welsh Labour Government is more interested in policy-based evidence than evidence-based policy? Why is your Government so vehemently opposed to independent thinking, or, indeed, so controlling over criticism?

adroddiad sydd i fod yn annibynnol. Onid yw'n wir bod gan eich Llywodraeth Lafur Cymru fwy o ddiddordeb mewn tystiolaeth sy'n seiliedig ar bolisi na pholisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth? Pam mae eich Llywodraeth mor chwyrn ei gwrthwynebiad i feddwl yn annibynnol, neu, yn wir, mor awyddus i reoli beirniadaeth?

**The First Minister:** The Member seems to have completely contradicted the press release that her own party has sent out. The press release that it sent out criticised the Minister for Health and Social Services for not intervening, and now the Member is saying that she has intervened. You really must make your minds up. The reality is that this is a matter between the local health board and the national clinical forum. There has been no interference of any kind from the Welsh Government, and that is right and proper in the circumstances.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r ymddangos bod yr Aelod yn gwrth-ddweud yn llwyr y datganiad i'r wasg a anfonwyd allan gan ei phlaid ei hun. Mae'r datganiad i'r wasg a anfonwyd allan yn beirniadu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am beidio ag ymyrryd, ac yn awr y mae'r Aelod yn dweud ei bod wedi ymyrryd. Mae'n wir raid i chi wneud eich meddyliau i fyny. Y gwir yw mai mater rhwng y bwrdd iechyd lleol a'r fforwm clinigol cenedlaethol yw hwn. Ni fu unrhyw ymyrraeth o unrhyw fath gan Lywodraeth Cymru, ac mae hynny'n iawn ac yn briodol o dan yr amgylchiadau.

**Kenneth Skates:** First Minister, the events of the last few days concerning the BBC are of concern to us all. More importantly, it risks diverting attention away from the vital issue of protecting vulnerable young people in the care system. Given the proud record of the National Assembly and the Welsh Government in child safeguarding, will you today reaffirm your commitment to ensuring that, despite all the noise and frenzy surrounding the BBC, we get to the truth of what happened in north Wales and that we take every step to protect and support vulnerable young people in care?

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, mae digwyddiadau'r dyddiau diwethaf yn ymwneud â'r BBC yn peri pryder i ni i gyd. Yn bwysicach, mae perygl iddo dynnu sylw oddi ar y mater hollbwysig o amddiffyn pobl ifanc agored i niwed yn y system ofal. O ystyried hanes balch y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru o ran diogelu plant, a wnewch chi heddiw ailddatgan eich ymrwymiad i sicrhau, er gwaethaf yr holl sŵn a gorffwylltra yn ymwneud â'r BBC, ein bod yn darganfod y gwir am yr hyn a ddigwyddodd yng ngogledd Cymru a'n bod yn cymryd pob cam posibl i ddiogelu a chefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed, ac sy'n derbyn gofal?

**The First Minister:** Absolutely. I am aware of what the UK Government has announced in terms of inquiring into these matters. I met the Children's Commissioner for Wales last week and I have asked him to examine the situation as it develops, and then to advise me as to what further steps may need to be taken.

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr. Yr wyf yn ymwybodol o'r hyn y mae Llywodraeth y DU wedi'i gyhoeddi ynglŷn ag ymchwilio i'r materion hyn. Cwrddais i â Chomisiynydd Plant Cymru yr wythnos diwethaf ac yr wyf wedi gofyn iddo archwilio'r sefyllfa wrth iddi ddatblygu, ac yna fy hysbysu i am ba gamau ychwanegol y dylid eu cymryd.

**Aled Roberts:** Cafwyd trafodaeth ddoe yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynglŷn â'r trafodaethau sy'n digwydd rhwng

**Aled Roberts:** First Minister, there was a discussion yesterday in the Public Accounts Committee about the negotiations taking

rhwydweithiau cenedlaethol a'r byrddau iechyd lleol, yn cynnwys, yn achos gogledd Cymru, y rhwydwaith newydd-enedigol. A yw'n bosibl i chi fel Llywodraeth sicrhau, o fewn y gwasanaeth iechyd, bod cofnodion y rhwydweithiau hyn ar gael i'r cyhoedd er mwyn i'r cyhoedd, a ni fel Aelodau'r Cynulliad, graffu ar unrhyw argymhellion gan y byrddau iechyd lleol?

place between national networks and the local health boards, including, in the case of north Wales, the neonatal network. Could you as a Government ensure that, within the health service, the minutes of these networks are made available to the public so that it, and we as Assembly Members, can scrutinise any recommendations brought forward by the local health boards?

**Y Prif Weinidog:** Ystyriaf beth mae'r Aelod wedi ei ddweud ac ysgrifennu ato ynglŷn â beth ellir ei wneud er mwyn sicrhau bod pethau mor agored a phosibl.

**The First Minister:** I will consider what the Member has said and write to him as regards what can be done to ensure the greatest transparency.

**Llyr Huws Gruffydd:** Byddwch yn ymwybodol o gonsýrn nifer o awdurdodau lleol ar draws y gogledd y bydd mwy o bwysau ar eu gwasanaethau yn sgîl y newidiadau arfaethedig i wasanaethau iechyd yng ngogledd Cymru. A allwch roi sicrwydd felly na fydd eich Llywodraeth chi yn caniatáu unrhyw newidiadau a fydd yn rhoi pwysau gormodol ar wasanaethau'r awdurdodau hynny, ac, o ganlyniad, yn costio mwy o bres iddynt?

**Llyr Huws Gruffydd:** First Minister, you will be aware of the concern of a number of local authorities across north Wales that there will be greater pressure on their services in light of the proposed changes to health services in north Wales. Can you give us an assurance therefore that your Government will not allow any changes that will put too much pressure on the services of those local authorities and, as a result, cost them more money?

**Y Prif Weinidog:** Dim o gwbl. Rydym am sicrhau bod yr awdurdodau i gyd yn gweithio gyda'i gilydd, ac rydym yn deall y bydd eisiau newid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio hefyd er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaeth gorau posibl.

**The First Minister:** Not at all. We want to ensure that all the authorities collaborate and we understand that there will be a need to also change the way in which social services work in order to ensure that people receive the best possible service.

### Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

### Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Leader of the Welsh Conservatives (Andrew R.T. Davies):** First Minister, is it right that a so-called independent forum, the national clinical forum, drafts a report, presents that report to the local health board, and then its chairman redrafts it so that it is more in tune with the thinking of the health board? How is that independent?

**Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig (Andrew R.T. Davies):** Brif Weinidog, a yw'n iawn bod fforwm y dywedir ei fod yn annibynnol, y fforwm clinigol cenedlaethol, yn drafftio adroddiad, yn cyflwyno'r adroddiad hwnnw i'r bwrdd iechyd lleol, ac yna bod y cadeirydd yn ei ailddrafftio fel ei fod yn fwy mewn cytgord â meddylfryd y bwrdd iechyd? Sut mae hynny'n annibynnol?

**The First Minister:** I come back to the point I made before: this is not a matter for Welsh Government.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn dod yn ôl at y pwynt a wneuthum o'r blaen: nid mater i Lywodraeth Cymru yw hwn.

**Andrew R.T. Davies:** Well, your Minister set up that forum. Does it not endorse the

**Andrew R.T. Davies:** Wel, eich Gweinidog chi sefydlodd y fforwm hwnnw. Onid yw'n

perception and reality felt by many people, in view of the Langley report, this report, the failure to achieve ambulance response target times, the failure to achieve cancer treatment target times, the failure to deliver a budget that will safeguard NHS services—£500 million out of the NHS here in Wales—that there is a lack of leadership in the Welsh NHS? Should you not now seriously get a grip on what is going on so that people can have confidence that their NHS will deliver for their needs?

cadarnhau'r canfyddiad a'r realiti a deimlir gan lawer o bobl, o ystyried adroddiad Langley, yr adroddiad hwn, y methiant i gyflawni targed amseroedd ymateb ambiwlans, y methiant i gyflawni targed amseroedd triniaeth canser, y methiant i gyflwyno cyllideb a fydd yn diogelu gwasanaethau'r GIG—£500 miliwn o'r GIG yma yng Nghymru—bod diffyg arweinyddiaeth yn y GIG yng Nghymru? Oni ddylech mewn difrif fynd i'r afael â'r hyn sy'n digwydd fel y gall pobl fod yn hyderus y bydd eu GIG yn darparu ar gyfer eu hanghenion?

**The First Minister:** I know that the people of Wales are more than delighted to see that his party has nothing to do with the Welsh NHS. What did we see last week? We saw his party making millionaires of GPs. That is what we saw last week: that is the future of the health service under his party in other parts of the UK. We will always ensure that the health service delivers for the people of Wales, is a public health service, and does not seek to enrich those who work in it.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn gwybod bod pobl Cymru yn fwy na balch o weld nad oes gan ei blaid ef ddim i'w wneud â'r GIG yng Nghymru. Beth welsom ni yr wythnos diwethaf? Gwelsom ei blaid ef yn gwneud meddygon teulu yn filiwnyddion. Dyna'r hyn a welsom yr wythnos diwethaf: dyna ddyfodol y gwasanaeth iechyd o dan ei blaid ef mewn rhannau eraill o'r DU. Byddwn bob amser yn sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn cyflawni ar gyfer pobl Cymru, ei fod yn wasanaeth iechyd y cyhoedd, ac nad yw'n ceisio gwneud y rhai sy'n gweithio ynddo yn gyfoethog.

**Andrew R.T. Davies:** That is quite amazing from a member of the party that renegotiated the GP contract in 2004 and created those millionaires in the NHS to the detriment of many other clinicians. I asked you a specific question on people's ability to have confidence in so-called independent reports. It is no wonder that they do not, with such a lamentable defence. Over the weekend there were credible reports that you were thinking about reorganising your Cabinet, and most of that was focused on the two Ministers either side of you. You felt so threatened by it you had to come out in the press yesterday and defend that reshuffle. You only bought the reshuffle up until Christmas time, so is it right that, come January, many of your colleagues on the front bench are going to be stuffed? You should consider the Minister for Health and Social Service's future, given the direction of the Welsh NHS.

**Andrew R.T. Davies:** Mae hynna'n gwbl anhygoel gan aelod o'r blaid a aildrafododd y contract Meddygon Teulu yn 2004 gan greu'r miliwnyddion hynny yn y GIG ar draul llawer o glinigwyr eraill. Gofynnais gwestiwn penodol i chi ar yr hyder a all pobl ei gael yn yr hyn a elwir yn adroddiadau annibynnol. Nid yw'n syndod nad oes ganddynt hynny, o glywed amddiffyniad mor druenus. Dros y penwythnos cafwyd adroddiadau credadwy eich bod yn meddwl ad-drefnu eich Cabinet, a bod y rhan fwyaf o hynny yn canolbwyntio ar y ddau Weinidog sydd y naill ochr i chi. Roeddech yn teimlo cymaint dan fygythiad o'i herwydd fel y bu'n rhaid i chi ddod allan yn y wasg ddoe ac amddiffyn yr ad-drefnu hwnnw. Dim ond tan adeg y Nadolig y soniwyd am fater ad-drefnu, felly a yw hi'n iawn i ddweud, pan ddaw mis Ionawr, y bydd llawer o'ch cydweithwyr ar y fainc flaen yn colli eu swyddi? Dylech ystyried dyfodol y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithas, o gofio cyfeiriad y GIG yng

Nghymru.

**The First Minister:** I was asked yesterday whether a reshuffle was imminent. It is not and I said so. I did not go out of my way to say so; I am sure that those are rumours that were started by the party opposite in the first place. Let us look at what is happening in England. It is relevant, because his party is in charge there. More than 6,000 nursing posts have been lost since May 2010. We know that there are trusts in England that are going bankrupt. We know that this idea that somehow the NHS in England is fully funded is wholly wrong; we only have to see the chaos that exists there. Yes, it has been difficult; it has been difficult because his party has cut the amount of money available to Wales. We have done what we can to protect NHS spending, and no, Ministers do not interfere when the national clinical forum and the local health board are in discussions. If the Minister had done that, he would be criticising that as well. This is an example of the confusion we have seen from the Tories. On the one hand, they criticise Ministers for travelling around Wales and then they criticise Ministers for not travelling around Wales. What we see in the party opposite is confusion and chaos.

**Y Prif Weinidog:** Gofynnwyd i mi ddoe a oedd ad-drefnu ar fin digwydd. Nid yw hynny am ddigwydd a dywedais hynny. Wneuthum i ddim mynd allan o fy ffordd i ddweud hynny; rwyf yn siŵr mai’r blaid gyferbyn a ddechreuodd y sibrydion yn y lle cyntaf. Gadewch i ni edrych ar yr hyn sy’n digwydd yn Lloegr. Mae’n berthnasol, oherwydd mai ei blaid ef sy’n rheoli yno. Mae mwy na 6,000 o swyddi nyrsio wedi eu colli ers mis Mai 2010. Rydym yn gwybod bod ymddiriedolaethau yn Lloegr sydd yn mynd i fod yn fethdalwyr. Rydym yn gwybod bod y syniad fod y GIG yn Lloegr yn cael ei ariannu’n llawn yn gwbl anghywir, does dim ond rhaid i ni edrych ar yr anhrefn sy’n bodoli yno. Ydy, mae wedi bod yn anodd, mae wedi bod yn anodd oherwydd bod ei blaid ef wedi torri ar yr arian sydd ar gael i Gymru. Rydym wedi gwneud yr hyn a allwn i ddiogelu gwariant y GIG, ac nad ydynt, nid yw Gweinidogion yn ymyrryd pan fydd y fforwm clinigol cenedlaethol a’r bwrdd iechyd lleol yn cynnal trafodaethau. Pe byddai’r Gweinidog wedi gwneud hynny, byddai’n beirniadu hynny hefyd. Mae hyn yn enghraifft o’r dryswch rydym wedi ei weld gan y Torïaid. Ar y naill law, maent yn beirniadu Gweinidogion am deithio o amgylch Cymru ac yna maent yn beirniadu Gweinidogion am beidio â theithio o amgylch Cymru. Yr hyn yr ydym yn ei weld yn y blaid gyferbyn yw dryswch ac anhrefn.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** First Minister, this time last week we were discussing how survivors of abuse could come forward and have their stories heard and believed. We know that survivors can be damaged by their experiences, and they need help and support. The Children’s Commissioner for Wales has said that his office has received more than 50 calls in relation to abuse. However, since then we have seen public criticism of someone who should never have been paraded through tv studios in the first place. This is not about the press; it is about making sure that people who are abused get justice, so will you join me in condemning the media reporting that sensationalises and simplifies complex stories rather than treating vulnerable people with

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Brif Weinidog, yr adeg hon yr wythnos diwethaf roeddem yn trafod sut y gallai goroeswyr cam-drin ddod ymlaen ac y gwrandewid ar eu straeon ac y byddent yn cael eu credu. Rydym yn gwybod y gall goroeswyr gael eu niweidio gan eu profiadau, a’u bod angen cymorth a chefnogaeth. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi dweud bod ei swyddfa wedi derbyn mwy na 50 o alwadau yn ymwneud â cham-drin. Fodd bynnag, ers hynny rydym wedi gweld beirniadu cyhoeddus am rywun na ddylid erioed fod wedi ei roi mewn stiwdios teledu yn y lle cyntaf. Nid yw hyn yn ymwneud â’r wasg: mae’n ymwneud â sicrhau bod pobl sy’n cael eu cam-drin yn cael cyfiawnder, felly a wnewch chi ymuno â mi i gondemnio

the dignity they deserve?

adroddiadau yn y cyfryngau sy'n codi cyffro ac yn symleiddio straeon cymhleth yn hytrach na thrin pobl sy'n agored i niwed gyda'r urddas y maent yn ei haeddu?

**The First Minister:** The leader of Plaid Cymru has it right in my view. What we saw last week bordered on hysteria. We then saw an unfortunate situation where a part of the evidence submitted by one potential witness was found to be flawed, but that does not mean, of course, that all the evidence that is new is flawed. The worry that I have is that the events of last week will discourage people from coming forward with credible new evidence, and not just with regard to what happened at Bryn Estyn and other homes. That will mean that it may be that it will be more and more difficult to get to the truth of what actually happened, then and since.

**Y Prif Weinidog:** Mae arweinydd Plaid Cymru yn iawn yn fy marn i. Roedd yr hyn a welsom yr wythnos diwethaf yn ffinio ar hysteria. Yna gwelsom sefyllfa anffodus pan ddarganfuwyd bod rhan o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan un tyst posibl yn ddiffygiol, ond nid yw hynny'n golygu, wrth gwrs, bod yr holl dystiolaeth sy'n newydd yn ddiffygiol. Y pryder sydd gennyf yw y bydd digwyddiadau'r wythnos diwethaf yn atal pobl rhag dod ymlaen gyda thystiolaeth newydd gredadwy, ac nid dim ond ar gyfer yr hyn a ddigwyddodd ym Mryn Estyn a chartrefi eraill. Bydd hynny'n golygu y gallai fod yn fwyfwy anodd i gael at y gwir am yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd, ar y pryd ac ers hynny.

**Leanne Wood:** First Minister, that is my concern too. There are now nine separate inquiries into child abuse, leaving the potential for confusion, and possibly allowing tracks to be covered if those inquiries are not working together closely. The Prime Minister has said that the terms of reference for two of the inquiries about care homes launched last week would be drawn up on a cross-party basis. We need a quick resolution, but we also need a thorough investigation. What discussions have you had with the Home Office about the terms of reference and timescales for the inquiries?

**Leanne Wood:** Brif Weinidog, dyna yw fy mhryder innau hefyd. Erbyn hyn mae 9 o ymchwiliadau ar wahân i gam-drin plant ar y gweill, gan adael y potensial ar gyfer dryswch, ac o bosibl caniatáu i bethau gael eu cuddio os nad yw'r ymchwiliadau yn gweithio gyda'i gilydd yn agos. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud y byddai'r cylch gorchwyl ar gyfer dau o'r ymchwiliadau ynglŷn â chartrefi gofal a lansiwyd yr wythnos diwethaf yn cael ei llunio ar sail drawsbleidiol. Rydym angen gweld datrysiad cyflym, ond mae arnom angen ymchwiliad trylwyr hefyd. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch y cylch gorchwyl ac amserlenni ar gyfer yr ymchwiliadau?

**The First Minister:** There have been no discussions with the Home Office. I have discussed the issue more than once with the Secretary of State and I discussed with the children's commissioner last week whether there was a need to investigate further in Wales. The view that we both took was that that was not the case at the moment, but, of course, the situation would be reviewed as and when that was necessary. The terms of reference of the reviews ordered by the UK Government are reasonably clear, but, in terms of how such inquiries will proceed in

**Y Prif Weinidog:** Ni fu unrhyw drafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref. Rwyf wedi trafod y mater fwy nag unwaith â'r Ysgrifennydd Gwladol a thrafodais gyda'r comisiynydd plant yr wythnos diwethaf pa un a oedd angen ymchwilio ymhellach yng Nghymru. Barn y ddau ohonom oedd nad oes angen hynny ar hyn o bryd, ond, wrth gwrs, byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu pe byddai angen hynny. Mae cylch gorchwyl yr adolygiadau a orchmynnwyd gan Lywodraeth y DU yn weddol glir, ond, mae sut y bydd ymchwiliadau o'r fath yn symud ymlaen yn y

the future, those are matters that I will be discussing with the UK Government.

dyfodol, yn faterion y byddaf yn eu trafod gyda Llywodraeth y DU.

**Leanne Wood:** At the heart of these concerns are many traditional institutions that have been discredited in recent years. This Senedd is at the heart of the new politics of co-operation and transparency. We now have our own, new, untarnished institutions like the Office of the Children's Commissioner for Wales. First Minister, will you ensure that the children's commissioner's office is sufficiently resourced in future to carry out whatever investigations it believes it needs to do? Will you also ensure that changes to local safeguarding children boards will not allow vulnerable children to fall through the gaps?

**Leanne Wood:** Wrth wraidd y pryderon hyn, mae llawer o sefydliadau traddodiadol sydd wedi dod dan gwmwl yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Senedd hon wrth wraidd gwleidyddiaeth newydd o gyd-weithredu a thryloywder. Erbyn hyn mae gennym ein sefydliadau newydd dilychwin ein hunain, fel Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. Brif Weinidog, a wnewch chi sicrhau y bydd gan swyddfa'r comisiynydd plant ddigon o adnoddau yn y dyfodol i gynnal pa ymchwiliadau bynnag y mae'n credu bod eu hangen? A wnewch chi hefyd sicrhau na fydd newidiadau i fyrddau lleol diogelu plant yn caniatáu i blant sy'n agored i niwed beidio â chael sylw?

**The First Minister:** I have asked the children's commissioner, as I have said, to keep an eye on the situation as it develops. I also encourage people to contact the children's commissioner if they have issues that they wish to discuss or evidence that they wish to present. I know that the children's commissioner is able to channel people towards counselling as well, where that is important. We have a children's commissioner for several reasons, and one of those reasons is to ensure that, when a situation like this arises, there is somebody who is independent of Government who can take forward such investigations as the commissioner feels are necessary. I made that point very clearly to the commissioner when I met him last week.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi gofyn i'r comisiynydd plant, fel y dywedais, i gadw llygad ar y sefyllfa wrth iddi ddatblygu. Rwyf hefyd yn annog pobl i gysylltu â'r comisiynydd plant os oes ganddynt faterion y maent yn dymuno eu trafod neu dystiolaeth y maent yn dymuno ei chyflwyno. Gwn fod y comisiynydd plant yn gallu sianelu pobl tuag at gwnsela yn ogystal, pan fo hynny'n bwysig. Mae gennym gomisiynydd plant am nifer o resymau, ac un o'r rhesymau hynny yw i sicrhau, pan fydd sefyllfa fel hyn yn codi, bod rhywun sy'n annibynnol ar y Llywodraeth yn gallu bwrw ymlaen ag ymchwiliadau y mae'r comisiynydd yn teimlo eu bod yn angenrheidiol. Gwneuthum y pwynt yn glir iawn i'r comisiynydd pan gwrddais i ag ef yr wythnos diwethaf.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, we have already heard today that an independent report by the national clinical forum was unilaterally rewritten after lobbying by a health board. What, in your view, is the purpose of the national clinical forum?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, yr ydym wedi clywed eisoes heddiw yr ailysgrifennwyd adroddiad annibynnol mewn modd unochrog gan y fforwm clinigol cenedlaethol yn dilyn lobïo gan fwrdd iechyd. Beth, yn eich barn chi, yw diben y fforwm clinigol cenedlaethol?

**The First Minister:** The national clinical forum is there to provide advice in terms of any proposed changes to the national health service.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r fforwm clinigol cenedlaethol yn bodoli i gynnig cyngor o ran unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth iechyd gwladol.

**Kirsty Williams:** We are in the middle of the

**Kirsty Williams:** Yr ydym yng nghanol yr

most controversial reorganisation of NHS services since this Assembly was created, and there is a huge amount of public concern and interest. Your Government needs to handle this reorganisation with care and openness to ensure that we get the right results at the end. Given that your Minister for Health and Social Services set up this forum, and given that Government officials sit on this forum, was your Minister for health aware of what was going on?

ad-drefnu mwyaf dadleuol o wasanaethau'r GIG ers creu'r Cynulliad hwn, ac mae llawer iawn o ddiddordeb a phryder ymysg y cyhoedd. Mae angen i'ch Llywodraeth ymdrin â'r ad-drefnu hwn gyda gofal ac mewn modd agored i sicrhau ein bod yn cael y canlyniadau cywir yn y diwedd. O gofio mai eich Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol chi sefydlodd y fforwm hwn, ac o ystyried bod swyddogion y Llywodraeth yn rhan o'r fforwm, a oedd eich Gweinidog iechyd yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn mynd ymlaen?

1.45 p.m.

**The First Minister:** Officials do not sit on the forum; they are observers. The Minister was made aware of the situation after the chain of events, but it would not be appropriate for a Minister to become involved, in any event. It would have been wholly wrong if the Minister for health had, in some way, tried to interfere with the dialogue that was taking place between the LHB and the national clinical forum. No doubt, that would have been the subject of criticism on the floor of the Chamber.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw swyddogion yn rhan o'r fforwm, arsylwyr ydynt. Daeth y Gweinidog yn ymwybodol o'r sefyllfa ar ôl y gadwyn o ddigwyddiadau, ond ni fyddai'n briodol i Weinidog ymwneud â'r mater, beth bynnag. Byddai wedi bod yn gwbl anghywir pe byddai'r Gweinidog iechyd, mewn rhyw ffordd, wedi ceisio amharu ar y ddeialog a oedd yn digwydd rhwng y BILl a'r fforwm clinigol cenedlaethol. Nid oes amheuaeth y byddai hynny wedi bod yn destun beirniadaeth ar lawr y Siambr.

**Kirsty Williams:** First Minister, people in the BBC lost their jobs this week, because they did not know what was going on on their watch and they had not got a grip of the situation. When will you and your Minister for health get a grip of this most controversial and serious reorganisation?

**Kirsty Williams:** Brif Weinidog, mae pobl yn y BBC wedi colli eu swyddi yr wythnos hon, oherwydd nad oeddent yn gwybod beth oedd yn mynd ymlaen dan eu gwyliadwraeth ac oherwydd nad oedd ganddynt reolaeth ar y sefyllfa. Pryd y byddwch chi a'ch Gweinidog iechyd yn cael rheolaeth ar yr ad-drefnu hynod ddadleuol a difrifol hwn?

**The First Minister:** This is, I have to say, an example of severe double standards. There is no doubt in my mind that, had the Minister for health tried to interfere or intervene in any way, the leader of the Liberal Democrats and others would have called for her head for that very reason. She has taken the quite proper step of not intervening in what is an independent process—of advice being given by an independent body to a local health board—and that is the proper way of managing things. As for our confidence in the national clinical forum, it is clearly there. The Member says that the report was completely rewritten, but that is not correct, for a start.

**Y Prif Weinidog:** Mae hyn, rhaid i mi ddweud, yn enghraifft o safonau dwbl difrifol. Nid oes amheuaeth yn fy meddwl, pe byddai'r Gweinidog iechyd wedi ceisio busnesu neu ymyrryd mewn unrhyw ffordd, byddai arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ac eraill wedi galw am ei diswyddo am yr union reswm hwnnw. Mae hi wedi cymryd y cam cwbl briodol o beidio ag ymyrryd yn yr hyn sy'n broses annibynnol—cyngor yn cael ei roi gan gorff annibynnol i fwrdd iechyd lleol—a dyna'r ffordd briodol o reoli pethau. O ran ein hyder yn y fforwm clinigol cenedlaethol, mae'n amlwg bod gennym hynny. Mae'r Aelod yn dweud bod

From the point of view of the Minister, she has acted perfectly properly by not intervening. Otherwise, I have no doubt that she would have been the subject of criticism on the floor of the Chamber.

yr adroddiad wedi'i ailysgrifennu yn gyfan gwbl, ond nid yw hynny'n gywir, i ddechrau. O safbwynt y Gweinidog, mae hi wedi gweithredu'n gwbl briodol drwy beidio ag ymyrryd. Fel arall, nid oes gennyf amheuaeth y byddai wedi bod yn destun beirniadaeth ar lawr y Siambr.

**Twf Economaidd**

**Economic Growth**

***3. Mohammad Asghar:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i greu'r amodau ar gyfer twf economaidd yng Nghymru. OAQ(4)0755(FM)*

***3. Mohammad Asghar:*** *What is the Welsh Government doing to create the conditions for economic growth in Wales. OAQ(4)0755(FM)*

**The First Minister:** Our plans are in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein cynlluniau yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

**Mohammad Asghar:** Thank you for your short answer, First Minister. The Federation of Small Businesses has raised concerns that no assurance has been given by the Welsh Government about the future of business rate relief schemes in Wales when the current scheme ends in the next four months. FSB Wales says that this uncertainty is having a significant impact on small businesses' ability to plan effectively for investment beyond this point. Has the Welsh Government made provision in its budget to fund rate relief further in the event that there is not a corresponding Barnett consequential from the UK Government after March 2013?

**Mohammad Asghar:** Diolch i chi am eich ateb byr, Brif Weinidog. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi mynegi pryderon nad oes unrhyw sicrwydd wedi ei roi gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â dyfodol cynlluniau rhyddhad ardrethi busnes yng Nghymru pan fydd y cynllun presennol yn dod i ben yn ystod y pedwar mis nesaf. Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn dweud bod yr ansicrwydd hwn yn cael effaith sylweddol ar allu busnesau bach i gynllunio'n effeithiol ar gyfer buddsoddi y tu hwnt i'r pwynt hwnnw. A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yn ei chyllideb i ariannu rhyddhad pellach mewn ardrethi os na cheir symiau canlyniadol Barnett cyfatebol gan Lywodraeth y DU ar ôl mis Mawrth 2013?

**The First Minister:** We expect to see that consequential and some certainty from the UK Government, and I hope that the Member will join me in condemning the UK Government for not providing that certainty.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn disgwyl gweld y symiau canlyniadol hynny a rhywfaint o sicrwydd gan Lywodraeth y DU, ac rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelod yn ymuno â mi i gondemnio Llywodraeth y DU am beidio â darparu'r sicrwydd hwnnw.

**Alun Ffred Jones:** Mae caffael yn eithriadol o bwysig i les busnesau a chwmnïau yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ yma yn y Siambr fod pryder mawr am y cynlluniau fframwaith sydd mewn bodolaeth, yn enwedig o ran rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Mae nifer

**Alun Ffred Jones:** Procurement is exceptionally important to the welfare of businesses and companies in Wales. The Minister for Finance and Leader of the House said here in the Chamber that there was grave concern about the framework agreements that are in existence, particularly for the twenty-

o fusnesau yng ngogledd Cymru wedi cysylltu â mi yn bryderus iawn am y cynllun fframwaith sy'n gweithredu ar draws y gogledd ar gyfer yr union raglen hon yn y blynyddoedd sydd i ddod, a hynny am resymau amlwg iawn: mae tendr y cynllun ei hun werth £4.5 miliwn, a hynny dim ond i greu'r fframwaith.

first century schools programme. Several businesses in north Wales have contacted me with concerns about the framework agreements that operates across the north for precisely that programme in the years to come, and the reasons for that are manifest: the tender for the scheme itself is worth £4.5 million, just to create the framework.

Beth y gallwch chi ei wneud i sicrhau y bydd busnesau gogledd Cymru yn elwa o'r buddsoddiad mawr hwn yn wyneb y pryderon real sy'n cael eu mynegi gan berchnogion busnesau a gweithwyr yn y maes?

What can you do to ensure that businesses in north Wales profit from this major investment in the face of the genuine concerns expressed by business owners and workers in the area?

**Y Prif Weinidog:** Hoffwn sicrhau, wrth gwrs, fod rhan fwyaf yr arian yn cael ei chadw o fewn cymunedau lleol. Mae'n bwysig dros ben bod busnesau yn gallu bidio am gytundebau. Byddwn yn dweud wrthynt am weithio gyda, a chysylltu ag adran busnes, menter, technoleg a gwyddoniaeth y Llywodraeth i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn y dylent ei wneud i fod yn llwyddiannus yn y dyfodol.

**The First Minister:** I want to ensure, of course, that the majority of the money is kept in local communities. It is vital that businesses should be in a position to bid for contracts. I would encourage them to work with and contact the business, enterprise, technology and science department at the Government to ensure that they are aware of what they need to do to be successful in the future.

**Eluned Parrott:** First Minister, the success of Cardiff enterprise zone and bringing private sector investment into it must be critical to your plans for growth. Last week, Cardiff Council approved plans for a major office development that was understood to be a new headquarters for legal firm, Hugh James, on a site in Callaghan Square. This week, it has been announced that the council will buy the land to build a new county hall, the existing two obviously being inadequate. Does not Russell Goodway apparently gazumping a private sector investor to move public sector jobs from one end of Lloyd George Avenue to the other undermine the whole principle of an enterprise zone?

**Eluned Parrott:** Brif Weinidog, mae'n rhaid bod llwyddiant parth menter Caerdydd a dod â buddsoddiad sector preifat iddo yn hanfodol i'ch cynlluniau ar gyfer twf. Yr wythnos diwethaf, cymeradwyodd cyngor Caerdydd gynlluniau ar gyfer datblygiad swyddfeydd mawr ar safle yn Sgwâr Callaghan a deallir mai dyma fydd pencadlys newydd cwmni cyfreithiol Hugh James. Yr wythnos hon, cyhoeddwyd y bydd y cyngor yn prynu tir i adeiladu neuadd y sir newydd, gan fod y ddwy bresennol yn amlwg yn annigonol. Onid yw'r ffaith fod Russell Goodway yn ôl pob golwg yn gasympio buddsoddwr sector preifat i symud swyddi sector cyhoeddus o un pen o Rodfa Lloyd George i'r llall yn tanseilio holl egwyddor parth menter?

**The First Minister:** I cannot answer for Cardiff Council, as that is a matter for the council.

**Y Prif Weinidog:** Ni allaf ateb ar ran Cyngor Caerdydd, gan mai mater i'r cyngor yw hynny.

### Pwerau Benthyca

### Borrowing Powers

***4. Simon Thomas:*** *Pryd y mae'r Prif Weinidog yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn cael pwerau benthyg newydd.*

***4. Simon Thomas:*** *When does the First Minister expect the Welsh Government to acquire new borrowing powers.*

*OAQ(4)0762(FM)*

*OAQ(4)0762(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r trafodaethau wedi dechrau ac rydym yn erfyn cael y pwerau yn fuan.

**The First Minister:** The discussions have commenced and we expect to acquire the powers soon.

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, byddem i gyd yn hoffi gwybod beth yw ystyr 'buan' a hefyd beth yw'r berthynas rhwng y pwerau benthyg newydd a chyllideb y Llywodraeth. Pa ganran o'r gyllideb y disgwyliwch y bydd gennych chi hawl i'w benthyg yn y dyfodol? Beth fydd y cyswllt rhwng y ganran honno ac unrhyw bwerau newydd i godi trethi?

**Simon Thomas:** First Minister, we would all like to know what you mean by 'soon' and what the relationship is between the new borrowing powers and the Government's budget. What percentage of the budget do you expect to have the right to borrow in future? What will be the connection between that and any new tax-raising powers?

**Y Prif Weinidog:** Yn gyntaf, rhaid inni aros i weld beth fydd casgliadau rhan 1 comisiwn Silk, ac er nad yw hynny'n hollol gysylltiedig â'r sefyllfa ynghylch benthyca, mae'n berthnasol. Byddwn wedyn yn erfyn i'r Trysorlys sicrhau bod Cymru yn gallu benthyca cyn gynted â phosibl. Rydym yn siarad â'r Trysorlys ar hyn o bryd am rai prosiectau y gellid eu cyllido cyn rhoi'r pŵer cyffredinol i'r Llywodraeth.

**The First Minister:** First, we must await the conclusions of part 1 of the Silk commission, and although that is not inextricably linked to the situation as regards borrowing, it is relevant. I would expect the Treasury to ensure that Wales is able to borrow as soon as possible. We are in talks with the Treasury at the moment about certain projects that could be financed in advance of the general power being conferred on the Government.

**Mick Antoniw:** In the context of borrowing powers, the debate has been very much centred on borrowing related to income streams from tax-raising powers. Is the Government also considering the possibility of using borrowing powers in other areas where there might be projects that produce income revenue, such as investment in housing, which would produce a rental income stream?

**Mick Antoniw:** Yng nghyd-destun pwerau benthyca, mae'r ddadl wedi bod yn canolbwyntio i raddau helaeth ar fenthyca sy'n gysylltiedig â ffrydiau incwm o bwerau codi trethi. A yw'r Llywodraeth hefyd yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio pwerau benthyca mewn meysydd eraill lle y gallai fod prosiectau sy'n cynhyrchu incwm refeniw, megis buddsoddi mewn tai, a fyddai'n cynhyrchu ffrwd incwm rhent?

**The First Minister:** Yes, it is. The issue of borrowing is not wholly wrapped up in the announcement that was made jointly with the Treasury. We do not accept as a Government that there is a need for an income stream before you can borrow—and we know that Northern Ireland does not have that—although we see that there is an argument for it. Nevertheless, from our point of view, we want to see borrowing powers arriving as quickly as possible, and we hope that, once the Silk commission has reported next week, a clear timetable can be put in place.

**Y Prif Weinidog:** Ydy**.** Nid yw'r mater o fenthyca yn gyfan gwbl ynghlwm yn y cyhoeddiad a wnaed ar y cyd â'r Trysorlys. Nid ydym yn derbyn fel Llywodraeth fod angen ffrwd incwm cyn y gallwch fenthyca—a gwyddom nad oes gan Ogledd Iwerddon hynny—er ein bod yn gweld bod yna ddadl drosto. Serch hynny, o'n safbwynt ni, rydym eisiau gweld pwerau benthyca yn cyrraedd cyn gynted ag y bo modd, ac rydym yn gobeithio, ar ôl i gomisiwn Silk adrodd yr wythnos nesaf, y gellir rhoi amserlen glir ar waith.

**Paul Davies:** Os bydd comisiwn Silk yn

**Paul Davies:** If the Silk commission reports

adrodd mewn modd positif—ac rwy'n gobeithio yn fawr y bydd—a all y Prif Weinidog ddweud wrthym pa drafodaethau y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi'u cael â San Steffan hyd yn hyn i sicrhau y bydd unrhyw bwerau benthyg newydd yn cael eu sefydlu ar sail ddeddfwriaethol gadarn?

in the affirmative—and I sincerely hope that that will be the case—will the First Minister tell us what discussions Welsh Government officials have had with Westminster to date to ensure that any new borrowing powers are established on a firm legislative footing?

**Y Prif Weinidog:** Mae sawl trafodaeth wedi bod ynghylch pa fath o ddeddfwriaeth a fyddai'n cael ei defnyddio. Rydym wedi dweud wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig ei fod yn bwysig dros ben bod casgliadau Silk a phwerau benthyca yn cael eu rhoi ar waith ymhell cyn yr etholiad cyffredinol nesaf.

**The First Minister:** There have been several discussions about the kind of legislation that would be used. We have informed the United Kingdom Government that it is extremely important that Silk's conclusions and borrowing powers be implemented far in advance of the next general election.

### Economi Gogledd Cymru

### The Economy of North Wales

***5. Kenneth Skates:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wneud economi gogledd Cymru yn fwy cystadleuol. OAQ(4)0763(FM)*

***5. Kenneth Skates:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's plans to improve the competitiveness of the north Wales economy. OAQ(4)0763(FM)*

**The First Minister** Our plans can be found in the programme for government**.**

**Y Prif Weinidog:** Mae ein cynlluniau i'w gweld yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

**Kenneth Skates:** Food manufacturing is a major future growth industry in north Wales and, as demonstrated recently by successful events such as the Llangollen Food Festival, where my friend, the Deputy Minister Alun Davies, was guest speaker. [*Interruption.*] Indeed. The UK currently imports £1.2 billion-worth more dairy produce than it exports, which means that there is enormous growth potential, both at home and abroad, and particularly in China, the world's biggest grocery market, which is becoming more westernised in its taste, buying more milk, cheese and yoghurt products. What efforts is your Government making to forge new trading links between niche food manufacturers in Wales and those emerging markets?

**Kenneth Skates:** Mae gweithgynhyrchu bwyd yn ddiwydiant pwysig ar gyfer twf yn y dyfodol yng ngogledd Cymru ac, fel y dangoswyd yn ddiweddar gan ddigwyddiadau llwyddiannus fel Gŵyl Fwyd Llangollen, a'm ffrind, y Dirprwy Weinidog Alun Davies, oedd y siaradwr gwadd.[Torri ar draws.]Yn wir. Mae'r DU ar hyn o bryd yn mewnforio gwerth £1.2 biliwn mwy o gynhyrchion llaeth nag y mae'n eu hallforio, sy'n golygu bod potensial enfawr ar gyfer twf, gartref a thramor, ac yn enwedig yn Tsieina, marchnad fwya'r byd, sydd yn dod yn fwy gorllewinol ei chwaeth, gan brynu mwy o gynhyrchion llaeth, caws ac iogwrt. Pa ymdrechion y mae eich Llywodraeth yn eu gwneud i feithrin cysylltiadau masnach newydd rhwng cynhyrchwyr bwyd arbenigol yng Nghymru a'r marchnadoedd hynny sy'n datblygu?

**The First Minister:** Links have been built over very many years. Most recently, we are supporting six Welsh food and drink companies to exhibit at the Food Hotel China 2012 event in Shanghai, as part of the True Taste pavilion, and we are currently recruiting food and drink companies to

**Y Prif Weinidog:** Mae cysylltiadau wedi'u hadeiladu dros nifer fawr o flynyddoedd. Yn fwyaf diweddar, rydym yn cefnogi chwe chwmni bwyd a diod o Gymru i arddangos yn y digwyddiad Gwesty Bwyd Tsieina 2012 yn Shanghai, yn rhan o'r pafiliwn Gwir Flas, ac rydym ar hyn o bryd yn recriwtio cwmnïau

exhibit within the Wales pavilion at the Gulfood show in Dubai next February.

bwyd a diod i arddangos ym mhafiliwn Cymru yn sioe Gulfood yn Dubai fis Chwefror nesaf.

**Antoinette Sandbach:** When I meet with owners of businesses in north Wales, the volume of red tape and bureaucracy that they have to deal with is a recurring complaint, and they describe measures coming out of this place as being platinum plated. Unnecessary red tape is taking time and resources away from growing businesses, is increasing a lack of competitiveness and is also preventing job growth. It also increases the risk of job-flight across the border. What support would you give to commissioning a thorough root-and-branch review of business red tape, along the lines of the MacDonald review for the Department for Environment, Food and Rural Affairs, so that Welsh businesses can be given the freedom to deliver jobs and prosperity?

**Antoinette Sandbach:** Pan fyddaf yn cwrdd â pherchnogion busnesau yng ngogledd Cymru, y gŵyn dro ar ôl tro yw'r holl waith papur a'r biwrocratiaeth y mae'n rhaid iddynt ymdrin ag ef, ac maent yn disgrifio'r mesurau sy'n dod allan o'r lle hwn fel bod wedi'u platio â phlatinwm. Mae biwrocratiaeth ddiangen yn cymryd amser ac adnoddau oddi wrth dyfu busnesau, ac yn cynyddu diffyg cystadleugarwch, ac mae hefyd yn atal twf swyddi. Yn ogystal, mae'n cynyddu'r risg o bobl yn mynd dros y ffin i chwilio am waith. Pa gymorth y byddech yn ei roi i gomisiynu adolygiad gwraidd a brig trylwyr o fân reolau busnes, ar linellau adolygiad MacDonald ar gyfer Adran Materion yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, fel y gall busnesau yng Nghymru gael y rhyddid i gyflwyno swyddi a ffyniant?

**The First Minister:** I have to say that the Member provides no evidence at all to back up her claims. I have heard nothing from businesses to suggest that there is an element or level of red tape in Wales that is somehow different or worse than that in England. If the Member wishes to provide me with concrete evidence to back up what she is saying, I would be pleased to consider it.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhaid i mi ddweud nad yw'r Aelod wedi darparu unrhyw dystiolaeth o gwbl i gefnogi ei honiadau. Nid wyf wedi clywed dim gan fusnesau i awgrymu bod elfen neu lefel o fiwrocratiaeth yng Nghymru sydd rywsut yn wahanol neu'n waeth nag yn Lloegr. Os yw'r Aelod yn dymuno darparu tystiolaeth gadarn i mi i gefnogi'r hyn y mae'n ei ddweud, byddwn yn falch ei ystyried.

**Ieuan Wyn Jones:** Rwy'n siŵr y bydd y Prif Weinidog yn cofio y dywedwyd yn rhaglen adnewyddu'r economi fod cynllunio defnydd tir yn benodol yn gallu cyfrannu at les economaidd yn y gogledd neu yn unrhyw ran arall o Gymru, drwy fod yn symlach, yn fwy tryloyw, yn llai cyfyngol ac yn fwy cyfeillgar i fusnes drwyddo draw. A ydych yn dal i gytuno â'r gosodiad hwnnw? Os ydych, a fydd y Bil cynllunio a fydd yn cael ei gyflwyno gan y Llywodraeth yn delio â'r materion hynny?

**Ieuan Wyn Jones:** I am sure that the First Minister will remember that the economic renewal programme said that land-use planning could specifically contribute to economic prosperity in north Wales or in any other part of Wales, by being simpler, more transparent, less restrictive and more business-friendly throughout. Do you still agree with that statement? If you do agree, will the planning Bill that is to be introduced by the Government get to grips with those issues?

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n cyd-fynd yn hollol. Mae'n bwysig dros ben bod y system gynllunio yn ymateb yn gyflym. Wrth gwrs, rhaid cadw'r rhannau hynny o'r system gynllunio sy'n rhoi *input* democrataidd i

**The First Minister:** I agree entirely. It is extremely important for the planning system to respond quickly. Of course, we must also keep those parts of the planning system that give people a democratic input. One

bobl. Un gŵyn gan fusnesau yw ei bod yn cymryd cymaint o amser i gael penderfyniad yn y lle cyntaf. Mae'n bwysig dros ben bod y Bil yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyflym.

complaint by businesses is that it takes so much time to get a decision in the first place. It is very important that the Bill should look at ways of ensuring that decisions are taken quickly.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl**

**Mental Health Services**

***6. Gwyn R. Price:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. OAQ(4)0753(FM)*

***6. Gwyn R. Price:*** *Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to improve mental health services in Wales. OAQ(4)0753(FM)*

**The First Minister:** Yes. On 22 October, we launched 'Together for Mental Health', which is our strategy for improving the mental health and wellbeing of the people of Wales.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Ar 22 Hydref, lansiwyd 'Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl' gennym, sef ein strategaeth ar gyfer gwella iechyd meddwl a lles pobl Cymru.

**Gwyn R. Price:** Thank you for that answer. First Minister, for far too long, people suffering from mental health problems have suffered from discrimination. That is coupled with what seems to be a concerted effort to stigmatise thousands of people who claim benefits and use the welfare system because of their mental health problems. What steps can you take to ensure that they get all the support that they need?

**Gwyn R. Price:** Diolch am yr ateb yna, Brif Weinidog. Ers yn llawer rhy hir, mae pobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl wedi dioddef gwahaniaethu. Mae hynny ynghyd â'r hyn sy'n ymddangos i fod yn ymdrech gydunol i ddifrïo miloedd o bobl sy'n hawlio budd-daliadau ac sy'n defnyddio'r system les oherwydd eu problemau iechyd meddwl. Pa gamau y gallwch eu cymryd i sicrhau eu bod yn cael yr holl gefnogaeth sydd ei angen arnynt?

**The First Minister:** 'Together for Mental Health' seeks to address that, to ensure that any stigma is removed, and to ensure that people understand which services are available to deal with mental health issues in Wales. One area of priority is that of ensuring safe, dignified and evidence-based interventions.

**Y Prif Weinidog:** Mae 'Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl' yn ceisio mynd i'r afael a hynny, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw stigma, ac i sicrhau bod pobl yn deall pa wasanaethau sydd ar gael i ymdrin â materion iechyd meddwl yng Nghymru. Un maes o flaenoriaeth yw sicrhau ymyriadau diogel, urddasol a seiliedig ar dystiolaeth.

**Janet Finch-Saunders:** First Minister, the leading academic, Professor David Healy, has raised concerns about staff morale and the sustainability of staffing arrangements for mental health services in Wales. He has highlighted that the service is now largely run by locum doctors, that the exit of senior nurses, psychologists and paramedical staff from the service has left a vacuum in service provision, and that the disintegrating situation in north Wales has become the antithesis of a personalised service. I can send you further information, but what will you do to aim to address those concerns?

**Janet Finch-Saunders:** Brif Weinidog, mae'r academydd blaenllaw, yr Athro David Healy, wedi codi pryderon ynghylch ysbryd staff a chynaliadwyedd trefniadau staffio ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Mae wedi amlygu'r ffaith fod y gwasanaeth erbyn hyn yn cael ei redeg i raddau helaeth gan feddygon locwm, a bod diffyg darpariaeth o wasanaethau oherwydd bod uwch nyrsys, seicolegwyr a staff parafeddygol wedi gadael, a bod y sefyllfa ymddatodol yng ngogledd Cymru wedi cyrraedd yr hyn sy'n wrthwyneb i wasanaeth personol. Gallaf anfon rhagor o wybodaeth

atoch, ond beth fyddwch chi'n ei wneud i geisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn?

**The First Minister:** The delivery plan for 'Together for Mental Health' was published on 22 October, and that is intended to improve mental health services in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddwyd y cynllun ar gyfer cyflawni sef 'Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl' ar 22 Hydref, a'i fwriad yw gwella gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

**Elin Jones:** Ers cau ward Afallon ym Mronglais yn yr haf, nid oes gwelyau argyfwng i gleifion iechyd meddwl ar gael bellach rhwng coridorau'r M4 a'r A55. Rwy'n gobeithio bod hyn yn gonsýrn i chi fel ydyw i mi. Yn aml, cleifion iechyd meddwl yw'r rhai lleiaf parod i godi llais am eu gwasanaeth. Felly, a wnewch chi fod yn llais drostynt a gofyn i fwrdd iechyd Hywel Dda beth yw ei amserlen i ailagor y gwelyau iechyd meddwl yn Aberystwyth?

**Elin Jones:** Since the closure of the Afallon ward in Bronglais over the summer, there are no emergency beds for mental health patients available between the M4 and A55 corridors. I hope that that is of as much concern to you as it is to me. Often, mental health patients are the least inclined to raise their voices about the service that they receive. Therefore, will you be an advocate for them and ask Hywel Dda health board for its timetable for reinstating those mental health beds in Aberystwyth?

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf hynny. Gofynnaf i'r Gweinidog iechyd ysgrifennu at yr Aelod fel bod sicrwydd am ddyfodol y gwasanaeth hwn ym Mronglais.

**The First Minister:** I will do that. I will ask the Minister for health to write to the Member so that there is certainty about the future of that service in Bronglais.

**Rebecca Evans:** First Minister, there is a strong link between diabetes and mental illness. Last week, a diabetes charity shone the spotlight on diabulimia, which is a mental health condition whereby some diabetics, usually young women, stop taking their insulin in order to lose weight, often with terrible health consequences. Will you ensure that your diabetes delivery plan includes specific references to mental health and prioritises educating and supporting people in the management of their diabetes?

**Rebecca Evans:** Brif Weinidog, mae cysylltiad cryf rhwng diabetes a salwch meddwl. Yr wythnos diwethaf, daethpwyd â diabulimia i'r amlwg gan elusen diabetes, sy'n gyflwr iechyd meddwl lle mae rhai pobl diabetig, menywod ifanc fel arfer, yn rhoi'r gorau i gymryd eu hinswlin er mwyn colli pwysau, yn aml gyda chanlyniadau difrifol i'w hiechyd. A wnewch chi sicrhau bod eich cynllun cyflenwi ar gyfer diabetes yn cynnwys cyfeiriadau penodol at iechyd meddwl ac yn blaenoriaethu addysgu a chefnogi pobl yn y broses o reoli eu diabetes?

**The First Minister:** Yes. The diabetes national service framework highlights the need to take mental health issues into account in the delivery of diabetes care in Wales. We expect LHBs to deliver on the plan by 2013, emphasising the need to include people suffering from mental health problems as well as diabetes.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diabetes yn tynnu sylw at yr angen i gymryd materion iechyd meddwl i ystyriaeth wrth ddarparu gofal diabetes yng Nghymru. Rydym yn disgwyl i Fyrddau Iechyd Lleol gyflawni ar y cynllun erbyn 2013, gan bwysleisio'r angen i gynnwys pobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl yn ogystal â diabetes.

**Prentisiaethau**

**Apprenticeships**

***7. Lindsay Whittle***: *Pa fesurau y bydd*

***7. Lindsay Whittle:*** *What measures will the*

*Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r gostyngiad sylweddol yn nifer y prentisiaethau yng Nghymru. OAQ(4)0754(FM)*

*Welsh Government be taking to tackle the significant reduction in the number of Welsh apprenticeships. OAQ(4)0754(FM)*

**The First Minister:** We recently announced a further £5 million investment in additional apprenticeship places for newly recruited young people aged 16 to 24. The Member will be aware of the conclusion of discussions between the Government and his party.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn ddiweddar wedi cyhoeddi £5 miliwn o fuddsoddiad mewn lleoedd prentisiaeth ychwanegol i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sydd newydd eu recriwtio. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o gasgliadau'r trafodaethau rhwng y Llywodraeth a'i blaid.

**Lindsay Whittle:** Music to my ears, First Minister. I am delighted that you mentioned Plaid Cymru's 'hope for generations' deal on the budget, with the potential to give hope to 10,000 young people.

**Lindsay Whittle:** Mae'n dda iawn gen i glywed, Brif Weinidog. Rwyf wrth fy modd eich bod wedi sôn am 'gobaith ar gyfer y cenedlaethau' sef bargen ar y gyllideb gan Blaid Cymru, sydd â'r potensial i roi gobaith i 10,000 o bobl ifanc.

2.00 p.m.

**Lindsay Whittle:** First Minister, what is the time frame for setting up the science park in north Wales, which is also the result of pressure from Plaid Cymru—The Party of Wales, and which also offers hope for further apprenticeships in that part of Wales?

**Lindsay Whittle:** Brif Weinidog, beth yw'r amserlen ar gyfer sefydlu'r parc gwyddoniaeth yng ngogledd Cymru, sydd hefyd o ganlyniad i bwysau gan Blaid Cymru, ac sydd eto'n cynnig gobaith ar gyfer mwy o brentisiaethau yn y rhan honno o Gymru?

**The First Minister:** These matters are being looked at. We want to ensure that the science park is established and that as much external funding as possible is brought into such a scheme. That is something, as was agreed between the parties, which will be taken forward as soon as possible.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r materion hyn yn cael eu hystyried. Rydym eisiau sicrhau bod y parc gwyddoniaeth yn cael ei sefydlu ac y deuir â chymaint o arian allanol ag y bo modd i gynllun o'r fath. Mae hynny'n rhywbeth, fel y cytunwyd rhwng y partïon, a fydd yn cael ei symud ymlaen cyn gynted ag y bo modd.

### Diogelwch Teithwyr

### Passenger Safety

***8. Kirsty Williams:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau diogelwch teithwyr ar wasanaethau bysiau yng Nghymru. OAQ(4)0764(FM)*

***8. Kirsty Williams:*** *Will the First Minister outline what steps are being taken to ensure passenger safety on bus services in Wales. OAQ(4)0764(FM)*

**The First Minister:** Passenger safety on bus services is not devolved and is therefore a matter for the UK Government. There are a number of regulations in place that deal with this issue.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw diogelwch teithwyr ar wasanaethau bws wedi'i ddatganoli ac felly mae'n fater i Lywodraeth y DU. Mae nifer o reoliadau wedi'u sefydlu sy'n ymdrin â'r mater hwn.

**Kirsty Williams:** First Minister, the operators of buses that transport Powys

**Kirsty Williams:** Brif Weinidog, mae'n ofynnol i weithredwyr bysiau sy'n cludo

children to and from school are required to ensure that seatbelts are available on those buses and that the drivers have a Criminal Records Bureau check. The current retendering process for school transport in Powys will mean a significant number of children will now not be transported on school buses but will travel to school on public service buses, which do not have the same requirements for seatbelts and do not require the driver to have a CRB check. Is it right for the parents of those children to be concerned at the changes and the risks associated with moving from buses that do have CRB-checked drivers and seatbelts onto public transport that does not?

plant Powys i'r ysgol ac yn ôl adref i sicrhau bod gwregysau diogelwch ar gael ar y bysiau hynny a bod y gyrwyr yn cael archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Bydd y broses ail-dendro bresennol ar gyfer cludiant ysgol ym Mhowys yn golygu na fydd nifer sylweddol o blant bellach yn cael eu cludo ar fysiau ysgol ac yn teithio i'r ysgol ar fysiau gwasanaeth cyhoeddus, nad oes ganddynt yr un gofynion ar gyfer gwregysau diogelwch ac nad oes angen i'r gyrrwr cael archwiliad gan y SCT. A yw'n iawn i rieni'r plant hynny i fod yn bryderus ynglŷn â'r newidiadau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â symud oddi wrth fysiau lle mae'r gyrrwr wedi cael archwiliad SCT a lle y ceir gwregysau diogelwch i gludiant cyhoeddus lle na cheir hynny?

**The First Minister:** I would not want to give the impression that public transport is somehow unsafe. I am sure that the Member does not intend that to be the case. This is clearly a matter for Powys and the local authority will need to bear in mind the need to ensure the safety of children when they travel to school, both in terms of those who take them to school and the vehicles in which they travel.

**Y Prif Weinidog:** Ni fyddwn eisiau rhoi'r argraff fod cludiant cyhoeddus yn anniogel mewn rhyw ffordd. Rwyf yn siŵr nad yw'r Aelod yn bwriadu hynny ychwaith. Mae hyn yn amlwg yn fater i Bowys a bydd angen i'r awdurdod lleol gadw mewn cof yr angen i sicrhau diogelwch plant pan eu bod yn teithio i'r ysgol, o ran y rhai sy'n mynd â nhw i'r ysgol a'r cerbydau y maent yn teithio ynddynt.

**Mike Hedges:** In the last few days, I have been contacted by constituents regarding getting onto buses. One, who is in a wheelchair, was unable to access a bus. I also have a constituent who has some sight loss but, when they are on the bus, the bus driver does not say which stop they are at, so they have to hope that they have not missed it and hope that the bus has stopped at all possible stops it could have done in order to guess at which one to get off. Is there anything that the Government can do to ensure that people with disabilities have equal access to bus travel?

**Mike Hedges:** Yn ystod y dyddiau diwethaf, mae etholwyr wedi cysylltu â mi ynglŷn â mynd ar fysiau. Methodd un ohonynt, sydd mewn cadair olwyn, â mynd ar fws. Mae gennyf etholwr hefyd sydd wedi colli ei (g)olwg i ryw raddau, ond pan ei fod/bod ar y bws, nid yw'r gyrrwr yn dweud ym mha arhosfan y mae'r bws, felly mae'n rhaid iddo/iddi obeithio nad yw'r bws wedi mynd heibio'r arhosfan cywir a gobeithio hefyd bod y bws yn stopio ym mhob arhosfan y gallai fod wedi stopio ynddynt er mwyn gallu dyfalu pa un i'w ddefnyddio i ddod oddi ar y bws. A oes unrhyw beth y gall y Llywodraeth ei wneud i sicrhau bod pobl ag anableddau yn cael mynediad cyfartal i deithio ar fws?

**The First Minister:** As I mentioned earlier, these matters are not devolved. It is for the Vehicle and Operator Services Agency to enforce the regulations that exist in terms of bus safety. Nevertheless, when somebody who has problems with their sight is using a service, it is undoubtedly good practice for

**Y Prif Weinidog:** Fel y soniais yn gynharach, nid yw'r materion hyn wedi'u datganoli. Mater i'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr yw gorfodi'r rheoliadau sy'n bodoli o ran diogelwch ar fysiau. Serch hynny, pan fydd rhai sydd â phroblemau o ran eu golwg yn

the driver to tell them where their stop is. Surely, that is common humanity, and I hope that First Cymru drivers listen to what is being said in this Chamber. If there have been occasions when people have not received that service, I am sure that drivers will want to provide it to them.

defnyddio gwasanaeth, mae'n ddiau yn arfer da i'r gyrrwr ddweud wrthynt ble mae eu harhosfan hwy. Dim ond caredigrwydd cyffredin yw hynny wrth gwrs, ac rwyf yn gobeithio bod gyrwyr First Cymru yn gwrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud yn y Siambr hon. Os bu achlysuron pan nad yw pobl wedi cael y gwasanaeth hwnnw, rwyf yn sicr y bydd gyrwyr yn dymuno ei ddarparu iddynt.

**Suzy Davies:** First Minister, I am delighted that your Minister for local government has agreed to take a closer look at what constitutes a safe walking or cycling route to school, and I look forward to a statement on that soon. However, it is quite possible that, as a result of that, more children end up taking safer bus routes to school instead of walking routes, which will have a financial consequence. Can you give us an assurance that, if it comes to that, your Government will not use cost to outweigh child protection when it comes to providing such services?

**Suzy Davies:** Brif Weinidog, yr wyf yn falch iawn fod eich Gweinidog Llywodraeth Leol wedi cytuno i gymryd golwg agosach ar yr hyn sy'n cynrychioli llwybr cerdded neu feicio diogel i'r ysgol, ac edrychaf ymlaen at ddatganiad ar hynny'n fuan. Fodd bynnag, mae'n eithaf posibl, o ganlyniad i hynny, y bydd mwy o blant yn y pen draw yn dewis llwybrau bysiau mwy diogel i fynd i'r ysgol yn hytrach na llwybrau cerdded, a bydd canlyniadau ariannol i hynny. A allwch chi ein sicrhau, os y daw i hynny, na fydd eich Llywodraeth yn defnyddio cost i orbwyso amddiffyn plant wrth ddarparu gwasanaethau o'r fath?

**The First Minister:** These are matters for local authorities. Local authorities take different views in terms of the appropriate distance. There is a statutory distance, of course, but it is for local authorities to ensure that they are providing the correct level of transport to pupils when they go to school.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r rhain yn faterion ar gyfer awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn cymryd gwahanol safbwyntiau o ran y pellter priodol. Ceir pellter statudol, wrth gwrs, ond mae'n fater i awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn darparu'r lefel cywir o gludiant i ddisgyblion wrth iddynt fynd i'r ysgol.

**Rhodri Glyn Thomas:** Brif Weinidog, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r cwestiynau hyn naill ai'n faterion nad ydynt wedi'u datganoli neu'n faterion sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol. A gaf eich cyfeirio at fater sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Llywodraeth Cymru? O ran diogelwch pobl ar fysiau, y peth hanfodol yw eu bod yn gallu cael mynediad at fysiau yn y lle cyntaf. A ydych yn derbyn bod y ffordd y mae eich Llywodraeth a'ch Gweinidog wedi ymdrin â'r rhaglen o brisiau gostyngedig ar gyfer bysiau wedi arwain at sefyllfa lle mae llai o fysiau ar gael a phrisiau wedi'u cynyddu?

**Rhodri Glyn Thomas:** First Minister, it appears that most of these questions are either on non-devolved matters or on matters that are to do with local authorities. May I refer you to a matter that directly appertains to the Welsh Government? With regard to the safety of people on buses, the critical thing is that they can access the buses in the first place. Do you accept that the way in which your Government and Minister has dealt with the progamme of concessionary bus fares has led to a situation in which fewer buses are available and prices have increased?

**Y Prif Weinidog:** Na, ddim o gwbl. Rwy'n credu bod y ddêl sydd wedi'i rhoi i'r rheini

**The First Minister:** No, not at all. I think that the deal provided to those running buses

sy'n rhedeg bysiau yn un deg iawn. Rhaid cofio hefyd fod gennym system yng Nghymru o docynnau bws am ddim i'r rheini sydd dros 60 oed neu sy'n anabl. Nid yw hynny ar gael yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ac mae'n dangos yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei feddwl ynglŷn â sicrhau bod pobl yn gallu teithio ar fysus.

is a very fair one. We must also bear in mind that we in Wales have a system of free bus tickets for those aged over 60 or who are disabled. That is not available in other parts of the UK, and it demonstrates what the Welsh Government thinks about ensuring that people can travel on buses.

**Gwasanaethau Canser**

**Cancer Services**

***9. Llyr Huws Gruffydd:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau canser yng Nghymru. OAQ(4)0756(FM)*

***9. Llyr Huws Gruffydd:*** *Will the First Minister make a statement on the provision of cancer services in Wales. OAQ(4)0756(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae cynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer canser, a lansiwyd ar 14 Mehefin, yn amlinellu disgwyliadau'r Llywodraeth ynglŷn â hyn.

**The First Minister:** The Welsh Government's cancer delivery plan, launched on 14 June, sets out the Government's expectations in this regard.

**Llyr Huws Gruffydd:** Mae canllawiau clinigol y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ar ganser y fron deuluol, a gyhoeddwyd yn ôl yn Hydref 2006 yn argymell sgrinio MRI blynyddol i ferched ifanc y mae risg uchel eu bod yn datblygu canser. Serch hynny, chwe blynedd yn ddiweddarach, rydym yn dal i aros am hyn. Pryd y mae'r Llywodraeth am ddarparu ar gyfer sgrinio MRI i fenywod yn y sefyllfa hon yng Nghymru?

**Llyr Huws Gruffydd:** The National Institute for Health and Clinical Excellence's clinical guidelines on familial breast cancer, which were published back in October 2006, recommend annual MRI screening for young women who are at a high risk of developing cancer. Despite that, six years later, we are still waiting for that. When will the Government provide MRI screening for women in this position in Wales?

**Y Prif Weinidog:** Fel Llywodraeth, rydym am sicrhau bod pobl sy'n wynebu'r risg hon yn cael eu sgrinio mor aml ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, fe wnaf i ysgrifennu at yr Aelod ynglŷn â'r pwynt y mae ef wedi ei godi er mwyn esbonio safbwynt y Llywodraeth ynglŷn â'r sefyllfa.

**The First Minister:** As a Government, we want to ensure that those who are at high risk are screened as often as possible. However, I will write to the Member regarding the point that he has raised in order to explain the Government's position with regard to this situation.

**Julie Morgan:** One of the key commitments of the Welsh Government is for every patient with cancer to have a key worker. Will the First Minister tell us what progress has been made to fulfil this commitment, bearing in mind that one of the most important issues for patients is to have a single point of contact on hand when needed?

**Julie Morgan:** Un o ymrwymiadau allweddol Llywodraeth Cymru yw bod pob claf â chanser i gael gweithiwr allweddol. A wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrthym ba gynnydd a wnaed i gyflawni'r ymrwymiad hwn, gan gadw mewn cof mai un o'r materion mwyaf pwysig i gleifion yw cael un pwynt cyswllt wrth law pan fo'i angen?

**The First Minister:** Local health boards are expected to assign a named key worker to assess and record in a care plan the clinical and non-clinical needs of everybody with

**Y Prif Weinidog:** Disgwylir i'r byrddau iechyd lleol neilltuo gweithiwr allweddol a enwir i asesu a chofnodi anghenion clinigol ac anghlinigol pawb sydd â chanser mewn

cancer. All LHBs have been written to in order to gather evidence on the application of this policy, and work is under way to develop a performance measure for key workers, which LHBs will report against next year.

cynllun gofal. Ysgrifennwyd at bob BILl er mwyn casglu tystiolaeth ar weithrediad y polisi hwn, ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu dull mesur perfformiad ar gyfer gweithwyr allweddol, a bydd Byrddau Iechyd Lleol yn adrodd yn unol â hyn y flwyddyn nesaf.

**Darren Millar:** First Minister, I am aware of press reports that suggest that your Government is considering establishing a modern treatments fund, or something similar, which is obviously something that my party would welcome very much given our stance on the need for access to modern treatments for things like cancer. Can you clarify the position of the Welsh Government in terms of this for next year's budget?

**Darren Millar:** Brif Weinidog, yr wyf yn ymwybodol o'r adroddiadau yn y wasg sy'n awgrymu bod eich Llywodraeth yn ystyried sefydlu cronfa triniaethau modern, neu rywbeth tebyg, sydd yn amlwg yn rhywbeth y byddai fy mhlaid i yn ei groesawu'n fawr iawn o ystyried ein safbwynt ar yr angen am fynediad at driniaethau modern ar gyfer pethau fel canser. A allwch chi egluro safbwynt Llywodraeth Cymru o ran hyn ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf?

**The First Minister:** We are looking at a fund, and I acknowledge that this is a suggestion that came to us from the Liberal Democrats. This will help to secure treatments, particularly technology—machines that deliver treatment—in the next few years. However, it is not a drugs fund or any way of trying to get around NICE guidelines. That is something that I want to emphasise. However, it is something that we wish to take forward with other interested parties in order to make sure that we have the best technology available to treat illness in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn edrych ar gronfa, ac yr wyf yn cydnabod bod hwn yn awgrym a ddaeth atom oddi wrth y Democratiaid Rhyddfrydol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau triniaethau diogel, yn enwedig technoleg—peiriannau sy'n darparu triniaeth—yn ystod y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, nid cronfa cyffuriau mohoni ac nid yw'n ffordd o geisio anwybyddu canllawiau NICE. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf am ei bwysleisio. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth yr ydym yn dymuno ei symud ymlaen gyda phartïon eraill sydd â diddordeb er mwyn gwneud yn siŵr bod gennym y dechnoleg orau sydd ar gael i drin salwch yng Nghymru.

### Asbestos mewn Ysgolion

### Asbestos in Schools

***10. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â phroblem asbestos mewn ysgolion. OAQ(4)0767(FM)*

***10. Nick Ramsay:*** *Will the First Minister give details of the Welsh Government's plans to tackle the problem of asbestos in schools. OAQ(4)0767(FM)*

**The First Minister:** We have requested confirmation that authorities are undertaking their statutory duties in accordance with the legislation, including plans for the management of asbestos.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi gofyn am gadarnhad bod awdurdodau yn ymgymryd â'u dyletswyddau statudol yn unol â'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer rheoli asbestos.

**Nick Ramsay:** As I am sure you are aware, there is concern that many schools in Wales contain some degree of asbestos, and it was once thought that it was safe to leave it in

**Nick Ramsay:** Fel yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol, mae pryder bod llawer o ysgolion yng Nghymru yn cynnwys rhywfaint o asbestos, a thybiwyd ar un adeg

situ, but that is not the current line of thinking. Do you agree with me that parents have a right to know the level of asbestos if there is asbestos in their children's school, and that an online database developed in partnership between the Welsh Government and local authorities in Wales would help to deliver this?

ei bod yn ddiogel ei adael yn ei le, ond nid dyna yw'r meddylfryd presennol. A ydych chi'n cytuno â mi bod gan rieni hawl i wybod y lefel o asbestos os oes asbestos yn ysgol eu plant, ac y byddai cronfa ddata ar-lein a ddatblygid mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn helpu i gyflawni hyn?

**The First Minister:** Each local authority has an asbestos management plan in place. I have no doubt that local authorities will be looking to manage asbestos-containing material, as it is called, in line with current legislation and current thinking in terms of the health issues.

**Y Prif Weinidog:** Mae gan bob awdurdod lleol gynllun rheoli asbestos wedi'i sefydlu. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd awdurdodau lleol yn mynd ati i reoli deunydd sy'n cynnwys asbestos, fel y'i gelwir, yn unol â deddfwriaeth gyfredol a'r meddylfryd cyfredol o ran materion iechyd.

**Simon Thomas:** Hoffwn ddeall, Brif Weinidog, ba un a oes gennych wrthwynebiad i roi gwybod yn gyhoeddus i bobl am unrhyw asbestos mewn ysgolion ai peidio.

**Simon Thomas:** I would like to understand, First Minister, whether you object to people being told publicly about any asbestos in schools.

**Y Prif Weinidog:** Mater i awdurdodau lleol yw penderfynu a ydynt am ddweud hynny wrth bobl. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw pobl yn meddwl bod presenoldeb asbestos yn golygu risg i blant. Mae'n bwysig dros ben bod y cefndir yn cael ei esbonio os bydd manylion yn cael eu rhoi.

**The First Minister:** It is a matter for local authorities to decide whether they want to notify people. However, it is important that people should not think that the presence of asbestos means that there is a risk to children. It is extremely important that the background is explained if those details are given.

### Cyrff y Trydydd Sector

### Third Sector Organisations

***11. Peter Black***: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrff y trydydd sector. OAQ(4)0752(FM)*

***11. Peter Black:*** *Will the First Minister make a statement on funding for third sector organisations provided by the Welsh Government. OAQ(4)0752(FM)*

**The First Minister:** Direct funding for 2011-12 was over £340 million, which supported more than 900 organisations.

**Y Prif Weinidog:** Roedd ariannu uniongyrchol ar gyfer 2011-12 dros £340 miliwn, a ddarparodd gymorth i fwy na 900 o sefydliadau.

**Peter Black:** Thank you for that answer, First Minister. In the light of what has happened with regard to the All Wales Ethnic Minority Association, will you outline how the way in which you organise and monitor funding has changed, particularly in relation to service level agreements, audit and regular monitoring?

**Peter Black:** Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Yng ngoleuni'r hyn sydd wedi digwydd o ran Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, a wnewch chi amlinellu sut y mae'r ffordd yr ydych yn trefnu a monitro ariannu wedi newid, yn enwedig ar gyfer cytundebau lefel gwasanaeth, archwilio a monitro rheolaidd?

**The First Minister:** The grants management

**Y Prif Weinidog:** Sefydlwyd y prosiect

project was established in 2010, and a centre of excellence has been created in order to develop the right processes and procedures in terms of dealing with funding where funding is provided to third sector organisations. All grants across the Welsh Government have been reviewed against the minimum standards that have been developed by the grants centre of excellence.

rheoli grantiau yn 2010, a chrëwyd canolfan ragoriaeth er mwyn datblygu'r prosesau a'r gweithdrefnau cywir i ymdrin â chyllid pan ddarperir arian i sefydliadau trydydd sector. Mae'r holl grantiau ar draws Llywodraeth Cymru wedi eu hadolygu yn erbyn y safonau gofynnol a ddatblygwyd gan y ganolfan rhagoriaeth ar gyfer grantiau.

**Antoinette Sandbach:** There is perhaps no better time to highlight the value of charities supporting injured veterans, First Minister, than this week, following Remembrance Day, when we recall the great sacrifices that generations of veterans have made for their country. Your Government has yet to provide any financial support whatsoever to the Blind Veterans UK rehabilitation centre in north Wales, in Llandudno. Are you willing to visit the centre to see at first hand the work being done to support veterans in need of this specialist care?

**Antoinette Sandbach:** Efallai nad oes gwell amser i dynnu sylw at werth elusennau sy'n cefnogi cyn-filwyr sydd wedi'u hanafu, Brif Weinidog, na'r wythnos hon, yn dilyn Sul y Cofio, wrth ini ddwyn i gof yr aberth mawr a wnaed gan genedlaethau o gyn-filwyr dros eu gwlad. Nid yw eich Llywodraeth hyd yma wedi darparu unrhyw gymorth ariannol o gwbl i ganolfan adsefydlu Cyn-filwyr Dall y DU yn Llandudno, yng ngogledd Cymru. A ydych chi'n barod i ymweld â'r ganolfan i weld trosoch eich hun y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi cyn-filwyr sydd angen y gofal arbenigol hwn?

**The First Minister:** I will consider such a visit, although I would argue that our record in terms of services that we provide veterans with is second to none. I met with representatives of the Royal British Legion not 10 days ago. They were certainly very interested in what we are doing in Wales and we had a good discussion on what we could do to further support those veterans who have given so much so that we can enjoy the freedoms that we enjoy today.

**Y Prif Weinidog:** Byddaf yn ystyried ymweliad o'r fath, er y byddwn yn dadlau bod ein hanes blaenorol o ran y gwasanaethau a ddarperir i gyn-filwyr heb eu hail. Cyfarfûm â chynrychiolwyr o'r Lleng Brydeinig Frenhinol ddim ond 10 diwrnod yn ôl. Roeddent yn sicr â diddordeb mawr yn yr hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru, a chawsom drafodaeth dda ar yr hyn y gallem ei wneud i gefnogi'r cyn-filwyr hynny sydd wedi rhoi cymaint fel ein bod ni'n gallu mwynhau'r rhyddid yr ydym yn ei fwynhau heddiw.

**Lindsay Whittle:** First Minister, most voluntary organisations suffer from short-term funding from sources such as the National Lottery. How can the Welsh Government help these organisations to sustain projects that are clearly helping to support vulnerable people in Wales?

**Lindsay Whittle:** Brif Weinidog, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau gwirfoddol yn dioddef o gyllid tymor byr oddi wrth ffynonellau fel y Loteri Genedlaethol. Sut gall Llywodraeth Cymru helpu'r sefydliadau hyn i gynnal prosiectau sy'n amlwg yn helpu i gefnogi pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru?

**The First Minister:** Of course, there are organisations across Wales that are able to provide this kind of support. For example, there are associations of voluntary organisations in different parts of Wales that are able to assist organisations with securing funding, both capital and revenue, over the course of some years in some instances.

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, mae sefydliadau i'w canfod ledled Cymru sy'n gallu cynnig y math hwn o gefnogaeth. Er enghraifft, ceir cymdeithasau mudiadau gwirfoddol mewn gwahanol rannau o Gymru sy'n gallu cynorthwyo sefydliadau i sicrhau cyllid, cyfalaf a refeniw fel ei gilydd, dros gyfnod o sawl blwyddyn mewn rhai

Therefore, I would encourage any charity that is concerned about its funding to explore as many sources as possible, including liaising with the associations of voluntary organisations.

achosion. Felly, byddwn yn annog unrhyw elusen sy'n poeni am ei chyllid i archwilio cymaint o ffynonellau ag y bo modd, gan gynnwys cysylltu â chymdeithasau mudiadau gwirfoddol.

**Cyllideb yr Undeb Ewropeaidd**

**European Union Budget**

***12. Rhodri Glyn Thomas:*** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglyn â chyllideb yr Undeb Ewropeaidd. OAQ(4)0760(FM)*

***12. Rhodri Glyn Thomas:*** *What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding the European Union budget. OAQ(4)0760(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae sawl trafodaeth wedi bod yn ystod y misoedd diwethaf.

**The First Minister:** There have been many discussions over the past few months.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw, er nad yw'n ddadlennol fel y cyfryw. Er hynny, rwyf yn eich llongyfarch, Brif Weinidog, ar eich safiad ynglŷn â phwysigrwydd y gyllideb sydd yn dod o Ewrop i Gymru, a pha mor hanfodol yw hi. A ydych chi wedi cael trafodaethau gyda'ch cyd-aelodau o'r blaid Lafur yn San Steffan ynglŷn â hyn, oherwydd, yn amlwg, maen nhw'n teimlo'n wahanol? Pleidleision nhw yn erbyn derbyn y cyllid hwn o Ewrop. A fyddwch chi'n ceisio dylanwadu arnynt i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hamddiffyn yn y mater hwn?

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you for that reply, although it is not very revealing as such. However, I congratulate you, First Minister, on your stance as regards the importance of the budget coming from Europe to Wales, and how vital it is. Have you had discussions with your Labour Party colleagues in Westminster about this, because, clearly, they feel differently? They voted against receiving this funding from Europe. Are you going to try to influence them to ensure that the interests of Wales are defended in this matter?

**Y Prif Weinidog:** Barn Llywodraeth Cymru yw na ddylid torri cyllideb yr Undeb Ewropeaidd, yn enwedig y gyllideb ar gyfer cronfeydd strwythurol. Rydym yn gwybod bod Cymru, wrth gwrs, wedi elwa o'r cronfeydd hyn a buasem yn erbyn toriadau yn y rheini ac yn erbyn toriadau a fyddai'n anafu ffermwyr Cymru, sef toriadau yn nhaliadau'r polisi amaethyddol cyffredin.

**The First Minister:** The Welsh Government's view is that there should be no cuts to the European Union budget, particularly the budget for structural funds. We know that Wales, of course, has benefited from these funds and we would be totally opposed to any cuts in these and against cuts that would be detrimental to farmers in Wales, namely cuts in the common agricultural policy payments.

**Nick Ramsay:** I am pleased to hear that responsible answer, First Minister. Will you give us an assurance that you will be telling your colleagues in the UK Labour Party in Westminster that they should not be playing politics with the European Union budget and they should not be playing politics with the structural funds that Wales needs? Will you give us an assurance that those structural funds will be better spent in future so that, as the former First Minister, Rhodri Morgan, once predicted, Wales will not be so poor that

**Nick Ramsay:** Yr wyf yn falch o glywed yr ateb cyfrifol yna, Brif Weinidog. A wnewch chi roi sicrwydd i ni y byddwch yn dweud wrth eich cydweithwyr ym Mhlaid Lafur y DU yn San Steffan na ddylent fod yn chwarae gwleidyddiaeth gyda chyllideb yr Undeb Ewropeaidd ac na ddylent fod yn chwarae gwleidyddiaeth â'r cronfeydd strwythurol y mae Cymru eu hangen? A wnewch chi roi sicrwydd i ni y bydd y cronfeydd strwythurol hynny yn cael eu gwario yn well yn y dyfodol fel na fydd

it needs to qualify for them at all?

Cymru, fel y rhagwelwyd gan y cyn Brif Weinidog, Rhodri Morgan unwaith, mor dlawd fel bod angen iddi gymhwyso ar eu cyfer o gwbl?

**The First Minister:** That is the aim. There is no question about that. We believe that the structural funds have been spent wisely and will be in the future, so long as they are needed. The Member talks about playing politics; I have to say that going to Europe, as his UK party leader has done, determined to use a veto without even discussing things, is an example of that, I am afraid. I have to say to him that the discussions we have with the Commission, and those that the Deputy Minister has with the Commission, indicate that the UK's influence has never been so low. The UK is in a very isolated position, short of friends. I do not think that is in the interests of the UK in the longer term.

**Y Prif Weinidog:** Dyna'r nod. Nid oes amheuaeth am hynny. Rydym yn credu bod y cronfeydd strwythurol wedi eu gwario'n ddoeth ac y byddant yn y dyfodol, cyn belled ag y bo'u hangen. Mae'r Aelod yn siarad am chwarae gwleidyddiaeth; mae'n rhaid i mi ddweud bod mynd i Ewrop, fel y mae arweinydd ei blaid DU ef wedi ei wneud, gan fod yn benderfynol o ddefnyddio feto heb hyd yn oed drafod pethau, yn enghraifft o hynny, mae arnaf ofn. Mae'n rhaid i mi ddweud wrtho bod y trafodaethau a gawn gyda'r Comisiwn, a'r rhai y mae'r Dirprwy Weinidog wedi eu cael gyda'r Comisiwn, yn dangos na fu dylanwad y DU erioed mor isel. Mae'r DU mewn sefyllfa ynysig iawn, ac yn fyr o ffrindiau. Nid wyf yn credu bod hynny er lles y DU yn y tymor hirach.

**Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu**

**Police and Crime Commissioners**

***13. Mark Drakeford:*** *Pa drefniadau y mae'r Prif Weinidog wedi'u rhoi ar waith i gwrdd â'r Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu newydd yng Nghymru. OAQ(4)0757(FM)*

***13. Mark Drakeford:*** *What arrangements has the First Minister put in place to meet with incoming Police and Crime Commissioners in Wales. OAQ(4)0757(FM)*

**The First Minister:** The Minister for Local Government and Communities has scheduled a meeting at the end of this month, shortly after the election, and quarterly meetings are scheduled thereafter.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi trefnu cyfarfod ar ddiwedd y mis hwn, yn fuan ar ôl yr etholiad, ac mae cyfarfodydd chwarterol wedi eu trefnu ar ôl hynny.

**Mark Drakeford:** The Labour Party, as you know, has always opposed the creation of these posts. It is a position that is widely shared, as far as I can tell, on the doorstep. However, given that these are posts that will be there and will be important in the duties they discharge, would you agree with me that the best advice that we can offer to voters in Wales for Thursday this week, is to make sure that they vote and, of course, to make sure that they vote Labour?

**Mark Drakeford:** Mae'r Blaid Lafur, fel y gwyddoch, wedi gwrthwynebu creu'r swyddi hyn erioed. Mae'n safbwynt sy'n cael ei rannu'n eang, cyn belled ag y gallaf ddweud, ar garreg y drws. Fodd bynnag, o ystyried y bydd y swyddi hyn yn bodoli a'u bod yn bwysig o ran y dyletswyddau y maent yn eu cyflawni, a fyddech chi'n cytuno â mi mai'r cyngor gorau y gallwn ei gynnig i bleidleiswyr yng Nghymru ar gyfer dydd Iau yr wythnos hon, yw gwneud yn siŵr eu bod yn pleidleisio ac, wrth gwrs, gwneud yn siŵr eu bod yn pleidleisio dros Lafur?

**The First Minister:** I wholeheartedly agree with what the Member has said. It is exceptionally important that we ensure that

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn cytuno'n llwyr â'r hyn y mae'r Aelod wedi'i ddweud. Mae'n eithriadol o bwysig ein bod yn sicrhau bod y

those who are responsible for commissioning police services in Wales do so using the right principles and priorities.

rhai sy’n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau’r heddlu yng Nghymru yn gwneud hynny gan ddefnyddio’r egwyddorion a’r blaenoriaethau cywir.

2.15 p.m.

**William Graham:** A reshuffle in mind, perhaps, given the last comment. [*Laughter.*] First Minister, would you agree that it is very important that, when the police and crime commissioners are in post, you publish regular details of when you and your Government will meet with them, to draw attention to the many problems that they can, possibly, solve?

**William Graham:** Ad-drefnu mewn golwg, efallai, o ystyried y sylw diwethaf. [Chwerthin.] Brif Weinidog, a ydych chi’n cytuno ei bod yn bwysig iawn, pan fydd y comisiynwyr heddlu a throsedd yn eu swydd, eich bod yn cyhoeddi manylion yn rheolaidd ynghylch pryd y byddwch chi a’ch Llywodraeth yn cwrdd â nhw, i dynnu sylw at y llu o broblemau y gallant, o bosibl, eu datrys?

**The First Minister:** Yes, of course. We are happy to answer questions on what is raised at those meetings. There seems to be an obsession with reshuffles on the Conservative benches; I can assure them that, if there were to be a reshuffle, they would be the very last to know.

**Y Prif Weinidog:** Ydw, wrth gwrs. Rydym yn hapus i ateb cwestiynau ar yr hyn a godir yn y cyfarfodydd hynny. Mae’n ymddangos bod obsesiwn gydag ad-drefnu ar feinciau’r Ceidwadwyr; gallaf eu sicrhau, pe byddai ad-drefnu am ddigwydd, hwy fyddai’r olaf un i gael gwybod.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Mae’r rhai ohonom sydd â phleidlais bost wedi pleidleisio’n barod. A fyddai’r Prif Weinidog yn annog pleidleiswyr sydd eto i fwrw eu pleidlais yn etholiad y comisiynwyr heddlu i bleidleisio dros ymgeiswyr sydd wedi ateb yn ddiamwys ar y cwestiwn am ddatganoli gwasanaethau’r heddlu?

**Lord Elis-Thomas:** Those of us who have a postal vote have already voted. Would the First Minister encourage those who are yet to cast their vote in the election of police commissioners to vote for candidates who have answered unambiguously on the question of the devolution of police services?

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn dweud yn gryf y byddai gennyf gonsýrn mawr pe bai gennym gomisiynwyr sydd yn hollol yn erbyn datganoli’r heddlu yn y dyfodol. Mae hynny’n rhywbeth i’r pleidiau ei ystyried yn ystod y dystiolaeth a fydd yn cael ei rhoi i gomisiwn Silk yn y pen draw. Mae’n wir dweud mai’r heddlu yw’r unig wasanaeth argyfwng heb ei ddatganoli hyd yn hyn, sy’n achosi ambell i ddilema ynglŷn â delifro gwasanaethau argyfwng yng Nghymru.

**The First Minister:** I would strongly say that I would be greatly concerned if we had commissioners who were set against the devolution of the police in the future. That is something for the parties to consider in the evidence that will ultimately be presented to the Silk commission. It is true to say that the police is the only emergency service not to have been devolved to date, which leads to a few dilemmas with regard to the delivery of emergency services in Wales.

**Rebecca Evans:** Young adults make up only 10% of the population, but they account for a third of all crime and, at the same time, they are more likely than anyone else to be the victim of a crime. When you meet with the incoming commissioners, will you stress

**Rebecca Evans:** Dim ond 10% o’r boblogaeth y mae oedolion ifanc yn ei gynrychioli, ond maent yn gyfrifol am draean o’r holl droseddau a gyflawnir ac maent, ar yr un pryd, yn fwy tebygol nag unrhyw un arall o fod yn ddioddefwyr trosedd. Pan fyddwch

upon them the importance of positive local engagement with young people, and also promote good collaborative working with health and social care services to ensure that all of the relevant people work together to tackle the many problems faced by young people at risk of offending?

yn cwrdd â'r comisiynwyr a etholir, a fyddwch chi'n pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltiad cadarnhaol yn lleol gyda phobl ifanc, yn ogystal â hyrwyddo cydweithio da â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod yr holl bobl berthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r llu o broblemau a wynebir gan bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu?

**The First Minister:** Removing the causes of crime is as important as dealing with crime when it arises. I would look to the commissioners to support community-based options and restorative justice for young people, and to take an active role in planning services to ensure that crime does not happen in the first place.

**Prif Weinidog:** Mae dileu'r hyn sy'n achosi trosedd yr un mor bwysig ag ymdrin â throseddu wrth iddo godi. Byddwn yn disgwyl i'r comisiynwyr gefnogi dewisiadau â'u sail yn y gymuned a chyfiawnder adferol ar gyfer pobl ifanc, ac i gymryd rhan weithredol mewn cynllunio gwasanaethau er mwyn sicrhau nad yw trosedd yn digwydd yn y lle cyntaf.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***14. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei flaenoriaethau ar gyfer Tor-faen dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0766(FM)*

***14. Lynne Neagle:*** *Will the First Minister provide an update on his priorities for Torfaen for the next 6 months. OAQ(4)0766(FM)*

**The First Minister:** They are to be found in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Maent i'w gweld yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

**Lynne Neagle:** First Minister, I know that you are aware of very worrying reports in the *South Wales Argus* that the Welsh Ambulance Services NHS Trust has been paying for a senior manager to stay at a hotel in Cwmbran over a four-year period, and has also been advertising for first-responder posts at a higher rate of pay than rank-and-file ambulance staff receive. This is very worrying, and it comes at a time when resources are stretched and response-time targets are being missed. Will you look at this, First Minister? What assurances can you offer that the review announced by the Minister for Health and Social Services last week, which is not the first of its kind in Wales, will lead to the kind of step change that we all want to see in the Welsh ambulance service?

**Lynne Neagle:** Brif Weinidog, rwyf yn gwybod eich bod yn ymwybodol o'r adroddiadau, sy'n peri cryn bryder, yn y *South Wales Argus* fod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi bod yn talu i uwch reolwr aros mewn gwesty yng Nghwmbrân dros gyfnod o bedair blynedd, a hefyd wedi bod yn hysbysebu swyddi ymatebwyr cyntaf ar gyfradd cyflog uwch nag y mae'r staff ambiwlans cyffredin yn ei dderbyn. Mae hyn yn peri pryder mawr, a hynny ar adeg pan fo adnoddau dan bwysau a thargedau amseroedd ymateb yn cael eu methu. A wnewch chi edrych ar hyn, Brif Weinidog? Pa sicrwydd y gallwch chi gynnig y bydd yr adolygiad a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr wythnos diwethaf, nad yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru, yn arwain at y math o newid sylweddol yr ydym i gyd yn dymuno ei weld yn y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru?

**The First Minister:** The Minister is taking this forward and announced the review in Plenary last week. The terms of reference are currently being worked on, and they will be shared with Members by the end of November.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Gweinidog yn bwrw ymlaen â hyn a chyhoeddodd yr adolygiad yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos diwethaf. Mae gwaith yn cael ei wneud ar y cylch gorchwyl ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei rannu gydag Aelodau erbyn diwedd mis Tachwedd.

**Jocelyn Davies:** First Minister, the *South Wales Argus* also keeps us regularly up-to-date about people who have experienced very long wait times for ambulances, which are far too long in Gwent—including Torfaen—despite the valiant efforts of the crews and paramedics. Do you think that it is acceptable that, at times, just five ambulances cover the whole of Gwent, which leads to wait times of up to nine hours?

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, mae'r *South Wales Argus* hefyd yn ein cadw'n gyfredol yn rheolaidd am bobl sydd wedi profi amseroedd aros hir iawn am ambiwlans, sydd yn llawer rhy hir yng Ngwent—gan gynnwys Torfaen—er gwaethaf ymdrechion glew y criwiau a'r parafeddygon. A ydych chi'n credu ei bod yn dderbyniol mai, ar adegau, dim ond pum ambiwlans sydd ar gael ar gyfer Gwent gyfan, sy'n arwain at amseroedd aros o hyd at naw awr?

**The First Minister:** The trust must ensure that there are sufficient ambulances to cover all parts of Wales so that the demand is met at different times of the day. These are issues that the Minister will no doubt want to look at during the course of the review.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth sicrhau bod digon o ambiwlansiau ar gael ar gyfer pob rhan o Gymru fel bod y galw'n cael ei ddiwallu ar adegau gwahanol o'r dydd. Mae'r rhain yn faterion y bydd y Gweinidog yn sicr yn awyddus i edrych arnynt yn ystod cyfnod yr adolygiad.

**Mohammad Asghar:** First Minister, your Government has set a target for ambulance response times, namely for 65% of emergency calls to be answered within eight minutes. According to the latest figures in Torfaen, less than 58% of emergency calls were responded to within this time. Given that these figures relate to September, what is your Government doing to improve these figures before we see the added pressure of winter weather affecting ambulance response times to emergency calls in Torfaen?

**Mohammad Asghar:** Brif Weinidog, mae eich Llywodraeth wedi gosod targed ar gyfer amseroedd ymateb ambiwlansiau, sef bod 65% o alwadau brys yn cael eu hateb o fewn wyth munud. Yn ôl y ffigurau diweddaraf yn Nhorfaen, ymatebwyd i lai na 58% o alwadau brys o fewn yr amser hwn. O gofio bod y ffigurau hyn yn cynrychioli mis Medi, beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i wella'r ffigurau hyn cyn i ni weld pwysau ychwanegol tywydd y gaeaf yn effeithio ar amserau ymateb ambiwlans i alwadau brys yn Nhorfaen?

**The First Minister:** I refer the Member to the announcement that was made by the Minister last week in Plenary.

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf yr Aelod at y cyhoeddiad a wnaed gan y Gweinidog yr wythnos diwethaf yn y Cyfarfod Llawn.

### Y Diwydiant Coedwigaeth

### The Forestry Industry

***15. William Powell:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol y diwydiant coedwigaeth yng Nghymru. OAQ(4)0759(FM)*

***15. William Powell:*** *Will the First Minister make a statement on the future of the forestry industry in Wales. OAQ(4)0759(FM)*

**The First Minister:** Yes. 'Woodlands for Wales' describes our vision for the future of forestry in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Mae 'Coetiroedd i Gymru' yn disgrifio ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol coedwigaeth yng Nghymru.

**William Powell:** I thank the First Minister very much for that response. Following the recent survey of Welsh sites for Chalara disease, commonly known as ash dieback, and the discovery of a case in Carmarthenshire, will you please outline whether your Government intends to conduct further surveys over the coming months to ensure that any further cases are not given the opportunity to spread? Linked to that, how would you respond to those industry representatives who are concerned that the dearth of representation on the board of the new natural resources body may handicap our ability to effectively fight the disease?

**William Powell:** Diolch yn fawr iawn i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna. Yn dilyn yr arolwg diweddar o safleoedd yng Nghymru ar gyfer Chalara, a adwaenir yn gyffredin fel clefyd coed ynn, a darganfod achos yn Sir Gaerfyrddin, a wnewch chi amlinellu, os gwelwch yn dda, pa un a yw eich Llywodraeth yn bwriadu cynnal arolygon pellach yn ystod y misoedd nesaf i sicrhau nad oes unrhyw achosion ychwanegol yn cael y cyfle i ledaenu? Yn gysylltiedig â hynny, sut y byddech chi'n ymateb i gynrychiolwyr y diwydiant sy'n pryderu y gall y prinder cynrychiolaeth ar fwrdd y corff adnoddau naturiol newydd lesteirio ein gallu i ymladd y clefyd yn effeithiol?

**The First Minister:** Natural resources Wales's board will draw on expertise more generally in terms of the environment, and I am content that the level of expertise is more than sufficient in order for it to do its job. I can tell the Member that a written statement is being issued today dealing with the issue of ash dieback, and I refer him to that statement.

**Y Prif Weinidog:** Bydd bwrdd adnoddau naturiol Cymru yn defnyddio arbenigedd yn fwy cyffredinol o ran yr amgylchedd, ac yr wyf yn fodlon bod y lefel o arbenigedd yn fwy na digonol iddo allu gwneud ei waith. Gallaf ddweud wrth yr Aelod fod datganiad ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi heddiw sy'n ymdrin â'r mater clefyd coed ynn, ac fe'i cyfeiriaf at y datganiad hwnnw.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, in last week's business statement, I raised my concern that your Government did not consider the outbreak of ash dieback disease sufficiently important for the Minister for Environment and Sustainable Development to answer an urgent question. Given the circumstances outlined by William Powell that the disease was confirmed a day later, on Wednesday, and that, on Thursday, the Minister said that he was urgently addressing the matter—although I accept that he has since issued a written statement—do you accept that the way your Government has handled this disease outbreak may lead to a perception that your Government is reluctant to be publicly scrutinised on its handling of this matter and—

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, yn natganiad busnes yr wythnos diwethaf, codais fy mhryder nad yw eich Llywodraeth yn ystyried yr achos o glefyd coed ynn yn ddigon pwysig i'r Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ateb cwestiwn brys. O ystyried yr amgylchiadau a amlinellwyd gan William Powell fod y clefyd wedi ei gadarnhau ddiwrnod yn ddiweddarach, ddydd Mercher, a bod y Gweinidog wedi dweud, ddydd Iau, ei fod yn rhoi sylw brys i'r mater—er fy mod yn derbyn ei fod wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ers hynny—a ydych chi'n derbyn y gallai'r ffordd y mae eich Llywodraeth wedi trin yr achos hwn o glefyd arwain at ganfyddiad bod eich Llywodraeth yn amharod i gael eu craffu'n gyhoeddus ar ei dull o drafod y mater ac—

**The Presiding Officer:** Order. I inform the Member that the First Minister and the Government do not decide on urgent

**Y Llywydd:** Trefn. Rwyf yn hysbysu'r Aelod nad y Prif Weinidog na'r Llywodraeth sy'n penderfynu ar gwestiynau brys. Mae

questions. That is a matter entirely for me.

hwnnw'n  fater i mi yn unig.

**The First Minister:** Yes, I do not think that the Member realised that she was actually criticising you, Presiding Officer, and not the Government. If she is suggesting that there should be a change to the Standing Orders so that the Government controls whether to accept urgent questions, that is a matter for her. I would not advocate that, and I am sure that you would not either, Presiding Officer—

**Y Prif Weinidog:** Ydy. Nid wyf yn credu bod yr Aelod yn sylweddoli ei bod mewn gwirionedd yn eich beirniadu chi, Lywydd, ac nid y Llywodraeth. Os yw hi'n awgrymu y dylid newid y Rheolau Sefydlog fel mai'r Llywodraeth sy'n rheoli pa un a ddylid derbyn cwestiynau brys, mae hynny'n fater iddi hi. Ni fyddwn i o blaid hynny, ac rwyf yn siŵr na fyddech chithau ychwaith, Lywydd—

**The Presiding Officer:** No.

**Y Llywydd:** Na fyddwn.

**The First Minister:** I refer the Member to the statement issued today.

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf yr Aelod at y datganiad a gyhoeddwyd heddiw.

**Llyr Huws Gruffydd:** A gaf innau hefyd gyfeirio at y datganiad? Yn y datganiad, mae eich Gweinidog yn dweud, gan fod y clwyf hwn yn lledaenu'n bennaf yn yr haf, bod amser yn awr i gael y cyngor gwyddonol angenrheidiol er mwyn bod yn glir ar sut orau i weithredu. Mae'r clwyf hwn yn lledaenu ar drws gogledd Ewrop ers blynyddoedd, ac mae wedi bod yn Lloegr ers rhyw wyth neu naw mis, felly nid mater o os ond pryd oedd hi, mewn gwirionedd, y byddai'n cyrraedd Cymru. Oni ddylai'r gwaith mae'r Gweinidog yn sôn amdano yn ei ddatganiad fod wedi hen ddigwydd?

**Llyr Huws Gruffydd:** May I also refer to the statement? In the statement, your Minister states that, because this disease is mainly spread during the summer months, there is now time to get the necessary scientific advice in order that we can be clear about how best to take this forward. This disease has been spreading across northern Europe for many years and it has been in England for eight or nine months, so it was not a matter of if but when it would strike in Wales. Should the work that the Minister speaks about in his statement not have happened a long time ago?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig ein bod yn cael cyngor fel Llywodraeth er mwyn sicrhau ein bod yn delio â'r mater hwn yn y ffordd fwyaf effeithiol, o gofio amodau Cymru.

**The First Minister:** It is important that we as a Government receive advice in order to deal with this in the most effective manner, bearing in mind the conditions in Wales.

**Y Llywydd:** Diolch, Prif Weinidog.

**The Presiding Officer:** Thank you, First Minister.

## Cwestiwn Brys
## Urgent Question

### Y Fforwm Clinigol Cenedlaethol
### The National Clinical Forum

**The Presiding Officer:** I have accepted this urgent question under the relevant Standing Order. However, as this has been referred to six times already in previous questions, I ask Members who are going to ask questions to ask new questions and not to repeat their previous questions.

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi derbyn y cwestiwn brys hwn o dan y Rheol Sefydlog berthnasol. Fodd bynnag, gan y cyfeiriwyd at hyn chwe gwaith eisoes mewn cwestiynau blaenorol, gofynnaf i'r Aelodau sydd yn mynd i ofyn cwestiynau i ofyn cwestiynau newydd, ac nid ailadrodd eu cwestiynau blaenorol.

***Darren Millar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl y Fforwm Clinigol Cenedlaethol yn ad-drefnu'r GIG yng Nghymru. EAQ(4)0191(HSS)*

***Darren Millar:*** *Will the Minister make a statement on the role of the National Clinical Forum in NHS reconfiguration in Wales. EAQ(4)0191(HSS)*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** Where services changes are planned, the national clinical forum provides health boards with authoritative clinical advice to provide assurance that any new arrangements are clinically safe and will lead to the best possible health outcomes for local populations.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Pan gynllunir newidiadau i wasanaethau, mae'r fforwm clinigol cenedlaethol yn darparu cyngor clinigol awdurdodol i fyrddau iechyd i roi sicrwydd iddynt fod unrhyw drefniadau newydd yn glinigol ddiogel ac y byddant yn arwain at y canlyniadau iechyd gorau posibl ar gyfer poblogaethau lleol.

**Darren Millar:** Minister, today, we have learned that, in the full knowledge of Welsh Government officials, a national clinical forum report, which was critical of proposals for NHS change in north Wales, was amended after secret discussions with the health board chief executive. The result was a report that changed from expressing serious concerns about the health board's proposals to expressing support. Do you agree that these revelations seriously undermine public confidence in the process of NHS service change? Do you also believe, as I do, that they call into question whether the chair of the forum is fit to be in such a role? Do you agree that this raises serious concerns about your senior Welsh Government officials, given that they failed to intervene in such a clear breach of acceptable practice? What action do you now intend to take to rescue the situation and address the failings of the chair of the forum and your senior Government officials in order that public confidence in NHS reorganisation can be restored?

**Darren Millar:** Weinidog, heddiw, rydym wedi deall bod adroddiad gan y fforwm clinigol cenedlaethol, a oedd yn feirniadol o gynigion ar gyfer newid y GIG yng ngogledd Cymru, wedi'i ddiwygio yn dilyn trafodaethau cyfrinachol gyda phrif weithredwr y bwrdd iechyd, a bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwybod hynny'n iawn. Y canlyniad oedd adroddiad a newidiodd o fynegi pryderon difrifol am gynigion y bwrdd iechyd i fynegi cefnogaeth drostynt. A ydych chi'n cytuno bod y datguddiadau hyn yn tanseilio'n ddifrifol hyder y cyhoedd yn y broses o newid gwasanaethau'r GIG? A ydych chi hefyd yn credu, fel yr wyf fi, bod hyn yn codi'r cwestiwn o ba un a yw cadeirydd y fforwm yn addas i fod yn y fath rôl? A ydych chi'n cytuno bod hyn yn codi pryderon difrifol am eich uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru, o gofio na wnaethant ymyrryd mewn achos a oedd yn cynrychioli toriad amlwg o arfer derbyniol? Pa gamau yr ydych yn awr yn bwriadu eu cymryd i achub y sefyllfa ac i fynd i'r afael â methiannau cadeirydd y fforwm ac uwch swyddogion eich Llywodraeth fel y gellir adfer hyder y cyhoedd mewn ad-drefnu'r GIG?

**The Presiding Officer:** Order. I ask Members to ask only one question.

**Y Llywydd:** Trefn. Gofynnaf i Aelodau ofyn dim ond un cwestiwn.

**Lesley Griffiths:** It is for the forum to determine how it articulates its opinions and not for Ministers or officials. It is absolutely not appropriate for Ministers or my officials to seek to interpret or intervene in any advice

**Lesley Griffiths:** Mater i'r fforwm yw penderfynu sut y mae'n mynegi ei farn ac nid i Weinidogion na swyddogion. Mae'n gwbl amhriodol i Weinidogion na fy swyddogion i geisio dehongli neu ymyrryd mewn unrhyw

to the local health board from the national clinical forum. Kirsty Williams mentioned to the First Minister that officials sit on the forum. They do not. Two of my officials—the chief nursing officer and the deputy chief medical officer—have observer status. This is just part of a conversation. I set up the NCF so that it could give advice to local health boards. Local health boards are statutory bodies, and they do not have to take that advice. I have not been party to the conservations. It absolutely would not be right for me to be party to any conversations at this time. What I will want to see are the definitive reports that will come from health boards at the end of the process and the national clinical advice that was given to the health boards at the time.

gyngor i'r bwrdd iechyd lleol gan y fforwm clinigol cenedlaethol. Crybwyllodd Kirsty Williams wrth y Prif Weinidog fod swyddogion yn eistedd ar y fforwm. Nid ydynt. Mae dau o fy swyddogion—y prif swyddog nyrsio a'r dirprwy brif swyddog meddygol—â statws arsylwyr. Rhan o sgwrs yn unig yw hyn. Sefydlais y fforwm clinigol cenedlaethol fel y gallai roi cyngor i fyrddau iechyd lleol. Mae byrddau iechyd lleol yn gyrff statudol, ac nid oes rhaid iddynt gymryd y cyngor hwnnw. Nid wyf wedi bod yn rhan o'r sgyrsiau. Byddai'n gwbl amhriodol i mi fod yn rhan o unrhyw sgyrsiau ar hyn o bryd. Yr hyn y byddaf eisiau ei weld yw'r adroddiadau terfynol a fydd yn dod oddi wrth fyrddau iechyd ar ddiwedd y broses, a'r cyngor clinigol cenedlaethol a roddwyd i'r byrddau iechyd ar y pryd.

**Kenneth Skates:** Minister, I am sure that you will agree that it is important for patients to have confidence in the advice given by the national clinical forum, but I also feel that it vital that we do not rush to judgment or to tarnish the reputations of the individuals and bodies involved. Do you agree that it is not for Ministers to comment on specific proposals at this stage and that it is for the forum, not the Government, to determine how it articulates opinions?

**Kenneth Skates:** Weinidog, yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn bwysig i gleifion gael hyder yn y cyngor a roddir gan y fforwm clinigol cenedlaethol, ond rwyf hefyd yn teimlo ei bod yn hanfodol nad ydym yn rhuthro i farnu neu i bardduo enw da yr unigolion a'r cyrff dan sylw. A ydych chi'n cytuno na ddylai Gweinidogion wneud sylwadau ar gynigion penodol ar hyn o bryd ac mai mater i'r fforwm, nid y Llywodraeth, yw penderfynu sut y mae'n mynegi barn?

**Lesley Griffiths:** Absolutely. You heard me say in my answer to Darren Millar that it would be completely inappropriate for me to have intervened. It certainly would have been inappropriate for officials to have intervened. This is part of a process that we are going through. The time for me to intervene is right at the end, when the definitive proposals come forward, and I will then look at the reports that come from the LHBs as we decide the way forward.

**Lesley Griffiths:** Yn hollol. Fe glywsoch fi'n dweud yn fy ateb i Darren Millar y byddai'n gwbl amhriodol i mi fod wedi ymyrryd. Byddai'n sicr wedi bod yn amhriodol i swyddogion ymyrryd. Mae hyn yn rhan o broses yr ydym yn mynd trwyddi. Yr amser i mi ymyrryd yw ar y diwedd, pan fydd y cynigion terfynol yn cael eu dwyn ymlaen, a byddaf yn edrych wedyn ar yr adroddiadau a ddaw gan y BILlau wrth i ni benderfynu ar y ffordd ymlaen

**Elin Jones:** Minister, it is important to have a national medical perspective to help plan hospital service configuration. However, the independence, transparency and integrity of the national clinical forum are important. It needs to be independent of the Government and the interests of individual health boards. Despite events surrounding the possibility of rewriting specific documents, do you agree that there is now a clear divergence emerging

**Elin Jones:** Weinidog, mae'n bwysig cael persbectif meddygol cenedlaethol i helpu i gynllunio cyfluniad gwasanaeth ysbyty. Fodd bynnag, mae annibyniaeth, tryloywder a chywirdeb y fforwm clinigol cenedlaethol yn bwysig. Mae angen iddo fod yn annibynnol ar y Llywodraeth a buddiannau byrddau iechyd unigol. Er gwaethaf y digwyddiadau yn ymwneud â'r posibilrwydd o ail-ysgrifennu dogfennau penodol, a ydych chi'n

between the medical opinion of the national clinical forum, which wants to reduce the number of large general hospitals, and the medical opinion at a local health board level, especially in Hywel Dda Local Health Board and Betsi Cadwaladr University Local Health Board, which want to keep a lot of what they already have, much to the pleasant surprise of some of us? Given this divergence of medical opinion, locally and nationally, do you now accept that, ultimately, decisions on hospital configuration will have to be taken by you?

cytuno bod yna bellach wahaniaeth clir yn dod i'r amlwg rhwng barn feddygol y fforwm clinigol cenedlaethol, sy'n awyddus i leihau nifer yr ysbytai cyffredinol mawr, a barn feddygol ar lefel bwrdd iechyd lleol, yn enwedig ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n awyddus i gadw llawer o'r hyn sydd ganddynt eisoes, er mawr syndod a phleser i rai ohonom? O ystyried y gwahaniaeth hwn mewn barn feddygol, yn lleol ac yn genedlaethol, a ydych chi'n derbyn mai chi, yn y pen draw, fydd yn gorfod cymryd y penderfyniadau ar gyfluniad ysbytai?

**Lesley Griffiths:** When we started out on this process, I always knew that a part of it would end up on my desk. That is obvious. I also knew that there would be a divergence in opinion. I also know that there are many vested interests as we go through this process. I will come in right at the end, when we have those definitive reports.

**Lesley Griffiths:** Yr oeddwn yn gwybod o'r adeg y cychwynnwyd ar y broses hon, y byddai rhan ohoni yn cyrraedd fi nesg i yn y pen draw. Mae hynny'n amlwg. Roeddwn hefyd yn gwybod y byddai gwahaniaeth barn. Rwyf hefyd yn gwybod bod llawer o fuddiannau breintiedig wrth i ni fynd drwy'r broses hon. Byddaf yn dod i mewn ar y diwedd, pan fydd gennym yr adroddiadau terfynol.

**Aled Roberts:** Minister, would you accept that there has been a degree of confusion with regard to the terms of reference of both networks? I am thinking of the neonatal network, the maternity services implementation group and the national clinical forum. During public meetings in north Wales, there appeared to be some confusion among senior managers with regard to the responsibilities and duties of those national bodies. Would you agree that the public's crisis of confidence and the lack of political scrutiny may be due to the fact that minutes of these bodies are not available for the public or, indeed, us to view?

**Aled Roberts:** Weinidog, a fyddech yn derbyn y bu rhywfaint o ddryswch ynglŷn â chylch gorchwyl y ddwy rwydwaith? Rwyf yn cyfeirio at y rhwydwaith newyddenedigol, y grŵp gweithredu gwasanaethau mamolaeth a'r fforwm clinigol cenedlaethol. Yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus yng ngogledd Cymru, roedd yn ymddangos bod peth dryswch ymhlith uwch reolwyr o ran cyfrifoldebau a dyletswyddau'r cyrff cenedlaethol hynny. A fyddech chi'n cytuno y gallai argyfwng hyder y cyhoedd a diffyg craffu gwleidyddol fod oherwydd y ffaith nad oedd cofnodion y cyrff hyn ar gael i'r cyhoedd nac, yn wir, i ninnau eu gweld?

**Lesley Griffiths:** No, I do not think that there has been any confusion at all. In fact, the opposition parties are missing the point. This is a just distraction. This is part of a process. I have not been party to the letters that have gone to the health boards. I do not want to be party to those letters—it would not be appropriate. I am interested in the definitive report that will come from the health boards. I will certainly look at what advice the national clinical forum has given,

**Lesley Griffiths:** Na, nid wyf yn credu y bu unrhyw ddryswch o gwbl. Yn wir, nid yw'r gwrthbleidiau yn deall y pwynt. Dim ond tynnu sylw mae hyn. Mae hyn yn rhan o'r broses. Nid wyf wedi gweld y llythyrau a anfonwyd at y byrddau iechyd. Nid wyf eisiau gweld y llythyrau hynny—ni fyddai'n briodol. Mae gen i ddiddordeb yn yr adroddiad terfynol a fydd yn dod oddi wrth y byrddau iechyd. Byddaf yn sicr yn edrych ar y cyngor a roddwyd gan y fforwm clinigol

because I set it up to ensure that the advice given to health boards as they went through the process was appropriate. It is for the forum to determine how it articulates opinion; it is not for Ministers or officials. I do not think, for one minute, that there is any confusion in the public mind.

cenedlaethol, oherwydd mai fi a'i sefydlodd i sicrhau bod y cyngor a roddir i fyrddau iechyd wrth iddynt fynd drwy'r broses yn briodol. Mater i'r fforwm yw penderfynu sut y mae'n mynegi barn; nid i Weinidogion na swyddogion. Nid wyf yn credu, am funud, bod unrhyw ddryswch ym meddwl y cyhoedd.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have one change to report to this week's planned business. Later today, the Minister for Health and Social Services will be making a statement on the 'Together for Health' six month progress report, which was postponed from last week. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement that can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes a gynlluniwyd yr wythnos hon. Yn ddiweddarach heddiw, bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ar adroddiad cynnydd chwe mis 'Law yn Llaw at Iechyd', a gafodd ei ohirio ers yr wythnos diwethaf. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

2.30 p.m.

**Antoinette Sandbach:** Leader of the House, could you schedule some debate time to discuss the responses to the second consultation on the natural resources Wales body? There has been a great deal of concern across Wales about the lack of expertise in relation to forestry on the board of this new body. There has also been a large number of responses—which have been published on the internet by the Welsh Government—that indicate substantial concerns by a serious number of organisations about the proposed second Order for the new body. Given the importance of its powers—particularly the powers that it will have under the Regulation of Investigatory Powers Act 2000, which will effectively grant spy powers to this new body, including surveillance, monitoring prosecution and so on—I hope that you will consider that this is a matter of such importance in Wales that the responses to and the results of this consultation should be debated here.

**Antoinette Sandbach:** Arweinydd y Tŷ, allech chi drefnu rhywfaint o amser dadl i drafod yr ymatebion i'r ail ymgynghoriad ar gorff adnoddau naturiol Cymru? Bu cryn dipyn o bryder ar draws Cymru am y diffyg arbenigedd mewn perthynas â choedwigaeth ar fwrdd y corff newydd. Bu hefyd nifer fawr o ymatebion—sydd wedi cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd gan y Llywodraeth—sy'n dangos pryderon sylweddol gan nifer difrifol o sefydliadau am ail Orchymyn arfaethedig ar gyfer y corff newydd. O ystyried pwysigrwydd ei bwerau—yn enwedig y pwerau y bydd yn eu cael o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, a fydd mewn gwirionedd yn rhoi pwerau ysbïo i'r corff newydd hwn, gan gynnwys arolygu, monitro erlyn ac yn y blaen—rwy'n gobeithio y byddwch yn ystyried bod hwn yn fater o'r fath bwys yng Nghymru y dylai'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a'i ganlyniadau gael eu trafod yma.

**Jane Hutt:** I would say to the Member for

**Jane Hutt:** Byddwn yn dweud wrth yr Aelod

North Wales that there has been extensive consultation at each stage in terms of the setting up of natural resources Wales. We now have an influential board established, which was elected in line with the public appointments process. We are also investing in ensuring that the transition is appropriate and well managed. The transparency in terms of this consultation has been second to none.

dros Ogledd Cymru y bu ymgynghori helaeth yn ystod pob cam o ran sefydlu adnoddau naturiol Cymru. Bellach mae gennym fwrdd dylanwadol sefydledig, a gafodd ei ethol yn unol â'r broses penodiadau cyhoeddus. Rydym hefyd yn buddsoddi i sicrhau bod y pontio yn briodol ac wedi'i reoli'n dda. Mae'r tryloywder o ran yr ymgynghoriad hwn wedi bod heb ei ail.

**Mike Hedges:** On 27 November, you have timetabled a statement by the First Minister on the Welsh Government's response to the Commission on Devolution in Wales. You have timetabled 30 minutes for that debate. Could you increase that time to one hour? I ask that in part because I would like to speak in that debate.

**Mike Hedges:** Ar 27 Tachwedd, rydych wedi amserlennu datganiad gan y Prif Weinidog ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru. Rydych wedi amserlennu 30 munud ar gyfer y ddadl. Allech chi gynyddu'r amser hwnnw i un awr? Gofynnaf hynny yn rhannol oherwydd hoffwn i siarad yn y ddadl honno.

**Jane Hutt:** I am sure that Mike Hedges, the Member for Swansea East, reflects the widespread interest across the Chamber in the report that is due from the Silk commission. We will consider the Silk commission's report carefully, and the First Minister will give his response. I am sure that the Presiding Officer will handle this accordingly in terms of interest on the day.

**Jane Hutt:** Rwy'n siŵr bod Mike Hedges, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, yn adlewyrchu'r diddordeb eang ar draws y Siambr yn yr adroddiad a ddylai ddod gan gomisiwn Silk. Byddwn yn ystyried adroddiad comisiwn Silk yn ofalus, a bydd y Prif Weinidog yn rhoi ei ymateb. Rwy'n siŵr y bydd y Llywydd yn ymdrin â hyn yn unol â diddordeb ar y diwrnod.

**Simon Thomas:** Leader of the House, is it possible to have a debate on the value for money that is provided by the Wales Office? We are shortly to debate our budget, where we designate some £7 million to the Wales Office out of the Welsh block grant. One of the jobs of the Wales Office is to look after Westminster legislation and Welsh interests in Westminster legislation. However, the Wales Office recently utterly failed to provide for bilingual voting forms for the police and crime commissioners' elections next week. That was a complete and utter muck up by the Wales Office, acting, supposedly, on behalf of Welsh interests in Westminster. That cost the Home Office—thankfully—£350,000, which is equal to 13 police constables. Therefore, value for money is very much at the heart of this debate. Do you have any views on this, Minister, and could we have a debate on it?

**Simon Thomas:** Arweinydd y Tŷ, a yw'n bosibl cael dadl ar y gwerth am arian a ddarperir gan Swyddfa Cymru? Rydym am drafod ein cyllideb cyn bo hir, lle rydym yn dynodi tua £7 miliwn i Swyddfa Cymru allan o grant bloc Cymru. Un o swyddi Swyddfa Cymru yw gofalu am ddeddfwriaeth yn San Steffan a buddiannau Cymru yn neddfwriaeth San Steffan. Fodd bynnag, roedd Swyddfa Cymru yn ddiweddar wedi methu'n llwyr â darparu ar gyfer ffurflenni pleidleisio dwyieithog ar gyfer etholiadau comisiynwyr yr heddlu a throseddu yr wythnos nesaf. Roedd hynny'n llanast llwyr gan Swyddfa Cymru, sy'n yn gweithredu, i fod, ar ran buddiannau Cymru yn San Steffan. Costiodd hynny i'r Swyddfa Gartref—diolch byth—£350,000, sy'n cyfateb i 13 o gwnstabliaid yr heddlu. Felly, mae gwerth am arian wrth wraidd y ddadl hon yn hollol. A oes gennych unrhyw farn ar hyn, Weinidog, ac a fyddai modd inni gael dadl ar hyn?

**Jane Hutt:** Members often ask me questions, such as the one that has been asked by Simon

**Jane Hutt:** Mae aelodau yn aml yn gofyn cwestiynau i mi, fel yr un sydd wedi cael ei

Thomas, on issues that are not within my powers to take forward and to influence. However, it is important that you aired this issue today. We have already observed not only the cost, but the considerable importance of the vote on Thursday, and recognise that the UK Government has not only underestimated costs, but has also underestimated the lack of enthusiasm for the police and crime commissioners' elections.

ofyn gan Simon Thomas, ar faterion nad ydynt o fewn fy mhwerau i'w datblygu a dylanwadu arnynt. Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod wedi gwyntyllu'r mater hwn heddiw. Rydym eisoes wedi nodi nid yn unig y gost, ond pwysigrwydd sylweddol y bleidlais ar ddydd Iau, ac yn cydnabod bod Llywodraeth y DU nid yn unig wedi tanamcangyfrif costau, ond mae wedi tanamcangyfrif hefyd y diffyg brwdfrydedd ar gyfer etholiadau comisiynwyr yr heddlu a throseddau.

**Andrew R.T. Davies:** I wish to ask for several statements. First, could we have a statement on the First Minister's meeting with the Children's Commissioner for Wales last week? In his response to me during questions to him on the day of that meeting, the First Minister indicated that he would issue a statement about the outcome of the meeting. Given the importance of this issue, it is regrettable that that statement has not been forthcoming to Members. It is important that, when the First Minister gives a commitment—especially during questions to him, or, indeed, at any time—it is acted on. Therefore, I would be most grateful if, as the Leader of the House, you could chase up the availability of that statement, so that Members are conversant with what was discussed and what was decided as the best way forward on this important and emotive issue.

**Andrew R.T. Davies:** Hoffwn ofyn am sawl datganiad. Yn gyntaf, a allem gael datganiad ar gyfarfod y Prif Weinidog gyda Chomisiynydd Plant Cymru'r wythnos diwethaf? Yn ei ymateb i mi yn ystod cwestiynau iddo ar ddiwrnod y cyfarfod hwnnw, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n cyhoeddi datganiad am ganlyniad y cyfarfod. O ystyried pwysigrwydd y mater hwn, mae'n anffodus nad yw'r datganiad wedi dod i law i'r Aelodau. Mae'n bwysig, pan fydd y Prif Weinidog yn rhoi ymrwymiad—yn enwedig yn ystod cwestiynau iddo ef, neu, yn wir, ar unrhyw adeg—y gweithredir ar hynny. Felly, byddwn yn ddiolchgar iawn, fel Arweinydd y Tŷ, pe gallech fynd ar drywydd argaeledd y datganiad hwnnw, fel bod Aelodau yn gyfarwydd â'r hyn a drafodwyd a'r hyn a benderfynwyd fel y ffordd orau ymlaen ar y mater pwysig ac emosiynol hwn.

Secondly, I raise an issue on the statement on fly grazing that the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes issued last week. It highlighted sentiments that Members would support, but there was so much ambiguity in it: the statement talked about measures that would be brought forward in the short term, but it would be very interesting to know what those measures will be, and, importantly, what current and ongoing discussion will be brought forward to ensure that this problem will be put to bed once and for all. It was interesting to see that one of the main protagonists was served with an anti-social behaviour order this week, and I know that in your own constituency, and in my region, we are blighted by this problem.

Yn ail, rwy'n codi mater ynglŷn â datganiad ar bori anghyfreithlon a gyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd yr wythnos diwethaf. Mae'n tynnu sylw at sylwadau y byddai'r Aelodau'n eu cefnogi, ond roedd cymaint o amwysedd ynddo: roedd y datganiad yn sôn am fesurau a fyddai'n cael eu dwyn ymlaen yn y tymor byr, ond byddai'n ddiddorol iawn cael gwybod beth fydd y mesurau hynny, ac, yn bwysig, pa drafodaeth gyfredol a pharhaus fydd yn cael ei dwyn ymlaen er mwyn sicrhau y bydd y broblem hon yn cael ei therfynu unwaith ac am byth. Roedd yn ddiddorol gweld bod gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi ei gyflwyno i un o'r prif gymeriadau'r wythnos hon, a gwn, yn eich etholaeth eich

hun, ac yn fy rhanbarth, ein bod yn cael ein difetha gan y broblem hon.

Thirdly, yesterday, the National Assembly for Wales (Official Languages) Act 2012 had the Welsh seal put on it after it received Royal Assent. I am a bit bemused as to why the seal is held in Cathays park when this place is the legislature, and, secondly, why, considering it was an Assembly Bill, only the First Minister and the big seal of the office of the First Minister were dominant in all the publicity photographs. To me, it is the legislature that should house that seal, and, ultimately, it is my view and the view of those of us on this side, that when it is an Assembly Bill, the Presiding Officer, not a political figure, should deal with such matters.

Yn drydydd, ddoe, rhoddwyd sêl Cymru ar Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 ar ôl iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Nid wyf yn deall yn hollol pam y cedwir y sêl ym mharc Cathays pan mai'r lle hwn yw'r ddeddfwrfa, ac, yn ail, pam, o ystyried ei fod yn Fesur y Cynulliad, mai dim ond y Prif Weinidog a sêl mawr swydd y Prif Weinidog oedd yn amlwg yn yr holl ffotograffau cyhoeddusrwydd. I mi, y ddeddfwrfa ddylai gadw'r sêl honno, ac, yn y pen draw, fy marn i a barn y rhai ohonom ar yr ochr hon yw, pan fydd yn Fil Cynulliad, mai'r Swyddog Llywyddu, nid ffigwr gwleidyddol, ddylai ymdrin â materion o'r fath.

**Jane Hutt:** Andrew R.T. Davies makes an important point today about the meeting between the First Minister and the children's commissioner, but I hope that he will respect and recognise how important it is for the First Minister and the children's commissioner to respond at the appropriate time in terms of issuing statements on their discussions. As you have recognised, it is a very sensitive issue in terms of making sure that the public is aware of the way forward, and the children's commissioner and First Minister must respond appropriately and responsibly. I would also add that it is important for Members to be aware that we are in the process of identifying and collating any historic information that we may hold relating to allegations of child abuse in north Wales and that will be made available to the appropriate investigative authorities.

**Jane Hutt:** Mae Andrew R.T. Davies yn gwneud pwynt pwysig heddiw am y cyfarfod rhwng y Prif Weinidog a'r comisiynydd plant, ond gobeithiaf y bydd yn parchu ac yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i'r Prif Weinidog a'r comisiynydd plant i ymateb ar yr adeg briodol o ran cyhoeddi datganiadau ar eu trafodaethau. Fel yr ydych wedi cydnabod, mae'n fater sensitif iawn o ran sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r ffordd ymlaen, ac mae'n rhaid i'r comisiynydd plant a Phrif Weinidog Cymru ymateb yn briodol ac yn gyfrifol. Byddwn hefyd yn ychwanegu ei bod yn bwysig i Aelodau fod yn ymwybodol ein bod yn y broses o nodi a choladu unrhyw wybodaeth hanesyddol sydd gennym yn ymwneud â honiadau o gam-drin plant yng ngogledd Cymru a fydd ar gael i'r awdurdodau ymchwilio priodol.

Clearly, the statement on fly grazing made by Alun Davies, the Deputy Minister, was very important with regard to recognising the historical position, the action taken and the fact that he is meeting with the chief constable who is taking the lead for the chief constables in Wales on this point. I am sure that he will respond in due course and you will be able to engage with him, in your elected position, on any regional matters.

Yn amlwg, roedd y datganiad ar bori anghyfreithlon a wnaed gan Alun Davies, y Dirprwy Weinidog, yn bwysig iawn o ran cydnabod y sefyllfa hanesyddol, y camau a gymerwyd a'r ffaith ei fod yn cwrdd â'r prif gwnstabl sydd yn cymryd yr awenau ar gyfer y prif gwnstabliaid yng Nghymru ar y pwynt hwn. Rwy'n siŵr y bydd yn ymateb maes o law a byddwch yn gallu ymgysylltu gydag ef, yn eich swydd etholedig, ar unrhyw faterion rhanbarthol.

Yesterday was an important and historic day,

Ddoe roedd yn ddiwrnod pwysig a

which I hope all of us across the Assembly recognise. This was a piece of legislation. It was a Government of Wales Act, of course, in terms of the legislation and I think that it had the appropriate status and recognition. I believe that I also saw the Chief Executive and Clerk of the Assembly represented at that occasion.

hanesyddol, yr wyf yn gobeithio y bydd pawb ohonom ar draws y Cynulliad yn ei gydnabod. Roedd hwn yn ddarn o ddeddfwriaeth. Roedd yn Ddeddf Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, o ran y ddeddfwriaeth ac rwy'n credu ei bod wedi cael y statws a'r gydnabyddiaeth briodol. Rwy'n credu fy mod wedi gweld y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad yn cael eu cynrychioli ar yr achlysur hwnnw.

**The Presiding Officer:** I was also there; somebody took pictures, but nobody published them.

**Y Llywydd:** Roeddwn i yno hefyd; tynnodd luniau, ond ni chyhoeddwyd nhw gan neb.

**Rebecca Evans:** Minister, further to the Government's written statement of 23 February this year, I would welcome an update on the Welsh Government's approach to the community transport concessionary fares initiative. The Pembrokeshire town rider scheme and the Dial-a- Ride service in Powys, for example, have both proved to be lifelines for disabled and elderly people in the community who are unable to independently access local services. I understand that the Government has been reviewing the initiative and I would hope for a positive outcome to that review and continued Government support for these vital services.

**Rebecca Evans:** Weinidog, yn dilyn datganiad ysgrifenedig y Llywodraeth ar 23 Chwefror eleni, byddwn yn croesawu diweddariad ar ymagwedd Llywodraeth Cymru i'r fenter tocynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gymunedol. Mae cynllun bysus bro Sir Benfro a'r gwasanaeth Galw'r Gyrrwr ym Mhowys, er enghraifft, ill dau wedi profi i fod yn ddolen gyswllt hollbwysig i bobl anabl ac oedrannus yn y gymuned nad ydynt yn gallu cael gafael ar wasanaethau lleol yn annibynnol. Deallaf fod y Llywodraeth wedi bod yn adolygu'r cynllun a byddwn yn gobeithio am ganlyniad cadarnhaol i'r adolygiad hwnnw a chefnogaeth barhaus y Llywodraeth i'r gwasanaethau hanfodol hyn.

**Jane Hutt:** This is important in terms of the announcement made by the Minister for Local Government and Communities earlier this year. This is about the funding that the Welsh Government has made available for piloting a community transport concessionary fares initiative to ensure that it would not end in March this year, but continue with a further review. Indeed, the findings are now being considered and the Minister will be making a recommendation in due course.

**Jane Hutt:** Mae hyn yn bwysig o ran y cyhoeddiad a wnaed gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gynharach eleni. Mae hyn yn ymwneud â'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu ar gyfer treialu menter tocynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gymunedol er mwyn sicrhau na fyddai yn dod i ben ym mis Mawrth eleni, ond yn parhau gydag adolygiad pellach. Yn wir, mae'r canfyddiadau yn cael eu hystyried bellach a bydd y Gweinidog yn gwneud argymhelliad maes o law.

**Alun Ffred Jones:** Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cyhoeddi ei lwybr dewisol ar gyfer ffordd osgoi Bontnewydd a Chaernarfon ac rwy'n croesawu'r cyhoeddiad hwnnw. Fodd bynnag, mae cryn drafod wedi bod yn ddiweddar am un rhan o'r llwybr hwnnw. Rwy'n gofyn am ddatganiad gan y

**Alun Ffred Jones:** The Minister for Local Government and Communities has announced his preferred route for the Bontnewydd and Caernarfon bypass, and I welcome that announcement. However, there has been quite a lot of discussion recently about one section of that route. I ask for a statement from the Minister on his timetable

Gweinidog ar ei amserlen ar gyfer y ffordd osgoi ac ar gyfer cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus i'r safbwyntiau gwahanol er mwyn i ni gael symud ymlaen gyda'r cynllun eithriadol o bwysig hwn cyn gynted â phosibl.

for the bypass and the announcement of a public consultation on the various points of view so that we can progress with this exceptionally important scheme as soon as possible.

**Jane Hutt:** While recognising this exceptionally important bypass scheme, I will refer this to the Minister for transport to respond in due course to the Member.

**Jane Hutt:** Er fy mod yn cydnabod y cynllun ffordd osgoi eithriadol o bwysig, byddaf yn cyfeirio hyn at y Gweinidog trafnidiaeth i ymateb i'r Aelod maes o law.

**Janet Finch-Saunders:** Leader of the House, I call for a statement from the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science on the issue of small businesses that have been sold complex interest rate derivative products by major banks, in many cases, resulting in bankruptcy and business failure. This issue has been highlighted at Westminster by my friend and colleague Mr Guto Bebb MP, and, following his lobbying, some progress has been made, including an investigation by the Financial Services Authority in June. The FSA found serious failings on the part of the banks and has identified as many as 42,000 cases from areas across the UK, including Wales. However, there is a lack of meaningful data about the situation in Wales and, as such, I believe that a statement should be forthcoming that embraces the following: what action the Welsh Government is taking to assist small and medium-sized businesses that have been mis-sold these interest rate swap products and what steps the Welsh Government has already taken to engage with the FSA regarding the mis-selling of interest rate swap products to SMEs. I realise that banking is not a devolved matter, but this is having such a profound effect on small and medium-sized businesses in Wales that I would appreciate a statement by the Minister for business and enterprise on this.

**Janet Finch-Saunders:** Arweinydd y Tŷ, galwaf am ddatganiad gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar y mater o fusnesau bach y mae banciau mawr wedi gwerthu cynhyrchion deilliannol cyfradd llog cymhleth iddynt, mewn llawer o achosion, gan arwain at fethdaliad a methiant busnes. Mae'r mater hwn wedi cael ei amlygu yn San Steffan gan fy ffrind a chydweithiwr Mr Guto Bebb AS, ac, yn dilyn ei lobïo, mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, gan gynnwys ymchwiliad gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ym mis Mehefin. Canfu'r FSA fethiannau difrifol ar ran y banciau ac mae wedi nodi cymaint â 42,000 o achosion o ardaloedd ar draws y DU, gan gynnwys Cymru. Fodd bynnag, mae diffyg data ystyrlon am y sefyllfa yng Nghymru ac, o'r herwydd, rwy'n credu y dylid cael datganiad cyn bo hir sy'n cynnwys y canlynol: pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynorthwyo busnesau bach a chanolig y cam-werthwyd y cynhyrchion cyfnewid cyfradd llog hyn iddynt a pha gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd eisoes i ymgysylltu â'r FSA ynghylch cam-werthu cynnyrch cyfnewid cyfradd llog i fusnesau bach a chanolig. Rwy'n sylweddoli nad yw bancio'n fater datganoledig, ond mae hyn yn cael effaith mor fawr ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru fel y byddwn yn gwerthfawrogi datganiad gan y Gweinidog busnes a menter ar hyn.

**Jane Hutt:** I am sure that the Member for north Wales will take the opportunity to raise this with the Minister for business and enterprise tomorrow during her question session.

**Jane Hutt:** Rwy'n siŵr y bydd yr Aelod ar gyfer gogledd Cymru yn cymryd y cyfle i godi'r mater hwn gyda'r Gweinidog busnes a menter yfory yn ystod ei sesiwn gwestiynau.

**Mark Drakeford:** I am grateful for the

**Mark Drakeford:** Rwy'n ddiolchgar am y

chance to raise two issues with you, Minister. First, I wonder whether you would find time to set out the Government's position on the possibility of pre-confirmation hearings for major public appointments in Wales. Secondly, I wonder whether you would find time for us to discuss the work of Sport Wales. Last Saturday saw the unveiling of a statue of Fred Keenor, a great Welsh sporting hero, at the Cardiff City Football Club ground—a statue that is there partly as a result of a contribution from the Welsh Government to the appeal fund. I was joined at the ground by my fellow association football experts Jenny Rathbone and Julie Morgan. It was a great occasion. It would be excellent to have an opportunity to debate the work of the sports council in helping to create the sporting heroes of the future in Wales.

cyfle i godi dau fater gyda chi, Weinidog. Yn gyntaf, tybed a fyddech yn dod o hyd i amser i nodi safbwynt y Llywodraeth ar y posibilrwydd o wrandawiadau cyn-cadarnhau ar gyfer penodiadau cyhoeddus mawr yng Nghymru. Yn ail, tybed a fyddech yn dod o hyd i amser i ni drafod gwaith Chwaraeon Cymru. Ddydd Sadwrn diwethaf gwelwyd dadorchuddio cerflun o Fred Keenor, arwr mawr chwaraeon yng Nghymru, yng nghae Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd—cerflun sydd yno'n rhannol o ganlyniad i gyfraniad gan Lywodraeth Cymru i'r gronfa apêl. Ymunodd fy nghyd arbenigwyr pêl-droed, Jenny Rathbone a Julie Morgan â fi yn y cae. Roedd yn achlysur gwych. Byddai'n wych i gael cyfle i drafod gwaith y cyngor chwaraeon o ran helpu i greu arwyr chwaraeon y dyfodol yng Nghymru.

**Jane Hutt:** I thank the Member for Cardiff West for raising these matters. On the first point that he raised with me on the business statement, about the practice and the opportunity for greater parliamentary oversight of key public appointments, this is something that the First Minister has been made aware of. You will have seen practice elsewhere, not just in Westminster, but in other devolved administrations. This is an issue that we will consider and draw attention to in terms of action, and take forward in due course.

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod dros Orllewin Caerdydd am godi'r materion hyn. Ar y pwynt cyntaf a gododd gyda mi ar y datganiad busnes, am yr arfer a'r cyfle ar gyfer mwy o oruchwylio seneddol ar benodiadau cyhoeddus allweddol, mae hyn yn rhywbeth y mae'r Prif Weinidog wedi ei wneud yn ymwybodol ohono. Byddwch wedi gweld arfer mewn mannau eraill, nid yn San Steffan yn unig, ond mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mae hwn yn fater y byddwn yn ei ystyried ac yn tynnu sylw ato o ran gweithredu, a datblygu maes o law.

Your second point provides an opportunity to welcome the fact that the statue of Fred Keenor, who I understand was captain of Cardiff City when it won the Football Association cup in 1927, was unveiled last weekend near the new Cardiff City stadium before an important match between Cardiff City and Hull City AFC. The sports council's role in terms of honouring our sportsmen and sportswomen is important. We should also recognise that public subscription contributed substantially to this statue.

Mae eich ail bwynt yn rhoi cyfle i groesawu'r ffaith bod y cerflun o Fred Keenor, yr wyf yn deall oedd yn gapten ar dîm Dinas Caerdydd pan enillodd gwpan y Gymdeithas Bêl-droed ym 1927, wedi ei ddadorchuddio'r penwythnos diwethaf ger stadiwm newydd Dinas Caerdydd cyn gêm bwysig rhwng Dinas Caerdydd a Hull City AFC. Mae rôl y cyngor chwaraeon o ran anrhydeddu ein hathletwyr a'n mabolgampwyr yn bwysig. Dylem hefyd gydnabod bod tanysgrifiad cyhoeddus wedi cyfrannu'n sylweddol at y cerflun hwn.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 2.45 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 2.45 p.m.*

## Datganiad: Law yn Llaw at Iechyd—Adroddiad Cynnydd Chwe Mis
## Statement: Together for Health—Six-month Progress Report

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** This is my second six-monthly report on progress in implementing 'Together for Health'. I will start by reminding you of the ambition of the document. I want people in Wales to have better health. I want more effective health services, and I want people to feel that the quality of care is better. The report also identifies other areas where action is essential to support this happening, namely service reconfiguration, improved IT, using the skills and energy of our staff better, and, of course, getting the best out of every penny spent. So, what have we achieved in the first year? The NHS has done well. Despite continuing growing demand on health services and tight finances, the NHS has made important improvements in difficult areas such as stroke. With regard to health improvement we have continued to target the tough problems, and I have spoken before about action on tobacco.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Dyma fy ail adroddiad chwe misol ar y cynnydd wrth weithredu 'Law yn Llaw at Iechyd'. Rwyf am ddechrau drwy eich atgoffa o uchelgais y ddogfen. Rwyf am i bobl yng Nghymru gael gwell iechyd. Rwyf am wasanaethau iechyd mwy effeithiol, ac rwyf am i bobl deimlo bod ansawdd y gofal yn well. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi meysydd eraill lle mae gweithredu yn hanfodol i gefnogi gweld hyn yn digwydd, sef ad-drefnu gwasanaethau, gwella TG, defnyddio sgiliau ac egni ein staff yn well, ac, wrth gwrs, cael y gorau o bob ceiniog a wariwyd yn y flwyddyn gyntaf? Mae'r GIG wedi gwneud yn dda. Er gwaethaf y galw cynyddol parhaus ar wasanaethau iechyd a chyllid tyn, mae'r GIG wedi gwneud gwelliannau pwysig mewn meysydd anodd megis strôc. O ran gwella iechyd, rydym wedi parhau i dargedu'r problemau anodd, ac rwyf wedi siarad o'r blaen am weithredu ar dybaco.

We will shortly issue our Green Paper on whether we should have a new public health Bill. I do not know whether legislation is the answer, but I do know that health in Wales is not good enough. I want this Green Paper to stir up a real debate across Wales on how we can all do more to protect and improve health for everyone in Wales.

Cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi ein Papur Gwyrdd ar p'un a ddylem gael Bil newydd iechyd y cyhoedd. Nid wyf yn gwybod ai deddfwriaeth yw'r ateb, ond rwy'n gwybod nad yw iechyd yng Nghymru'n ddigon da. Rwyf am i'r Papur Gwyrdd hwn ysgogi dadl wirioneddol ledled Cymru ar sut y gall pob un ohonom wneud mwy i ddiogelu a gwella iechyd i bawb yng Nghymru.

We have also been making progress on strengthening the foundations for high-quality healthcare. We issued, as planned, our quality delivery plan and a new quality forum will drive its delivery and ensure that no other opportunities are missed. We have been issuing delivery plans for major services. Developed in partnership with the NHS and the third sector, these specify actions to be taken by 2016 to improve people's care and their lives. Four delivery plans have been published—on maternity services, mental health, cancer and oral health. Three have been issued in draft for consultation—on stroke, cardiac disease and end-of-life care—and a draft plan for diabetes will be published shortly. I thank those who, by replying to our consultations, have helped to improve these plans.

Rydym hefyd wedi bod yn gwneud cynnydd ar gryfhau'r sylfeini ar gyfer gofal iechyd ansawdd uchel. Cyhoeddom ni, fel y bwriadwyd, ein cynllun cyflawni ansawdd a bydd fforwm ansawdd newydd yn ysgogi ei ddarparu a sicrhau nad oes cyfleoedd eraill yn cael eu colli. Rydym wedi bod yn cyhoeddi cynlluniau cyflawni ar gyfer prif wasanaethau. Datblygwyd y rhain mewn partneriaeth â'r GIG a'r trydydd sector, ac maent yn pennu camau gweithredu i'w cymryd erbyn 2016 i wella gofal pobl a'u bywydau. Mae pedwar cynllun darparu wedi cael eu cyhoeddi—ar wasanaethau mamolaeth, iechyd meddwl, canser ac iechyd y geg. Mae tri wedi cael eu cyhoeddi ar ffurf drafft ar gyfer ymgynghori—ar strôc, clefyd y galon a gofal diwedd bywyd a bydd cynllun drafft ar gyfer diabetes yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Diolch i'r rheini sydd, drwy ateb

ein hymgynghoriadau, wedi helpu i wella'r cynlluniau hyn.

To help clinical staff do a good job, we now have an agreed programme on quality improvement approaches and are giving them the tools and resources to help make quality improvement a fundamental part of their everyday working life. Our new NHS Wales staff survey, to be conducted in January 2013, will provide a valuable baseline for understanding their views. I mentioned patient experience. In September, the national survey for Wales showed that 92% of people were satisfied with the care that they received from their GP or family doctor at their last visit, and 92% were satisfied with the care that they received at their last appointment at an NHS hospital. That is good, but in 'Together for Health' I said that I wanted more. I want to invite the public and patients to help us to improve. That has started. All NHS organisations are now gathering and using patient information to test performance and drive improvement. A new national group will ensure that we learn what works best and spread it across the whole NHS.

Er mwyn helpu staff clinigol wneud gwaith da, mae gennym bellach raglen y cytunwyd arni ar ddulliau gwella ansawdd ac rydym yn rhoi'r offer a'r adnoddau iddynt i'w helpu i wneud gwelliannau ansawdd yn rhan hanfodol o'u bywyd gwaith bob dydd. Bydd ein harolwg staff newydd GIG Cymru, i'w gynnal ym mis Ionawr 2013, yn darparu llinell sylfaen werthfawr er mwyn deall eu barn. Soniais am brofiad y claf. Ym mis Medi, roedd yr arolwg cenedlaethol ar gyfer Cymru yn dangos bod 92% o bobl yn fodlon ar y gofal a gawsant gan eu hymarferydd cyffredinol neu eu meddyg teulu ar eu hymweliad diwethaf, a 92% yn fodlon ar y gofal a gawsant yn eu hapwyntiad diwethaf mewn ysbytai'r GIG. Mae hynny'n dda, ond yn 'Law yn Llaw at Iechyd' dywedais fy mod eisiau mwy. Rwyf am wahodd y cyhoedd a chleifion i helpu inni wella. Mae hynny wedi dechrau. Mae holl sefydliadau'r GIG bellach yn casglu a defnyddio gwybodaeth am gleifion i brofi perfformiad ac ysgogi gwelliant. Bydd grŵp cenedlaethol newydd yn sicrhau ein bod yn dysgu beth sy'n gweithio orau ac yn ei ledaenu ar draws y GIG cyfan.

We also want to give service users better information. We will shortly issue a new outcomes framework for the NHS to show whether and how services are improving. In spring 2013 the new 'your health and care in Wales' website will make it easier to find this and more. In August 2012 I issued a consultation paper on this matter of greater openness. Our aim is to develop with the public a common understanding of the responsibilities of the Government, the NHS and people across Wales and to explore how they can better manage their own health and help make services work better. After reviewing the consultation feedback I will decide on the next steps.

Rydym hefyd yn awyddus i roi gwybodaeth well i ddefnyddwyr gwasanaeth. Cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi fframwaith canlyniadau newydd ar gyfer y GIG i ddangos a yw gwasanaethau'n gwella a sut. Yng ngwanwyn 2013 bydd y wefan newydd 'eich iechyd a'ch gofal yng Nghymru' yn ei gwneud yn haws i ganfod hyn a mwy. Ym mis Awst 2012, cyhoeddais bapur ymgynghori ar y mater hwn o fod yn fwy agored. Ein nod yw datblygu â'r cyhoedd ddealltwriaeth gyffredin o gyfrifoldebau'r Llywodraeth, y GIG a phobl ledled Cymru ac i archwilio sut y gallant reoli eu hiechyd eu hunain yn well a helpu i wneud gwasanaethau weithio'n well. Ar ôl adolygu adborth yr ymgynghoriad byddaf yn penderfynu ar y camau nesaf.

You will all be aware that I see the restructuring of health services as the opportunity to put them on a solid basis for the next generation. Intensive discussions involving clinical staff and extensive

Bydd pob un ohonoch yn ymwybodol fy mod yn gweld ailstrwythuro gwasanaethau iechyd fel y cyfle i'w rhoi ar sail gadarn ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mae trafodaethau dwys yn ymwneud â staff clinigol ac ymgysylltu

engagement with the public have been continuing, on a scale probably greater than ever before in Wales. I thank everyone who has been involved in the process.

helaeth â'r cyhoedd wedi bod yn parhau, ar raddfa fwy nag erioed o'r blaen yng Nghymru yn ôl pob tebyg. Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y broses.

The current position is as follows: consultation on service change proposals in Hywel Dda Local Health Board and Betsi Cadwaladr University Local Health Board areas finished at the end of October. They will now consider the responses before their boards decide on the next steps. In south Wales, the health boards have begun their engagement process around proposals, focusing on a small number of critical services, and consultation on options is expected early in 2013. Powys is involved in all of these processes, and is also undertaking a consultation on proposed service changes in south-east Powys. Finally, there are those areas where we have to get things right in order to make other things happen. A new financial regime will simplify planning and give clinicians much more relevant financial information. The new planning and performance management frameworks are about to go live.

Mae'r sefyllfa bresennol fel a ganlyn: daeth ymgynghoriad ar gynigion newid i wasanaethau ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i ben ddiwedd mis Hydref. Byddant yn awr yn ystyried yr ymatebion cyn i'w byrddau benderfynu ar y camau nesaf. Yn ne Cymru, mae'r byrddau iechyd wedi dechrau ar eu proses ymgysylltu ynglŷn â chynigion, gan ganolbwyntio ar nifer fach o wasanaethau hanfodol, a disgwylir ymgynghori ar yr opsiynau yn gynnar yn 2013. Mae Powys yn cymryd rhan ym mhob un o'r prosesau hyn, ac mae hefyd yn cynnal ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i wasanaethau yn ne-ddwyrain Powys. Yn olaf, ceir y meysydd hynny lle mae'n rhaid inni gael pethau'n iawn er mwyn gwneud i bethau eraill ddigwydd. Bydd trefn ariannol newydd yn symleiddio cynllunio ac yn rhoi llawer mwy o wybodaeth ariannol berthnasol i glinigwyr. Mae'r fframweithiau cynllunio a rheoli perfformiad newydd ar fin mynd yn fyw.

So, what next? The basic strategies are almost all now in place and the future shape of secondary care is becoming clearer. You will have noticed my strong interest in talking and listening to the public and in sharing information. There will be much more on those themes. However, the focus will stay on better health for all and delivering high-quality care in every area. The final document will be a plan for local integrated care to be issued for consultation in early 2013. That will look at how the whole local team—general practitioners, nurses, pharmacists, social workers and more—can better plan, deliver and monitor local services. We need to make sure that the first level of contact is the best it can be. Only then can the overall service be really safe and effective. 'Together for Health' is my vision of how we can create services in Wales that are as good as services anywhere. I intend to see it into reality.

Felly, beth nesaf? Mae'r strategaethau sylfaenol bron i gyd bellach ar waith ac mae ffurf gofal eilaidd yn y dyfodol yn dod yn gliriach. Byddwch wedi sylwi ar fy niddordeb cryf mewn siarad a gwrando ar y cyhoedd a rhannu gwybodaeth. Bydd llawer mwy ar y themâu hynny. Fodd bynnag, bydd y ffocws yn aros ar iechyd gwell i bawb ac yn darparu gofal o ansawdd uchel ym mhob ardal. Bydd y ddogfen derfynol yn gynllun ar gyfer gofal integredig lleol i'w chyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn gynnar yn 2013. Bydd honno'n edrych ar sut fydd y tîm lleol cyfan—ymarferwyr cyffredinol, nyrsys, fferyllwyr, gweithwyr cymdeithasol a mwy—yn gallu cynllunio, darparu a monitro gwasanaethau lleol yn well. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y lefel cyswllt cyntaf y gorau y gall fod. Dim ond wedyn y gall y gwasanaeth cyffredinol fod yn wirioneddol ddiogel ac effeithiol. 'Law yn Llaw at Iechyd' yw fy ngweledigaeth o sut y gallwn greu gwasanaethau yng Nghymru sydd gystal â gwasanaethau unrhyw le. Rwy'n bwriadu ei

weld yn dod yn realiti.

**Darren Millar:** Thank you, Minister, for your statement. There is no doubt that this party agrees with your aspiration for better health outcomes in Wales and with the need for some service reconfiguration. We know, for example, that ambulances are missing their targets, cancer patients are not being treated in a timely fashion and that other key performance indicators—on A&E, for example—are not being met. They need to improve and we need to get services right and fit for the twenty-first century.

**Darren Millar:** Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad. Nid oes amheuaeth bod y blaid hon yn cytuno â'ch uchelgais ar gyfer canlyniadau iechyd gwell yng Nghymru a gyda'r angen am rywfaint o ad-drefnu'r gwasanaethau. Gwyddom, er enghraifft, bod ambiwlansys yn methu eu targedau, nad yw cleifion canser yn cael eu trin mewn modd amserol ac nad yw dangosyddion perfformiad allweddol eraill—ar Ddamweiniau ac Achosion Brys er enghraifft—yn cael eu bodloni. Mae angen iddynt wella ac mae angen i ni gael gwasanaethau yn iawn ac yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Service reconfiguration will be reliant on getting things right and, in order to get things right, we have to make sure that we have a processes that we can rely on, that is transparent, and that explains to the public in no uncertain terms the case for change and makes that case forcibly. Minister, you recognise that and that is why you established the national clinical forum. I am surprised that you did not refer to the forum in your statement on 'Together for Health' today, but perhaps it is not that surprising, given the revelations about how the chair of the forum has behaved in completely rewriting a submission that was given to one of the health boards. We also know that a submission has been withdrawn from the Hywel Dda Local Health Board consultation that was agreed by forum members and that there was no opportunity for forum members to consider the reconfigured report properly.

Bydd ad-drefnu gwasanaethau yn dibynnu ar gael pethau'n iawn ac, er mwyn cael pethau'n iawn, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod gennym brosesau y gallwn ddibynnu arnynt, sy'n dryloyw, ac sy'n esbonio i'r cyhoedd yn blwmp ac yn blaen yr achos ar gyfer newid ac yn cyflwyno'r achos hwnnw'n rymus. Weinidog, rydych yn cydnabod hynny a dyna pam yr ydych yn sefydlu'r fforwm clinigol cenedlaethol. Rwy'n synnu nad oeddech yn cyfeirio at y fforwm yn eich datganiad ar 'Law yn Llaw at Iechyd' heddiw, ond efallai nad yw fawr o syndod, o ystyried y datgeliadau ynghylch sut y mae cadeirydd y fforwm wedi ymddwyn wrth ail-ysgrifennu'n gyfan gwbl gyflwyniad a roddwyd i un o'r byrddau iechyd. Rydym hefyd yn gwybod fod cyflwyniad wedi cael ei dynnu'n ôl o ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda y cytunwyd arno gan aelodau'r fforwm ac nad oedd unrhyw gyfle i aelodau'r fforwm ystyried yr adroddiad a ad-drefnwyd yn briodol.

You say that you want to improve patients' experiences but what about patients' confidence in the NHS? That has been severely undermined because of the shenanigans in the consultation processes and the shenanigans that we have uncovered in relation to how the chair of the national clinical forum has behaved. You say that you want better information for patients and yet we find that information about additional consultations, which may be required in the future, have also been withheld from public view. Those are in relation to the potential

Rydych yn dweud eich bod am wella profiad cleifion, ond beth am hyder cleifion yn y GIG? Mae hynny wedi cael ei danseilio'n ddifrifol oherwydd y misdimanars yn y prosesau ymgynghori a ddatgelwyd gennym mewn perthynas â sut y mae cadeirydd y fforwm clinigol cenedlaethol wedi ymddwyn. Rydych yn dweud eich bod eisiau gwell gwybodaeth i gleifion, ac eto rydym yn gweld bod gwybodaeth am ymgynghoriadau ychwanegol, y gallai fod eu hangen yn y dyfodol, hefyd wedi cael eu dal yn ôl o olwg y cyhoedd. Mae'r rheini mewn perthynas ag

downgrading of another hospital in north Wales—one of the district general hospitals. That is what these e-mails have revealed. That does nothing for public confidence.

israddio posibl ar ysbyty arall yng ngogledd Cymru—un o'r ysbytai dosbarth cyffredinol. Dyna beth mae'r e-byst hyn wedi'u datgelu. Nid yw hynny'n gwneud dim i hyder y cyhoedd.

Minister, I want to know—because you failed to answer the question earlier—what action you intend to take to restore public confidence in the service reconfiguration process. What action do you intend to take in relation to your Welsh Government officials who knew about the rewriting of the report and yet failed to intervene? What will you do to deal with them? They are the same individuals who were implicated in relation to the Longley report, and this is another fine mess that they have got you into. What are you going to do to restore confidence in this process? What advice might you give to the chair of the national clinical forum? Do you think that he is fit to continue in that post and in any others that he holds within NHS Wales? How are you going to deal with those officials who seem to cause you so many problems?

Weinidog, rwyf am wybod—oherwydd eich bod wedi methu ag ateb y cwestiwn yn gynharach—pa gamau y bwriadwch eu cymryd i adfer hyder y cyhoedd yn y broses ad-drefnu gwasanaethau. Pa gamau ydych chi'n bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'ch swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn gwybod am ailysgrifennu'r adroddiad ac eto oedd wedi methu ag ymyrryd? Beth fyddwch chi'n ei wneud i ddelio â nhw? Nhw yw'r un unigolion a oedd yn gysylltiedig mewn perthynas ag adroddiad Longley, ac mae hwn yn llanastr arall y maent wedi eich cael chi iddo. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud i adfer hyder yn y broses hon? Pa gyngor allech chi ei roi i gadeirydd y fforwm clinigol cenedlaethol? Ydych chi'n meddwl ei fod yn gymwys i barhau yn y swydd ac mewn unrhyw swyddi eraill sydd ganddo o fewn GIG Cymru? Sut ydych chi'n mynd i ddelio â'r swyddogion hynny sy'n ymddangos i achosi cymaint o broblemau i chi?

**Lesley Griffiths:** It would have been completely inappropriate for officials to intervene in any correspondence between the national clinical forum and the health boards. Had they intervened, you would be standing here now criticising them for that. They just cannot win, can they? However, I have every confidence in them, because it would have been completely inappropriate for those two officials, who have observer status on the national clinical forum, to intervene. I do not think that public confidence has been undermined at all. As I said in my answer to Aled Roberts, I think you are completely missing the point. In relation to the national clinical forum, I have every confidence in it. In relation to the chair, I will be calling him in to have further discussions about the national clinical forum.

**Lesley Griffiths:** Byddai wedi bod yn gwbl anaddas i swyddogion ymyrryd mewn unrhyw ohebiaeth rhwng y fforwm clinigol cenedlaethol a'r byrddau iechyd. Pe byddent wedi ymyrryd, byddech yn sefyll yma'n awr yn eu beirniadu am hynny. Ni allant ennill, na allant? Fodd bynnag, mae gennyf bob hyder ynddynt, oherwydd byddai wedi bod yn gwbl anaddas i'r ddau swyddog hynny, sydd â statws sylwedydd ar y fforwm clinigol cenedlaethol, ymyrryd. Nid wyf yn credu bod hyder y cyhoedd wedi cael ei danseilio o gwbl. Fel y dywedais yn fy ateb i Aled Roberts, rwy'n meddwl eich bod yn methu'r pwynt yn llwyr. Mewn perthynas â'r fforwm clinigol cenedlaethol, mae gennyf bob hyder ynddo. Mewn perthynas â'r cadeirydd, byddaf yn galw arno i gael trafodaethau pellach am y fforwm clinigol cenedlaethol.

**Christine Chapman:** Thank you, Minister, for your statement. I welcome the progress that has been made. I think that all of us here would accept that it is good to see the

**Christine Chapman:** Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad. Rwy'n croesawu'r cynnydd a wnaed. Credaf y byddai pob un ohonom yma yn derbyn ei bod yn dda gweld

progress, but obviously we need to see even further progress. I particularly welcome the cancer delivery plan for the NHS up until 2016. I received a copy of Cwm Taf Local Health Board's recent annual report for cancer services and I was extremely concerned to learn that rates of lung, bowel and breast cancer are currently higher there than anywhere else in Wales. We know that cancer can be linked to a range of factors, from smoking and alcohol consumption to diet and obesity. However, it would be fair to say that the link to deprivation is clear. Only today, I think, a report was published by the University of Cambridge that highlights the fact that, unfortunately, the rich/poor cancer gap persists. We know that low awareness of the symptoms of the disease, together with a lower uptake of screening in poorer areas, leads to later diagnosis. Your statement talks about service reconfiguration, so, in light of this, how do you see the proposed changes to NHS services in Wales tackling these inequalities, particularly in constituencies such as my own? Would you agree that, by reducing inequalities in cancer care, we can ensure that all cancer patients have an equal chance of surviving the disease?

y cynnydd, ond yn amlwg mae angen i ni weld mwy o gynnydd hyd yn oed. Croesawaf yn arbennig y cynllun cyflawni canser ar gyfer y GIG hyd at 2016. Derbyniais gopi o adroddiad blynyddol diweddar Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf ar gyfer gwasanaethau canser ac roeddwn i'n bryderus iawn o glywed bod cyfraddau canser yr ysgyfaint, y coluddyn a'r fron ar hyn o bryd yn uwch yno nag yn unrhyw le arall yng Nghymru. Gwyddom y gellir cysylltu canser ag amrywiaeth o ffactorau, o ysmygu ac yfed alcohol i ddiet a gordewdra. Fodd bynnag, byddai'n deg dweud bod y cysylltiad ag amddifadedd yn glir. Dim ond heddiw, rwy'n meddwl, y cyhoeddwyd adroddiad gan Brifysgol Caergrawnt sy'n tynnu sylw at y ffaith, yn anffodus, bod y bwlch canser cyfoethog / tlawd yn parhau. Rydym yn gwybod bod ymwybyddiaeth isel o symptomau o'r clefyd, ynghyd â llai o dderbyn gwasanaethau sgrinio mewn ardaloedd tlotach, yn arwain at ddiagnosis yn hwyrach. Mae eich datganiad yn sôn am ad-drefnu gwasanaethau, felly, yng ngoleuni hyn, sut ydych chi'n gweld y newidiadau arfaethedig i wasanaethau'r GIG yng Nghymru yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn, yn enwedig mewn etholaethau fel fy un i? A fyddech chi'n cytuno, drwy leihau anghydraddoldebau mewn gofal canser, y gallwn sicrhau bod yr holl gleifion canser yn cael cyfle cyfartal o oroesi'r clefyd?

**Lesley Griffiths:** You raise a very pertinent point. In relation to the cancer delivery plan, somebody known personally to me has just, unfortunately, had to go through treatment, but said to me, 'Your cancer delivery plan works', which was really good to hear. However, you raise an important point: sadly, it remains true that both the chance of getting cancer and the chance of survival are much worse in our more deprived communities. I do not think that this inequality is acceptable, and the cancer delivery plan therefore requires all LHBs to produce local delivery plans. We are committed to tackling the gap, because inequalities are so unjust, unfair and unacceptable. Good health and wellbeing should not depend on where people live or their social circumstances.

**Lesley Griffiths:** Rydych yn codi pwynt perthnasol iawn. Mewn perthynas â'r cynllun cyflawni canser, mae rhywun sy'n hysbys i mi'n bersonol, yn anffodus, newydd orfod mynd drwy driniaeth, ond dywedodd wrthyf, 'Mae eich cynllun cyflawni canser yn gweithio', ac roedd yn braf iawn cael clywed hynny. Fodd bynnag, rydych yn codi pwynt pwysig: yn anffodus, mae'n dal yn wir fod y siawns o gael canser a'r siawns o oroesi yn llawer gwaeth yn ein cymunedau mwy difreintiedig. Nid wyf yn credu bod yr anghydraddoldeb hwn yn dderbyniol, ac mae'r cynllun cyflawni canser felly yn ei gwneud yn ofynnol i bob BILl lunio cynlluniau cyflawni lleol. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r bwlch, oherwydd mae anghydraddoldebau mor anghyfiawn, annheg ac annerbyniol. Ni ddylai iechyd da a lles ddibynnu ar ble mae

pobl yn byw neu ar eu hamgylchiadau cymdeithasol.

You mentioned screening and awareness, and. again, it is very important that, in the areas that you are talking about, those issues are raised. Cwm Taf LHB very much recognises the need to tackle health inequalities within its area, and it will shortly be publishing its cancer local delivery plan, which will outline the actions that will be taken to address these issues.

Soniasoch am sgrinio ac ymwybyddiaeth, ac, unwaith eto, mae'n bwysig iawn, yn y meysydd yr ydych yn sôn amdanynt, bod y materion hynny yn cael eu codi. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf yn llwyr gydnabod yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd o fewn ei ardal, a bydd yn fuan yn cyhoeddi ei gynllun cyflawni canser lleol, a fydd yn amlinellu'r camau a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**Elin Jones:** Minister, thank you for your statement. I want to address some of the issues that were not referred to in detail in your statement this afternoon, but which are integral to the success or otherwise of 'Together for Health'. The big elephant in the room is the NHS's ability or inability to train and recruit the workforce to deliver on your policy. I understand that your overseas doctor recruitment work has not been particularly successful so far. You can write all the plans in the world but, if you do not have the staff to deliver the services, then those plans are worthless and those services will not be delivered to your expectations. Would you therefore, as Minister, publish the results of recruitment efforts thus far to aid transparency and our understanding? I believe it is time for a joint plan between you as Minister for Health and Social Services and the Minister for Education and Skills on the training of an adequate numbers of doctors, nurses and other health professionals for the future of the Welsh NHS. I can see some excitement between you and the Minister for education in hearing that, so I ask you if you could perhaps make a statement to that effect, if you are planning to do this work, and to do that in advance of your next six-monthly review of 'Together for Health'. I would certainly welcome that.

**Elin Jones:** Weinidog, diolch i chi am eich datganiad. Rwyf am fynd i'r afael â rhai o'r materion na chyfeiriwyd atynt yn fanwl yn eich datganiad y prynhawn yma, ond sydd yn rhan annatod o lwyddiant neu fel arall 'Law yn Llaw at Iechyd'. Yr eliffant mawr yn yr ystafell yw gallu neu anallu'r GIG i hyfforddi a recriwtio'r gweithlu i gyflawni ar eich polisi. Rwy'n deall nad yw eich gwaith recriwtio meddygon tramor wedi bod yn arbennig o lwyddiannus hyd yn hyn. Gallwch ysgrifennu'r holl gynlluniau yn y byd ond, os nad yw'r staff gennych i ddarparu'r gwasanaethau, yna mae'r cynlluniau hynny'n ddiwerth ac ni fydd y gwasanaethau hynny yn cael eu cyflawni i'ch disgwyliadau. A fyddech felly, fel Gweinidog, yn cyhoeddi canlyniadau'r ymdrechion recriwtio hyd yn hyn i hybu tryloywder a'n dealltwriaeth? Rwy'n credu ei bod yn bryd cael cynllun ar y cyd rhyngoch chi fel Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar hyfforddi niferoedd digonol o feddygon, nyrsys a gweithwyr proffesiynol iechyd eraill ar gyfer dyfodol GIG Cymru. Gallaf weld rhywfaint o gyffro rhyngoch chi a'r Gweinidog addysg wrth glywed hynny, felly rwy'n gofyn i chi os allech chi efallai wneud datganiad i'r perwyl hwnnw, os ydych yn bwriadu gwneud y gwaith hwn, ac i wneud hynny cyn eich adolygiad chwe misol nesaf o 'Law yn Llaw at Iechyd'. Byddwn yn sicr yn croesawu hynny.

This morning, the Royal College of General Practitioners and the Royal Pharmaceutical Society issued a joint statement here in the Assembly on co-operation for patient safety, indicating a clear will to work together to

Y bore yma, cyhoeddodd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ddatganiad ar y cyd yma yn y Cynulliad ar gydweithrediad ar gyfer diogelwch cleifion, gan ddangos ewyllys clir

share work and patient information between GPs and pharmacies. This is hugely welcoming, but it will require investment in IT to allow patient information to flow between various sectors and parts of the NHS and, ultimately, to provide a more effective service to patients.

i weithio gyda'i gilydd i rannu gwaith a gwybodaeth i gleifion rhwng meddygon teulu a fferyllfeydd. Mae hyn i'w groesawu'n fawr, ond bydd angen buddsoddi mewn TG i ganiatáu i wybodaeth cleifion lifo rhwng gwahanol sectorau a rhannau o'r GIG ac, yn y pen draw, er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithiol i gleifion.

3.00 p.m.

I still use a fax machine for one purpose only, and that is to fax in my repeat prescription to the GP practice. I do not want to carry on using a fax machine. In fact, I would quite like to use my iPad to that effect. Do you agree with me that there needs to be more effort to enhance the use of IT and health telematics in general in the NHS? From a rural perspective, that would also reduce patient travel, because it could aid in remote diagnostics and clinical discussions.

Rwy'n dal i ddefnyddio peiriant ffacs i un pwrpas yn unig, ac mae hynny er mwyn ffacsio fy mhresgripsiwn amlroddadwy i'r practis meddyg teulu. Nid wyf am barhau i ddefnyddio peiriant ffacs. Yn wir, byddwn yn hoffi defnyddio fy iPad i'r perwyl hwnnw. Ydych chi'n cytuno â mi bod angen mwy o ymdrech i wella'r defnydd o TG a thelemateg iechyd yn gyffredinol yn y GIG? O safbwynt gwledig, byddai hynny hefyd yn lleihau ar deithio i gleifion, oherwydd gallai helpu diagnosteg o bell a thrafodaethau clinigol.

Finally, I have not asked you anything about service and hospital reconfigurations, because I respect your position, as Minister, in soon having to take decisions on any changes to hospital configuration in Wales. I hope that you, too, will show the Assembly respect so that, when you take those decisions on the future of hospital services and the NHS in Wales, you announce them to the Assembly first, and ultimately accept your accountability to us, as Assembly Members and representatives of the people of Wales.

Yn olaf, nid wyf wedi gofyn unrhyw beth i chi am ad-drefnu gwasanaethau ac ysbytai, oherwydd fy mod yn parchu eich sefyllfa, fel Gweinidog, gan y byddwch yn fuan yn gorfod cymryd penderfyniadau ar unrhyw newidiadau i ad-drefnu ysbytai yng Nghymru. Gobeithio y byddwch chithau hefyd, yn dangos parch at y Cynulliad fel y byddwch, pan fyddwch yn cymryd y penderfyniadau hynny ar ddyfodol gwasanaethau ysbyty a'r GIG yng Nghymru, yn eu cyhoeddi i'r Cynulliad yn gyntaf, ac yn y pen draw yn derbyn eich atebolrwydd i ni, fel Aelodau Cynulliad a chynrychiolwyr pobl Cymru.

**Lesley Griffiths:** Thank you for those questions, Elin. Recruitment is a huge issue and the reason for the Minister for Education and Skills' excitement was that we met this morning to discuss this with our advisory council, chaired by Professor the Baroness Ilora Finlay. So, we have had a detailed discussion about that today.

**Lesley Griffiths:** Diolch ichi am y cwestiynau, Elin. Mae recriwtio yn fater enfawr a'r rheswm dros gyffro'r Gweinidog Addysg a Sgiliau oedd ein bod wedi cwrdd y bore yma i drafod hyn gyda'n cyngor ymgynghorol, oedd yn cael ei gadeirio gan yr Athro y Farwnes Ilora Finlay. Felly, rydym wedi cael trafodaeth fanwl am hynny heddiw.

In relation to ICT, you will have heard me mention several times the importance of NHS informatics, and I am absolutely determined that we get this right. It is on the agenda every month when I meet with my chairs,

Mewn perthynas â TGCh, byddwch wedi fy nghlywed yn sôn sawl gwaith am bwysigrwydd gwybodeg y GIG, ac rwy'n hollol benderfynol ein bod yn cael hyn yn iawn. Mae ar yr agenda bob mis pan fyddaf

because it is so important that we get it right. I have regular discussions with my chief information officer, who tells me that ICT is a great enabler, yet it seems that in some areas of the health service, particularly with professionals, it is a barrier. It really should not be; we should be able to share that information for patients. If you asked a patient who could see their record, I think that they would be quite surprised to learn that only their general practitioner or consultant can see that information. That is really important, and the minor ailments scheme that we will be rolling out—we are currently conducting pilot schemes—whereby a patient will have to register with a pharmacist, is a really good first step, because patients will be registered with a GP and a pharmacist who will have access to your records.

yn cwrdd â fy nghadeiryddion, oherwydd ei bod mor bwysig ein bod yn gwneud pethau'n iawn. Rwyf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda fy mrîf swyddog gwybodaeth, sy'n dweud wrthyf fod TGCh yn hwylusydd mawr, ac eto mae'n ymddangos mewn rhai meysydd o'r gwasanaeth iechyd, yn enwedig gyda gweithwyr proffesiynol, ei fod yn rhwystr. Ni ddylai fod, dylem fod yn gallu rhannu'r wybodaeth honno ar gyfer cleifion. Pe byddech yn gofyn i glaf pwy sy'n cael gweld eu cofnod, rwy'n meddwl y byddent yn synnu braidd i ddysgu mai dim ond eu meddyg teulu neu ymgynghorydd all weld y wybodaeth honno. Mae hynny'n wirioneddol bwysig, ac mae'r cynllun mân anhwylderau y byddwn yn ei gyflwyno—rydym ar hyn o bryd yn cynnal cynlluniau peilot—lle y bydd rhaid i glaf gofrestru gyda fferyllydd, yn gam cyntaf da iawn, oherwydd bydd cleifion yn cael eu cofrestru gyda meddyg teulu a fferyllydd a fydd yn cael mynediad at eich cofnodion.

I am very sorry to hear that you still use a fax machine. I did not know that they were still around.

Mae'n ddrwg iawn gennyf glywed eich bod yn dal i ddefnyddio peiriant ffacs. Nid oeddwn yn gwybod eu bod yn dal o gwmpas.

In relation to my role in the service reconfiguration, you are right to say that I take it extremely seriously. As I mentioned previously, in answer to Paul Davies who asked me whether I would come to the Chamber, my intention is to come to the Chamber when all the health boards have put their plans forward, because each health board will, quite rightly, make decisions that are appropriate to their local areas. However, it is really important that we look at the picture of Wales as a whole if we are to get service reconfiguration right. I want to modernise the NHS in Wales. That absolutely has to happen, so I will bring that to the Chamber in the first instance.

O ran fy rôl yn yr ad-drefnu gwasanaethau, rydych yn iawn i ddweud fy mod yn ei gymryd o ddifrif. Fel y soniais o'r blaen, wrth ateb Paul Davies a ofynnodd i mi a fyddwn yn dod i'r Siambr, fy mwriad yw dod i'r Siambr pan fydd yr holl fyrddau iechyd wedi rhoi eu cynlluniau ymlaen, gan y bydd pob bwrdd iechyd, yn gwbl briodol, yn gwneud penderfyniadau sy'n briodol i'w hardaloedd lleol. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar y darlun o Gymru yn ei chyfanrwydd os ydym i gael ad-drefnu'r gwasanaeth yn iawn. Rwy'n dymuno moderneiddio'r GIG yng Nghymru. Mae'n rhaid i hynny ddigwydd, felly byddaf yn dod â hynny i'r Siambr yn y lle cyntaf.

Going back to recruitment, you asked whether I would bring the campaign figures to the Chamber. We launched the campaign in February this year, and my intention is certainly to do a re-stock after a year and report then.

Gan ddychwelyd at recriwtio, gofynasoch a fyddwn yn dod â ffigurau'r ymgyrch i'r Siambr. Rydym yn lansio'r ymgyrch ym mis Chwefror eleni, ac mae fy mwriad yn sicr i ail fesur ar ôl blwyddyn ac adrodd bryd hynny.

**Kirsty Williams:** I thank the Minister for her statement this afternoon. The Minister makes

**Kirsty Williams:** Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma. Mae'r

great play of the fact that major service plans are now almost all in place. What steps has she taken to ensure the oversight and implementation of, and compliance with, those plans by her department and the NHS respectively? Could she confirm whether delivery against these plans is her responsibility, or whether it is a matter for the LHB alone?

Gweinidog yn sôn llawer am y ffaith bod cynlluniau mawr yn y gwasanaeth yn awr bron i gyd wedi'u sefydlu. Pa gamau mae hi'n eu cymryd i sicrhau goruchwyliaeth a gweithredu, a chydymffurfio â'r cynlluniau hynny gan ei hadran a'r GIG yn y drefn honno? A allai hi gadarnhau ai ei chyfrifoldeb hi yw cyflawni yn erbyn y cynlluniau hyn, neu a yw'n fater i'r BILl ar ei ben ei hun?

Minister, it would stick in the throat of cancer patients up and down Wales to hear you say that the cancer plan is working. Your Government routinely misses its cancer waiting time targets. For any strategy, however well the words are written and however comprehensive the plan on paper, the reality is that month in, month out people are waiting to start their treatment, and for you not to acknowledge that is an extra kick in the teeth for those people who are waiting.

Weinidog, byddai'n glynu yng nghorn gwddf cleifion canser ar hyd a lled Cymru i'ch clywed yn dweud bod y cynllun canser yn gweithio. Mae eich Llywodraeth fel mater o drefn yn colli ei thargedau amseroedd aros canser. Ar gyfer unrhyw strategaeth, waeth pa mor dda yw'r geiriau sy'n cael eu hysgrifennu na pha mor gynhwysfawr bynnag yw'r cynllun ar bapur, y realiti yw, fis ar ôl mis, bod pobl yn aros i ddechrau eu triniaeth, ac mae eich cael chi yn peidio â chydnabod hynny yn ergyd ychwanegol i'r bobl hynny sy'n aros.

You say that you have made great improvements in stroke care, and I would be the first to acknowledge that there have been improvements. However, again, that will stick in the throat of my constituents who cannot be thrombolysed at Nevill Hall Hospital after 5 p.m. on a weekday, and who have to travel to another hospital, which is even further away, to receive that service, because 24-hour, seven-days-a-week thrombolysis is not available. Therefore, if we think that we have stroke care right, we have another thing coming—and that is even before we talk about the adequacies of rehabilitation services after the acute episode of stroke. What steps are you taking to ensure that there is full compliance with your plans?

Rydych yn dweud eich bod wedi gwneud gwelliannau enfawr ym maes gofal strôc, a fi fyddai'r cyntaf i gydnabod y bu gwelliannau. Fodd bynnag, eto, bydd hynny'n glynu yng nghorn gwddf fy etholwyr na ellir rhoi thrombolysis iddynt yn Ysbyty Nevill Hall ar ôl 5 pm yn ystod yr wythnos, ac sy'n gorfod teithio i ysbyty arall, sydd hyd yn oed ymhellach i ffwrdd, i dderbyn y gwasanaeth hwnnw, gan nad yw thrombolysis 24-awr, saith diwrnod yr wythnos ar gael. Felly, os ydym yn credu ein bod wedi cael gofal strôc yn iawn, rhaid inni ailfeddwl—hyd yn oed cyn i ni siarad am ddigonolrwydd y gwasanaethau adsefydlu ar ôl y cyfnod dwys o strôc. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'ch cynlluniau?

I very much welcome that your data tell you that people are 'very satisfied' with the service from their GP and their hospital. That is very welcome. However, given that you have made great play as a Government of extending surgery opening hours, could you please tell the Assembly today what progress you have made on that target?

Rwy'n croesawu'r ffaith bod eich data yn dweud wrthych fod pobl yn 'fodlon iawn' â'r gwasanaeth gan eu meddyg teulu a'u hysbyty. Mae hynny i'w groesawu'n fawr. Fodd bynnag, o ystyried eich bod wedi rhoi sylw mawr fel Llywodraeth i ymestyn oriau agor meddygfeydd, a fyddech cystal â dweud wrth y Cynulliad heddiw pa gynnydd yr ydych wedi'i wneud ar y targed hwnnw?

We have a shortage of doctors, both in the GP sector, as well as in the hospital sector. The last figures that I was able to obtain from you showed that we had had a net gain of five doctors in a considerable period of time. At that rate, it would take us 20 years to get all the doctors we need in Wales. What plans are you already beginning to develop with officials, because it is quite clear to me that we do not need to wait until the end of the year to see whether the recruitment campaign that you have launched is working? When you last made this statement, you said that you would look, in the interim, at a more cost-effective way of supplying locum medics within the NHS, given that we are spending money that we cannot afford on expensive locum cover. You said that you would look at a new way of providing locum cover. Could you please update us on what work you have done in that regard and what savings we can expect to see in the field?

Mae prinder meddygon, yn y sector meddyg teulu, yn ogystal ag yn y sector ysbytai. Mae'r ffigurau diweddaraf yr oeddwn yn gallu eu cael oddi wrthych yn dangos ein bod wedi cael cynnydd net o bum meddyg mewn cyfnod sylweddol o amser. Ar y gyfradd honno, byddai'n cymryd 20 mlynedd i gael yr holl feddygon sydd eu hangen arnom yng Nghymru. Pa gynlluniau sydd eisoes yn dechrau datblygu gyda swyddogion, oherwydd mae'n eithaf amlwg i mi nad oes angen i ni aros tan ddiwedd y flwyddyn i weld a yw'r ymgyrch recriwtio yr ydych wedi'i lansio yn gweithio? Pan wnaethoch y datganiad hwn ddiwethaf, dywedasoch y byddech yn edrych, yn y cyfamser, ar ffordd fwy cost-effeithiol o gyflenwi meddygon locwm o fewn y GIG, o ystyried ein bod yn gwario arian na allwn ei fforddio ar sicrwydd locwm drud. Dywedasoch y byddech yn edrych ar ffordd newydd o ddarparu sicrwydd locwm. Allech chi os gwelwch yn dda roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ba waith yr ydych wedi ei wneud yn y cyswllt hwnnw a pha arbedion y gallwn ddisgwyl ei gweld yn y maes?

In your statement, you spent a lot of time talking about public health. The Government's big public health idea was free health checks for the over-50s. Could the Minister tell us how much closer we are to anybody over the age of 50 getting a free health check because, to date, no-one has had one?

Yn eich datganiad, rydych yn treulio llawer o amser yn siarad am iechyd y cyhoedd. Syniad mawr iechyd cyhoeddus y Llywodraeth oedd archwiliadau iechyd am ddim i bobl dros 50 oed. A allai'r Gweinidog ddweud wrthym faint nes ydym i unrhyw un dros 50 oed gael archwiliad iechyd rhad ac am ddim oherwydd, hyd yma, nid oes neb wedi cael un?

On the issue of service reconfiguration, could I first correct the Minister? In her statement, she said that Powys was consulting on service changes in south-east Powys. That is not the case. The document is entitled 'New Directions: Improving Healthcare Services for South East Powys', but what the LHB is consulting on is the change of one set of hospital beds. There has been a great deal of confusion in Powys, and the Minister has fallen into the same trap as many of my constituents. Perhaps she could clarify what is being consulted on in the Powys Teaching Local Health Board.

Ar y mater o ad-drefnu gwasanaethau, a allaf i gywiro'r Gweinidog yn gyntaf? Yn ei datganiad, dywedodd bod Powys yn ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau yn ne-ddwyrain Powys. Nid yw hynny'n wir. Teitl y ddogfen yw *'New Directions: Improving Healthcare Services for South East Powys'*, ond yr hyn y mae'r BILl yn ymgynghori arno yw newid mewn un set o welyau ysbyty. Bu llawer iawn o ddryswch ym Mhowys, ac mae'r Gweinidog wedi disgyn i'r un fagl â llawer o fy etholwyr. Efallai y gallai egluro beth sy'n cael ei ymgynghori arno yn y Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Lleol.

On the national clinical forum, could the

Ar y fforwm clinigol cenedlaethol, a allai'r

Minister outline the role of her officials who have observer status within that organisation? It seems to me not unreasonable for the Minister to have officials observing that meeting. The purpose of having observers is to report back to the Minister on what happened in the board. However, that clearly is not the role of the observers, because the Minister has not been kept informed of what has been going on in the clinical forum. Therefore, could the Minister explain what officials at the clinical forum spend their time doing? I am sure that the department is very busy and that the Minister is not awash with civil servants, and so sending them to the meetings does not allow them to do something else. Given that they are not reporting back to the Minister what happens, could she tell me what the role of the observers is, please?

Gweinidog amlinellu rôl ei swyddogion sydd â statws sylwedydd o fewn y sefydliad? Mae'n ymddangos i mi nad yw'n afresymol i'r Gweinidog gael swyddogion yn arsylwi'r cyfarfod hwnnw. Pwrpas cael arsylwyr yw adrodd yn ôl i'r Gweinidog ar yr hyn a ddigwyddodd yn y bwrdd. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad dyna yw rôl yr arsylwyr, oherwydd nad yw'r Gweinidog wedi cael gwybodaeth yn gyson o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yn y fforwm clinigol. Felly, a allai'r Gweinidog egluro beth y mae swyddogion yn y fforwm clinigol yn treulio eu hamser yn ei wneud? Rwy'n siŵr fod yr adran yn brysur iawn ac nad oes gormodedd o weision sifil gan y Gweinidog, ac felly nid yw eu hanfon i'r cyfarfodydd yn caniatáu iddynt wneud rhywbeth arall. O ystyried nad ydynt yn adrodd yn ôl i'r Gweinidog beth sy'n digwydd, a allai hi ddweud wrthyf beth yw rôl yr arsylwyr, os gwêl hi'n dda?

Finally, on finance, could the Minister tell the Chamber what analysis she has carried out of the adequacies of the budget that she has to enable the NHS to meet its targets? The Minister is very clear that she has high expectations as regards waiting times and a plethora of targets. She can put a price on that. What analysis has the Minister undertaken to ensure that the resources that she has been able to make available to the NHS match its ability to deliver services to meet the Government's targets?

Yn olaf, o ran ariannu, a allai'r Gweinidog ddweud wrth y Siambr pa ddadansoddiad y mae wedi'i gynnal o ddigonolrwydd y gyllideb sydd ganddi i alluogi'r GIG i fodloni ei dargedau? Mae'r Gweinidog yn glir iawn fod ganddi ddisgwyliadau uchel o ran amseroedd aros a llu o dargedau. Mae hi'n gallu rhoi pris ar hynny. Pa ddadansoddiad y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod yr adnoddau y mae wedi gallu sicrhau sydd ar gael i'r GIG yn cyd-fynd â'i allu i ddarparu gwasanaethau i fodloni targedau'r Llywodraeth?

**Lesley Griffiths:** Thank you for those questions, Kirsty Williams. I will start with the budget. I have always said that local health boards have to come in on target, as is their statutory responsibility. This year, we saw an unusual increase in demand over the summer. Questions were raised with me by the chairs and, because of that, I asked for a mid-year review of finances and performance. I expect to make an announcement by the end of this month on whether they will be able to meet their targets. Officials are working closely on that at the present time.

**Lesley Griffiths:** Diolch ichi am y cwestiynau, Kirsty Williams. Rwyf am ddechrau gyda'r gyllideb. Rwyf bob amser wedi dweud bod rhaid i fyrddau iechyd lleol ddod i mewn ar y targed, yn unol â'u cyfrifoldeb statudol. Eleni, gwelsom gynnydd anarferol yn y galw dros yr haf. Codwyd cwestiynau gyda mi gan gadeiryddion ac, oherwydd hynny, gofynnais am adolygiad canol-blwyddyn o gyllid a pherfformiad. Rwy'n disgwyl gwneud cyhoeddiad erbyn diwedd y mis hwn ynghylch a fyddant yn gallu cyflawni eu targedau. Mae swyddogion yn gweithio'n agos ar hynny ar hyn o bryd.

In relation to the cancer delivery plan, I would be the first to say that not everything we do is right, and I was just giving an

Mewn perthynas â'r cynllun cyflawni canser, fi fyddai'r cyntaf i ddweud nad yw popeth yr ydym yn ei wneud yn iawn, ac roeddwn yn

example of somebody I knew who had recently gone through cancer treatment and had said that to me.

rhoi enghraifft o rywun yr oeddwn i'n ei adnabod a oedd wedi mynd drwy driniaeth canser yn ddiweddar ac wedi dweud hynny wrthyf.

In relation to the targets, it is not acceptable that our 62-day targets are being missed. However, they are being missed by only very small numbers, but they look very big because they are in percentages. It is unacceptable and I have said that that needs to be addressed as a matter of urgency. I expect to see those targets reached early in the new year.

Mewn perthynas â'r targedau, nid yw'n dderbyniol bod ein targedau 62 diwrnod yn cael eu methu. Fodd bynnag, maent yn cael eu methu o niferoedd bach iawn yn unig, ond maen nhw'n edrych yn fawr iawn am eu bod mewn canrannau. Mae'n annerbyniol, ac rwyf wedi dweud bod angen mynd i'r afael â hynny fel mater o frys. Rwy'n disgwyl gweld y targedau hynny'n cael eu cyrraedd yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

In relation to stroke services, we have made huge improvements, but you are right that, sometimes, the NHS in not 24/7 and it needs to be. You will be aware that the final plans for stroke care services will be published at the end of December. That will be addressed.

Mewn perthynas â gwasanaethau strôc, rydym wedi gwneud gwelliannau enfawr, ond rydych yn iawn, weithiau, nad yw'r GIG yn gweithredu 24/7 ac mae angen iddo fod. Byddwch yn ymwybodol y bydd y cynlluniau terfynol ar gyfer gwasanaethau gofal strôc yn cael eu cyhoeddi ddiwedd mis Rhagfyr. Rhoddir sylw i hynny.

On health checks for the over-50s, the Member will be aware that we are developing this at the present time. Once it has been fully developed, the programme of health checks for people aged over 50 will be an important mechanism for empowering and supporting people to learn about, and manage aspects of, their own health. It will form part of a wider health improvement agenda. I want people to start taking responsibility for their own health to make them healthier for a longer period of time. I will be considering further advice on this work shortly and will then decide on our detailed approach.

Ar archwiliadau iechyd i bobl dros 50 oed, bydd yr Aelod yn ymwybodol ein bod yn datblygu hyn ar hyn o bryd. Unwaith y bydd wedi cael ei ddatblygu'n llawn, bydd y rhaglen o archwiliadau iechyd i bobl dros 50 oed yn ddull pwysig ar gyfer grymuso a chefnogi pobl i ddysgu am, a rheoli agweddau ar eu hiechyd eu hunain. Bydd yn ffurfio rhan o agenda gwella iechyd ehangach. Rwyf am i bobl ddechrau cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain i'w gwneud yn iachach am gyfnod hwy o amser. Byddaf yn ystyried cyngor pellach ar y gwaith hwn yn fuan a byddaf wedyn yn penderfynu ar ein dull manwl.

In relation to the national clinical forum, officials observe and do not intervene. It would be completely inappropriate for them to intervene. If they did, Members would criticise them.

Mewn perthynas â'r fforwm clinigol cenedlaethol, mae swyddogion yn arsylwi ac nid ydynt yn ymyrryd. Byddai'n gwbl amhriodol iddynt ymyrryd. Os ydynt yn gwneud hynny, byddai Aelodau yn eu beirniadu.

In relation to recruitment, we have a shortage of doctors in some specialties, but not in all. Wales is not immune to that: it goes right across the UK. When I said that we had five gains, I meant that. However, we have replaced doctors on a recurrent basis. I think

Mewn perthynas â recriwtio, mae gennym brinder meddygon mewn rhai arbenigeddau, ond nid ym mhob un. Nid yw Cymru yn ddiogel rhag hynny: mae'n ymestyn ar draws y DU. Pan ddywedais ein bod wedi cael cynnydd o bump, rwy'n golygu hynny. Fodd

that about 300 new doctors have come to Wales as replacements. Therefore, we are not having difficulty recruiting across the board.

bynnag, rydym wedi newid meddygon ar sail reolaidd. Credaf fod tua 300 o feddygon newydd wedi dod i Gymru fel gweithwyr newydd. Felly, nid ydym yn cael anhawster i recriwtio ar draws y bwrdd.

On the implementation of service plans, I have made my role clear. My role is at the end, when the definitive reports come in. You heard my answer to Elin Jones. I will come to the Chamber at the most appropriate time in the process.

Ar weithrediad y cynlluniau gwasanaeth, rwyf wedi gwneud fy rôl yn glir. Mae fy rôl i ar y diwedd, pan fydd yr adroddiadau terfynol yn dod i mewn. Byddwch wedi clywed fy ateb i Elin Jones. Byddaf yn dod i'r Siambr ar yr amser mwyaf priodol yn y broses.

**The Deputy Presiding Officer:** I have called a speaker from each party group, and so I remind those remaining to be called to ask a question with no preamble.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi galw siaradwr o bob grŵp plaid, ac felly atgoffaf y rhai sydd ar ôl i gael eu galw i ofyn cwestiwn heb unrhyw ragarweiniad.

**Rebecca Evans:** Minister, in 'Together for Health', you acknowledge that the economic crisis has affected Wales particularly badly and is likely to generate greater demands on the NHS. We heard similar evidence in the Children and Young People Committee last week from the new chief medical officer, and there is also the Samaritans report about the worrying rise in the number of middle-aged men committing suicide. What assessment have you made so far of the impact of the economic crisis on demands made on the NHS and on health inequalities? How are you reflecting the likely greater future demand on the NHS in the recently published draft budget? How are you working with your colleagues across Government to refocus resources on those social and economic determinants that support good health and prevent avoidable illness, to encourage individual and community resilience during the economic crisis?

**Rebecca Evans:** Weinidog, yn 'Law yn Llaw at Iechyd', rydych yn cydnabod bod yr argyfwng economaidd wedi effeithio ar Gymru'n arbennig o wael ac mae'n debygol o greu mwy o alw ar y GIG. Clywsom dystiolaeth debyg yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yr wythnos diwethaf gan y Prif Swyddog Meddygol newydd, a cheir adroddiad y Samariaid hefyd am y cynnydd pryderus yn nifer y dynion canol oed sy'n cyflawni hunanladdiad. Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud hyd yn hyn o effaith yr argyfwng economaidd ar ofynion a wnaed ar y GIG ac ar anghydraddoldebau iechyd? Sut ydych chi'n adlewyrchu'r cynnydd tebygol yn y galw ar y GIG yn y dyfodol yn y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd yn ddiweddar? Sut ydych chi'n gweithio gyda'ch cydweithwyr ar draws y Llywodraeth i ail-ganolbwyntio adnoddau ar y ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy'n cefnogi iechyd da ac sy'n atal salwch y gellir ei osgoi, i annog cadernid unigol a chymunedol yn ystod yr argyfwng economaidd?

**Lesley Griffiths:** Thank you for those questions. I spoke at the launch of the report by the Samaritans last week regarding suicide among middle-aged men. Certainly, we are seeing an increased demand on our health services due to the demands placed on it by the economy.

**Lesley Griffiths:** Diolch ichi am y cwestiynau. Siaradais yn lansiad yr adroddiad gan y Samariaid yr wythnos diwethaf ynglŷn â hunanladdiad ymysg dynion canol oed. Yn sicr, rydym yn gweld galw cynyddol ar ein gwasanaethau iechyd oherwydd y gofynion a osodir arno gan yr economi.

3.15 p.m.

In relation to support across Government, I have discussions with Cabinet colleagues. You heard me refer in my answer to Elin Jones, I think, to the mid-year review that is currently being undertaken in my department. When I have had the opportunity to look more closely at the advice coming from officials, I will make a statement as to whether we need to look at realigning budgets or moving money around at the most appropriate time.

Mewn perthynas â chefnogi ar draws y Llywodraeth, rwyf yn cael trafodaethau gyda chydweithwyr yn y Cabinet. Clywsoch fi'n cyfeirio yn fy ateb i Elin Jones, rwy'n meddwl, at yr adolygiad canol-blwyddyn sydd wrthi'n cael ei gynnal yn fy adran. Pan wyf wedi cael y cyfle i edrych yn fanylach ar y cyngor sy'n dod gan swyddogion, byddaf yn gwneud datganiad ynghylch a oes angen edrych ar ad-drefnu cyllidebau neu symud arian o gwmpas ar yr adeg fwyaf priodol.

**Antoinette Sandbach:** Minister, in your statement, you talk about public consultation and involvement. Do you have a minimum target for how that involvement should be generated? For example, during the recent consultation process in north Wales, a large number of people did not receive any notification of the consultation. In terms of 'Together for Health', your strategy talks about services in Wales, but the reconfiguration plans, particularly in relation to neonatal care in north Wales, mean that there would be no neonatal level 3 care at all in north Wales, as it would be exported over the border to England. What kind of standards would be applied to care that is not in Wales?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, yn eich datganiad, rydych yn siarad am ymgynghori a chyfranogiad y cyhoedd. A oes gennych chi darged sylfaenol ar gyfer sut y dylai'r cyfranogiad hwnnw gael ei gynhyrchu? Er enghraifft, yn ystod y broses ymgynghori ddiweddar yng ngogledd Cymru, roedd nifer fawr o bobl heb dderbyn unrhyw hysbysiad o'r ymgynghoriad. O ran 'Law yn Llaw at Iechyd', mae eich strategaeth yn sôn am wasanaethau yng Nghymru, ond mae'r cynlluniau ad-drefnu, yn enwedig mewn perthynas â gofal newyddenedigol yng ngogledd Cymru, yn golygu na fyddai unrhyw ofal lefel 3 newyddenedigol o gwbl yng ngogledd Cymru, gan y byddai'n cael ei allforio dros y ffin i Loegr. Pa fath o safonau fyddai'n cael eu cymhwyso i ofal nad yw yng Nghymru?

I know that you were asked earlier about ambulance response times, and I do not know whether you dealt with that. A constituent of mine was recently forced to wait 55 minutes with a suspected broken back, having also been kicked in the head by a horse, before an ambulance arrived in St George.

Rwy'n gwybod y gofynnwyd ichi'n gynharach ynglŷn ag amseroedd ymateb ambiwlans, ac nid wyf yn gwybod a ydych yn delio â hynny. Gorfodwyd etholwr i mi yn ddiweddar, i aros 55 munud gyda chefn yr oedd amheuaeth ei fod wedi torri, ar ôl cael ei gicio yn ei ben gan geffyl hefyd, cyn i ambiwlans gyrraedd St George.

**Lesley Griffiths:** I think that health boards have consulted on a level that they have never consulted before. If you know of areas that have not received notification—obviously, the consultation process is closed now—I would be interested to know about that. I want to see the best services provided for the people of Wales in Wales, but I do accept that there are times when those services will have to be provided over the border.

**Lesley Griffiths:** Credaf fod byrddau iechyd wedi ymgynghori ar lefel nad oeddent erioed wedi ymgynghori arni o'r blaen. Os ydych yn gwybod am feysydd nad ydynt wedi derbyn hysbysiad—yn amlwg, mae'r broses ymgynghori wedi cau erbyn hyn—byddai ddiddordeb gennyf wybod am hynny. Rwyf am weld y gwasanaethau gorau yn cael eu darparu ar gyfer pobl Cymru yng Nghymru, ond rwy'n derbyn bod adegau pan fydd y gwasanaethau'n cael eu darparu dros y ffin.

On the issue of neonatal care in north Wales, the consultation is now being reviewed. Let us see what comes out in the definitive report before we start making comments about it.

Ar y mater o ofal newyddenedigol yng ngogledd Cymru, mae'r ymgynghoriad hwnnw'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Gadewch inni weld beth a ddaw allan yn yr adroddiad terfynol cyn i ni ddechrau gwneud sylwadau am y peth.

I was not aware that I had been asked about ambulance response times earlier, but 55 minutes is unacceptable. You will be aware of my concerns about the ambulance service, which is why I announced the review last week, particularly as there are many elements within the ambulance service that need looking at.

Nid oeddwn yn ymwybodol y gofynnwyd i mi am amseroedd ymateb ambiwlansys yn gynharach, ond mae 55 munud yn annerbyniol. Byddwch yn ymwybodol o fy mhryderon am y gwasanaeth ambiwlans, a dyna pam y cyhoeddais yr adolygiad yr wythnos diwethaf, yn enwedig gan fod llawer o elfennau o fewn y gwasanaeth ambiwlans y mae angen edrych arnynt.

**Joyce Watson:** Minister, you have expressed in the 'Together for Health' plan a greater need for health services to be delivered locally. My question will be short and to the point. Could you tell me how you hope to secure, along with the Minister for transport, the local health board and the ambulance service, a comprehensive transport strategy that will allow equal access to those services?

**Joyce Watson:** Weinidog, yn y cynllun 'Law yn Llaw at Iechyd' rydych wedi mynegi mwy o angen i wasanaethau iechyd gael eu darparu'n lleol. Bydd fy nghwestiwn yn fyr ac i'r pwynt. A allwch chi ddweud wrthyf sut yr ydych yn gobeithio sicrhau, ynghyd â'r Gweinidog dros drafnidiaeth, y bwrdd iechyd lleol a'r gwasanaeth ambiwlans, strategaeth drafnidiaeth gynhwysfawr a fydd yn caniatáu mynediad cyfartal i'r gwasanaethau hynny?

**Lesley Griffiths:** I have regular discussions with my colleague Carl Sargeant on this issue. Local health boards have been told to engage also in relation to making sure that transport is available. It is important that patients are able to get to hospitals on public transport wherever possible, and this is something that will have to be looked at when the service reconfiguration plans come forward.

**Lesley Griffiths:** Rwy'n cael trafodaethau rheolaidd gyda fy nghydweithiwr Carl Sargeant ar y mater hwn. Mae byrddau iechyd lleol wedi cael gorchymyn i gymryd rhan hefyd mewn cysylltiad â sicrhau bod cludiant ar gael. Mae'n bwysig bod cleifion yn gallu mynd i'r ysbytai ar gludiant cyhoeddus lle bynnag y bo'n bosibl, ac mae hyn yn rhywbeth y bydd yn rhaid edrych arno pan fydd y cynlluniau ad-drefnu gwasanaethau yn cael eu gweithredu.

## Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cynllun 'Gwella Ysgolion', a Gyhoeddwyd ar 10 Hydref 2012
## Statement: An Update on the 'Improving Schools' Plan, Published on 10 October 2012

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** On 10 October 2012, I launched 'Improving Schools', a plan which sets out how we, together with partners across the schools system in Wales, will continue to implement the reforms necessary to improve literacy and numeracy and to reduce the impact of deprivation on educational outcomes. 'Improving Schools'

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Ar 10 Hydref 2012, lansiais 'Gwella Ysgolion', sef cynllun sy'n nodi sut yr ydym ni, ynghyd â phartneriaid ar draws y system ysgolion yng Nghymru, yn parhau i weithredu'r diwygiadau angenrheidiol i wella llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol. Mae 'Gwella Ysgolion' yn nodi'n gryno sut y

sets out concisely how we will deliver against our big challenges, providing a route-map for ensuring the education system in Wales delivers against these three priorities. It sets out our future expectation and aspirations for improving our education system and builds upon the areas of reform already under way.

byddwn yn cyflawni yn erbyn ein heriau mawr, gan ddarparu trywydd i sicrhau bod y system addysg yng Nghymru yn cyflawni yn erbyn y tair blaenoriaeth. Mae'n nodi ein disgwyliadau a'n gobeithion i'r dyfodol ar gyfer gwella ein system addysg ac yn adeiladu ar y meysydd diwygio sydd eisoes ar y gweill.

Improving schools is structured around four main chapters with the first three incorporating effective learning and teaching, effective leadership, and partnerships in and around schools. The fourth identifies the roles of each link in the chain of delivery. It is clear that we will not achieve system-wide change unless all partners in the system engage in joint problem solving, implementation and development of excellent teaching and learning practices.

Mae Gwella ysgolion wedi'i strwythuro o amgylch pedair prif bennod gyda'r tair gyntaf yn cynnwys dysgu ac addysgu effeithiol, arweiniad effeithiol, a phartneriaethau mewn ac o amgylch ysgolion. Mae'r bedwaredd yn nodi rolau pob dolen yn y gadwyn gyflenwi. Mae'n amlwg na fyddwn yn cyflawni newid ar draws y system oni bai bod pob partner yn y system yn cymryd rhan mewn datrys problemau, gweithredu a datblygu addysgu rhagorol ac arferion dysgu ar y cyd.

Improving schools incorporates the school effectiveness framework and the commitments I made in my 'Teaching makes a difference' speech in February 2011. We are on the way to implementing many of the reforms that I set out within this speech. The specific achievements are: the revised performance management regulations, which came into force on 1 January and which establish one simple consistent system of professional standards underpinned by robust performance management arrangements; the publication of banding information for secondary schools in Wales in December 2011; the publication of the national literacy programme in May, requiring schools in Wales to focus on the development of literacy skills; the implementation of a new rigorous and robust approach to gaining the national professional qualification for headship in Wales, which is now a practice-based assessment and assessed against the leadership standards; in September, I launched Learning Wales, a new web-based resource designed to improve standards in schools across Wales; regulations have come into force to strengthen the induction process for newly qualified teachers; we have published a national numeracy programme to create a step-change in levels of numeracy across Wales; we have introduced the new Master's degree in educational practice for newly qualified teachers commencing their

Mae Gwella ysgolion yn cynnwys y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion a'r ymrwymiadau a wneuthum yn fy araith 'Mae addysgu yn gwneud gwahaniaeth' ym mis Chwefror 2011. Rydym ar y ffordd i weithredu llawer o'r diwygiadau a nodais yn yr araith hon. Y cyflawniadau penodol yw: y rheoliadau rheoli perfformiad diwygiedig, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr ac sy'n sefydlu un system syml gyson o safonau proffesiynol wedi'u hategu gan drefniadau rheoli perfformiad cadarn; cyhoeddi gwybodaeth bandio ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2011; cyhoeddi'r rhaglen llythrennedd genedlaethol ym mis Mai, sy'n mynnu bod ysgolion yng Nghymru yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llythrennedd; gweithredu dull newydd trylwyr a chadarn i ennill y cymhwyster proffesiynol cenedlaethol ar gyfer prifathrawiaeth yng Nghymru, sydd bellach yn asesiad sy'n seiliedig ar arfer a asesir yn erbyn y safonau arweiniad; ym mis Medi, lansiais Dysgu Cymru, adnodd newydd ar y we a gynlluniwyd i wella safonau mewn ysgolion ledled Cymru; mae rheoliadau wedi dod i rym i gryfhau'r broses sefydlu ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso; rydym wedi cyhoeddi rhaglen rhifedd genedlaethol i greu newid sylweddol mewn lefelau rhifedd ar draws Cymru, rydym wedi cyflwyno'r radd Meistr newydd mewn ymarfer addysgol ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso

induction period; and we have announced a review of assessment and the national curriculum in Wales.

sy'n dechrau ar eu cyfnod sefydlu, ac rydym wedi cyhoeddi adolygiad o asesiad a'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru.

In addition, proposals for and the content of the mandatory training for governors and clerks and provision of a clerking service in Wales have been finalised and agreed. The associated regulations will be laid later this month to enable the provisions to come into effect in January 2013. Some progress is also being made in reducing excess school places. Some 2,000 places have already been removed due to school reorganisation this year. The School Standards and Organisation (Wales) Bill is now well into its second stage. This will streamline the process for making changes to schools and support local decision making.

Yn ogystal, mae cynigion ar gyfer yr hyfforddiant gorfodol a'i gynnwys i lywodraethwyr a chlercod a darparu gwasanaeth clercio yng Nghymru wedi cael eu cwblhau a'u cytuno. Bydd y rheoliadau cysylltiedig yn cael eu cyflwyno yn ddiweddarach yn y mis hwn i alluogi'r darpariaethau i ddod i rym ym mis Ionawr 2013. Mae peth cynnydd hefyd yn cael ei wneud mewn lleihau nifer y lleoedd ysgol dros ben. Mae rhyw 2,000 o leoedd eisoes wedi cael eu dileu o ganlyniad i ad-drefnu ysgolion eleni. Mae Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn awr yn ei ail gam. Bydd hyn yn symleiddio'r broses ar gyfer gwneud newidiadau i ysgolion a chefnogi gwneud penderfyniadau lleol.

While this plan provides direction, it is not inflexible. It would be unwise to try to tie down every aspect of policy and implementation for three years. In some cases, the plan refers to new policy being developed and consulted upon. Where it does this, it identifies a timescale for the development of new policy and a period for its implementation.

Er bod y cynllun yn darparu cyfeiriad, nid yw'n anhyblyg. Byddai'n annoeth ceisio rhwymo pob agwedd ar bolisi a gweithredu am dair blynedd. Mewn rhai achosion, mae'r cynllun yn cyfeirio at bolisi newydd yn cael ei ddatblygu ac ymgynghori arno. Lle mae'n gwneud hynny, mae'n nodi amserlen ar gyfer datblygu polisi newydd a chyfnod ar gyfer ei weithredu.

We will measure success against our priorities and for this implementation plan in a number of ways, perhaps most importantly through the proportion of 15-year-olds who leave secondary school with the level 2 threshold including English or Welsh and mathematics. This is regardless of whether or not they are entitled to free school meals. Our aim, which I recognise is ambitious, is to be within the top 20 countries in the Programme for International Student Assessment by 2015. While this target may be challenging, I am determined that Wales can and will make the reforms necessary to make real progress towards them. Systematic change takes time and continued effort, but should have a lasting effect and be sustainable.

Byddwn yn mesur llwyddiant yn erbyn ein blaenoriaethau ac ar gyfer y cynllun gweithredu mewn nifer o ffyrdd, efallai yn bwysicaf oll trwy'r gyfran o ddisgyblion 15 oed sy'n gadael yr ysgol uwchradd gyda'r trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Mae hyn heb ystyried a oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim. Ein nod, sy'n uchelgeisiol rwy'n cydnabod, yw bod o fewn yr 20 gwlad uchaf yn y Rhaglen ar gyfer Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol erbyn 2015. Er y gall y targed hwn fod yn heriol, rwy'n benderfynol y gall ac y bydd Cymru'n gwneud y diwygiadau angenrheidiol i wneud cynnydd go iawn tuag atynt. Mae newid systematig yn cymryd amser ac ymdrech barhaus, ond dylai gael effaith barhaol a bod yn gynaliadwy.

We have set challenging targets and, through rigorous monitoring and reporting I, together with stakeholders, will be working to ensure

Rydym wedi gosod targedau heriol a, thrwy fonitro trylwyr ac adrodd byddaf i, ynghyd â rhanddeiliaid, yn gweithio i sicrhau bod

that there is clear accountability for delivery to achieve the reforms necessary across our schools and ultimately to improve learner outcomes. I want all learners to leave school with the skills they need to support their future choices and to enable them to reach their full potential.

atebolrwydd clir ar gyfer cyflwyno i gyflawni'r diwygiadau angenrheidiol ar draws ein hysgolion ac yn y pen draw i wella canlyniadau dysgwyr. Rwyf am i bob dysgwr adael yr ysgol gyda'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gefnogi eu dewisiadau yn y dyfodol ac er mwyn eu galluogi i gyrraedd eu potensial llawn.

To deliver the actions identified within the 'Improving Schools' plan, we will require commitment from all partners within the education sector. I have seen at first hand the drive and dedication to deliver improvements and the plan identifies how it will be done and who will take on which roles through the implementation process. This flows from the strategic direction set by Government, through implementation and targeted support by local authorities and consortia, to the leadership of schools and delivery on the ground by school teachers.

I gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y cynllun 'Gwella Ysgolion', byddwn yn gofyn am ymrwymiad gan yr holl bartneriaid o fewn y sector addysg. Rwyf wedi gweld yn uniongyrchol y penderfyniad a'r ymroddiad i gyflwyno gwelliannau ac mae'r cynllun yn nodi sut y bydd yn cael ei wneud a phwy fydd yn ymgymryd â pha rôl drwy'r broses weithredu. Mae hyn yn llifo o'r cyfeiriad strategol a osodwyd gan y Llywodraeth, drwy weithredu a chymorth wedi'i dargedu gan awdurdodau lleol a chonsortia, at arweinyddiaeth ysgolion a darpariaeth ar lawr gwlad gan athrawon ysgol.

Resources are an important factor and through the school effectiveness grant we are providing financial resource to support consortia, local authorities and schools to work collaboratively to deliver improvements across our three national priorities for schools. To help schools to tackle the barriers to learning this year, the pupil deprivation grant is providing £32.4 million.

Mae adnoddau yn ffactor pwysig a thrwy'r grant effeithiolrwydd ysgolion rydym yn darparu adnoddau ariannol i gefnogi consortia, awdurdodau lleol ac ysgolion i weithio ar y cyd i gyflawni gwelliannau ar draws ein tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer ysgolion. Er mwyn helpu ysgolion i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddysgu eleni, mae'r grant amddifadedd disgyblion yn darparu £32.4 miliwn.

Local government has pledged to increase levels of delegation to schools to 85% by 2014. Twenty of the 22 local authorities achieved the 80% delegation target set for this year and the average total gross schools budget expenditure delegated directly to schools in 2012-13 was 81%. This shows that authorities are moving in the right direction slowly and must make significant progress this year if they are to be able to meet their commitment for 2014. The process of developing our plan, improving schools, has been collaborative and I acknowledge the contribution of our partners, which has been and will continue to be vital to raising standards within our schools.

Mae llywodraeth leol wedi ymrwymo i gynyddu lefelau o ddirprwyo i ysgolion i 85% erbyn 2014. Mae ugain o'r 22 awdurdod lleol wedi cyrraedd y targed dirprwyo o 80% a osodwyd ar gyfer y flwyddyn hon ac roedd cyfartaledd cyfanswm y gwariant cyllideb gros dirprwyedig yn uniongyrchol i ysgolion yn 2012-13 yn 81%. Mae hyn yn dangos bod awdurdodau yn symud i'r cyfeiriad cywir yn araf a rhaid iddynt wneud cynnydd sylweddol eleni er mwyn iddynt allu cyflawni eu hymrwymiad ar gyfer 2014. Mae'r broses o ddatblygu ein cynllun, gan wella ysgolion, wedi bod yn gydweithredol ac rwy'n cydnabod cyfraniad ein partneriaid, sydd wedi bod ac a fydd yn parhau i fod yn hanfodol i godi safonau o fewn ein hysgolion.

**Angela Burns:** Minister, I would like to

**Angela Burns:** Weinidog, hoffwn ddiolch i

thank you for your statement today, which lists various policy initiatives. There is no doubt at all that you have moved forward on a number of initiatives since you published the ‘Improving Schools’ plan in October. However, my concern is that there are no real references in this statement to how the outcomes are going to be monitored and what the performance measures are. It is very clear on timelines, as was your ‘Improving Schools’ plan, but it is definitely less clear on the measurement. I, of course, welcome the strides that you have made in publishing numeracy and literacy plans and on seeking ways to mitigate the effects of deprivation on some of our most vulnerable pupils. However, in the ‘Improving Schools’ plan you talked about building capacity at a national level, and you said, in February 2011, that you were creating a standards unit to lead performance and provide challenge on a national basis. I wonder, Minister, where that unit is in the picture that you paint in today’s statement. In June last year, you admitted that your department was not working effectively and efficiently. Can you assure us that the quality and effectiveness of the school standards unit has not gone the same way? Is it, for example, measuring the effectiveness of the revised performance management regulations and if it is not, who is, and how are you going to know what success is in terms of that particular definition? I am assuming that it is not the regional consortia, because as we debated only last week, not all are up and running. Therefore, given the nature of last week’s debate, you must understand my concerns that this is a nice statement that does not necessarily represent actions, and that is what we want to see.

chi am eich datganiad heddiw, sy’n rhestru gwahanol fentrau polisi. Nid oes amheuaeth o gwbl eich bod wedi symud ymlaen ar nifer o fentrau ers i chi gyhoeddi’r cynllun ‘Gwella Ysgolion’ ym mis Hydref. Fodd bynnag, fy mhryder i yw nad oes unrhyw gyfeiriadau go iawn yn y datganiad at sut y mae’r canlyniadau yn mynd i gael eu monitro a beth yw’r mesurau perfformiad. Mae’n glir iawn ar linellau amser, fel yr oedd eich cynllun ‘Gwella Ysgolion’, ond mae’n sicr yn llai clir ar y mesuriad. Rwyf i, wrth gwrs, yn croesawu’r camau yr ydych wedi’u gwneud mewn cyhoeddi cynlluniau rhifedd a llythrennedd ac ar chwilio am ffyrdd i liniaru effeithiau amddifadedd ar rai o’n disgyblion mwyaf agored i niwed. Fodd bynnag, yn y cynllun ‘Gwella Ysgolion’ roeddech yn sôn am feithrin gallu ar lefel genedlaethol, a dywedoch chi, ym mis Chwefror 2011, eich bod yn creu uned safonau i arwain perfformiad a darparu her ar sail genedlaethol. Tybed, Weinidog, lle mae’r uned honno yn y darlun a roddwch yn y datganiad heddiw. Ym mis Mehefin y llynedd, roeddech yn cyfaddef nad yw eich adran yn gweithio’n effeithiol ac yn effeithlon. A allwch ein sicrhau nad yw ansawdd ac effeithiolrwydd yr uned safonau ysgol wedi mynd yr un ffordd? A yw, er enghraifft, yn mesur effeithiolrwydd y rheoliadau rheoli perfformiad diwygiedig ac os nad yw, pwy sydd, a sut ydych chi’n mynd i wybod beth yw llwyddiant o ran y diffiniad penodol hwnnw? Rwy’n tybio nad y consortia rhanbarthol sydd yn gwneud, oherwydd fel y trafodwyd dim ond yr wythnos diwethaf, nid yw pob un wedi’i sefydlu ac ar waith. Felly, o ystyried natur y ddadl yr wythnos diwethaf, rhaid i chi ddeall fy mhryderon bod hwn yn ddatganiad dymunol nad yw o reidrwydd yn cynrychioli gweithredoedd, a dyna’r hyn yr ydym am ei weld.

On your second point, we of course welcome the literacy programme. You know our views on the banding or grading system that you have implemented. What is the school standards unit doing to measure whether the 12 data sets are relevant, whether they have proven themselves to be of benefit in reaching your banding and how have they been measured in terms of the day-to-day

Ar eich ail bwynt, byddwn wrth gwrs yn croesawu’r rhaglen llythrennedd. Rydych yn gwybod ein barn ar y system fandio neu raddio yr ydych wedi’i rhoi ar waith. Beth mae’r uned safonau ysgolion yn ei wneud i fesur a yw’r 12 set data yn berthnasol, p’un a ydynt wedi profi eu bod o fudd o ran cyrraedd eich band a sut y maent wedi eu mesur o ran y gallu o ddydd-i-ddydd y maent

capability that they give you and your school standards unit to measure a school's actual performance?

yn ei roi i chi a'ch uned safonau ysgolion i fesur perfformiad yr ysgol mewn gwirionedd?

Looking at your programme of activity, I wonder whether there is too much change happening all at once on the back of what were appalling Estyn results and poor PISA results without addressing the issue of underfunding. I would like to wind up, Deputy Presiding Officer, by saying that I have sat in on some of the INSET days in secondary schools. We have a workforce that I believe is utterly dedicated to trying to improve standards in schools. However, I have to say that I have found staff, in the main, very demoralised and tired, straining to absorb yet more regulations and directives, and I wonder, Minister, whether you are putting in place the support and funding that they need to be able to do this job. A third of the budget still seems to be in back office and red tape. We have a massive backlog in schools programmes. Of course, one of your main targets was that no school would be judged as unsatisfactory by Estyn in 2012—I think you said this in the raising schools standards debate in June 2011—and I wondered how we are doing on that.

Gan edrych ar eich rhaglen o weithgareddau, tybed a oes gormod o newid yn digwydd i gyd ar unwaith yn dilyn beth oedd yn ganlyniadau ofnadwy Estyn a chanlyniadau gwael PISA heb fynd i'r afael â'r mater o danariannu. Hoffwn ddirwyn i ben, Ddirprwy Lywydd, drwy ddweud fy mod wedi eistedd i mewn ar rai o'r dyddiau HMS mewn ysgolion uwchradd. Mae gennym weithlu sydd yn fy marn i yn llwyr ymroddedig i geisio gwella safonau mewn ysgolion. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud fy mod wedi canfod staff sydd, yn bennaf, yn ddigalon ac yn flinedig iawn, yn straenio i dderbyn hyd yn oed mwy o reoliadau a chyfarwyddebau, a thybed, Weinidog, a ydych yn sefydlu'r cymorth a'r arian sydd eu hangen arnynt i allu gwneud y swydd hon. Mae traean o'r gyllideb yn dal i fod mewn swyddfa gefn a biwrocratiaeth. Mae gennym ôl-groniad enfawr mewn rhaglenni ysgolion. Wrth gwrs, un o'ch prif dargedau oedd na fyddai unrhyw ysgol yn cael ei barnu yn anfoddhaol gan Estyn yn 2012—credaf ichi ddweud hyn yn y ddadl ar godi safonau ysgolion ym mis Mehefin 2011—ac roeddwn yn meddwl tybed sut yr oeddem yn gwneud o ran hynny.

You need partners and you need buy-in. There is a collective responsibility between schools, local authorities and Welsh Government for our education system. However, Minister, ultimately, the accountability obviously lies with you, your policy choices and the Welsh Government. I would appreciate an update on all of those outcomes, but obviously, perhaps not at this very moment.

Mae angen partneriaid arnoch a bydd angen prynu i mewn arnoch. Mae cyfrifoldeb ar y cyd rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ar gyfer ein system addysg. Fodd bynnag, Weinidog, yn y pen draw, mae'r atebolrwydd yn amlwg yn gorwedd gyda chi, eich dewisiadau polisi a Llywodraeth Cymru. Byddwn yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf ar yr holl ganlyniadau hynny, ond yn amlwg, efallai nid ar hyn o bryd.

**Leighton Andrews:** The Conservative spokesperson asked a whole series of questions, Deputy Presiding Officer, so let me try to respond to nearly all of them. I will start by welcoming her initial support for what is set out here. She welcomed a large number of initiatives that we are undertaking. The school standards unit is critical to delivery of this school implementation plan and has been very much involved in its

**Leighton Andrews:** Gofynnodd llefarydd y Ceidwadwyr gyfres o gwestiynau, Ddirprwy Lywydd, felly gadewch i mi geisio ymateb i bron pob un ohonynt. Rwyf am ddechrau drwy groesawu ei chefnogaeth gychwynnol i'r hyn a nodir yma. Croesawodd nifer fawr o fentrau yr ydym yn ymgymryd â nhw. Mae'r uned safonau ysgolion yn hanfodol i gyflawni'r cynllun gweithredu ysgolion hwn ac mae wedi bod yn weithgar iawn yn ei

development. Its role is to ensure that we spread best practice and analyse the data to ensure that it is being used effectively by local authorities, the consortia and school governing bodies. It is a very experienced team led by Dr Brett Pugh, the director of education for Newport City Council who is on secondment to us for part of the week. I think that he has developed a very good rapport across Wales. He has been very adept at challenging local authorities, consortia and, in many cases, individual schools with a real command of the data that are there.

ddatblygiad. Ei rôl yw sicrhau ein bod yn lledaenu arfer gorau ac yn dadansoddi'r data er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan awdurdodau lleol, y consortia a chyrff llywodraethu ysgolion. Mae'n dîm profiadol iawn a arweinir gan Dr Brett Pugh, y cyfarwyddwr addysg ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd sydd ar secondiad i ni am ran o'r wythnos. Credaf ei fod wedi datblygu perthynas dda iawn ar draws Cymru. Mae wedi bod yn fedrus iawn wrth herio awdurdodau lleol, consortia ac, mewn llawer o achosion, ysgolion unigol gyda meistrolaeth go iawn o'r data sydd yno.

3.30 p.m.

The team is working to what is set out in this plan. The plan identifies the level of performance that has been achieved at the end of key stage 2, as measured by teacher assessments up until now, as well as, of course, the level 2 inclusive results in secondary schools. Those are key benchmarks for us when we are making judgments about performance. We will return to the issue of the grading of primary schools; we may well do that in a different way to how we have banded secondary schools. However, as I have said, we will have a grading system—which was a commitment in our manifesto—in place during the lifetime of this Assembly, and certainly by 2014.

Mae'r tîm yn gweithio i'r hyn a nodir yn y cynllun hwn. Mae'r cynllun yn nodi lefel y perfformiad a gyflawnwyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, fel y'i mesurwyd gan asesiadau athrawon hyd yn hyn, yn ogystal, wrth gwrs, â chanlyniadau cynhwysol lefel 2 mewn ysgolion uwchradd. Mae'r rhain yn feincnodau allweddol i ni pan fyddwn yn llunio barn am berfformiad. Byddwn yn dychwelyd at y mater o raddio ysgolion cynradd; mae'n bosibl y byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd wahanol i'r ffordd yr ydym wedi bandio ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, fel y dywedais, bydd gennym system raddio—a oedd yn ymrwymiad yn ein maniffesto—ar waith yn ystod oes y Cynulliad hwn, ac yn sicr erbyn 2014.

Performance standards are monitored by the new dedicated workforce unit that we have established in the department, which is working closely with the profession on a series of issues, including performance management. That unit has been established in the last few months, and I believe that it is making good progress.

Mae safonau perfformiad yn cael eu monitro gan yr uned gweithlu ymroddedig newydd yr ydym wedi'i sefydlu yn yr adran, sy'n cydweithio'n agos gyda'r proffesiwn ar gyfres o faterion, gan gynnwys rheoli perfformiad. Mae'r uned wedi cael ei sefydlu yn ystod y misoedd diwethaf, a chredaf ei bod yn gwneud cynnydd da.

It is not accurate to say that the consortia are not up and running. They are up and running. However, the overall performance is patchy, as I said in last week's debate. Some are more advanced than others—that is a fact. At the end of the day, as I have said before, they are consortia of local authorities; they are not regional branches of Government. That may be an explanation as to why the performance among them is variable at this point.

Nid yw'n gywir i ddweud nad yw'r consortia wedi'u sefydlu ac yn weithredol. Maent wedi'u sefydlu ac yn weithredol. Fodd bynnag, mae'r perfformiad cyffredinol yn anghyson, fel y dywedais yn y ddadl yr wythnos diwethaf. Mae rhai yn fwy datblygedig nag eraill—mae hynny'n ffaith. Ar ddiwedd y dydd, fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, maent yn gonsortia o awdurdodau lleol; nid ydynt yn ganghennau rhanbarthol

o'r Llywodraeth. Gall hynny fod yn esboniad pam fod y perfformiad yn eu plith yn amrywio ar yr amser hwn.

On the question of whether there is too much change in the system, the system has to change. We are not delivering for our young people, and we have not been. We all know that the PISA results of 2009, which we received in December 2010, were a wake-up call to the system. I have said that before. We have, therefore, put in place a series of improvements, including a proper improvement programme, of some depth, and we have done it at some pace. That is spelled out in this improvement plan.

O ran y cwestiwn a oes gormod o newid yn y system, rhaid i'r system newid. Nid ydym yn cyflawni ar gyfer ein pobl ifanc, ac nid ydym wedi bod. Rydym i gyd yn gwybod bod y canlyniadau PISA yn 2009, a dderbyniwyd gennym ym mis Rhagfyr 2010, yn rhybudd i'r system. Rwyf wedi dweud hynny o'r blaen. Rydym felly, wedi sefydlu cyfres o welliannau, gan gynnwys rhaglen wella briodol, o gryn ddyfnder, ac rydym wedi ei wneud ar rywfaint o gyflymder. Mae hynny wedi ei egluro'n fanwl yn y cynllun gwella.

On funding, it is not accurate to say that a third of the money remains in the back-office. The evidence that we have now is that 81% is delegated to schools by local authorities, and they have their target of reaching 85% by 2014. So, it is not 30% that is remaining in the back-office. However, the issue of funding is one that we are supporting through the school effectiveness grant, as well as the pupil deprivation grant, which has increased in the draft budget that is before the Assembly at present.

O ran cyllid, nid yw'n gywir i ddweud bod traean o'r arian yn aros yn y swyddfa gefn. Y dystiolaeth sydd gennym yn awr yw bod 81% yn cael ei ddirprwyo i ysgolion gan awdurdodau lleol, ac mae ganddynt eu targed o gyrraedd 85% erbyn 2014. Felly, nid 30% sy'n weddill yn y swyddfa gefn. Fodd bynnag, mae'r mater o ariannu yn un yr ydym yn ei gefnogi drwy'r grant effeithiolrwydd ysgolion, yn ogystal â'r grant amddifadedd disgyblion, sydd wedi cynyddu yn y gyllideb ddrafft sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd.

**Simon Thomas:** Ni fyddai'n wythnos yn y Cynulliad heb ddatganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, felly diolch am eich datganiad wythnosol, Weinidog.

**Simon Thomas:** It would not be a week in the Assembly without a statement by the Minister for Education and Skills, so thank you for your weekly statement, Minister.

Croesawaf yr amcanion a'r canllawiau yn y cynllun hwn, 'Gwella Ysgolion'. Mae Plaid Cymru yn cefnogi'r amcanion hynny. Fodd bynnag, mae gennyf nifer o gwestiynau ynglŷn â rhai o'r camau rydych wedi eu nodi yn y ddogfen.

I welcome the objectives and guidelines in this plan, 'School Improvement'. Plaid Cymru supports those objectives. However, I have a number of questions about some of the steps that you have set out in the document.

Dechreuaf drwy sôn am rywbeth nad ydym yn cytuno â chi arno, sef bandio. Gwrandewais yn ofalus arnoch yn awgrymu y bydd bandio ysgolion cynradd yn wahanol i fandio ysgolion uwchradd. Manteisiaf ar y cyfle hwn i ofyn i chi anghofio am fandio ysgolion cynradd yn llwyr, a chanolbwyntio yn hytrach ar gasglu'r data sy'n hanfodol i adnabod ysgolion nad ydynt yn delifro'n llawn. Nid oes tystiolaeth bod bandio yn cyfyngu ar y bwlch tlodi sy'n bodoli rhwng y

I will start by talking about something on which we disagree with you, namely banding. I listened carefully to you suggesting that the banding of primary schools will be different from the banding of secondary schools. I take this opportunity to ask you to forget about banding primary schools entirely, and concentrate instead on collecting the data that are crucial to identifying those schools that are not delivering fully. There is no evidence that banding limits the poverty gap that exists

disgyblion sy'n cyflawni pum TGAU a'r rhai nad ydynt yn cyflawni hynny. Mae'r bwlch hwnnw wedi aros yn ei unfan yng Nghymru, ac yn sicr nid yw wedi cau gyda thablau cynghrair, ac ati, mewn gwledydd eraill. Felly, dylem ganolbwyntio ar gefnogi ysgolion penodol, yn hytrach nag ar system fandio genedlaethol.

between those pupils who achieve five GCSEs and those who do not. That gap has remained constant in Wales, and it certainly has not closed with league tables, and so on, in other nations. Therefore, we should concentrate on supporting particular schools, rather than on a national banding system.

Hoffwn sôn am rywbeth nad ydych wedi sôn amdano yn y datganiad, ond sydd yn y ddogfen. Nodwch yn glir yn y ddogfen mai yn Ebrill 2013 y byddwch yn cyflwyno rheolau newydd o ran cosb benodedig ar gyfer absenoldeb o'r ysgol; hynny yw, yn gosod cosb ar rieni sy'n caniatâu i blant fitsio. Yng nghanllawiau Estyn i ysgolion ar gyfer delio â thlodi, a gyhoeddwyd heddiw, nodir yn glir:

I would like to talk about something that you have not mentioned in your statement, but which is in the document. You state clearly in the document that in April 2013 you will introduce new rules in terms of a specific penalty for school absence; that is, penalising parents who allow their children to mitch. In Estyn's guidelines for schools on how to deal with poverty, published today, it is clearly stated:

'Rewards systems work particularly well, especially to improve attendance'.

Felly, os yw Estyn yn ei ganllawiau i ysgolion yn dweud mai systemau gwobrwyo sy'n gweithio i wella presenoldeb, pam bod rhaglen yn eich dogfen o hyd i gyflwyno cosbau penodedig ar gyfer rhieni sy'n caniatáu i'w plant fod yn absennol?

Therefore, if Estyn in its guidelines for schools states that reward systems work to improve attendance, why is there still a programme in your document to introduce specific penalties for parents who allow their children to be absent?

Rydych yn sôn yn eich datganiad am ormodedd lleoedd ysgol a bod tua 2,000 o leoedd wedi eu tynnu allan o'r system. Eto i gyd, mae Estyn yn canfod bod awdurdodau yn araf iawn yn cyflawni hyn. Cymeraf un enghraifft ddiweddar, sef Powys; dywedodd Estyn bod angen gwella sylweddol ar awdurdod addysg Powys wrth ddelio â lleoedd gwag. Gofynnaf am ychydig mwy o wybodaeth a theimlad oddi wrthych am hyn. A ydych wir yn fodlon ar gynnydd awdurdodau lleol ar y mater hwn? Dywedwch yn benodol y byddech yn cefnogi penderfynu lleol wrth ddelio â lleoedd gwag, felly edrychaf ymlaen at eich cefnogaeth i welliannau Plaid Cymru i'r Bil sydd gerbron y pwyllgor yfory, pan fyddwn, gobeithio, yn eich helpu i roi mwy o ddyletswydd ar awdurdodau lleol i benderfynu ar y materion hyn ac i gael llai o ymyrraeth gan Lywodraeth ganolog.

You mention in your statement the surplus school places and that about 2,000 places have been removed from the system. However, Estyn has discovered that authorities are very slow in achieving this. I will take one recent example, that is, Powys; Estyn said that there needed to be a significant improvement in the way that Powys education authority deals with surplus places. I ask for a little more information on this and your feelings on it. Are you truly content with the progress made by local authorities on this matter? You say specifically that you would support local decision making in dealing with surplus places and, therefore, I look forward to your support for Plaid Cymru's amendments to the Bill that is before committee tomorrow, when we hope that we will assist you in placing more responsibility on local authorities to make decisions in this area with less intervention from central Government.

Trof at eich gobeithion a'ch uchelgais ar

I turn to your hopes and ambitions for

gyfer cyflawniad ym mhrofion PISA. Datganaf ddiddordeb i ddechrau, gan fod fy mab wedi sefyll prawf PISA yr wythnos diwethaf, a gofynnaf y cwestiwn hwn yn y cyd-destun hwnnw: pam rydych yn disgwyl inni wella mor sylweddol erbyn 2015, pan nad ydych yn disgwyl inni wella eleni? Nid wyf yn gweld sut y gallwn gyrraedd targed 2015 heb fod gwelliant eleni hefyd. Rydych eisoes wedi dweud nad ydych yn disgwyl gwelliant eleni. Pa wersi rydych yn eu dysgu o wledydd sydd yn llwyddo yn y PISA, megis y Ffindir ac ati? Mae'n ymddangos i mi mai elwa ar fuddsoddiad yn y dysgu ac ym mhroffesiynoldeb yr athrawon mae'r gwledydd hynny, yn hytrach nag ar arian uniongyrchol yn dilyn fesul disgybl. Nid oes cymaint o arian fesul disgybl yn mynd i'r system, ond mae buddsoddiad yn hytrach ar ochr broffesiynol yr athrawon. Mae hynny'n wers i ni ei hystyried wrth edrych ar y grant amddifadedd disgyblion ac ati.

achievement in the PISA tests. I express an interest here, because my son went through the PISA test last week, and I ask this question in that context: why do you expect us to make such a significant improvement by 2015 when you do not expect us to improve this year? I do not see how we can reach the 2015 target without there being improvement this year. You have already said that you do not expect an improvement this year. What lessons can you learn from countries that are successful in PISA, such as Finland and so on? It seems to me that those countries benefit from an investment in the teaching and in the professionalism of teachers, rather than direct funding following individual pupils. There is not so much money put in to the system per individual pupil, but there is investment on the professional teaching staff side. That is a lesson that we should consider in looking at the pupil deprivation grant and so on.

Yn olaf, rwy'n falch eich bod wedi datgan heddiw bod 20 o'r 22 awdurdod lleol wedi cyrraedd y targed o 80% o ran dyrannu arian yn uniongyrchol i ysgolion. Gofynnais i chi yr wythnos diwethaf neu'r wythnos cyn hynny faint oedd wedi cyflawni hynny, a dywedwch yn awr bod 20 o'r 22 wedi cyflawni hynny. Pa gamau rydych yn mynd i'w cymryd yn awr yn erbyn y ddau awdurdod nad ydynt wedi cyflawni hynny? Rydych wedi sôn yn y gorffennol am dynnu grantiau oddi ar awdurdodau nad oeddent yn dilyn y drefn yn y cyd-destun hwn. A ydych yn dal o'r farn honno, ynteu a ydych yn ffyddiog y bydd pob awdurdod yn y pen draw yn cyflawni'r amcanion?

Finally, I am pleased that you have stated today that 20 of the 22 local authorities have reached the target of 80% in terms of delegating funds directly to schools. I asked you last week or the week before how many had achieved that, and you now say that 20 of the 22 have achieved that. What steps are you now going to take against the two authorities that have not achieved this? You have in the past talked about withdrawing grants from authorities that were not working within the system in this context. Are you still of that view, or are you confident that every authority will eventually achieve that objective?

**Leighton Andrews:** The Plaid Cymru spokesperson expressed general support for our plan, but then asked a series of questions to which I need to respond. In respect of banding, we will shortly be able to account for the performance of the schools in bands 4 and 5 against their performance last year. I look forward to discussing with Members in due course whether there have been improvements across the piece. In respect of primary schools, our manifesto commitment was to the grading of schools and we will implement that manifesto commitment. We have already taken steps through the literacy

**Leighton Andrews:** Mynegodd llefarydd Plaid Cymru gefnogaeth gyffredinol i'n cynllun, ond yna gofynnodd gyfres o gwestiynau y mae angen imi ymateb iddynt. O ran bandio, byddwn yn fuan yn gallu cyfrif am berfformiad yr ysgolion ym mandiau 4 a 5 yn erbyn eu perfformiad y llynedd. Edrychaf ymlaen at drafod gyda'r Aelodau maes o law a fu gwelliannau ar draws y darn. O ran ysgolion cynradd, ein hymrwymiad maniffesto oedd graddio ysgolion a byddwn yn gweithredu'r ymrwymiad maniffesto hwnnw. Rydym eisoes wedi cymryd camau drwy'r fframwaith llythrennedd a rhifedd i

and numeracy framework to develop an approach that will help raise standards, as that is implemented with the national reading and national numeracy tests as well.

ddatblygu dull a fydd yn helpu i godi safonau, fel sy'n cael ei weithredu gyda'r profion darllen cenedlaethol a rhifedd cenedlaethol yn ogystal.

In respect of absence and attendance, it is essential that we do something to address that. That is why it features within the secondary school banding data. It is very important that we have clarity for parents about what is acceptable absence and what is not. Local authorities already have powers to take action against parents in respect of poor attendance and have done so in the past. We are very clear that we want to ensure that we have as many young people in school for as many days of teaching as is possible. That in itself, bluntly, will raise standards significantly. I have said repeatedly in speeches in the past that we will improve performance if we can lift attendance, because young people will then be getting the level of education that they should receive.

O ran absenoldeb a phresenoldeb, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â hynny. Dyna pam y mae i'w weld o fewn y data bandio ysgolion uwchradd. Mae'n bwysig iawn inni fod yn glir i rieni am yr hyn sy'n absenoldeb derbyniol a beth sydd ddim. Mae gan awdurdodau lleol bwerau eisoes i gymryd camau yn erbyn rhieni mewn perthynas â phresenoldeb gwael ac maent wedi gwneud hynny yn y gorffennol. Rydym yn hynod glir ein bod am sicrhau bod gennym gymaint o bobl ifanc yn yr ysgol am gymaint o ddyddiau o addysgu ag sy'n bosibl. Bydd hynny ynddo'i hun, yn blwmp ac yn blaen, yn codi safonau'n sylweddol. Rwyf wedi dweud dro ar ôl tro mewn areithiau yn y gorffennol y byddwn yn gwella perfformiad os gallwn godi presenoldeb, gan y bydd pobl ifanc wedyn yn cael y lefel o addysg y dylent ei gael.

In respect of surplus school places, I think that I used the word 'slow' myself in my statement about local authorities. However, I am pleased that 2,000 surplus places have been taken out of the system. Since May, I have written to all local authorities asking them for detailed assessments of what they are doing to reduce surplus places in primary and secondary schools. We have had the data back from local authorities. I have had a session with my officials going through the responses that I felt were less than satisfactory, and we have written again to those authorities. I will be meeting Cabinet leads for education in local government towards the end of this week, when we will discuss a number of these issues. I will also be looking to discuss with them the issue of the ability to delegate money to local authorities. The Plaid Cymru spokesperson invited me to use my powers to fine local authorities that were not delivering on that commitment, and I will reflect on that.

Mewn perthynas â lleoedd gwag mewn ysgolion, credaf fy mod wedi defnyddio'r gair 'araf' fy hun yn fy natganiad am awdurdodau lleol. Fodd bynnag, rwy'n falch bod 2,000 o leoedd dros ben wedi eu tynnu allan o'r system. Ers mis Mai, rwyf wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn iddynt am asesiadau manwl o'r hyn y maent yn ei wneud i leihau lleoedd dros ben mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Rydym wedi cael y data yn ôl oddi wrth awdurdodau lleol. Rwyf wedi cael sesiwn gyda fy swyddogion yn mynd drwy'r ymatebion yr wyf yn teimlo oedd yn llai na boddhaol, ac rydym wedi ysgrifennu eto at yr awdurdodau hynny. Byddaf yn cyfarfod arweinwyr y Cabinet ar gyfer addysg mewn llywodraeth leol tuag at ddiwedd yr wythnos hon, pan fyddwn yn trafod nifer o'r materion hyn. Byddaf hefyd yn edrych i drafod gyda hwy fater y gallu i ddirprwyo arian i awdurdodau lleol. Mae llefarydd Plaid Cymru wedi fy ngwahodd i ddefnyddio fy mhwerau i ddirwyo awdurdodau lleol nad oeddent yn cyflawni ar yr ymrwymiad hwnnw, a byddaf yn myfyrio ar hynny.

In respect of PISA in 2015, I outlined this

Mewn perthynas â PISA yn 2015, amlinellais

target back in February 2011 as a Minister in the One Wales Government, and that was endorsed by my Cabinet colleagues in the One Wales Government. The reforms that we are seeking to embed will deliver improvements in PISA performance, but they will take time to embed and to work through the system. However, we are putting in place the right approach to ensure that schools understand what is expected within PISA, and that we are able to address the skills issues on which PISA assesses young people.

y targed hwn yn ôl ym mis Chwefror 2011 fel Gweinidog yn Llywodraeth Cymru'n Un, ac fe gafodd ei gymeradwyo gan fy nghydweithwyr yn y Cabinet yn Llywodraeth Cymru'n Un. Bydd y diwygiadau yr ydym yn ceisio eu hymsefydlu yn cyflawni gwelliannau ym mherfformiad PISA, ond byddant yn cymryd amser i ymsefydlu ac i weithio drwy'r system. Fodd bynnag, rydym yn rhoi ar waith y dull cywir i sicrhau bod ysgolion yn deall yr hyn a ddisgwylir o fewn PISA, a'n bod yn gallu mynd i'r afael â'r materion sgiliau y mae PISA yn asesu pobl ifanc arnynt.

You referred to investing in the professionalism of teachers, and in my statement I made reference to the new Master's in educational practice qualification that we have introduced this year, the new arrangements in support of newly qualified teachers and the revised national performance qualification for headteachers. We are investing in the performance of teachers and school leaders.

Roeddech yn cyfeirio at fuddsoddi ym mhroffesiynoldeb athrawon, ac yn fy natganiad rwyf wedi cyfeirio at y cymhwyster Meistr newydd mewn ymarfer addysgol yr ydym wedi'i gyflwyno eleni, y trefniadau newydd i gefnogi athrawon sydd newydd gymhwyso a'r cymhwyster perfformiad cenedlaethol diwygiedig ar gyfer penaethiaid. Rydym yn buddsoddi ym mherfformiad athrawon ac arweinwyr ysgol.

**Aled Roberts:** Rwyf i hefyd yn diolch i'r Gweinidog am ein cadw'n brysur fel llefaryddion addysg, o ganlyniad i nifer y datganiadau sy'n cael eu gwneud. Fodd bynnag, rwy'n siŵr bod hynny hefyd yn adlewyrchu lefel y dasg sydd gan y Gweinidog i wella cyrhaeddiad addysg yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn cymryd ymateb y gwrthbleidiau yn gadarnhaol. Rydym yn ceisio rhyw fath o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut y bydd y patrwm yn newid o fewn y ddwy flynedd nesaf o gymharu â'r perfformiad yn ystod y 12 mlynedd diwethaf.

**Aled Roberts:** I, too, thank the Minister for keeping us, as education spokespeople, busy, given the number of statements that are made. However, I am sure that that also reflects the size of the task facing the Minister in improving educational achievement in Wales. I hope that the Minister will take the views of the opposition parties in a positive way. We are seeking some sort of awareness and understanding of how the pattern will change over the next two years compared with performance over the last 12 years.

Minister, I accept that the original document published on 10 October gives an indication of your expectations with regard to the change from autumn 2012 to 2014. I will not repeat the questions regarding the state of the regional consortia, but in order to understand and to attempt to scrutinise the improvements that you are trying to outline, we need to have some understanding of the information available to us as Assembly Members via the school standards unit as to how that improvement is being effected on the ground.

Weinidog, rwy'n derbyn bod y ddogfen wreiddiol a gyhoeddwyd ar 10 Hydref yn rhoi syniad o'ch disgwyliadau o ran y newid o hydref 2012 i 2014. Nid wyf am ailadrodd y cwestiynau ynglŷn â chyflwr y consortia rhanbarthol, ond er mwyn deall a cheisio craffu ar y gwelliannau yr ydych yn ceisio eu hamlinellu, mae angen i ni gael rhywfaint o ddealltwriaeth o'r wybodaeth sydd ar gael i ni fel Aelodau'r Cynulliad drwy'r uned safonau ysgolion ynghylch sut y mae'r gwelliant yn cael ei effeithio ar lawr gwlad.

The timeline that you referred to in the document shows that, in the last four years, for example, there has been an improvement in level 2 attainment at the age of 16 from 45% to 50%. However, in the next years, you suggest that there will be an improvement from 50% to 65%. I therefore seek reassurance as to how we can be convinced that that improvement will take place.

Mae’r llinell amser yr ydych yn cyfeirio ati yn y ddogfen hon yn dangos, yn ystod y pedair blynedd diwethaf, er enghraifft, y bu gwelliant mewn cyrhaeddiad ar lefel 2 yn 16 oed o 45% i 50%. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd nesaf, rydych yn awgrymu y bydd gwelliant o 50% i 65%. Rwyf felly yn gofyn am sicrwydd ynglŷn â sut y gellir ein darbwyllo y bydd y gwelliant yn digwydd.

Similarly, the report also identifies that action needs to be taken to reduce exclusions. However, we read only yesterday that suspensions of five days or less among pupils with statemented needs have risen by 65% between 2003 and 2011, which again is something that causes concern to us as to what is happening on the ground.

Yn yr un modd, mae’r adroddiad hefyd yn nodi bod angen cymryd camau i leihau gwaharddiadau. Fodd bynnag, roeddem yn darllen ddoe ddiwethaf bod gwaharddiadau o bum niwrnod neu lai ymhlith disgyblion sydd ag anghenion wedi’u datgan wedi codi gan 65% rhwng 2003 a 2011, sydd eto’n rhywbeth sy’n peri pryder i ni o ran yr hyn sy’n digwydd ar lawr gwlad.

3.45 p.m.

**Aled Roberts:** We all welcome the Master’s degree in educational practice. However, again, I would ask you to reassure us with regard to the practical implementation. There was mention of individual mentors. Has that recruitment been done? When you made the statement initially, you also mentioned that you felt that there were sufficient excellent teachers on the ground to come forward, and yet the teaching unions raised concerns at that time. Are you happy with the way it is being rolled out?

**Aled Roberts:** Rydym yn croesawu’r radd Meistr mewn arferion addysgol. Fodd bynnag, eto, byddwn yn gofyn i chi roi sicrwydd i ni o ran gweithredu ymarferol. Roedd sôn am fentoriaid unigol. Ydi’r recriwtio hwnnw wedi ei wneud? Pan wnaethoch y datganiad cyntaf, roeddech hefyd yn sôn eich bod yn teimlo bod digon o athrawon rhagorol ar lawr gwlad i ddod ymlaen, ac eto cododd yr undebau addysgu bryderon bryd hynny. A ydych yn hapus gyda’r ffordd y mae’n cael ei gyflwyno?

I also want to develop the theme with regard to some of the discussions that took place around the urgent question to the Minister for health this afternoon because I think that we have all identified the level of the challenge that you face and the amount of work the department is doing with regard to different initiatives. A number of panels have been established as well as a number of specialist groups and so on. Some of the information on the work that those groups are undertaking is in the public domain, but, in order that we can effectively scrutinise whether we can be assured about this step change and improvement as far as you are concerned, will you consider making more of that information available, certainly to us as Assembly Members, if not to the public?

Rwyf hefyd yn awyddus i ddatblygu’r thema o ran rhai o’r trafodaethau a ddigwyddodd ynghylch y cwestiwn brys i’r Gweinidog iechyd y prynhawn yma oherwydd fy mod yn credu ein bod i gyd wedi nodi lefel yr her sy’n eich wynebu a faint o waith y mae’r adran yn ei wneud mewn perthynas â mentrau gwahanol. Mae nifer o baneli wedi cael eu sefydlu yn ogystal â nifer o grwpiau arbenigol ac yn y blaen. Mae rhywfaint o’r wybodaeth ar y gwaith y mae’r grwpiau hynny yn ei gynnal yn eiddo i’r cyhoedd, ond, er y gallwn graffu’n effeithiol p’un a allwn fod yn sicr am y newid sylweddol hwn a’r gwelliant o’ch rhan chi, a wnewch chi ystyried sicrhau bod mwy o’r wybodaeth ar gael, yn sicr i ni fel Aelodau’r Cynulliad, os nad i’r cyhoedd?

In the final paragraph of your statement, you recognise that much of this process has been built on a collaborative approach as far as improvement is concerned. You identify the work of various partners. Clearly, there are issues within the literacy and numeracy framework and although there is general support for what you are doing, there are practical concerns included in the responses to the consultation. I would hope that you can ensure that the spirit of collaboration continues as far as practical implementation is concerned.

Ym mharagraff olaf eich datganiad, rydych yn cydnabod bod llawer o'r broses hon wedi ei hadeiladu ar ymagwedd gydweithredol cyn belled ag y mae'r gwelliant yn y cwestiwn. Rydych yn nodi gwaith y gwahanol bartneriaid. Yn amlwg, mae materion o fewn y fframwaith llythrennedd a rhifedd, ac er bod cefnogaeth gyffredinol i'r hyn yr ydych yn ei wneud, mae pryderon ymarferol a gynhwysir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Byddwn yn gobeithio y gallwch sicrhau bod ysbryd o gydweithio yn parhau cyn belled ag y mae gweithrediad ymarferol yn y cwestiwn.

**Leighton Andrews:** Performance has improved over the lifetime of devolution. We have fewer young people leaving education without qualifications now and we have seen improvements in performance at GCSE and A-level. Some of this is set out in the document. In respect of the work of the school standards unit, it is currently working on the banding for this year and looking at the results from the summer. We will have more material to publish in due course. With regard to the publication of material, I am very happy to share with the Member whatever information he wants. Perhaps he would like to write to me. I have invited him to write to me on a number of occasions when he has responded to statements I have made, but I am not sure that I have ever had a letter in response to my invitations. However, I invite him again.

**Leighton Andrews:** Mae perfformiad wedi gwella yn ystod oes datganoli. Mae gennym lai o bobl ifanc yn gadael addysg heb gymwysterau yn awr ac rydym wedi gweld gwelliannau mewn perfformiad mewn TGAU a Safon Uwch. Mae rhywfaint o hyn wedi'i nodi yn y ddogfen. O ran gwaith yr uned safonau ysgolion, mae ar hyn o bryd yn gweithio ar y bandio ar gyfer eleni ac yn edrych ar y canlyniadau'n deillio o'r haf. Bydd gennym fwy o ddeunydd i'w gyhoeddi maes o law. O ran cyhoeddi deunydd, rwyf yn hapus i rannu gyda'r Aelod pa wybodaeth bynnag y mae ei eisiau. Efallai yr hoffai ysgrifennu ataf. Rwyf wedi ei wahodd i ysgrifennu ataf ar nifer o achlysuron pan mae wedi ymateb i ddatganiadau yr wyf wedi'u gwneud, ond nid wyf yn siŵr fy mod erioed wedi cael llythyr mewn ymateb i fy ngwahoddiadau. Fodd bynnag, hoffwn ei wahodd eto.

In respect of the level 2 inclusive, what we have said in the national implementation plan is that we have a national ambition to reach 65%. That is where we should be in my view. That is what people should be aiming for. It would be a radical step to get there in a short time frame, but this is an ambition, not a target.

O ran y lefel 2 gynhwysol, yr hyn yr ydym wedi'i ddweud yn y cynllun gweithredu cenedlaethol yw bod gennym uchelgais genedlaethol i gyrraedd 65%. Dyna lle y dylem fod yn fy marn i. Dyna'r hyn y dylai pobl fod yn anelu ato. Byddai'n gam radical i gyrraedd yno mewn cyfnod byr o amser, ond uchelgais yw hyn, nid targed.

In respect of reducing exclusions, the Member makes a very fair point about young people with statements of special educational needs. That, of course, is one of the reasons why we are reforming the framework for additional learning needs and have been consulting on that with the intention of introducing personal plans for young people

O ran lleihau nifer y gwaharddiadau, mae'r Aelod yn gwneud pwynt teg iawn am bobl ifanc â datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae hynny, wrth gwrs, yn un o'r rhesymau pam ein bod yn diwygio'r fframwaith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ac wedi bod yn ymgynghori ar hynny gyda'r bwriad o gyflwyno cynlluniau

in that situation to replace statementing in future. I think that we are aware of the problems that exist. We have had a number of pilot schemes under way to assess what is working in respect of young people with additional learning needs, but there is clearly significantly more work to be done, particularly on a multiservice basis.

personol ar gyfer pobl ifanc yn y sefyllfa honno i ddisodli datganiadau yn y dyfodol. Rwy'n credu ein bod yn ymwybodol o'r problemau sy'n bodoli. Mae gennym nifer o gynlluniau peilot ar y gweill i asesu beth sy'n gweithio mewn perthynas â phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond mae'n amlwg bod llawer mwy o waith i'w wneud, yn enwedig ar sail amlwasanaeth.

I am glad that the Member welcomed the Master's in educational practice. I think that it has been very well received by newly qualified teachers. I think that we have the mentors in place; recruitment for that has gone well. There is significant excitement about this programme.

Rwy'n falch bod yr Aelod yn croesawu'r radd Meistr mewn arferion addysgol. Rwy'n credu ei bod wedi cael derbyniad da iawn gan athrawon sydd newydd gymhwyso. Credaf fod gennym y mentoriaid yn eu lle; mae recriwtio ar gyfer hynny wedi mynd yn dda. Mae cyffro mawr ynghylch y rhaglen hon.

In respect of the literacy and numeracy framework, we will look at the responses we received during the consultation. Practical issues have been raised. We had anticipated some of those, but there may be others we have not yet anticipated and we will obviously look to resolve them.

O ran y fframwaith llythrennedd a rhifedd, byddwn yn edrych ar yr ymatebion a gawsom yn ystod yr ymgynghoriad. Mae materion ymarferol wedi cael eu codi. Rydym wedi rhagweld rhai o'r rheini, ond efallai fod eraill nad ydym wedi eu rhagweld eto a byddwn yn amlwg yn edrych i'w datrys.

**Jenny Rathbone:** I support very much the Minister's partnership approach, as outlined in the improving schools plan. For example, we must have a partnership approach to improving attendance. Where attendance is poor, it is often an indicator that other aspects of school leadership are not going well. The Minister and, indeed, Simon Thomas will be interested to know that the two children who were chosen to unveil the statue of Fred Keenor on Saturday were pupils of Stacey Primary School, which is where Fred Keenor went to school. They were chosen because of their good attendance and good behaviour in school. I am sure that that will be a reward system that all the other members of the school will remember, as well as those two young people who were privileged to undertake that civic task.

**Jenny Rathbone:** Rwy'n cefnogi yn fawr iawn ymagwedd bartneriaeth y Gweinidog, fel yr amlinellir yn y cynllun gwella ysgolion. Er enghraifft, rhaid inni gael dull partneriaeth o wella presenoldeb. Lle mae presenoldeb yn wael, mae'n aml yn arwydd nad yw agweddau eraill ar arweinyddiaeth yr ysgol yn mynd yn dda. Bydd gan y Gweinidog ac, yn wir, Simon Thomas ddiddordeb i wybod bod y ddau blentyn a ddewiswyd i ddadorchuddio'r cerflun o Fred Keenor ar ddydd Sadwrn yn ddisgyblion o Ysgol Gynradd Stacey, a dyna lle aeth Fred Keenor i'r ysgol. Fe'u dewiswyd oherwydd eu presenoldeb da ac ymddygiad da yn yr ysgol. Rwy'n siŵr y bydd honno'n system wobrwyo y bydd holl aelodau eraill yr ysgol yn ei chofio, yn ogystal â'r ddau berson ifanc yr oedd yn fraint iddynt ymgymryd â'r dasg ddinesig.

I wonder whether the Minister could say a little more about our partnership approach overall towards engaging families in our children's learning. Children spend less than seven hours a day in statutory education. Depending on the age of the child, they spend many more hours with their families. The

Tybed a allai'r Gweinidog ddweud ychydig mwy am ein dull partneriaeth cyffredinol tuag at ymgysylltu â theuluoedd mewn dysgu ein plant. Mae plant yn treulio llai na saith awr y dydd mewn addysg statudol. Yn dibynnu ar oedran y plentyn, maent yn treulio llawer mwy o oriau gyda'u teuluoedd. Mae'r

opportunities for learning in informal situations are great and families play an important role in encouraging children to read and to have that love of learning that we want all our children to have. That is very much in contrast to the system that is being developed in England, where schools are just being encouraged to teach to the test. That is not developing children's love of learning, which is quite a disturbing thing and something that Michael Rosen, a well-known children's author, wrote about recently. If we only get children passing tests as opposed to enjoying reading for its own sake, we really have a problem.

cyfleoedd ar gyfer dysgu mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn wych ac mae teuluoedd yn chwarae rôl bwysig o ran annog plant i ddarllen ac i gael y cariad at ddysgu yr ydym am i'n holl blant ei gael. Mae hynny'n sicr yn wahanol i'r system sy'n cael ei datblygu yn Lloegr, lle mae ysgolion yn cael eu hannog i ddysgu at y prawf yn unig. Nid yw hynny'n datblygu cariad plant at ddysgu, sy'n peri rhywfaint o bryder ac sy'n rhywbeth yr ysgrifennodd Michael Rosen, awdur plant adnabyddus, amdano'n ddiweddar. Os mai dim ond cael plant i basio profion yn hytrach na mwynhau darllen er ei fwyn ei hun yr ydym, yna'n wir mae gennym broblem.

**Leighton Andrews:** I was not at the unveiling of the Fred Keenor statue on Saturday, but I was at the game that followed it, to see the eighth home victory in a row. I very much take on board what my colleague the Member for Cardiff Central said in respect of the importance of attendance as an issue, and that is why we have incorporated it within our secondary school banding. It is a judgment that we have reached following discussions with experts in the field, such as Professor Ken Reid who carried out work for the attendance and behaviour framework for us.

**Leighton Andrews:** Nid oeddwn yn bresennol yn nadorchuddio cerflun Fred Keenor ddydd Sadwrn, ond roeddwn yn y gêm a'i dilynodd, i weld yr wythfed fuddugoliaeth gartref yn olynol. Rwy'n derbyn yr hyn a ddywedodd fy nghydweithiwr yr Aelod dros Ganol Caerdydd am bwysigrwydd presenoldeb fel mater, a dyna pam yr ydym wedi'i gynnwys o fewn ein bandio ysgol uwchradd. Mae'n farn yr ydym wedi'i chyrraedd yn dilyn trafodaethau gydag arbenigwyr yn y maes, megis yr Athro Ken Reid a gyflawnodd waith ar gyfer y fframwaith presenoldeb ac ymddygiad i ni.

In respect of the issue of working with families, we have good examples from the use made by schools of the pupil deprivation grant and, in the past, the school effectiveness grant and other grants to support family engagement in education. Many schools that I visit, in both the primary and secondary sectors, have devised a variety of means of engaging families in learning, both in school hours and outside school hours, and in using school facilities to do that. The doubling of the Flying Start programme under my colleague the Deputy Minister for Children and Social Services will also contribute to that wider understanding of learning.

O ran y mater o weithio gyda theuluoedd, mae gennym enghreifftiau da o'r defnydd a wneir gan ysgolion o'r grant amddifadedd disgyblion ac, yn y gorffennol, y grant effeithiolrwydd ysgolion a grantiau eraill i gefnogi ymgysylltiad teulu mewn addysg. Mae llawer o ysgolion a byddaf yn ymweld â nhw, yn y sectorau cynradd ac uwchradd, wedi dyfeisio amrywiaeth o ddulliau o gynnwys teuluoedd mewn dysgu, yn ystod oriau ysgol ac oriau y tu allan i'r ysgol, ac mewn defnyddio cyfleusterau'r ysgol i wneud hynny. Bydd dyblu'r rhaglen Dechrau'n Deg o dan fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o ddysgu.

In respect of the issue of teaching to the test, that is not something that we would wish to encourage, but it is important that people have the skills to undertake tests or

O ran y mater o addysgu at y prawf, nid yw hynny'n rhywbeth y byddem yn dymuno'i annog, ond mae'n bwysig bod gan bobl y sgiliau i ymgymryd â phrofion neu

examinations. However, we are committed, through the foundation phase, to encouraging young people to learn in an experiential and creative way. That is what the foundation phase does, and it has been widely recognised. In order to support our further engagement with creativity, we have established a group under Professor Dai Smith to look at the whole issue of arts in education, which is being pursued well in many of our schools in Wales.

arholiadau. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo, drwy'r cyfnod sylfaen, i annog pobl ifanc i ddysgu mewn ffordd brofiadol a chreadigol. Dyna'r hyn y mae'r cyfnod sylfaen yn ei wneud, ac mae wedi cael ei gydnabod yn eang. Er mwyn cefnogi ein hymgysylltu ymhellach â chreadigrwydd, rydym wedi sefydlu grŵp o dan yr Athro Dai Smith i edrych ar holl fater y celfyddydau mewn addysg, sydd yn cael ei ddilyn yn dda mewn llawer o'n hysgolion yng Nghymru.

**The Deputy Presiding Officer:** I have two Members left. I will call the Members, but, please, ask focused questions.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae gennyf ddau Aelod ar ôl. Byddaf yn galw'r Aelodau, ond, os gwelwch yn dda, gofynnwch gwestiynau â ffocws.

**Kirsty Williams:** Minister, in anticipation of the new literacy test, could you confirm that teachers and students have the necessary resources through the medium of Welsh to ensure that they are able to prepare and undertake those new literacy tests, which will give them the best chance of succeeding?

**Kirsty Williams:** Weinidog, yn barod ar gyfer y prawf llythrennedd newydd, a allech chi gadarnhau bod gan athrawon a myfyrwyr yr adnoddau angenrheidiol trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu paratoi a chynnal y profion llythrennedd newydd hynny, a fydd yn rhoi'r siawns gorau o lwyddo iddynt?

**Leighton Andrews:** I think that I can confirm that. I am reasonably optimistic on the basis of the work that has been done to develop the new test through the medium of Welsh that the support materials will be in place. If the Member has any specific concerns that are being articulated to her, I would welcome hearing from her on that.

**Leighton Andrews:** Credaf y gallaf gadarnhau hynny. Rwy'n weddol optimistaidd ar sail y gwaith sydd wedi'i wneud i ddatblygu'r prawf newydd trwy gyfrwng y Gymraeg y bydd y deunyddiau cymorth ar gael. Os oes gan yr Aelod unrhyw bryderon penodol sy'n cael eu mynegi iddi, byddwn yn falch o glywed ganddi ar hynny.

**Christine Chapman:** Many of the questions that I had have been covered. However, I have once specific question, Minister. We know that boys and girls can disengage from the education system in their teens for a variety of factors. As improving secondary school performance is a crucial target for improving schools, how can we ensure that this disengagement is effectively challenged?

**Christine Chapman:** Mae nifer o'r cwestiynau oedd gennyf wedi cael sylw. Fodd bynnag, mae gennyf un cwestiwn penodol, Weinidog. Rydym yn gwybod y gall bechgyn a merched ddatgysylltu oddi wrth y system addysg yn eu harddegau am amrywiaeth o ffactorau. Gan fod gwella perfformiad ysgolion uwchradd yn darged hanfodol ar gyfer gwella ysgolion, sut allwn ni sicrhau bod yr ymddieithrio hwn yn cael ei herio'n effeithiol?

**Leighton Andrews:** My colleague the Member for Cynon Valley will know from her work as the Chair of the Children and Young People Committee that we are concerned about the issue of disengagement. That is why we developed the youth engagement action plan in the past; we are

**Leighton Andrews:** Bydd fy nghydweithiwr yr Aelod dros Gwm Cynon yn gwybod o'i gwaith fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ein bod yn pryderu am y mater o ymddieithrio. Dyna pam y gwnaethom ddatblygu'r cynllun gweithredu ymgysylltu â phobl ifanc yn y gorffennol; rydym yn

revising that at the present time. However, to my mind, one of the key elements in this is ensuring that young people have the appropriate literacy and numeracy skills so that they can engage with the curriculum, take part in the curriculum and have the confidence to do so. Every initiative that we are undertaking in Wales, whether it is the foundation phase or the literacy and numeracy framework, is designed to ensure that young people, particularly as they leave primary and go on to secondary schools, are able to engage and to give them the opportunity to take a full part in the curriculum in ways that will interest and engage them and help them in their future development.

adolygu hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn fy marn i, un o'r elfennau allweddol yn hyn yw sicrhau bod pobl ifanc yn cael y sgiliau llythrennedd a rhifedd priodol fel y gallant ymgysylltu â'r cwricwlwm, cymryd rhan yn y cwricwlwm a chael yr hyder i wneud hynny. Mae pob menter yr ydym yn eu cyflwyno yng Nghymru, boed yn y cyfnod sylfaen neu yn y fframwaith llythrennedd a rhifedd, wedi'i gynllunio i sicrhau bod pobl ifanc, yn enwedig wrth iddynt adael ysgolion cynradd a mynd ymlaen i ysgolion uwchradd, yn gallu cymryd rhan a rhoi'r cyfle iddynt i gymryd rhan lawn yn y cwricwlwm mewn ffyrdd a fydd o ddiddordeb ac yn eu cynnwys ac yn eu helpu yn eu datblygiad yn y dyfodol.

## Datganiad: Fframwaith Newydd i Adolygu Ymarfer Plant—Diogelu ac Amddiffyn Plant yn Well
## Statement: New Child Practice Review Framework—Improving Safeguarding and Protection

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Fis Chwefror y llynedd, rhoddais wybod i'r Siambr hon am y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud i ddatblygu fframwaith adolygiadau ymarfer plant newydd yng Nghymru yn lle'r adolygiadau achosion difrifol. Mae cadw plant yn ddiogel yn flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru a bydd yr adolygiadau ymarfer plant newydd yn darparu fframwaith cryfach er mwyn helpu i wireddu'r geiriau hynny'n fwy effeithiol.

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** Last February, I updated this Chamber on the excellent work that is being undertaken to develop a new child practice review framework in Wales to replace serious case reviews. Keeping children safe is a key priority for the Welsh Government and the new child practice reviews will provide a stronger framework to help put those words more effectively into practice.

Byddwch yn cofio'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru tua diwedd 2009, 'Gwella ymarfer ar gyfer amddiffyn plant yng Nghymru: Golwg ar rôl adolygiadau achosion difrifol'. Roeddwn yn croesawu'r adroddiad hwnnw, a gweithiais gyda swyddogion i ystyried sut i roi'r syniadau a archwiliwyd ynddo ar waith. Mae'r gwaith hwnnw bron ar ben ac mae'n bleser gennyf ddweud y bydd y fframwaith newydd yn ei le ym mis Ionawr y flwyddyn nesaf.

You will recall the report by the Care and Social Services Inspectorate Wales in late 2009, 'Improving Practice to Protect Children in Wales: An Examination of the Role of Serious Case Reviews'. I welcomed that report and I worked with officials to consider how the ideas explored in it might be put into practice. That work is nearing completion, and I am delighted to say that the new framework will be in place in January next year.

The CSSIW report was published against a backdrop of increasing evidence, supported by the concerns of professionals and

Cyhoeddwyd adroddiad AGGCC yn erbyn cefndir o dystiolaeth gynyddol, a gefnogir gan bryderon gweithwyr proffesiynol ac

practitioners, that serious case reviews were not effective in improving practice and inter-agency working. It concluded that action was required to create an effective system of learning from practice that was fit for purpose, would support inter-agency practice and better safeguard children.

ymarferwyr, nad yw adolygiadau achosion difrifol yn effeithiol wrth wella ymarfer a gweithio rhyngasiantaethol. Daeth i'r casgliad bod angen gweithredu i greu system effeithiol o ddysgu o ymarfer oedd yn addas at y diben, fyddai'n cefnogi arferion rhyngasiantaethol ac yn diogelu plant yn well.

There can be no quick fix. The work that has now been undertaken has been painstaking and detailed, and we have to ensure that the new framework does exactly what it is intended to do.
We undertook a consultation on the draft child practice review guidance earlier in the year, and the results of that, which have been published, were extremely encouraging. During the consultation, we arranged two well-attended practitioner workshops and have been running pilot reviews to inform the development of the guidance. I am most grateful for the involvement of the safeguarding children boards in Bridgend, Rhondda Cynon Taf, Conwy and Denbighshire. Through the development of this framework, it is practitioners and their need to improve practice that have been the central driving force. I also thank Wendy Rose, an honorary research fellow at Cardiff University, who has been pivotal to this work. Her commitment has been invaluable in supporting multi-agency practitioner groups and the pilot reviews.

Ni all fod unrhyw ateb cyflym. Mae'r gwaith sydd bellach wedi cael ei wneud wedi bod yn drylwyr ac yn fanwl, ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod y fframwaith newydd yn gwneud yn union beth y mae'n bwriadu ei wneud.
Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y canllawiau drafft adolygu arferion plant yn gynharach yn y flwyddyn, ac mae canlyniadau hynny, sydd wedi cael eu cyhoeddi, yn hynod galonogol. Yn ystod yr ymgynghoriad, gwnaethom drefnu dau weithdy ymarferwyr lle'r oedd nifer dda yn bresennol ac rydym wedi bod yn rhedeg adolygiadau peilot i lywio datblygiad y canllawiau. Rwy'n ddiolchgar iawn am gyfraniad y byrddau diogelu plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Conwy a Sir Ddinbych. Drwy ddatblygu'r fframwaith hwn, ymarferwyr a'u hangen i wella arfer oedd y grym gyrru canolog. Hoffwn ddiolch hefyd i Wendy Rose, cymrawd ymchwil anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd, sydd wedi bod yn ganolog i'r gwaith hwn. Mae ei hymrwymiad wedi bod yn amhrisiadwy wrth gefnogi grwpiau ymarferwyr aml-asiantaeth a'r adolygiadau peilot.

What we must promote through this new framework is a positive culture of multi-agency child protection learning and reviewing to improve day-to-day practice. Child practice reviews will set in place a foundation for collective learning by professionals from different agencies through multi-agency practitioner fora. The fora will critically underpin the review process. They will provide opportunities to learn from practice, through a programme of multiprofessional events, to examine complex cases that have gone well, cases currently on the register and cases causing concern. Learning from these events will transfer immediately into local operational policy, protocols, service delivery and practice. This is an important shift in

Beth sy'n rhaid i ni hybu drwy'r fframwaith newydd yw diwylliant cadarnhaol o ddysgu ac adolygu amddiffyn plant aml-asiantaeth er mwyn gwella ymarfer o ddydd i ddydd. Bydd adolygiadau ymarfer plant yn sefydlu sylfaen ar gyfer dysgu ar y cyd gan weithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau drwy fforymau ymarferwyr aml-asiantaeth. Bydd y fforymau yn sail hanfodol i'r broses adolygu. Byddant yn darparu cyfleoedd i ddysgu o arfer, trwy raglen o ddigwyddiadau amlbroffesiwn, i archwilio achosion cymhleth sydd wedi mynd yn dda, achosion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd ac achosion sy'n achosi pryder. Bydd dysgu o'r digwyddiadau hyn yn trosglwyddo ar unwaith i mewn i bolisi gweithredol lleol, protocolau, darparu gwasanaethau ac

emphasis and culture that allows practitioners to reflect and learn from positive circumstances, and not just when things have gone wrong.

arferion. Mae hwn yn newid pwysig mewn pwyslais a diwylliant sy’n caniatáu i ymarferwyr fyfyrio a dysgu o amgylchiadau cadarnhaol, ac nid dim ond pan fydd pethau wedi mynd o chwith.

4.00 p.m.

When a more formal review is required—when there are serious incidents resulting from abuse and neglect—there will be a new system of multi-agency concise and extended child practice reviews. We will be clear when reviews are needed. The main difference between the concise and extended reviews will be whether the child was subject to a co-ordinated multi-agency child protection plan and on the child protection register. The new framework will have a number of features that mark it out from the serious case reviews. These include greater practitioner and family engagement, stronger managerial accountability to ensure a culture of learning, and a more streamlined, flexible and proportionate approach to reviewing inevitably complex cases. While I have been extremely heartened by the enthusiasm of multi-agency practitioners to adopt the new framework, we need to ensure that it is properly embedded and understood to ensure that implementation is effective. We have organised a series of training events—these are already under way—for key practitioners, including potential reviewers, and members of safeguarding children boards. Over 120 people will attend this training, and they will have an important role in ensuring that their colleagues also understand the framework properly.

Pan fydd adolygiad mwy ffurfiol yn ofynnol—pan mae digwyddiadau difrifol o ganlyniad i gam-drin ac esgeulustod—fe fydd system newydd o adolygiadau ymarfer plant aml-asiantaeth cryno ac estynedig. Byddwn yn glir pan fydd angen adolygiadau. Y prif wahaniaeth rhwng yr adolygiadau cryno ac estynedig fydd a oedd y plentyn yn destun cynllun amddiffyn plant cydlynol aml-asiantaeth ac ar y gofrestr amddiffyn plant. Bydd gan y fframwaith newydd nifer o nodweddion sy’n ei wahaniaethu oddi wrth adolygiadau achosion difrifol. Mae’r rhain yn cynnwys mwy o ymgysylltu ymarferwyr a theulu, atebolrwydd rheolaethol cryfach i sicrhau diwylliant o ddysgu, a dull mwy syml, hyblyg a chymesur o adolygu achosion sy’n anochel yn gymhleth. Er fy mod wedi fy nghalonogi yn fawr gan frwdfrydedd ymarferwyr aml-asiantaeth i fabwysiadu’r fframwaith newydd, mae angen i ni sicrhau y caiff ei sefydlu a’i ddeall yn iawn i sicrhau bod gweithredu’r cynllun yn effeithiol. Rydym wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi—mae’r rhain eisoes ar y gweill—ar gyfer ymarferwyr allweddol, gan gynnwys adolygwyr posibl, ac aelodau o fyrddau diogelu plant. Bydd dros 120 o bobl yn mynychu’r hyfforddiant hwn, a bydd ganddynt rôl bwysig o ran sicrhau bod eu cydweithwyr hefyd yn deall y fframwaith yn briodol.

Statutory guidance to support the new framework is being finalised, and the amended Local Safeguarding Children Boards (Wales) Regulations 2006, which give effect to this process, will come into force in January 2013. Review and reflection is critical to child protection arrangements, and I am also committed to ensuring that the new framework contributes to that. We will therefore review the new arrangements within two years of implementation. It is important to recognise that Wales is leading the way in this innovative approach to learning from practice. I know that the UK

Mae canllawiau statudol i gefnogi’r fframwaith newydd yn cael eu cwblhau, a bydd y rheoliadau Byrddau Lleol Diogelu Plant (Cymru) 2006 diwygiedig, sy’n rhoi effaith i’r broses hon, yn dod i rym ym mis Ionawr 2013. Mae adolygu a myfyrio yn hanfodol i drefniadau amddiffyn plant, ac rwyf hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod y fframwaith newydd yn cyfrannu at hynny. Byddwn felly yn adolygu’r trefniadau newydd o fewn dwy flynedd o’u gweithredu. Mae’n bwysig cydnabod bod Cymru yn arwain y ffordd yn y dull arloesol o ddysgu o ymarfer. Gwn fod Llywodraeth y DU yn dal i

Government is still developing its new approach to serious case reviews, and this work will be continuing as child practice reviews come into force in Wales next January.

ddatblygu ei dull newydd o adolygiadau achosion difrifol, a bydd y gwaith hwn yn parhau wrth i arfer adolygiadau plant ddod i rym yng Nghymru fis Ionawr nesaf.

My written statement of 18 October set out details of the safeguarding arrangements that we will be taking forward in the proposed social services and wellbeing (Wales) Bill. One of the key features will be a new legal framework to protect adults at risk. I will also ask my officials to explore how these new arrangements to learn from practice might translate to help support that legal framework.

Roedd fy natganiad ysgrifenedig ar 18 Hydref yn nodi manylion y trefniadau diogelu y byddwn yn eu datblygu yn y Bil gwasanaethau cymdeithasol a lles (Cymru) arfaethedig. Un o'r nodweddion allweddol fydd fframwaith cyfreithiol newydd i amddiffyn oedolion sydd mewn perygl. Byddaf hefyd yn gofyn i fy swyddogion i archwilio sut y gallai'r trefniadau newydd i ddysgu o arfer addasu i helpu i gefnogi'r fframwaith cyfreithiol.

The world can be a cruel place. We must recognise that, sometimes, people treat children in a way that the rest of society finds abhorrent. However, many children across Wales are protected every day by front-line professionals. Those professionals work hard, often in difficult circumstances, and do not receive the recognition and thanks that they deserve. However, we must also be open, honest and transparent when things go wrong and learn the lessons. We need to ensure that this is done in a supported and positive environment that provides the outcomes that we need. I am determined that children in Wales should grow up in families and communities that will not tolerate the abuse of children in any form. A better framework to learn from our experiences will help to ensure that.

Gall y byd fod yn lle creulon. Rhaid i ni gydnabod, weithiau, bod pobl yn trin plant mewn ffordd y mae gweddill y gymdeithas yn eu hystyried yn ffiaidd. Fodd bynnag, mae llawer o blant ledled Cymru yn cael eu hamddiffyn bob dydd gan weithwyr proffesiynol rheng flaen. Mae'r gweithwyr proffesiynol hynny'n gweithio'n galed, yn aml mewn amgylchiadau anodd, ac nid ydynt yn derbyn y gydnabyddiaeth a'r diolch y maent yn ei haeddu. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd fod yn agored, yn onest ac yn dryloyw pan fydd pethau'n mynd o chwith a dysgu'r gwersi. Mae angen i ni sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn awyrgylch cefnogol a chadarnhaol sy'n darparu'r canlyniadau yr ydym eu hangen. Rwy'n benderfynol y dylai plant yng Nghymru dyfu i fyny mewn teuluoedd a chymunedau na fydd yn goddef cam-drin plant mewn unrhyw ffurf. Bydd fframwaith gwell i ddysgu gan ein profiadau yn helpu i sicrhau hynny.

**William Graham:** I welcome the Deputy Minister's statement this afternoon. I am sure that all Members will recognise that high-quality services in Wales for children and young people are absolutely pivotal in assisting future generations to fulfil their full potential. The health of children and young people in Wales is, quite rightly, a matter of serious concern and the welfare of the child must remain paramount. Learning from practice is key, and transferring it immediately into local operational policy delivery and practice is vital. The Deputy

**William Graham:** Croesawaf ddatganiad y Dirprwy Weinidog y prynhawn yma. Rwy'n siŵr y bydd pob Aelod yn cydnabod bod gwasanaethau o ansawdd uchel yng Nghymru ar gyfer plant a phobl ifanc yn gwbl allweddol i gynorthwyo cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu potensial llawn. Mae iechyd plant a phobl ifanc yng Nghymru, yn gwbl briodol, yn fater o bryder difrifol a rhaid i les y plentyn barhau i fod o'r pwys mwyaf. Mae dysgu gan arfer yn allweddol, ac mae ei drosglwyddo ar unwaith i weithredu polisi gweithredol ac arferion lleol yn

Minister's shift in emphasis and culture allows practitioners to reflect and learn from positive circumstances, and not just when things go wrong.

hanfodol. Mae newid y Dirprwy Weinidog mewn pwyslais a diwylliant yn caniatáu i ymarferwyr fyfyrio a dysgu gan amgylchiadau cadarnhaol, ac nid dim ond pan fydd pethau'n mynd o chwith.

I am grateful to the Deputy Minister for establishing the draft terms of reference for the new NHS Wales child safeguarding network. The sharing of best practice between local health boards and the third sector will encourage stronger links and will continue to help push performance forward. I join the Deputy Minister in congratulating the professionals who act on behalf of us all in this challenging field. As the Deputy Minister said, the great work that they do is not always recognised. The Welsh Government must ensure that a robust and coherent statutory framework exists to safeguard and protect children who are at risk. I also welcome the Deputy Minister's recognition that there is much work to do. It is imperative that there is a continuation of service from childhood to adulthood. The transition to adulthood should be a time of excitement and opportunity, yet it is so often a time of stress and anxiety about the possible loss of the support and services currently enjoyed, and of uncertainty about the future. Will the Deputy Minister agree to consult further on the funding of the national safeguarding children board?

Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am sefydlu cylch gorchwyl drafft ar gyfer rhwydwaith diogelu plant newydd GIG Cymru. Bydd rhannu arfer gorau rhwng byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector yn annog cysylltiadau cryfach a bydd yn parhau i helpu gwthio perfformiad ymlaen. Rwy'n ymuno â'r Dirprwy Weinidog mewn llongyfarch y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithredu ar ran pob un ohonom yn y maes heriol hwn. Fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, nid yw'r gwaith gwych y maent yn ei wneud yn cael ei gydnabod bob amser. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod fframwaith statudol cadarn a chydlynol yn bodoli i ddiogelu ac amddiffyn plant sydd mewn perygl. Rwyf hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth y Dirprwy Weinidog fod llawer o waith i'w wneud. Mae'n hanfodol bod parhad mewn gwasanaeth o blentyndod i oedolaeth. Dylai'r cyfnod pontio i oedolaeth fod yn gyfnod o gyffro a chyfle, ond mor aml mae'n amser o straen a phryder am y posibilrwydd o golli'r gefnogaeth a'r gwasanaethau a dderbynnir ar hyn o bryd, ac o ansicrwydd am y dyfodol. Wnaiff y Dirprwy Weinidog gytuno i ymgynghori ymhellach ar gyllid y bwrdd cenedlaethol diogelu plant?

**Gwenda Thomas:** I thank William Graham for those comments. As regards the question at the end about funding, we know that the funding of local safeguarding children boards has been an issue. The reduction of the 22 boards to six and the composition of the local safeguarding children boards mean that the funding issue has to be clarified. I am not going to say this afternoon that I have the full answer to that. I know that this is an issue that might arise and we know that there are non-devolved aspects to the local safeguarding children boards, namely the police, and I am talking to our colleagues in Westminster about that. We are about to vote on new police commissioners and I want to take that aspect forward when we know who the commissioners are in Wales and how we

**Gwenda Thomas:** Diolch i William Graham am y sylwadau hynny. O ran y cwestiwn ar y diwedd ynglŷn â chyllid, rydym yn gwybod bod ariannu byrddau lleol diogelu plant wedi bod yn broblem. Mae gostwng y 22 o fyrddau i chwech a chyfansoddiad y byrddau lleol diogelu plant yn golygu bod rhaid egluro'r mater cyllid. Nid wyf yn mynd i ddweud y prynhawn yma bod gennyf yr ateb llawn i hynny. Gwn fod hwn yn fater a all godi ac rydym yn gwybod bod agweddau sydd heb eu datganoli i'r byrddau lleol diogelu plant, sef yr heddlu, ac rwy'n siarad â'n cydweithwyr yn San Steffan am hynny. Rydym ar fin pleidleisio ar gomisiynwyr heddlu newydd ac rydw i am fynd ymlaen â'r agwedd honno pan fyddwn yn gwybod pwy yw'r comisiynwyr yng Nghymru a sut y

can take that very important issue forward. However, that is all I can say on that this afternoon.

gallwn ddatblygu'r mater pwysig iawn hwn. Fodd bynnag, dyna'r cyfan y gallaf ei ddweud ar hynny y prynhawn yma.

**Jocelyn Davies:** Deputy Minister, you know that we on this side of the Chamber have welcomed your proposals, but have also emphasised the need for education and health professionals to be included. We have a number of questions about the new framework and wider child protection issues. You will be aware of the Estyn report in 2011 that identified confusion about roles and responsibilities among partners on the local safeguarding children boards. Can you assure us that all the roles and responsibilities will be outlined clearly to prevent adverse impacts on multi-agency working? I know that your focus today has been on the local level, because that is where delivery happens, but how will learning and reviewing be achieved at a national level? I am sure that you would be the first to admit that we need to learn things on a national level too.

**Jocelyn Davies:** Ddirprwy Weinidog, gwyddoch ein bod ni ar yr ochr hon i'r Siambr wedi croesawu eich cynigion, ond hefyd wedi pwysleisio bod angen i weithwyr proffesiynol addysg ac iechyd gael eu cynnwys. Mae gennym nifer o gwestiynau am y fframwaith newydd a materion ehangach o ran amddiffyn plant. Byddwch yn ymwybodol o adroddiad Estyn yn 2011 a nododd fod dryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau ymhlith partneriaid ar y byrddau lleol diogelu plant. Allwch chi ein sicrhau y bydd yr holl rolau a chyfrifoldebau yn cael eu hamlinellu'n glir er mwyn atal effeithiau andwyol ar weithio aml-asiantaeth? Gwn fod eich ffocws heddiw wedi bod ar y lefel leol, oherwydd dyna lle mae cyflwyno yn digwydd, ond sut y bydd dysgu ac adolygu yn cael eu cyflawni ar lefel genedlaethol? Rwy'n siŵr mai chi fyddai'r cyntaf i gyfaddef bod angen i ni ddysgu pethau ar lefel genedlaethol hefyd.

I heard what you said about funding, but what impact assessment has been carried out in light of the funding implications for the framework? We would agree with the importance of creating a culture where the primary focus is protecting children, because allegations must be taken seriously, and be perceived to be taken seriously, and must be investigated properly. What arrangements will you make to ensure that the new arrangements provide a variety of places and access points where victims, relatives, carers, friends and so on can report and discuss allegations? How will your arrangements protect whistleblowers? That is an important point. Also, will counselling be available to those who need it?

Clywais yr hyn a ddywedasoch am gyllid, ond pa asesiad o effaith sydd wedi cael ei wneud yng ngoleuni'r goblygiadau ariannu ar gyfer y fframwaith? Byddem yn cytuno â'r pwysigrwydd o greu diwylliant lle mai'r prif ffocws yw diogelu plant, oherwydd mae'n rhaid cymryd honiadau o ddifrif, a rhaid gweld eu bod yn cael eu cymryd o ddifrif, a rhaid eu harchwilio'n briodol. Pa drefniadau a wnewch chi i sicrhau bod y trefniadau newydd yn darparu amrywiaeth o leoedd a phwyntiau mynediad lle gall dioddefwyr, perthnasau, gofalwyr, ffrindiau ac yn y blaen adrodd a thrafod honiadau? Sut y bydd eich trefniadau yn diogelu chwythwyr chwiban? Mae hynny'n bwynt pwysig. Hefyd, a fydd cwnsela ar gael i'r rhai sydd ei angen?

**Gwenda Thomas:** Thank you for those points. I will deal with the issues that I put before Chamber this afternoon and then move on to the wider points that you made about access, whistleblowers and counselling. As regards the setting up of the new local safeguarding children boards, in the statement that I made on 18 October, I made it clear who the partners will be in the new

**Gwenda Thomas:** Diolch i chi am y pwyntiau hynny. Byddaf yn delio â'r materion a roddais gerbron y Siambr y prynhawn yma ac yna'n symud ymlaen at y pwyntiau ehangach a wnaethoch am fynediad, chwythwyr chwiban a chwnsela. O ran sefydlu byrddau lleol diogelu plant newydd, yn y datganiad a wneuthum ar 18 Hydref, rwyf yn ei gwneud yn glir pwy fydd

footprints. I am sure that, when I can talk about the social services and wellbeing Bill and introduce it to the Chamber, clarity will be brought to many of the issues that you have raised this afternoon. However, with regard to multi-agency working, I am sure that we all agree that this is key to safeguarding children in the first place and to reviewing actions.

y partneriaid yn yr olion traed newydd. Rwy'n siŵr, pan allaf siarad am y gwasanaethau cymdeithasol a'r Bil lles a'i gyflwyno i'r Siambr, y ceir eglurder ar lawer o'r materion yr ydych wedi'u codi'r prynhawn yma. Fodd bynnag, o ran gwaith aml-asiantaeth, rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cytuno bod hyn yn allweddol i ddiogelu plant yn y lle cyntaf ac i adolygu camau gweithredu.

Going back over the years, there has always been a lack of working together and of multi-agency working. So, the key word here is 'improvement'—that is what we have to achieve through this. With regard to how this will fit in nationally, as you say, the reviews will take place locally, which has to be the case, but the bigger footprints—the six local safeguarding children boards on a wider footprint—will allow us to immediately have a bigger geographical spread. You will know that I am committed to setting up an independently-chaired national safeguarding children board and, when we know what that model is, I see that as being very much a part of this process. I see it as one of the responsibilities of that national board to share information nationally. So, I think that we have a good structure here.

Wrth fynd yn ôl dros y blynyddoedd, bu diffyg cydweithio a gweithio aml-asiantaeth bob amser. Felly, y gair allweddol yma yw 'gwelliant'—dyna beth y mae'n rhaid i ni ei gyflawni drwy hyn. O ran sut y bydd hyn yn cyd-fynd yn genedlaethol, fel y dywedwch, bydd yr adolygiadau yn digwydd yn lleol, a rhaid iddi fod felly, ond bydd yr olion traed mwyaf—y chwe bwrdd lleol diogelu plant ar ôl troed ehangach—yn ein galluogi i gael lledaeniad daearyddol mwy ar unwaith. Byddwch yn gwybod fy mod wedi ymrwymo i sefydlu bwrdd diogelu plant cenedlaethol wedi'i gadeirio'n annibynnol a, pan fyddwn yn gwybod beth yw'r model, rwy'n gweld hynny fel rhan fawr o'r broses hon. Rwyf yn ei weld fel un o gyfrifoldebau'r bwrdd cenedlaethol i rannu gwybodaeth yn genedlaethol. Felly, credaf fod gennym strwythur da yma.

With regard to access points, we are taking that forward in the Bill, which is all about improvement to social services. With regard to the protection of whistleblowers and counselling, those issues are already within the remit of the Care and Social Services Inspectorate Wales, which, with the Welsh Government, will be very much part of measuring the success of this new way of safeguarding. I am sure that it is the right way to go. With regard to counselling, we know that the children's commissioner has made points about advocacy and I will respond to his report very soon; I think on 20 November. We are developing these services, but we need to develop more clarity as to how we raise awareness of them. We have seen this in recent days with regard to what has happened and what we have been dealing with. So, the Bill and this new framework will go together hand-in-hand to improve the safeguarding of children.

O ran pwyntiau mynediad, rydym yn bwrw ymlaen â hynny yn y Bil, sy'n ymwneud â gwella gwasanaethau cymdeithasol. O ran amddiffyn chwythwyr chwiban a chwnsela, mae'r materion hyn eisoes o fewn cylch gwaith Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, fydd, gyda Llywodraeth Cymru, yn rhan fawr iawn o fesur llwyddiant y ffordd newydd hon o ddiogelu. Rwy'n siŵr mai dyna'r ffordd iawn i fynd. O ran cwnsela, rydym yn gwybod bod y comisiynydd plant wedi gwneud pwyntiau am eiriolaeth a byddaf yn ymateb i'w adroddiad yn fuan iawn; ar 20 Tachwedd rwy'n credu. Rydym yn datblygu'r gwasanaethau hyn, ond mae angen i ni ddatblygu mwy o eglurder o ran sut yr ydym yn codi ymwybyddiaeth ohonynt. Rydym wedi gweld hyn yn y dyddiau diwethaf o ran yr hyn sydd wedi digwydd a beth yr ydym wedi bod yn delio â nhw. Felly, bydd y Bil a'r fframwaith newydd hwn yn mynd gyda'i

gilydd law yn llaw i wella'r gwaith o ddiogelu plant.

**Kirsty Williams:** Deputy Minister, Maria Colwell would have been 46 years old this year. Since her untimely death at the hands of her stepfather, we have seen case after case: Heidi Koseda, Jasmine Beckford, Toni-Ann Byfield, Victoria Climbié, Peter Connelly. Year after year, decade after decade, we are subjected to the most horrific stories of children who have been harmed by those who should have been looking after their interests the most. After each of those cases, we had a big inquiry about what went on and the lessons learned. The running theme through all of them was the need to share information between statutory authorities. Although it took 30 years after Maria's death for there to be a legislative requirement for agencies to share information, far too often we get it wrong.

**Kirsty Williams:** Ddirprwy Weinidog, byddai Maria Colwell wedi bod yn 46 oed eleni. Ers ei marwolaeth annhymig dan ddwylo ei llystad, rydym wedi gweld achos ar ôl achos: Heidi Koseda, Jasmine Beckford, Toni-Ann Byfield, Victoria Climbié, Peter Connelly. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, ddegawd ar ôl degawd, rydym yn agored i'r straeon mwyaf erchyll o blant sydd wedi cael eu niweidio gan y rhai a ddylai fod wedi bod yn gofalu fwyaf am eu buddiannau. Ar ôl pob un o'r achosion hynny, rydym wedi cael ymchwiliad mawr am yr hyn aeth ymlaen a'r gwersi a ddysgwyd. Y thema oedd yn rhedeg drwy bob un ohonynt oedd yr angen i rannu gwybodaeth rhwng awdurdodau statudol. Er iddi gymryd 30 mlynedd ar ôl marwolaeth Maria iddi fod yn ofyniad deddfwriaethol ar gyfer asiantaethau i rannu gwybodaeth, rydym yn ei chael yn anghywir yn llawer rhy aml.

I welcome what you have set out today, but I cannot help but be concerned that we talk more about structures and processes than what needs to be done to support the individuals who have the incredibly difficult job of working with these families. I wonder whether, if we continue to talk about processes and structures, we will escape from this cycle of abuse and public reports.

Croesawaf yr hyn yr ydych wedi'i ddweud heddiw, ond ni allaf beidio â bod yn bryderus ein bod yn siarad mwy am strwythurau a phrosesau na'r hyn sydd angen ei wneud i gefnogi'r unigolion sydd â'r swydd anodd iawn o weithio gyda'r teuluoedd hyn. Tybed, os byddwn yn parhau i siarad am brosesau a strwythurau, a fyddwn yn dianc o'r cylch hwn o gam-drin ac adroddiadau cyhoeddus.

I am particularly interested in your views on the issue of supervision for those involved in child protection cases. When I talk about supervision of social workers, I do not mean it in the sense of being line-managed or in the sense of knowing that the forms have been filled in correctly or that the social worker has attended a family the right number of times in a set period; I am talking about the kind of professional supervision that allows social workers to reflect in a safe place on their practice, interventions, ability and feelings in dealing with the family. Having that reflected by a more senior member of staff allows them to reflect on their practice and take appropriate action at a later date. It seems to me that, although this is beginning to change, there has been a gap for too long in how we support, train and organise the

Mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn clywed eich barn ar y mater o oruchwyliaeth ar gyfer y rhai sy'n ymwneud ag achosion amddiffyn plant. Pan fyddaf yn siarad am oruchwylio gweithwyr cymdeithasol, nid wyf yn golygu yn yr ystyr reoli llinell neu yn yr ystyr o wybod bod y ffurflenni wedi'u llenwi'n gywir neu fod y gweithiwr cymdeithasol wedi rhoi sylw i deulu'r nifer cywir o weithiau mewn cyfnod gosodedig; rwy'n sôn am y math o oruchwyliaeth broffesiynol sy'n caniatáu i weithwyr cymdeithasol adlewyrchu mewn lle diogel ar eu harfer, ymyriadau, gallu a theimladau wrth ddelio gyda'r teulu. Mae cael adlewyrchu hynny gan aelod uwch o staff yn eu galluogi i fyfyrio ar eu harfer a chymryd camau priodol yn ddiweddarach. Mae'n ymddangos i mi, er bod hyn yn dechrau newid, bu bwlch yn rhy

continuing professional development of social workers.

hir yn y ffordd yr ydym yn cefnogi, hyfforddi a threfnu datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr cymdeithasol.

4.15 p.m.

I wonder what your views are on adequate levels of supervision, and how that support can be transferred to other practitioners who may find themselves dealing with these cases. We know that one of the areas of medical shortage is in the field of paediatrics. One of the reasons why people are anxious and afraid of going into paediatrics is because of issues around child protection and the very real difficulties of working in that environment. That is putting people off paediatrics, because they do not feel that they have the ongoing support and training necessary to deal with child protection cases. I wonder what steps the Government will take to address that.

Tybed beth yw eich barn ar lefelau digonol o oruchwyliaeth, a sut y gall cymorth gael ei drosglwyddo i ymarferwyr eraill a allai gael eu hunain yn ymdrin â'r achosion hyn. Rydym yn gwybod bod un o'r meysydd o brinder meddygol ym maes pediatreg. Un o'r rhesymau pam y mae pobl yn bryderus ac yn ofnus ynghylch dilyn pediatreg yw oherwydd materion yn ymwneud ag amddiffyn plant a'r anawsterau gwirioneddol o weithio yn yr amgylchedd hwnnw. Mae hynny'n troi pobl oddi wrth bediatreg, oherwydd nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael y gefnogaeth barhaus a'r hyfforddiant angenrheidiol i ddelio ag achosion amddiffyn plant. Tybed pa gamau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd i ymdrin â hynny.

**Gwenda Thomas:** Beginning with the serious case of Maria Colwell, I can assure you that it has guided me to where I believe we are now, and this will be an improvement. As I mentioned earlier, multi-agency working has not always been what it should be, but we all know that there has been good practice, and the issue is how we share it, to give us a continuous learning process. That is important. The multi-agency practice fora will be the key to that. They will look at cases that have gone well, and will share that information, as well as looking at why things have gone wrong when they have gone wrong. That is right.

**Gwenda Thomas:** Gan ddechrau gydag achos difrifol Maria Colwell, gallaf eich sicrhau ei fod wedi fy arwain i lle'r wy'n credu yr ydym yn awr, a bydd hyn yn welliant. Fel y soniais yn gynharach, nid yw gweithio aml-asiantaeth bob amser wedi bod yr hyn y dylai fod, ond gwyddom i gyd y bu arfer da, a'r mater yw sut yr ydym yn ei rannu, i roi proses ddysgu barhaus i ni. Mae hynny'n bwysig. Bydd y fforymau ymarfer aml-asiantaeth yn allweddol i hynny. Byddant yn edrych ar achosion sydd wedi mynd yn dda, a byddwn yn rhannu'r wybodaeth honno, yn ogystal ag edrych ar y rhesymau pam mae pethau wedi mynd o chwith pan fyddant wedi mynd o chwith. Mae hynny'n gywir.

The fact that we will have concise and extended reviews will be important, too. Where a child has not been known to social services, we will have a concise review. Where a child has been known, where a child is on the child protection register, or where there has been a care plan, there will be an extended review to look at how those plans have worked and how that child has been protected—or not—with regard to the process that has gone before: the history of the case, if you like. That has got to be a part of the learning process. The fora will

Bydd y ffaith y bydd gennym adolygiadau cryno ac estynedig yn bwysig, hefyd. Pan nad yw plentyn wedi bod yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol, byddwn yn cael adolygiad cryno. Os yw plentyn wedi bod yn hysbys, lle mae plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant, neu lle bu cynllun gofal, bydd adolygiad estynedig i edrych ar sut y mae'r cynlluniau wedi gweithio a sut y mae'r plentyn wedi cael ei ddiogelu—neu ddim—o ran y broses a gafwyd yn flaenorol: hanes yr achos, os mynnwch. Rhaid i hynny fod yn rhan o'r broses ddysgu. Bydd y fforymau yn

underpin it all, the health service will be involved in the local safeguarding children boards, and I hear what you say about paediatricians.

sail iddo i gyd, bydd y gwasanaeth iechyd yn rhan o'r byrddau lleol diogelu plant, ac rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch am bediatregwyr.

I know that we all agree that it is crucial that children and young people can come forward when they want to tell us about abuse, and it is equally important to avoid somebody being wrongly accused. Protecting the workforce is an issue, as well, and these are things that the new multi-agency practice reviews can look at. It is a genuine, good step forward. The workforce development that we are proposing will also look at the training of the workforce, and the career pathways should give us a clearer view of how we recruit social workers and support them, particularly in the first years. That is really an issue of management, and an issue for local authorities, as well. We are dealing today with safeguarding, primarily, and across the workforce this will be a better way of doing what we have previously done through serious case reviews, which were not fit for purpose, took too long, and by the time we had anything to learn from, we were too far down the road to do that.

Gwn ein bod i gyd yn cytuno ei bod yn hanfodol y gall plant a phobl ifanc ddod ymlaen pan fyddant eisiau dweud wrthym am gamdriniaeth, ac mae'r un mor bwysig er mwyn osgoi gweld rhywun yn cael ei gyhuddo ar gam. Mae amddiffyn y gweithlu yn broblem, yn ogystal, ac mae'r rhain yn bethau y gall yr adolygiadau ymarfer aml-asiantaeth newydd edrych arnynt. Mae'n gam dilys, da ymlaen. Mae'r datblygiad gweithlu yr ydym yn ei gynnig hefyd yn edrych ar hyfforddiant y gweithlu, a dylai'r llwybrau gyrfa roi darlun cliriach i ni o sut yr ydym yn recriwtio gweithwyr cymdeithasol ac yn eu cefnogi, yn enwedig yn y blynyddoedd cyntaf. Mater rheoli yw hynny mewn gwirionedd, ac yn fater i awdurdodau lleol, yn ogystal. Rydym yn delio heddiw gyda diogelu, yn bennaf, ac ar draws y gweithlu bydd hyn yn ffordd well o wneud yr hyn yr ydym wedi ei wneud yn flaenorol drwy adolygiadau achos difrifol, nad oeddent yn addas at y diben, yn cymryd rhy hir, ac erbyn yr amser yr oedd gennym unrhyw beth i'w dysgu ganddynt, roeddem wedi symud ymlaen ormod i wneud hynny.

**Joyce Watson:** I thank the Deputy Minister for her statement, and I look forward to the implementation of the new framework in the new year. If there is any silver lining to be seen in the storm and maelstrom of the child sex abuse scandals that have hit the headlines in this past month, it is perhaps the renewed focus that it has put on how we shield vulnerable children from harm. In Pembrokeshire, we are still dealing with the fall-out of systemic failures at the county council, including its failure to act on serious child safeguarding complaints. As you say, it is not only children who are let down, but also dedicated staff

**Joyce Watson:** Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad, ac edrychaf ymlaen at weithredu'r fframwaith newydd yn y flwyddyn newydd. Os oes unrhyw ymyl arian i'w weld yn storm a throbwll y sgandalau cam-drin plant yn rhywiol sydd wedi cyrraedd y penawdau yn y mis diwethaf, efallai mai hwnnw yw'r ffocws o'r newydd y mae wedi ei roi ar sut yr ydym yn gwarchod plant agored i niwed rhag niwed. Yn Sir Benfro, rydym yn dal i ddelio gydag effeithiau methiannau systemig yn y cyngor sir, gan gynnwys ei fethiant i weithredu ar gwynion diogelu plant difrifol. Fel y dywedwch, nid plant yn unig sy'n cael eu siomi, ond staff ymroddedig hefyd

As the Deputy Minister will be aware, Graham Longster, Pembrokeshire's director of education and children's services, announced his retirement last month, citing an unwillingness to continue working under

Fel y bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol, cyhoeddodd Graham Longster, cyfarwyddwr addysg a gwasanaethau plant Sir Benfro, ei ymddeoliad y mis diwethaf, gan nodi amharodrwydd i barhau i weithio o

the direction of a ministerial board. Mr Longster's statement will have unsettled many people who, like me, just want to be confident that rapid and meaningful improvements in child safeguarding arrangements are happening in Pembrokeshire. Therefore, can you assure my constituents that the ministerial board will continue to support the authority to help it to address the concerns highlighted in the original Care and Social Services Inspectorate Wales and Estyn inspections, and also that Pembrokeshire will be in a position to implement the new framework in January? How will you monitor progress under the new framework, and will you be issuing any advice to local authorities on how they might monitor the implementation of the new framework, particularly in relation to their duty of scrutiny?

dan gyfarwyddyd bwrdd gweinidogol. Bydd datganiad Mr Longster wedi anesmwytho llawer o bobl sydd, fel fi, ddim ond yn dymuno bod yn hyderus bod gwelliannau cyflym ac ystyrlon yn y trefniadau diogelu plant yn digwydd yn Sir Benfro. Felly, a allwch sicrhau fy etholwyr y bydd y bwrdd gweinidogol yn parhau i gefnogi'r awdurdod i'w helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd yn arolygiadau gwreiddiol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn, a hefyd y bydd Sir Benfro mewn sefyllfa i weithredu'r fframwaith newydd ym mis Ionawr? Sut fyddwch chi'n monitro cynnydd o dan y fframwaith newydd, ac a fyddwch yn cyhoeddi unrhyw gyngor i awdurdodau lleol ar sut y maent yn monitro gweithrediad y fframwaith newydd, yn enwedig mewn perthynas â'u dyletswydd graffu?

**Gwenda Thomas:** I thank Joyce Watson for her contribution. We have made it clear in statements that the Minister for education has issued that he is leading on the Pembrokeshire board at the moment, given that the issues that arose there were mainly in the education context. We are working closely together and, of course, I am being involved where the issue touches on social services. I will defer to the Minister for education, because I know that he will want to keep Members informed of what is currently happening in Pembrokeshire.

**Gwenda Thomas:** Diolch i Joyce Watson am ei chyfraniad. Rydym wedi ei gwneud yn glir mewn datganiadau y mae'r Gweinidog addysg wedi'u cyhoeddi ei fod yn arwain ar fwrdd Sir Benfro ar hyn o bryd, o ystyried bod y materion a gododd yn bennaf yng nghyd-destun addysg. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n gilydd ac, wrth gwrs, rwyf yn cymryd rhan lle mae'r mater yn cyffwrdd ar y gwasanaethau cymdeithasol. Byddaf yn ildio i'r Gweinidog dros addysg, oherwydd gwn y bydd yn awyddus i roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau am yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn Sir Benfro.

Your wider point on the need to safeguard and protect vulnerable children is well made. Pembrokeshire will become a part of the geographical footprint, and it will be a constituent authority included in that local safeguarding children board. These regulations will have to be implemented in Pembrokeshire, Carmarthenshire and Ceredigion, just as they will anywhere else. Therefore, there is clear guidance: the statutory guidance that I will publish shortly will set all this out clearly, and the regulations will be the legislative base to bring that in. I know that we are talking about local safeguarding children boards, but, in principle, I think that this can allow us to learn in introducing the local safeguarding adults boards. I do not see why we cannot

Mae eich pwynt ehangach ar yr angen i ddiogelu ac amddiffyn plant agored i niwed yn cael ei wneud yn dda. Bydd Sir Benfro yn dod yn rhan o'r ôl troed daearyddol, a bydd yn awdurdod cyfansoddol a gynhwysir yn y bwrdd lleol diogelu plant. Bydd raid i'r rheoliadau hyn gael eu gweithredu yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, yn union fel y byddant yn unrhyw le arall. Felly, ceir arweiniad clir: bydd canllawiau statudol y byddaf yn eu cyhoeddi cyn bo hir yn nodi hyn i gyd yn glir, a bydd y rheoliadau yn sylfaen deddfwriaethol i ddod â hynny i mewn. Gwn ein bod yn sôn am fyrddau lleol diogelu plant, ond, mewn egwyddor, rwy'n meddwl y gall hyn ein galluogi i ddysgu wrth gyflwyno'r byrddau lleol diogelu oedolion. Dydw i ddim yn gweld pam na allwn ddysgu

learn from the process and, possibly, extend it to all people who are at risk in any circumstances that cause them harm.

gan y broses ac, o bosibl, ei hymestyn i'r holl bobl sydd mewn perygl mewn unrhyw amgylchiadau sy'n achosi niwed iddynt.

**Alun Ffred Jones:** Rwyf wedi bod yn delio ag achos difrifol iawn ar ran rhiant i blentyn a gollodd ei fywyd mewn amgylchiadau trist iawn yn y gogledd-orllewin. O dan y drefn bresennol, un gwendid yw'r diffyg hawl i apelio yn erbyn adolygiad o achos difrifol, sydd wedi bod yn broblem sylweddol iawn i'r rhiant hwn ac i bobl eraill mewn achosion tebyg. A fydd hawl i herio adolygiad neu adroddiad o achos difrifol o dan y fframwaith newydd?

**Alun Ffred Jones:** I have been involved in a very serious case on behalf of the parent of a child who died in very tragic circumstances in north-west Wales. Under the current system, one failing is the fact that there is no right to appeal against a serious case review, which has caused considerable problems for this parent and for others in similar situations. Will there be a right to appeal a review or inquiry into a serious case under the new framework?

**Gwenda Thomas:** Diolch, Alun Ffred, am godi'r mater, ond mater unigol ydyw, wrth gwrs, a gwn eich bod eisoes wedi ysgrifennu ataf yn ei gylch. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw y bydd gan deuluoedd fwy o ran i'w chwarae yn y broses o dan y system newydd, a chredaf fod hynny'n hollbwysig. Os bydd rhywbeth yn anghywir mewn adroddiadau, gellid eu herio yn awr, ond mae'n hollbwysig bod teuluoedd yn cael mwy o hawl i chwarae rhan yn y broses, a bydd y system newydd yn caniatáu hynny.

**Gwenda Thomas:** Thank you, Alun Ffred, for raising that matter, but it is an individual matter, of course, and I know that you have already written to me about it. What I can say is that families will have more of a part to play in the process under the new system, which I believe is fundamental. If something is incorrect in reports, they can be challenged under the current regime, but it is vital that families have more of a right to play a part in the process, and the new system will enable that.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 4.23 p.m.*
*The Presiding Officer took the Chair at 4.23 p.m.*

## Y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14
## The Draft Budget 2013-14

**The Presiding Officer:** I remind Members that the Minister for Finance and Leader of the House will speak for 20 minutes to open and close the debate, the Chair of the Finance Committee will speak for 10 minutes and the movers of amendments will also have 10 minutes. Everyone else will have five minutes in which to speak.

**Y Llywydd:** Rwy'n atgoffa Aelodau y bydd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ yn siarad am 20 munud i agor a chau'r ddadl, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn siarad am 10 munud, a bydd y rhai a gynigiodd newidiadau hefyd yn cael 10 munud. Bydd pawb arall yn cael pum munud i siarad.

I have selected amendment 1 in the name of William Graham, and amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts.

Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw William Graham, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts.

*Cynnig NDM5087 Jane Hutt*

*Motion NDM5087 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 20.12:*

*Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-2014 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ar 2 Hydref 2012.*

*Notes the Draft Budget for the financial year 2013-2014 laid in the Table Office by the Minister for Finance and Leader of the House on 2 October 2012.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

Delivering the draft budget for growth and jobs for 2013-14 has been the key priority of the Welsh Government, and I welcome the opportunity to debate it today in the Chamber.

Mae darparu'r gyllideb ddrafft ar gyfer twf a swyddi ar gyfer 2013-14 wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, ac rwy'n croesawu'r cyfle i gael dadl arni heddiw yn y Siambr.

From the outset of the spending review, we have been open about the challenges that we face as a result of the reductions to our budget over this period. We are committed to playing our part in reducing the deficit, and we are setting and living within challenging budgets. However, we have been clear about our priorities based on our manifesto and programme for government, and we are intent on delivering them.

O gychwyn cyntaf yr adolygiad o wariant, rydym wedi bod yn agored ynghylch yr heriau sy'n ein hwynebu o ganlyniad i'r gostyngiadau yn ein cyllideb dros y cyfnod hwn. Rydym wedi ymrwymo i chwarae ein rhan i leihau'r diffyg, ac rydym yn gosod ac yn byw o fewn cyllidebau heriol. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn glir ynghylch ein blaenoriaethau ar sail ein maniffesto a'r rhaglen lywodraethu, ac rydym yn benderfynol o gyflawni arnynt.

The challenge has been made harder by the prevailing economic and financial conditions. While we welcome some recent initiatives announced by the UK Government to encourage private sector investment and provide an economic boost, we still believe that the UK Government is not going far enough in its actions to stimulate growth. At the finance Ministers' quadrilateral meeting last week, I pressed again for a much-needed further injection of capital investment in the autumn statement. That was a call backed by my ministerial colleagues in Scotland and Northern Ireland.

Mae'r her wedi cael ei gwneud yn fwy anodd gan yr amodau economaidd ac ariannol. Er ein bod yn croesawu rhai mentrau diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU i annog buddsoddiad gan y sector preifat a rhoi hwb economaidd, rydym yn dal i gredu nad yw Llywodraeth y DU yn mynd yn ddigon pell yn ei chamau gweithredu i ysgogi twf. Yng nghyfarfod pedairochrog y Gweinidog cyllid yr wythnos diwethaf, pwysais eto am chwistrelliad pellach mawr ei angen o fuddsoddiad cyfalaf yn natganiad yr hydref. Roedd honno'n alwad a gefnogwyd gan fy nghyd-Weinidogion yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Notwithstanding that, we have taken action to provide an economic stimulus, using every lever available to us to back the economy and the people of Wales during these difficult times. This includes ensuring that we use the resources available to us in the most effective ways and developing a range of innovative financing initiatives, which will deliver well over £1 billion-worth of capital investment in Wales between now and 2020.

Er hynny, rydym wedi cymryd camau i roi hwb economaidd, gan ddefnyddio pob cyfrwng sydd ar gael i ni i gefnogi economi a phobl Cymru yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni yn y ffyrdd mwyaf effeithiol a datblygu ystod o fentrau ariannu arloesol, a fydd yn darparu gwerth ymhell dros £1 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf yng Nghymru rhwng nawr a 2020.

Through our budget for growth and jobs, we

Drwy ein cyllideb ar gyfer twf a swyddi,

are providing £175 million of additional capital investment, in line with the priorities set out in the Wales infrastructure investment plan. This strategic investment will create or sustain more than 3,000 jobs over the next two years.

rydym yn darparu £175 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol, yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru. Bydd y buddsoddiad strategol hwn yn creu neu yn cynnal dros 3,000 o swyddi dros y ddwy flynedd nesaf.

In addition, this draft budget continues our protection for schools and health and social services. Our approach has been vindicated, as shown in the recent Institute for Fiscal Studies' report on local government spending across the UK. We are also maintaining support for universal benefits, which are an investment in the social fabric of Wales and reflect our longer-term commitments to tackle poverty and promote equality. They also help to ease the financial pressures now widely experienced by the people of Wales.

Yn ogystal, mae'r gyllideb ddrafft yn parhau ein diogelu ar gyfer ysgolion a gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Mae ein dull wedi cael ei gyfiawnhau, fel y dangosir yn adroddiad diweddar y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar wariant llywodraeth leol ar draws y DU. Rydym hefyd yn cynnal cefnogaeth ar gyfer buddion cyffredinol, sy'n fuddsoddiad yn ffabrig cymdeithasol Cymru ac yn adlewyrchu ein hymrwymiadau tymor hwy i fynd i'r afael â thlodi a hyrwyddo cydraddoldeb. Maent hefyd yn helpu i leddfu'r pwysau ariannol y mae pobl Cymru yn eu profi'n eang ar hyn o bryd.

This is especially important given the UK Government's approach to welfare reform, which will impact on the most vulnerable people in Wales and the economy as a whole. Our ministerial task and finish group is monitoring the impact of these changes and will publish its second report shortly. We will use the report's findings to target our efforts to help to mitigate the negative impacts of the changes here in Wales.

Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried dull Llywodraeth y DU o ddiwygio lles, a fydd yn effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru a'r economi yn ei chyfanrwydd. Mae ein grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol yn monitro effaith y newidiadau hyn a bydd yn cyhoeddi ei ail adroddiad maes o law. Byddwn yn defnyddio canfyddiadau'r adroddiad i dargedu ein hymdrechion i helpu i liniaru effeithiau negyddol y newidiadau yma yng Nghymru.

Publishing our draft budget is only one step on the journey. We continue to develop ideas, monitor our plans, and explore opportunities to boost the Welsh economy as they emerge throughout the year. For example, our proposals for enterprise zones continue to develop.

Dim ond un cam ar y daith yw cyhoeddi ein cyllideb ddrafft. Rydym yn parhau i ddatblygu syniadau, monitro ein cynlluniau, ac archwilio cyfleoedd i hybu economi Cymru wrth iddynt ddod i'r amlwg trwy gydol y flwyddyn. Er enghraifft, mae ein cynigion ar gyfer ardaloedd menter yn parhau i ddatblygu.

We are boosting our planned infrastructure investment through innovative financing initiatives. We have already announced the £170 million-worth three-year local government highways initiative, the £90 million Welsh housing partnership, and the Ely bridge project, which will deliver around 700 homes, and we are looking for further opportunities.

Rydym yn rhoi hwb i'n buddsoddiad seilwaith a gynlluniwyd drwy fentrau ariannu arloesol. Rydym eisoes wedi cyhoeddi menter priffyrdd tair blynedd llywodraeth leol gwerth £170 miliwn, partneriaeth tai Cymru gwerth £90 miliwn, a'r prosiect pont Trelái, a fydd yn darparu tua 700 o gartrefi, ac rydym yn chwilio am gyfleoedd pellach.

That is why I was pleased that the Minister for Housing, Regeneration and Heritage announced the establishment of the Welsh mortgage guarantee scheme, which will increase the supply of affordable homes and increase access to home ownership. The scheme, which will start in early 2013, will help up to 3,000 individuals or families with just a 5% deposit to purchase a new-build property in Wales. Exploring options for this scheme formed part of our discussions with the Welsh Liberal Democrats during the budget negotiations last year. Since then, we have developed a viable proposal, supported by a £27 million guarantee that could enable an investment in housing of up to £500 million within a three-year period, providing the opportunity for a much-needed boost for the construction industry in Wales.

Dyna pam yr oeddwn yn falch bod y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth wedi cyhoeddi sefydlu cynllun gwarant morgais yng Nghymru, a fydd yn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a chynyddu mynediad at berchnogaeth cartref. Bydd y cynllun, a fydd yn cychwyn yn gynnar yn 2013, yn helpu hyd at 3,000 o unigolion neu deuluoedd gyda dim ond blaendal o 5% i brynu eiddo sydd wedi'i adeiladu o'r newydd yng Nghymru. Roedd archwilio opsiynau ar gyfer y cynllun hwn yn ffurfio rhan o'n trafodaethau gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ystod y trafodaethau ar y gyllideb y llynedd. Ers hynny, rydym wedi datblygu cynnig dichonadwy, a gefnogir gan warant o £27 miliwn a allai sicrhau buddsoddiad mewn tai o hyd at £500 miliwn o fewn cyfnod o dair blynedd, gan ddarparu'r cyfle i gael hwb mawr ei angen i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru.

We are a responsive Government, and I welcome the feedback emerging from the scrutiny of our spending plans. In particular, I recognise the effective contribution of the Assembly's committees. I particularly thank the Finance Committee, not just for the report on the draft budget but for the constructive dialogue that we have maintained throughout the year.

Rydym yn Llywodraeth ymatebol, a chroesawaf yr adborth sy'n dod i'r amlwg o'r craffu ar ein cynlluniau gwario. Yn benodol, rwy'n cydnabod cyfraniad effeithiol pwyllgorau'r Cynulliad. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Pwyllgor Cyllid, nid yn unig am yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft, ond am y deialog adeiladol yr ydym wedi ei gynnal drwy gydol y flwyddyn.

We are considering its conclusions and recommendations carefully. However, a key message from all the scrutiny is recognition of the very difficult times and difficult decisions that we have faced. The reality of the current economic conditions is that we have to work harder than ever to deliver our objectives. We note the committee's concerns about affordability. We are confident that we have got our allocations in the right place and that we can afford to deliver the programme for government. However, throughout the year, we will be monitoring and reviewing our spending plans to ensure that we can deliver. The programme for government annual report makes an important contribution.

Rydym yn ystyried ei gasgliadau a'i argymhellion yn ofalus. Fodd bynnag, un o negeseuon allweddol yr holl graffu yw cydnabod y cyfnod anodd iawn a'r penderfyniadau anodd yr ydym wedi'u hwynebu. Realiti'r sefyllfa economaidd bresennol yw bod yn rhaid inni weithio'n galetach nag erioed i gyflawni ein hamcanion. Rydym yn nodi pryderon y pwyllgor ynghylch fforddiadwyedd. Rydym yn hyderus ein bod wedi cael ein dyraniadau yn y lle cywir ac y gallwn fforddio i gyflwyno'r rhaglen ar gyfer llywodraeth. Fodd bynnag, drwy gydol y flwyddyn, byddwn yn monitro ac yn adolygu ein cynlluniau gwariant er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni. Mae'r rhaglen ar gyfer adroddiad blynyddol y llywodraeth yn gwneud cyfraniad pwysig.

4.30 p.m.

I also welcome the engagement of opposition

Rwyf hefyd yn croesawu ymrwymiad y

parties since I published the draft budget in October. Talks have been constructive, I have been impressed by the open discussions that have been conducted in good faith and with a mutual desire to make sure that a budget for the coming financial year meets the needs of Wales. Tackling youth unemployment and doing everything we can to give young people the right opportunities has been the cornerstone of this Government. That is why we are investing £75 million over three years in Jobs Growth Wales and why we have continued to support a number of schemes to support young people into employment. Boosting employment opportunities for young people has been the focus of discussions with Plaid Cymru, and it is on this basis that I have agreed to respond to its proposals and to provide an additional £20 million in each of the next two years to expand support for apprenticeships. This additional investment will build on the investments we have already made in support of our commitment to see progression at all levels of apprenticeships and specifically to support 16 to 24-year-olds into employment. We believe that this agreement is an extension of our commitment and the promise we made to the people of Wales.

gwrthbleidiau ers i mi gyhoeddi'r gyllideb ddrafft ym mis Hydref. Mae trafodaethau wedi bod yn adeiladol, gwnaed argraff arnaf gan y trafodaethau agored sydd wedi eu cynnal gyda phob ewyllys da a'r awydd naill i'r llall i wneud yn siŵr fod cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod yn diwallu anghenion Cymru. Mae mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc a gwneud popeth y gallwn i roi'r cyfleoedd iawn i bobl ifanc wedi bod yn gonglfaen y Llywodraeth hon. Dyna pam yr ydym yn buddsoddi £75 miliwn dros dair blynedd mewn Twf Swyddi Cymru a pham yr ydym wedi parhau i gefnogi nifer o gynlluniau i gefnogi pobl ifanc i gael gwaith. Mae hybu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc wedi bod yn ffocws trafodaethau gyda Phlaid Cymru, ac ar y sail honno rwyf wedi cytuno i ymateb i'w chynigion ac i ddarparu £20 miliwn ychwanegol ym mhob un o'r ddwy flynedd nesaf i ehangu'r cymorth ar gyfer prentisiaethau. Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn adeiladu ar y buddsoddiadau yr ydym eisoes wedi'u gwneud i gefnogi ein hymrwymiad i weld cynnydd ar bob lefel o brentisiaethau ac yn benodol i gefnogi rhai 16 i 24 mlwydd oed i gael gwaith. Rydym yn credu bod y cytundeb hwn yn estyniad o'n hymrwymiad a'r addewid a wnaethom i bobl Cymru.

The report of the Enterprise and Business Committee will also make an important contribution in this respect. We will explore opportunities to supplement our investment with EU funding to maximum effect. In addition, we have also agreed on the importance of research in the fields of science, technology, engineering and mathematics, and £10 million capital will be allocated over the next two years to support the creation of a science park led by Bangor University and in collaboration with Aberystwyth University.

Bydd adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig yn hyn o beth. Byddwn yn archwilio cyfleoedd i ychwanegu at ein buddsoddiad gydag arian yr UE yn y ffordd orau bosibl. Yn ogystal, rydym hefyd wedi cytuno ar bwysigrwydd ymchwil ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, a bydd £10 miliwn o gyfalaf yn cael ei ddyrannu yn ystod y ddwy flynedd nesaf i gefnogi'r gwaith o greu parc gwyddoniaeth a arweinir gan Brifysgol Bangor ac mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth.

We have reached an agreement on this budget with Plaid Cymru, but the proposals put forward by the Welsh Liberal Democrats during these negotiations have been welcome and seriously considered by the Welsh Government. The pupil deprivation grant that we jointly agreed last year is already receiving an uplift in the coming financial

Rydym wedi dod i gytundeb ar y gyllideb hon â Phlaid Cymru, ond mae'r cynigion a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ystod y trafodaethau hyn wedi cael croeso ac wedi cael eu hystyried o ddifrif gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grant amddifadedd disgyblion y cytunom arno ar y cyd y llynedd eisoes yn cael cynnydd yn y

year. We have increased the indicative investment we agreed last year for 2013-14 and 2014-15, taking the total funding to £36.8 million and £38.2 million respectively. We also believe that there is merit in the idea of an innovative health technologies fund for Welsh patients and I will be looking into this proposal further with the Minister for health.

flwyddyn ariannol sydd i ddod. Rydym wedi cynyddu'r buddsoddiad mynegiannol a gytunwyd y llynedd ar gyfer 2013-14 a 2014-15, gan ddod â chyfanswm y cyllid i £36.8 miliwn a £38.2 miliwn yn y drefn honno. Rydym hefyd yn credu bod gwerth yn y syniad o gronfa iechyd technolegau arloesol ar gyfer cleifion Cymru a byddaf yn edrych ar y cynnig hwn ymhellach gyda'r Gweinidog iechyd.

In strengthening the fiscal position of Wales, the recent joint statement with the UK Government on the progress made in our pursuit of financial reform was an important milestone. We have agreed the route towards gaining access to our existing borrowing powers and have established a new mechanism to address the issue of future convergence in our funding. This has been a priority for the Welsh Government and an ambition that I know has been shared by all parties in this Chamber. We will continue to pursue this agenda and await the outcome of the Silk commission with interest.

Wrth gryfhau sefyllfa gyllidol Cymru, roedd y datganiad ar y cyd yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ar y cynnydd a wnaed mewn mynd ar drywydd diwygio ariannol yn garreg filltir bwysig. Rydym wedi cytuno ar y llwybr tuag at gael mynediad at ein pwerau benthyca presennol ac wedi sefydlu mecanwaith newydd i fynd i'r afael â'r mater o gydgyfeirio yn y dyfodol yn ein cyllid. Mae hyn wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac uchelgais rwy'n gwybod sydd wedi cael ei rhannu gan bob plaid yn y Siambr hon. Byddwn yn parhau i ddilyn yr agenda hon ac yn aros am ganlyniad comisiwn Silk gyda diddordeb.

Llywydd, this Government has clearly demonstrated its commitment to work in an open and transparent way and to engage with our partners widely, to ensure that our spending plans can deliver our vision for Wales as set out in the programme for government. Following discussions over the last month, I remain confident that our budget proposals provide support to produce the conditions required for economic growth and that they also reflect many cross- party priorities. We have listened and responded to feedback and recognise that we can strengthen and expand on our programme of government as a result. This Welsh Government is committed to working together across the Senedd to secure the outcomes we want to see for the people of Wales. As your Minister for Finance, I recognise that there is, after all, more that unites us than divides us. I move the draft budget motion on this basis.

Llywydd, mae'r Llywodraeth hon wedi dangos yn glir ei hymrwymiad i weithio mewn ffordd agored a thryloyw ac i ymgysylltu â'n partneriaid yn eang, er mwyn sicrhau y gall ein cynlluniau gwariant gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Cymru fel y nodir yn y rhaglen ar gyfer llywodraeth. Yn dilyn trafodaethau dros y mis diwethaf, rwy'n ffyddiog y bydd ein cynigion cyllideb yn darparu cefnogaeth i gynhyrchu'r amodau sydd eu hangen ar gyfer twf economaidd a'u bod hefyd yn adlewyrchu llawer o flaenoriaethau trawsbleidiol. Rydym wedi gwrando ar adborth ac ymateb iddo ac yn cydnabod y gallwn gryfhau ac ehangu ar ein rhaglen lywodraethu o ganlyniad. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd ar draws y Senedd er mwyn sicrhau'r canlyniadau yr ydym am eu gweld ar gyfer pobl Cymru. Fel eich Gweinidog Cyllid, rwy'n cydnabod, wedi'r cyfan, bod mwy yn ein huno nag sy'n ein rhannu. Cynigiaf y cynnig cyllideb drafft ar y sail hon.

**Jocelyn Davies:** The present financial climate demands that we ensure that the

**Jocelyn Davies:** Mae'r hinsawdd ariannol bresennol yn mynnu ein bod yn sicrhau bod

resources available to the Welsh Government are spent in the most economic, efficient and effective way. This year, our drive to improve the way we scrutinise the budget led us to appoint our first ever adviser for the budget process. The experience has been a positive one. Working with Angela Scott of the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy, we have adopted an integrated approach, built upon the four objectives of financial scrutiny: affordability, prioritisation, value for money and budget process. That approach has been adopted by all committees, which has allowed us to co-ordinate our scrutiny across the Assembly. This new way of working has challenged us to think differently about the numbers and the policy aims behind them, and I am sure that this new approach will ensure that we maintain that scrutiny throughout the year, not just at budget time.

yr adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn cael eu gwario yn y modd mwyaf economaidd, effeithlon ac effeithiol. Eleni, mae ein hymgyrch i wella'r ffordd yr ydym yn craffu ar y gyllideb wedi'n harwain i benodi ein cynghorydd cyntaf erioed ar gyfer y broses gyllideb. Mae'r profiad wedi bod yn un cadarnhaol. Gan weithio gydag Angela Scott o'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, rydym wedi mabwysiadu dull integredig, a adeiladwyd ar bedwar amcan craffu ariannol: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses gyllideb. Mae'r dull wedi cael ei fabwysiadu gan yr holl bwyllgorau, sydd wedi ein galluogi i gydlynu ein gwaith craffu ar draws y Cynulliad. Mae'r ffordd newydd hon o weithio wedi ein herio i feddwl yn wahanol am y niferoedd a'r amcanion polisi y tu ôl iddynt, ac rwy'n siŵr y bydd y dull newydd hwn yn sicrhau ein bod yn cynnal y gwaith craffu hwnnw drwy gydol y flwyddyn, nid dim ond ar adeg y gyllideb.

There are 15 recommendations in our report, most of which are for the Welsh Government, although two are for the Assembly Commission and the Assembly's committees. There is a series of conclusions, many of which guide the committees of the Assembly to return to unanswered questions during the year. I would like to highlight three key issues: affordability, impact assessments and process improvements.

Mae 15 o argymhellion yn ein hadroddiad, mae'r rhan fwyaf ohonynt ar gyfer Llywodraeth Cymru, er bod dau ar gyfer Comisiwn y Cynulliad a phwyllgorau'r Cynulliad. Mae cyfres o gasgliadau, ac mae llawer ohonynt yn arwain pwyllgorau'r Cynulliad i ddychwelyd at gwestiynau heb eu hateb yn ystod y flwyddyn. Hoffwn dynnu sylw at dri mater allweddol: fforddiadwyedd, asesiadau effaith a gwelliannau proses.

Our lack of certainty over the affordability of this budget has dominated the headlines, and with good reason. In a world where the total amount of money available is known, there are still a great number of unknowns in this draft budget. Some are the responsibility of the UK Government, as welfare reform and changes to council tax benefit are likely to have an impact on the Welsh budget. There are uncertainties arising from the Government's legislation, with further uncertainties arising from, for example, the health service.

Mae ein diffyg sicrwydd ynghylch fforddiadwyedd y gyllideb hon wedi dominyddu'r penawdau, a gyda rheswm da. Mewn byd lle mae cyfanswm yr arian sydd ar gael yn hysbys, mae nifer fawr o bethau anhysbys yn y gyllideb ddrafft. Mae rhai yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU, gan fod diwygio lles a newidiadau i fudd-dal y dreth gyngor yn debygol o gael effaith ar gyllideb Cymru. Mae ansicrwydd sy'n deillio o ddeddfwriaeth y Llywodraeth, gydag ansicrwydd pellach yn codi o'r gwasanaeth iechyd, er enghraifft.

We spent a lot of time looking at the health budget, naturally, as it swallows up £4 of every £10 spent by the Welsh Government. We received assurance from the Minister and the local health boards about coming in on

Rydym yn treulio llawer o amser yn edrych ar y gyllideb iechyd, yn naturiol, gan ei fod yn llyncu £4 o bob £10 a wariwyd gan Lywodraeth Cymru. Cawsom sicrwydd gan y Gweinidog a'r byrddau iechyd lleol am ddod

budget this year, but we have heard those promises before and we no longer believe them. No evidence was presented to us to support their assertions. It gives us no pleasure to say that we do not believe that the local health boards will come in on budget this year. Their track record fuels our scepticism and we remain to be convinced. We have recommended that the Welsh Government takes action to make it easier for local health boards to manage their finances, and we hope this will help.

i mewn ar y gyllideb eleni, ond rydym wedi clywed yr addewidion hynny o'r blaen ac nid ydym bellach yn eu credu. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i ni i gefnogi eu honiadau. Nid yw'n rhoi unrhyw bleser i ni i ddweud nad ydym yn credu y bydd y byrddau iechyd lleol yn dod i mewn ar y gyllideb eleni. Mae eu hanes yn atgyfnerthu'n hamheuaeth ac rydym yn parhau i fod heb ein hargyhoeddi. Rydym wedi argymell bod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i'w gwneud yn haws i fyrddau iechyd lleol i reoli eu harian, ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn helpu.

Our report notes a number of areas where we need to maintain our vigilance throughout the year. For example, we heard evidence from the universities about tuition fee policy, which raised important and complex issues around the value for money achieved. I am pleased that the Enterprise and Business Committee will be looking at those issues. We want to keep an eye on the health budget, for reasons already mentioned, and we have called for more detailed questioning of new legislation to ensure that the costs are both known and affordable. The Finance Committee will be monitoring the impact of UK policies like pension auto-enrolment, welfare reform and changes to council tax benefit.

Mae ein hadroddiad yn nodi nifer o feysydd lle mae angen i ni gynnal ein gwyliadwriaeth drwy gydol y flwyddyn. Er enghraifft, rydym yn clywed tystiolaeth gan y prifysgolion am bolisi ffioedd dysgu, a oedd yn codi materion pwysig a chymhleth o gwmpas y gwerth am arian a gyflawnir. Rwy'n falch y bydd y Pwyllgor Menter a Busnes yn edrych ar y materion hynny. Rydym yn awyddus i gadw llygad ar y gyllideb iechyd, am resymau a grybwyllwyd eisoes, ac rydym wedi galw am holi mwy manwl ar ddeddfwriaeth newydd i sicrhau bod y costau yn hysbys a fforddiadwy. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn monitro effaith polisïau'r DU fel auto-gofrestru pensiynau, diwygio lles a newidiadau i fudd-dal y dreth gyngor.

We recommend a more rigorous and systematic approach to equality impact assessments. We have to acknowledge the role of the Welsh Government in setting the agenda across the UK when it comes to equality. It certainly has led the way. However, it is not enough to be the first; we want to see Wales as a genuine beacon in this field. We also want to see more visible evidence of the way assessments are undertaken with regard to other key, cross-cutting issues: sustainable development, the Welsh language and children and older people. A number of external bodies have highlighted these as priorities.

Rydym yn argymell dull mwy trylwyr a systematig o ran asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae'n rhaid i ni gydnabod rôl Llywodraeth Cymru mewn gosod yr agenda ar draws y DU pan ddaw'n fater o gydraddoldeb. Mae'n sicr wedi arwain y ffordd. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon i fod y cyntaf, rydym yn awyddus i weld Cymru fel enghraifft ddisglair yn y maes hwn. Rydym hefyd eisiau gweld mwy o dystiolaeth weladwy o'r ffordd y mae asesiadau yn cael eu cynnal o ran materion allweddol, trawsbynciol eraill: datblygu cynaliadwy, yr iaith Gymraeg a phlant a phobl hŷn. Mae nifer o gyrff allanol wedi tynnu sylw at y rhain fel blaenoriaethau.

On process improvements, there is good news to report on this budget. The Welsh Government has made great improvements with regard to the transparency of its budget,

O ran gwelliannau proses, mae newyddion da i'w adrodd ar y gyllideb hon. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwelliannau mawr o ran tryloywder ei

allowing us to see much more of what it going on with the numbers and behind them. There is more to do, but the work that has been done in the last 12 months has been impressive, and we hope that the regular discussions between officials in the Senedd and at Cathays park that have underpinned this work will continue to bear fruit, and I am grateful to those officials who have done this work and given us this opportunity.

chyllideb, gan ein galluogi i weld llawer mwy o'r hyn sy'n mynd ymlaen gyda'r rhifau a'r tu ôl iddynt. Mae mwy i'w wneud, ond mae'r gwaith sydd wedi'i wneud yn y 12 mis diwethaf wedi bod yn drawiadol, ac rydym yn gobeithio y bydd y trafodaethau rheolaidd rhwng swyddogion yn y Senedd ac ym mharc Cathays sydd wedi bod yn sail i'r gwaith hwn yn parhau i ddwyn ffrwyth, ac rwy'n ddiolchgar i'r swyddogion hynny sydd wedi gwneud y gwaith hwn ac wedi rhoi'r cyfle hwn i ni.

I am also pleased to report that the Welsh Government is making some progress on building stronger links between its programme for government, which sets out its policy priorities, and the budget, which sets out where the money goes.

Rwyf hefyd yn falch i adrodd bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhywfaint o gynnydd ar adeiladu cysylltiadau cryfach rhwng ei rhaglen ar gyfer llywodraeth, sy'n nodi ei blaenoriaethau polisi, a'r gyllideb, sy'n nodi i ble mae'r arian yn mynd.

Finally, I would like to say a few words on the public voice. One of fundamental objectives of good scrutiny is to ensure that the public's voice is heard. We have striven to strengthen the public's voice in our financial scrutiny this year. As a result, we have developed new ways of reaching out to capture voices outside these walls. We have talked about the budget with the public at the summer shows, held speed-networking events with stakeholders, and engaged in pre-consultation discussions to hear the concerns of interested parties before the budget was published. I think some of this work has been exemplary, and we call on the Assembly to do more work in this regard to make it an integral part of the budget scrutiny process in future. This year's scrutiny report is the start of a journey that we hope will lead to better financial scrutiny of the Government. Scrutiny, if done well, should result in performance improvement that drives up the benefits to the public from the billions spent on their behalf.

Yn olaf, hoffwn ddweud ychydig eiriau ar lais y cyhoedd. Un o amcanion sylfaenol craffu da yw sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed. Rydym wedi ymdrechu i gryfhau llais y cyhoedd yn ein gwaith craffu ariannol eleni. O ganlyniad, rydym wedi datblygu ffyrdd newydd o ymestyn allan i gofnodi sylwadau y tu allan i'r muriau hyn. Rydym wedi sôn am y gyllideb gyda'r cyhoedd yn y sioeau haf, wedi cynnal digwyddiadau gwibrwydweithio gyda rhanddeiliaid, a chymryd rhan mewn trafodaethau cyn-ymgynghori i glywed pryderon y partïon sydd â diddordeb cyn i'r gyllideb gael ei chyhoeddi. Rwy'n credu bod rhywfaint o'r gwaith hwn wedi bod yn rhagorol, ac rydym yn galw ar y Cynulliad i wneud mwy o waith yn hyn o beth i'w wneud yn rhan annatod o'r broses graffu ar y gyllideb yn y dyfodol. Mae adroddiad craffu eleni yn ddechrau taith yr ydym yn gobeithio fydd yn arwain at well craffu ariannol ar y Llywodraeth. Dylai craffu, os caiff ei wneud yn dda, arwain at wella perfformiad sy'n cynyddu'r manteision i'r cyhoedd o'r biliynau sy'n cael eu gwario ar eu rhan.

I would like to close by thanking, on behalf of the committee, our officials, our technical adviser Angela Scott, the various organisations that provided us with evidence, the committees who worked with us on our consideration of the draft budget, and, of course, the Ministers who were scrutinised,

Hoffwn gloi drwy ddiolch, ar ran y pwyllgor, ein swyddogion, ein cynghorydd technegol Angela Scott, y gwahanol sefydliadau a roddodd dystiolaeth i ni, y pwyllgorau a fu'n gweithio gyda ni ar ein hystyriaeth o'r gyllideb ddrafft, ac, wrth gwrs, y Gweinidogion yr oedd craffu arnynt,

because without their assistance we would not have been able to complete our report. Thank you.

oherwydd heb eu cymorth ni fyddem wedi gallu cwblhau ein hadroddiad. Diolch.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailddrafftio ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14 fel ei bod:*

*Calls on the Welsh Government to redraft its Draft Budget for 2013-14 so that it:*

*a) yn mynd i'r afael â'r pwysau ariannol eithriadol ar y Gwasanaeth Iechyd o ganlyniad i doriadau mewn termau real o £493 miliwn dros dair blynedd;*

*a) addresses the extreme financial pressures on the Health Service due to the real terms cuts of £493 million pounds over three years;*

*b) yn diwallu anghenion busnesau yng Nghymru, sy'n hanfodol wrth greu cyflogaeth;*

*b) meets the needs of businesses in Wales, which is crucial in creating employment;*

*c) yn cau'r bwlch cyllido rhwng disgyblion ysgol yng Nghymru a Lloegr; a*

*c) closes the funding gap between school pupils in Wales and England; and*

*d) yn sicrhau darpariaeth i liniaru'r codiadau yn y dreth gyngor ar gyfer cartrefi yng Nghymru lle mae'r esgid ariannol yn gwasgu.*

*d) makes provision to alleviate council tax rises for hard-pressed Welsh households.*

**Paul Davies:** Cynigiaf welliant 1 yn enw William Graham.

**Paul Davies:** I move amendment 1 in the name of William Graham.

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i ymateb i gyllideb ddrafft y Llywodraeth y prynhawn hwn ac i gynnig y gwelliant yn enw William Graham ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Byddwn yn ymatal ar welliant 2, ond byddwn yn cefnogi gwelliant 3 yn enw Aled Roberts ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol.

I am grateful for the opportunity to respond to the Government's draft budget this afternoon and to move the amendment in William Graham's name for the Welsh Conservatives. We will abstain on amendment 2, but support amendment 3 in the name of Aled Roberts for the Liberal Democrats.

Gadewch i mi ei gwneud yn glir o'r cychwyn fy mod yn derbyn bod Llywodraeth Cymru wedi gosod y gyllideb ddrafft hon mewn amgylchiadau ariannol anodd. Felly, mae hyd yn oed yn fwy pwysig i sicrhau bod yr arian a warir yn cael ei wario'n effeithiol a'n bod yn gweld canlyniadau go iawn—yn wir, gwell canlyniadau i bobl Cymru. Mae'n hollbwysig ein bod yn gwario arian ar yr ardaloedd sy'n bwysig i bobl Cymru. Felly, ni fydd yn

Let me make it clear from the start that I accept that the Welsh Government has laid this draft budget in difficult financial circumstances. Therefore, it is even more important to ensure that the money spent is spent effectively and that we see real results—indeed, better results for the people of Wales. It is vital that we spend money on those areas that are important to the people of Wales. Therefore, it will come as no surprise

syndod ein bod ni ar yr ochr hon i’r Siambr yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio arian trethdalwyr ar iechyd, addysg a’r economi. Dyna yw blaenoriaethau pobl Cymru.

that we on this side of the Chamber believe that the Welsh Government should concentrate taxpayers’ money on health, education and the economy. Those are the priorities of the people of Wales.

We believe that the draft budget in its current form is not fit for purpose. It simply does not address the needs of the people of Wales. Clearly, it does not deal with the demands of the NHS, the economy and our schools. It is crucial that these areas are addressed properly. However, I am afraid that this draft budget does not achieve that. It is extremely disappointing that there are others in this Chamber who are willing to ensure that this draft budget is passed without fundamental changes. Plaid Cymru has now chosen to allow the Welsh Government’s draft budget to pass by choosing to abstain. By doing so, it is, in effect supporting Welsh Labour’s cuts to the Welsh NHS budget. I accept that it is a matter of priorities. We have made it clear that our priority is to protect the health budget. Clearly, Plaid Cymru’s priority is to not protect the health budget. So much for standing up for the people of Wales.

Rydym yn credu nad yw’r gyllideb ddrafft yn ei ffurf bresennol yn addas at y diben. Yn syml, nid yw’n mynd i’r afael ag anghenion pobl Cymru. Yn amlwg, nid yw’n delio â gofynion y GIG, yr economi a’n hysgolion. Mae’n hanfodol bod y meysydd hyn yn cael sylw priodol. Fodd bynnag, mae arnaf ofn nad yw’r gyllideb ddrafft yn cyflawni hynny. Mae’n siomedig iawn bod pobl eraill yn y Siambr hon sydd yn barod i sicrhau bod y gyllideb ddrafft yn cael ei phasio heb newidiadau sylfaenol. Mae Plaid Cymru wedi dewis caniatáu i gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru basio trwy ddewis ymatal. Drwy wneud hynny, y mae, i bob pwrpas yn cefnogi toriadau Llafur Cymru i gyllideb GIG Cymru. Rwy’n derbyn ei fod yn fater o flaenoriaethau. Rydym wedi ei gwneud yn glir mai ein blaenoriaeth yw diogelu'r gyllideb iechyd. Yn amlwg, blaenoriaeth Plaid Cymru yw peidio ag amddiffyn y gyllideb iechyd. Dyna ddiwedd ar sefyll dros bobl Cymru.

Let me turn to some of the specifics in this draft budget. Let us look at its affordability, particularly in relation to the health budget. It saddens me once again to stand in this Chamber and respond to a budget that again sees our health service left with the worst deal in the United Kingdom. Given that front-line staff are under pressure, hospitals are threatened with downgrading and targets are being missed, the NHS needs our support more than ever. This draft budget will put even more pressure on NHS finances. Do not take my word for it; the Chair of the Assembly’s Health and Social Care Committee has said again this year, in a letter to the Finance Committee,

Gadewch i mi droi at rai o’r materion penodol yn y gyllideb ddrafft. Gadewch i ni edrych ar ei fforddiadwyedd, yn enwedig mewn perthynas â’r gyllideb iechyd. Mae’n dristwch imi unwaith eto i sefyll yn y Siambr hon ac ymateb i gyllideb sydd eto yn gweld ein gwasanaeth iechyd yn cael y fargen salaf yn y Deyrnas Unedig. O ystyried bod staff y rheng flaen o dan bwysau, ysbytai yn cael eu bygwth ag israddio a thargedau yn cael eu methu, mae’r GIG angen ein cefnogaeth yn fwy nag erioed. Bydd y gyllideb ddrafft hon yn rhoi mwy fyth o bwysau ar gyllid y GIG. Peidiwch â chymryd fy ngair i am hynny; mae Cadeirydd Iechyd y Cynulliad a’r Pwyllgor Gofal Cymdeithasol wedi dweud unwaith eto eleni, mewn llythyr at y Pwyllgor Cyllid,

‘The Committee continues to have concerns about the Welsh Government’s ability to deliver its programme for government commitments in relation to health and social services from within the current allocation.’

Mae’r Pwyllgor yn parhau i fod â phryderon ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei rhaglen ar gyfer ymrwymiadau llywodraeth mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o fewn y

dyraniad presennol.

It was only last year that the same committee Chair said that he had reservations about whether the overall level and individual allocations of funding would be sufficient to address the funding difficulties. Quite simply, it is therefore disappointing that the Welsh Government is not listening to well-respected Labour backbench Members, such as the Member for Cardiff West. Clearly, lessons have simply not been learnt by this Government.

Dim ond y llynedd y dywedodd yr un Cadeirydd pwyllgor fod ganddo amheuon ynghylch a fyddai'r lefel gyffredinol a dyraniadau unigol o gyllid yn ddigonol i fynd i'r afael â'r anawsterau cyllido. Yn syml iawn, mae'n siomedig felly nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrando ar Aelodau meinciau cefn Llafur uchel eu parch, fel yr Aelod dros Orllewin Caerdydd. Yn amlwg, mae gwersi sydd heb eu dysgu gan y Llywodraeth hon.

**Leanne Wood:** You were clearly deeply concerned about the effects of cuts; I am, too. Can we take from that then that you oppose the politics of austerity?

**Leanne Wood:** Roeddech yn amlwg yn bryderus iawn am effeithiau toriadau, rwyf innau, hefyd. A allwn ni gymryd felly eich bod yn gwrthwynebu gwleidyddiaeth o gynilo?

**Paul Davies:** We hear about savage cuts coming from the UK Government all the time from Plaid Cymru. Let me remind her and her party about the figures: the latest analysis from the Treasury suggests that the total identifiable expenditure on services in Wales has gone up under the Conservative-Liberal Democrat coalition. In the last year of Gordon Brown's Government, the figures—[*Interruption.*] Presiding Officer, they do not want to listen to the figures. In the last year of Gordon Brown's Government, the figures stood at £29.022 billion and it has been £29.621 billion and £29.842 billion in the years since then. Those are the figures, so I am not going to take any lectures from the leader of Plaid Cymru.

**Paul Davies:** Rydym yn clywed am doriadau milain yn dod gan Lywodraeth y DU drwy'r amser gan Blaid Cymru. Gadewch imi ei hatgoffa hi a'i phlaid am y ffigurau: mae'r dadansoddiad diweddaraf gan y Trysorlys yn awgrymu bod cyfanswm y gwariant adnabyddadwy ar wasanaethau yng Nghymru wedi mynd i fyny o dan y glymblaid Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol. Ym mlwyddyn olaf Llywodraeth Gordon Brown, roedd y ffigurau—*[Torri ar draws.]* Lywydd, nid ydynt am wrando ar y ffigurau. Ym mlwyddyn olaf Llywodraeth Gordon Brown , roedd y ffigurau'n sefyll ar £29.022 biliwn ac mae wedi bod yn £29.621 biliwn a £29.842 biliwn yn y blynyddoedd ers hynny. Dyna'r ffigurau, felly nid wyf yn mynd i gymryd unrhyw wersi gan arweinydd Plaid Cymru.

There are others who express huge concerns around health spending. I am extremely pleased that an independent organisation such as the Royal College of Nursing has endorsed our concerns over the draft budget, with its director, Tina Donnelly, saying only last month that

Mae yna bobl eraill sy'n mynegi pryderon mawr ynghylch gwariant ar iechyd. Rwyf yn falch iawn bod sefydliad annibynnol megis y Coleg Nyrsio Brenhinol wedi cadarnhau ein pryderon ynghylch y gyllideb ddrafft, ac roedd ei gyfarwyddwr, Tina Donnelly, yn dweud mor ddiweddar â'r mis diwethaf y

'the health budget should be protected—we would like the Health Minister to make sure there will be no cuts to NHS spending because enough is enough really.'

dylai'r gyllideb iechyd gael ei diogelu—byddem yn hoffi i'r Gweinidog Iechyd wneud yn siŵr na fydd unrhyw doriadau i wariant y GIG oherwydd digon yw digon mewn gwirionedd.

4.45 p.m.

Even the Scottish Labour leader, Johann Lamont, has come round to our way of thinking, because she has criticised the Scottish Government for imposing a real terms cut in the Scottish health budget. This Welsh Government would do well to take some advice from the Scottish Labour leader.

Mae hyd yn oed arweinydd Llafur yr Alban, Johann Lamont, wedi dod i dderbyn ein barn ni, gan ei bod wedi beirniadu Llywodraeth yr Alban am ddodi toriad mewn termau real yng nghyllideb iechyd yr Alban. Byddai'r Llywodraeth Cymru hon yn gwneud yn dda i gymryd cyngor gan arweinydd Llafur yr Alban.

Despite reassurances to the contrary, health boards were bailed out to the tune of £12 million last year, despite Government assurances that they would break even. In this Chamber only recently, the First Minister seemed to pave the way for the Government to do so again, despite repeated assurances that LHBs would not receive additional money. Earlier today, the First Minister accused us of chaos and confusion, but it is very clear that there is chaos and confusion within the Welsh Government on this issue. It does not know whether or not it will provide additional financial support to LHBs. What kind of Government cannot make a decision on whether it will give more money to LHBs should they not break even? The Auditor General for Wales has made it clear that the cash bail-outs from the Welsh Government to local health boards are not sustainable in the longer term, and it is very worrying that the Welsh Government does not recognise these concerns.

Er gwaethaf sicrwydd i'r gwrthwyneb, achubwyd croen byrddau iechyd gyda chymaint â £12 miliwn y llynedd, er gwaethaf sicrwydd y Llywodraeth y byddent yn mantoli'r gyllideb. Yn y Siambr hon dim ond yn ddiweddar, roedd yn ymddangos bod y Prif Weinidog yn paratoi'r ffordd i'r Llywodraeth wneud hynny eto, er gwaethaf sicrwydd dro ar ôl tro na fyddai Byrddau Iechyd Lleol yn derbyn arian ychwanegol. Yn gynharach heddiw, roedd y Prif Weinidog yn ein cyhuddo o anhrefn a dryswch, ond mae'n amlwg iawn bod anhrefn a dryswch o fewn Llywodraeth Cymru ar y mater hwn. Nid yw'n gwybod p'un a fydd yn darparu cymorth ariannol ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol ai peidio. Pa fath o Lywodraeth na all wneud penderfyniad ar p'un a fydd yn rhoi mwy o arian i Fyrddau Iechyd Lleol pe digwydd iddynt beidio â mantoli'r gyllideb? Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ei gwneud yn glir nad yw'r arian achub croen gan Lywodraeth Cymru i fyrddau iechyd lleol yn gynaliadwy yn y tymor hwy, ac mae'n peri pryder mawr nad yw Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon hyn.

There are also question marks over the affordability of the Government's health policies, such as the flagship policy of extending GP opening hours. In August of last year, the Minister for health stated that detailed costings were being developed as part of this process, but later announced that the intention was to deliver this commitment within existing budgets. However, just a few weeks later she admitted in a written answer to a written question that the total spent by LHBs in 2011-12 on extended opening hours as direct enhanced services was £765,000. Clearly, there is a cost attached to delivering this policy, so, once again, confusion reigns. This is just another uncosted Welsh Labour policy, and it is becoming a theme.

Mae marciau cwestiwn hefyd dros fforddiadwyedd polisïau iechyd y Llywodraeth, megis y polisi blaenllaw o ymestyn oriau agor meddygon teulu. Ym mis Awst y llynedd, dywedodd y Gweinidog iechyd fod costau manwl yn cael eu datblygu fel rhan o'r broses hon, ond cyhoeddodd yn ddiweddarach mai'r bwriad oedd cyflawni'r ymrwymiad hwn o fewn y cyllidebau presennol. Fodd bynnag, dim ond ychydig wythnosau yn ddiweddarach cyfaddefodd hi mewn ateb ysgrifenedig i gwestiwn ysgrifenedig mai'r cyfanswm a wariwyd gan y BILlau yn 2011-12 ar oriau agor estynedig fel gwell gwasanaethau uniongyrchol oedd £765,000. Yn amlwg, mae cost ynghlwm wrth gyflawni'r polisi hwn, felly, unwaith eto mae dryswch yn teyrnasu. Dyma bolisi arall

Llafur Cymru heb ei gostio, ac mae'n datblygu i fod yn thema.

We also have a situation where 1.2 million people will be eligible for the over-50s health check—another key Welsh Labour policy. It is about time that the Welsh Government came clean about how it intends to pay for that as well. The truth is that it is still trying to gather evidence as to the best way to deliver this flagship policy within this budget. It is irresponsible of the Government to make uncosted health promises, particularly in a period of real cuts to our health service. If we cannot fund the health service as it stands, how on earth will these flagship policies be delivered?

Mae gennym hefyd sefyllfa lle y bydd 1.2 miliwn o bobl yn gymwys i gael yr archwiliad iechyd i'r rhai dros 50 oed—polisi allweddol arall Llafur Cymru. Mae'n hen bryd i Lywodraeth Cymru fod yn onest ynghylch sut y mae'n bwriadu talu am hynny hefyd. Y gwir yw ei bod yn dal i geisio casglu tystiolaeth ynghylch y ffordd orau i roi'r polisi blaengar hwn o fewn y gyllideb hon. Mae'n anghyfrifol i'r Llywodraeth wneud addewidion iechyd heb eu costio, yn enwedig mewn cyfnod o doriadau gwirioneddol i'n gwasanaeth iechyd. Os na allwn ariannu'r gwasanaeth iechyd fel y mae, sut ar y ddaear fydd y polisïau blaenllaw hyn yn cael eu darparu?

There are also a number of areas where it is very questionable whether or not the draft budget provides value for money for the taxpayer. For example, the decision by the Minister for Local Government and Communities to take £10 million from the local government settlement to create a collaboration fund has quite rightly sparked anger among local authorities. While I am sure that we all support the aim of local council collaboration, it simply does not make sense to have a collaborative grants fund when you already have a payback scheme such as the invest-to-save fund, which should be driving the collaboration agenda anyway. It is clear from the Finance Committee report that there are concerns regarding whether decisions within a Minister's budget are subjected to the same value-for-money scrutiny within the Welsh Government's budget-making process, as they would be if the Minister had submitted a bid for additional funding directly from the Minister for Finance.

Mae nifer o feysydd hefyd lle mae'n amheus iawn a yw'r gyllideb ddrafft yn darparu gwerth am arian i'r trethdalwr. Er enghraifft, mae'r penderfyniad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i gymryd £10 miliwn o'r setliad llywodraeth leol i greu cronfa gydweithredu yn hollol deg wedi ennyn dicter ymhlith awdurdodau lleol. Er fy mod yn siŵr ein bod i gyd yn cefnogi'r nod o gydweithio cynghorau lleol, yn syml, nid yw'n gwneud synnwyr i gael cronfa grantiau ar y cyd pan fod gennych eisoes gynllun ad-dalu fel y gronfa buddsoddi i arbed, a ddylai fod yn gyrru'r agenda gydweithio beth bynnag. Mae'n amlwg o adroddiad y Pwyllgor Cyllid bod pryderon ynghylch a yw penderfyniadau o fewn cyllideb Gweinidog yn ddarostyngedig i'r un craffu gwerth am arian o fewn proses gwneud cyllideb Llywodraeth Cymru, ag y byddent pe byddai'r Gweinidog wedi cyflwyno cais am gyllid ychwanegol yn uniongyrchol gan y Gweinidog Cyllid.

We are told by the Welsh Government that this is a draft budget for growth and jobs. The Minister for Finance's statement last month included capacity for the creation of 3,000 jobs over a two-year period. However, despite Welsh unemployment levels falling by 0.3% in the three months to August 2012, levels remain high at 8.3%—still the highest of any area in the UK—and stands at 125,000

Dywedir wrthym gan Lywodraeth Cymru bod hon yn gyllideb ddrafft ar gyfer twf a swyddi. Roedd datganiad y Gweinidog Cyllid y mis diwethaf yn cynnwys gallu i greu 3,000 o swyddi dros gyfnod o ddwy flynedd. Fodd bynnag, er gwaethaf lefelau diweithdra yng Nghymru yn gostwng o 0.3% yn y tri mis hyd at fis Awst 2012, mae lefelau'n parhau'n uchel ar 8.3%—sy'n dal i fod yr uchaf o

people. The Welsh Government must understand that it is not Governments that create jobs but that it is creativity and innovation of businesses, particularly small businesses, which create employment. It is essential that the Welsh Government recognises the potential of small and medium-sized enterprises; after all, it must do all that it can to support the Welsh economy and to create the conditions needed for increased enterprise in Wales. However, there is very little support in this draft budget for business.

unrhyw ardal yn y DU—ac ar hyn o bryd mae'n 125,000 o bobl. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddeall nad Llywodraethau sy'n creu swyddi, yn hytrach creadigrwydd ac arloesedd busnesau, yn enwedig busnesau bach, sy'n creu cyflogaeth. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod potensial mentrau bach a chanolig, wedi'r cyfan, rhaid iddi wneud popeth yn ei gallu i gefnogi economi Cymru ac i greu'r amodau sydd eu hangen ar gyfer menter gynyddol yng Nghymru. Fodd bynnag, ychydig iawn o gymorth sydd yn y gyllideb ddrafft ar gyfer busnes.

One way of supporting small businesses is through small business rate relief; it is an ideal way of stimulating enterprise births, rejuvenating local economies and giving existing small businesses an opportunity to grow and prosper. Expanding the business rate relief scheme would undoubtedly be of enormous help to small businesses. Again, the Welsh Government is allocating more money this year to central services than to the entire business and enterprise department. Clearly, the Government must ensure that every penny of Welsh taxpayers' money is spent wisely and that real outcomes are achieved for the people of Wales. It is crucial that the Welsh Government ensures that any spending through this Assembly is efficient and effective, delivering value for money and real outcomes for the people of Wales. As it stands, this draft budget does not meet the needs of the people of Wales. Individuals and businesses, independent organisations and Members of all political parties through committee reports have expressed huge concerns about this draft budget. Therefore, let us prioritise appropriately and let us draw up a budget that will meet the needs of the people of Wales. I urge Members to support our amendment.

Un ffordd o gefnogi busnesau bach yw trwy ryddhad ardrethi busnesau bach; mae'n ffordd ddelfrydol o ysgogi genedigaethau menter, adfywio economïau lleol a rhoi cyfle i fusnesau bach presennol i dyfu a ffynnu. Byddai ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi busnes yn sicr o fod o gymorth mawr i fusnesau bach. Unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu mwy o arian eleni i wasanaethau canolog nag i'r adran busnes a menter gyfan. Yn amlwg, mae'n rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod pob ceiniog o arian trethdalwyr Cymru yn cael ei gwario'n ddoeth a bod canlyniadau go iawn yn cael eu cyflawni ar gyfer pobl Cymru. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw wariant drwy'r Cynulliad hwn yn effeithlon ac yn effeithiol, gan ddarparu gwerth am arian a chanlyniadau go iawn i bobl Cymru. Fel y saif, nid yw'r gyllideb ddrafft hon yn diwallu anghenion pobl Cymru. Mae unigolion a busnesau, sefydliadau annibynnol ac Aelodau o bob plaid wleidyddol drwy adroddiadau pwyllgor wedi mynegi pryder mawr am y gyllideb ddrafft. Felly, gadewch i ni flaenoriaethu'n briodol a gadewch i ni lunio cyllideb a fydd yn diwallu anghenion pobl Cymru. Rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi ein gwelliannau.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu wrth y bwlch mewn gwariant ar addysg rhwng Cymru a Lloegr a fydd yn gwaethygu oherwydd na lwyddwyd i gynyddu'n sylweddol y Grant Amddifadedd*

*Regrets the education spending gap between England and Wales that will be exacerbated by the failure to substantially increase the Pupil Deprivation Grant in 2013/14.*

*Disgyblion yn 2013/14.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn gresynu nad yw'r Gyllideb Ddrafft yn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg mynediad at driniaethau arloesol yn y GIG.*

**Peter Black:** I move amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts.

I am sure that Members will not be surprised when I say that the Welsh Liberal Democrats will not be supporting the draft budget today, as we believe that the education spending gap between England and Wales would be exacerbated by the failure to substantially increase the pupil deprivation grant in 2013-14. Last May, we agreed to support the Welsh Labour Government's budget on the basis that increased funding would go to the most disadvantaged pupils, which resulted in this fund. The pupil deprivation grant ensures that additional money goes to each pupil on free school meals. The Government, which has praised the idea, has agreed to continue the policy, which we welcome very much, but has refused to increase the funding, unlike in England where it is increased annually. In the current year, the pupil premium is about the same in England as it is in Wales. It will rise to more than £1,200 per pupil in 2014-15 in England. However, in Wales, it will be about a third of that. Despite the Welsh Government's refusing to increase this fund, it is not a scheme that it has been shy about promoting. I have a quotation here from last week's *Penarth Times* from a Labour Assembly Member, who writes:

'Money and how that money is used are always part of the debate in education. In a time when there are enforced budget cuts, the Welsh Labour Government has chosen to protect school budgets and introduced a pupil deprivation grant for schools to help address the impact of deprivation on attainment. In the Vale of Glamorgan, that means over £1

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Regrets that the Draft Budget does not seek to address the lack of access to innovative treatments in the NHS.*

**Peter Black:** Cynigiaf welliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts.

Rwy'n siŵr na fydd Aelodau yn synnu pan ddywedaf na fydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r gyllideb ddrafft heddiw, gan ein bod yn credu y byddai'r bwlch cyllido addysg rhwng Cymru a Lloegr yn cael ei waethygu gan y methiant i gynyddu'n sylweddol y grant amddifadedd disgyblion yn 2013-14. Fis Mai diwethaf, gwnaethom gytuno i gefnogi cyllideb Llywodraeth Lafur Cymru ar y sail y byddai cyllid cynyddol yn mynd i'r disgyblion mwyaf difreintiedig, a arweiniodd at y gronfa hon. Mae'r grant amddifadedd disgyblion yn sicrhau bod arian ychwanegol yn mynd i bob disgybl ar brydau ysgol am ddim. Mae'r Llywodraeth, sydd wedi canmol y syniad, wedi cytuno i barhau â'r polisi, yr ydym yn ei groesawu'n fawr iawn, ond mae wedi gwrthod cynyddu'r cyllid, yn wahanol i Loegr lle mae'n cael ei gynyddu'n flynyddol. Yn y flwyddyn gyfredol, mae'r premiwm disgyblion tua'r un fath yn Lloegr ag ydyw yng Nghymru. Bydd yn codi i fwy na £1,200 y disgybl yn 2014-15 yn Lloegr. Fodd bynnag, yng Nghymru, tua thraean o hynny fydd o. Er gwaethaf Llywodraeth Cymru yn gwrthod cynyddu'r gronfa hon, nid yw'n gynllun y mae wedi bod yn swil iawn yn ei hyrwyddo. Mae gennyf ddyfyniad yma o *Penarth Times* yr wythnos diwethaf gan Aelod Cynulliad Llafur, sy'n ysgrifennu:

Mae arian a sut y defnyddir yr arian hwnnw bob amser yn rhan o'r ddadl mewn addysg. Mewn cyfnod pan fo toriadau yn cael eu gorfodi yn y gyllideb, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi dewis diogelu cyllidebau ysgolion ac wedi cyflwyno grant amddifadedd disgyblion ar gyfer ysgolion i helpu i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd

million has been targeted to help in this way.'

ar gyrhaeddiad. Ym Mro Morgannwg, mae hynny'n golygu bod dros £1 miliwn wedi cael ei dargedu i helpu yn y ffordd hon.

As I illustrated last year when speaking on the budget, that has been the case all across Wales; it has certainly been the case in areas that I represent, and that has been very welcome. However, the failure to increase funding for the fund is effectively allowing it to wither on the vine. We have three years' funding; there is no extra money after those three years and there will be no progress in helping those pupils next year. For that reason, we find ourselves in the position of being unable to support the draft budget. Despite the acknowledged intention of the First Minister to close the funding gap between England and Wales, this budget will actually widen the gap simply because you are not putting that extra money into the pupil deprivation fund.

Fel y dangosais y llynedd wrth siarad ar y gyllideb, mae hynny wedi bod yn wir ledled Cymru; mae wedi bod yn wir yn sicr mewn ardaloedd yr wyf fi'n eu cynrychioli, ac mae hynny wedi bod yn dderbyniol. Fodd bynnag, mae'r methiant i gynyddu'r cyllid ar gyfer y gronfa mewn gwirionedd wedi ei gadael i grebachu. Mae gennym gyllid tair blynedd; nid oes dim arian ychwanegol ar ôl y tair blynedd ac ni fydd unrhyw gynnydd o ran helpu'r disgyblion hynny'r flwyddyn nesaf. Am y rheswm hwnnw, rydym yn cael ein hunain yn y sefyllfa lle nad ydym yn gallu cefnogi'r gyllideb ddrafft. Er gwaethaf bwriad cydnabyddedig y Prif Weinidog i gau'r bwlch cyllido rhwng Cymru a Lloegr, bydd y gyllideb hon mewn gwirionedd yn ehangu'r bwlch oherwydd nad ydych yn rhoi'r arian ychwanegol hwnnw i mewn i'r gronfa amddifadedd disgyblion.

Following the negotiations that took place this year, the Welsh Labour Government stated that it was willing to take forward the Welsh Liberal Democrat idea for an innovative drugs fund that will offer Welsh patients access to treatments that are not available routinely through the national health service. We welcome that very much. We are pleased that the Welsh Labour Government has praised our ideas and pledged to look further into the innovative drugs fund. We believe that Welsh patients deserve the right to access treatments that are not available routinely through the NHS, which is why we brought this idea forward in the first place. It is also satisfying that, as was agreed in the last budget, our first-time buyers' mortgage scheme is also to be launched in 2013, although we are still waiting for some of the details on how that will be rolled out.

Yn dilyn y trafodaethau a gynhaliwyd eleni, dywedodd Llywodraeth Lafur Cymru ei bod yn barod i fwrw ymlaen â syniad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer cronfa gyffuriau arloesol a fydd yn cynnig mynediad i gleifion yng Nghymru at driniaethau nad ydynt ar gael fel mater o drefn drwy'r gwasanaeth iechyd gwladol. Rydym yn croesawu hynny'n fawr iawn. Rydym yn falch bod Llywodraeth Lafur Cymru wedi canmol ein syniadau ac addo i edrych ymhellach i mewn i'r gronfa gyffuriau arloesol. Rydym yn credu bod cleifion Cymru'n haeddu'r hawl i gael mynediad at driniaethau nad ydynt ar gael fel mater o drefn drwy'r GIG, a dyna pam y daethom â'r syniad hwn gerbron yn y lle cyntaf. Mae hefyd yn braf gweld, fel y cytunwyd yn y gyllideb ddiwethaf, bod ein cynllun morgais prynwyr tro cyntaf hefyd yn cael ei lansio yn 2013, er ein bod yn dal i aros am rai o'r manylion ar sut y bydd hynny'n cael ei gyflwyno.

Whether it is extra money for Wales's poorest pupils, the innovative drugs fund or the mortgage scheme, we believe that we have made a massive difference to the lives of the people of Wales as part of the budget

P'un a yw'n arian ychwanegol ar gyfer disgyblion tlotaf Cymru, y gronfa gyffuriau arloesol neu'r cynllun morgais, rydym yn credu ein bod wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau pobl Cymru fel rhan o'r

process. We are just disappointed that we seem to have hit a brick wall this year in terms of the Welsh Government's commitment to not only agreeing to what we wanted to put in the budget but to the ideas and the principles that they signed up to last year. Those appear to have been cast aside on the basis of who they can make a deal with as opposed to what is best for the people of Wales.

broses gyllideb. Rydym yn siomedig ei bod yn ymddangos ein bod wedi taro wal frics eleni o ran ymrwymiad Llywodraeth Cymru nid yn unig o ran cytuno ar yr hyn yr oeddem am ei gynnwys yn y gyllideb ond y syniadau a'r egwyddorion y cytunon nhw iddynt y llynedd. Mae'n ymddangos bod y rheini wedi cael eu taflu o'r neilltu ar sail pwy y gallant wneud cytundeb â nhw yn hytrach na'r hyn sydd orau i bobl Cymru.

The chair of the Finance Committee outlined a number of concerns that the committee set out in its report. I am not going to repeat what she said, but it is important that the Finance Committee has stated that it is not convinced that the Government can afford its commitments within the budget as it stands. I understand that there is not a great deal that we can do about that, given the quantum available to us as an Assembly and to the Welsh Government.

Mae cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn amlinellu nifer o bryderon a nododd y pwyllgor yn ei adroddiad. Nid wyf am ailadrodd yr hyn a ddywedodd, ond mae'n bwysig bod y Pwyllgor Cyllid wedi nodi nad yw'n argyhoeddedig y gall y Llywodraeth fforddio ei hymrwymiadau o fewn y gyllideb fel y mae. Deallaf nad oes llawer iawn y gallwn ei wneud am hynny, o ystyried y cwantwm sydd ar gael i ni fel Cynulliad ac i Lywodraeth Cymru.

It is an issue of prioritisation and of making sure that the money being put into the budget is spent in a transparent way. I was concerned in particular that the evidence that we received clearly indicated, especially in relation to the health budget, that there was very little transparency about how that money was being spent. We highlighted last week our concerns about the ambulance budget, the fact that there is no budget line for it and that a budget was not agreed for the ambulance service until the beginning of November. We also highlighted in particular the issues about local health boards and the closure of minor injuries units across Wales, which was a consequence of the failure to meet financial targets last year.

Mae'n fater o flaenoriaethu ac o wneud yn siŵr bod yr arian sy'n cael ei roi yn y gyllideb yn cael ei wario mewn ffordd dryloyw. Roeddwn yn bryderus yn benodol fod y dystiolaeth a gawsom yn dangos yn glir, yn enwedig mewn perthynas â'r gyllideb iechyd, mai ychydig iawn o dryloywder oedd am sut y mae'r arian yn cael ei wario. Roeddem yn tynnu sylw'r wythnos diwethaf at ein pryderon ynghylch y gyllideb ambiwlans a'r ffaith nad oes llinell gyllideb ar ei chyfer ac na chytunwyd ar gyllideb ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans tan ddechrau mis Tachwedd. Roeddem hefyd yn tynnu sylw yn arbennig at y materion yn ymwneud â byrddau iechyd lleol a chau unedau mân anafiadau ar draws Cymru, a oedd yn ganlyniad i'r methiant i gyflawni targedau ariannol y llynedd.

It is also interesting, from evidence given to the committee by Cardiff University—I do not think that the Chair mentioned this—that, as a consequence of the Welsh Government's policy on tuition fees, £10 million more of the Welsh pound will be spent in English universities than in Welsh universities in the first year of the tuition fee regime. I understand what was behind that policy, but we must look at any policy that means that money that we receive from the UK

Mae hefyd yn ddiddorol, o'r dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor gan Brifysgol Caerdydd—nid wyf yn credu bod y Cadeirydd wedi crybwyll hyn—y bydd, o ganlyniad i bolisi Llywodraeth Cymru ar ffioedd dysgu, £10 miliwn yn fwy o bunt Cymru yn cael ei wario mewn prifysgolion Lloegr nag ym mhrifysgolion Cymru ym mlwyddyn gyntaf y drefn ffioedd dysgu. Rwy'n deall beth oedd sail y polisi, ond mae'n rhaid i ni edrych ar unrhyw bolisi sy'n

Government goes to prop up the English higher education system as opposed to the Welsh higher education system. Those issues must be addressed as that policy is taken forward.

golygu bod arian yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth y DU yn mynd i gynnal system addysg uwch Lloegr yn hytrach na system addysg uwch Cymru. Mae’n rhaid i’r materion hynny gael sylw wrth i’r polisi hwnnw gael ei ddatblygu.

I am not going to take the full 10 minutes, you will be pleased to know, Presiding Officer. [*Interruption*.] The deal that Plaid Cymru has agreed with the Welsh Government is obviously a matter for those parties, and I am perfectly happy that they have made a deal in the way that they have done—clearly, I would have been happier if we had had the extra money for education as well. However, there are questions about how that money will be used, which were not made clear in the Minister for Finance’s speech, and which will have to be addressed when we will look at the final budget.

Nid wyf yn mynd i gymryd y 10 munud llawn, byddwch yn falch o glywed, Lywydd. [*Torri ar draws*.] Mae’r fargen y mae Plaid Cymru wedi ei tharo gyda Llywodraeth Cymru yn amlwg yn fater i’r pleidiau hynny, ac rwy’n berffaith fodlon eu bod wedi taro bargen yn y ffordd y maent wedi gwneud—yn amlwg, byddwn wedi bod yn hapusach pe baem wedi cael yr arian ychwanegol ar gyfer addysg yn ogystal. Fodd bynnag, mae cwestiynau ynghylch sut y caiff yr arian hwnnw ei ddefnyddio, na wnaed yn glir yn araith y Gweinidog Cyllid, ac y bydd yn rhaid mynd i’r afael â nhw pan fyddwn yn edrych ar y gyllideb derfynol.

As part of our budget deal last year, we put an additional £5 million into the young recruits programme, via the £39.9 million consequential, to provide additional apprenticeships. Will the deal that has now been made be an extension of that scheme? Will there be a new scheme? How will these apprenticeships be rolled out? How will the additional jobs that we have talked about transpire as part of that? What about Jobs Growth Wales? Will that be extended? Is the extra money that has been secured as part of this deal really just an extension of existing schemes, or will a new scheme be put in place? We need some information on that.

Fel rhan o’n cytundeb gyllideb y llynedd, rhoddom ni £5 miliwn ychwanegol yn y rhaglen recriwtiaid ifanc, trwy gyfrwng y £39.9 canlyniadol, i ddarparu prentisiaethau ychwanegol. A fydd y fargen sydd bellach wedi ei gwneud yn estyniad o’r cynllun hwnnw? A fydd cynllun newydd? Sut y caiff y prentisiaethau eu cyflwyno? Sut fydd y swyddi ychwanegol yr ydym wedi siarad amdanynt yn digwydd fel rhan o hynny? Beth am Twf Swyddi Cymru? A fydd o’n cael ei ymestyn? A yw’r arian ychwanegol sydd wedi cael ei sicrhau fel rhan o’r cytundeb hwn mewn gwirionedd yn ddim ond estyniad o gynlluniau sy’n bodoli eisoes, neu a fydd cynllun newydd yn cael ei roi ar waith? Mae angen rhywfaint o wybodaeth am hynny.

To conclude, we cannot the Conservative amendment, largely because of part a), which asks for an extra £493 million over three years for the health budget. I would love to be able to find £493 million for the health budget, as I am sure would the Minister for Finance. However, we all understand the impact that that sort of virement would have on the rest of the Welsh budget, in particular on local government and social services, which would undermine the work being done on health. Although the Conservatives made some very good points in relation to business

I gloi, ni allwn gytuno â gwelliant y Ceidwadwyr, yn bennaf oherwydd rhan a), sy’n gofyn am £493 miliwn ychwanegol dros dair blynedd ar gyfer y gyllideb iechyd. Byddwn wrth fy modd i fod yn gallu dod o hyd i £493 miliwn ar gyfer y gyllideb iechyd, ac rwy’n siŵr y byddai’r Gweinidog Cyllid hefyd. Fodd bynnag, rydym i gyd yn deall yr effaith y byddai’r math hwnnw o drosglwyddiad yn ei chael ar weddill cyllideb Cymru, yn enwedig ar wasanaethau llywodraeth leol a gwasanaethau cymdeithasol, a fyddai’n tanseilio’r gwaith

and closing the funding gap, they are misstepping when it comes to how the money would be spent. There would be huge cuts to the rest of the Welsh budget if that was to be done, and it would undermine the extra money that would go into health. For that reason, we cannot support that amendment.

sy'n cael ei wneud ar iechyd. Er bod y Ceidwadwyr wedi gwneud rhai pwyntiau da iawn mewn perthynas â busnes a chau'r bwlch cyllido, maent yn cymryd camau gwag pan ddaw'n fater o sut y byddai'r arian yn cael ei wario. Byddai toriadau enfawr i weddill cyllideb Cymru os mai dyna a wnaed, a byddai'n tanseilio'r arian ychwanegol a fyddai'n mynd i iechyd. Am y rheswm hwnnw, ni allwn gefnogi'r gwelliant hwnnw.

**Mike Hedges:** I am going to attempt to do three things: I will look at the draft budget in context, explain why I support the draft budget and look at some of the alternatives. The budget has been set during the longest continual reduction in public expenditure since before world war two. That is not my statement. It is a statement by the auditor general in a report to the Public Accounts Committee.

**Mike Hedges:** Rwy'n mynd i geisio gwneud tri pheth: byddaf yn edrych ar y gyllideb ddrafft mewn cyd-destun, esbonio pam yr wyf yn cefnogi'r gyllideb ddrafft ac edrych ar rai o'r dewisiadau eraill. Mae'r gyllideb wedi ei gosod yn ystod y gostyngiad parhaus hiraf mewn gwariant cyhoeddus ers cyn yr ail ryfel byd. Nid fy natganiad i yw honna. Mae'n ddatganiad gan yr archwilydd cyffredinol mewn adroddiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

'The UK is part-way through significant real-terms reductions in government expenditure.'

Mae'r DU ran o'r ffordd drwy ostyngiadau sylweddol termau real mewn gwariant llywodraeth.

Those are the words of the Institute for Fiscal Studies. It also states that

Dyna eiriau y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Mae hefyd yn datgan bod

'the late 2000s' financial crisis and associated recession has been followed by only a modest economic recovery.'

argyfwng ariannol y 2000au hwyr a'r dirwasgiad cysylltiedig wedi ei ddilyn gan adferiad economaidd cymedrol yn unig.

**Antoinette Sandbach** *rose—*

**Antoinette Sandbach** *a gododd—*

**The Presiding Officer:** Order. Are you taking an intervention?

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych yn derbyn ymyriad?

**Mike Hedges:** I will finish the sentence. It continues:

**Mike Hedges:** Rwyf am orffen y frawddeg. Mae'n parhau:

'Indeed, economic output is estimated to have shrunk between the fourth quarter of 2011 and the second quarter of 2012, putting the UK back into recession.'

Yn wir, amcangyfrifir bod allbwn economaidd wedi crebachu rhwng pedwerydd chwarter 2011 ac ail chwarter 2012, gan roi'r DU yn ôl mewn dirwasgiad.'

They are cutting too far, too fast.

Maent yn torri yn rhy bell, yn rhy gyflym.

**Antoinette Sandbach:** I am grateful to the Member for giving way. In fact, Treasury figures show that spending in Wales has gone up to £9,740 per head and it has increased year on year since 2010. It has gone down in

**Antoinette Sandbach:** Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am ildio. Mewn gwirionedd, mae ffigurau'r Trysorlys yn dangos bod gwariant yng Nghymru wedi codi i £9,740 y pen, ac mae wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn

every English region, but not in Wales.

ers 2010. Mae wedi mynd i lawr ym mhob rhanbarth yn Lloegr, ond nid yng Nghymru.

5.00 p.m.

**Mike Hedges:** You are doing what we do at times: you are talking about the difference between actual money and real terms. Most of the increases in tax and the reduction in investment spending are due to happen by the end of the current financial year, but the majority of the reduction in non-investment current spending on public services as a proportion of national income—almost three quarters of it—is still to come, according to the Institute for Fiscal Studies.

**Mike Hedges:** Rydych yn gwneud yr hyn yr ydym ni'n ei wneud ar adegau: rydych yn sôn am y gwahaniaeth rhwng arian gwirioneddol a thermau real. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd yn y dreth a'r gostyngiad mewn gwariant buddsoddi i fod i ddigwydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, ond mae'r rhan fwyaf o'r gostyngiad mewn gwariant cyfredol di-fuddsoddiad ar wasanaethau cyhoeddus fel cyfran o incwm cenedlaethol—bron i dri chwarter ohono—eto i ddod, yn ôl y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

As a result of the Tory-led UK Government's cuts, by 2014-15, the Welsh Government's revenue budget will be £2.1 billion lower in real terms than in 2009-10. Even worse, at the same time, the capital budget will be 45% lower in real terms than at its peak in 2009-10. It will be at around the same level as in 2005-06. As can be seen from the above, the Government is setting a budget during difficult economic circumstances, and difficult choices will have to be made. I support the budget because it is fair and balanced. The Welsh Labour Government has ensured that no department's budget has reduced in cash terms. It continues to use all the levers available to stimulate our economy.

O ganlyniad i doriadau Llywodraeth y DU a arweinir gan y Torïaid, erbyn 2014-15, bydd cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru £21.1 biliwn yn is mewn termau real nag yn 2009-10. Hyd yn oed yn waeth, ar yr un pryd, bydd y gyllideb gyfalaf yn 45% yn is mewn termau real nag ar ei hanterth yn 2009-10. Bydd ar tua'r un lefel ag yn 2005-06. Fel y gellir gweld o'r uchod, mae'r Llywodraeth yn pennu cyllideb yn ystod amgylchiadau economaidd anodd, a bydd rhaid gwneud dewisiadau anodd. Rwy'n cefnogi'r gyllideb oherwydd ei bod yn deg ac yn gytbwys. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi sicrhau nad yw cyllideb unrhyw adran wedi gostwng mewn termau arian parod. Mae'n parhau i ddefnyddio pob dull sydd ar gael i ysgogi ein heconomi.

Growth and jobs remain Welsh Labour's priority, and since the final 2012-13 budget was approved, the Welsh Government has continued to take action to support business in Wales, providing further economic stimulus. Unfortunately, the national Government has not. Support through capital investment is a key lever for delivering modern public services and providing investment in the economy. The Welsh Government's draft budget includes an additional £175 million of capital allocations to support key infrastructure projects throughout Wales. This will get people back into work.

Mae twf a swyddi yn aros yn flaenoriaeth Llafur Cymru, ac ers cymeradwyo cyllideb derfynol 2012-13, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gymryd camau i gefnogi busnesau yng Nghymru, gan ddarparu mwy o ysgogiad economaidd. Yn anffodus, nid yw'r Llywodraeth genedlaethol. Mae cymorth trwy fuddsoddi cyfalaf yn gyfrwng allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus modern a darparu buddsoddiad yn yr economi. Mae cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys swm ychwanegol o £175 miliwn o ddyraniadau cyfalaf i gefnogi prosiectau seilwaith allweddol ledled Cymru. Bydd hyn yn cael pobl yn ôl i'r gwaith.

The Welsh Labour Government is also

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn

determined to protect front-line services. That is why it has said, from the outset of the spending review, that it would protect the health budget from reductions in cash terms. It is also why the Government is steadfast in its commitment to protect investment in schools and social services.

benderfynol hefyd i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Dyna pam y mae wedi dweud, o gychwyn cyntaf yr adolygiad o wariant, y byddai'n gwarchod y gyllideb iechyd rhag gostyngiadau mewn termau arian parod. Dyna pam hefyd y mae'r Llywodraeth yn gadarn yn ei hymrwymiad i ddiogelu buddsoddiad mewn ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

A number of myths exist. It is easy to—

Mae nifer o fythau'n bodoli. Mae'n hawdd i—

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for taking the intervention. Do you not recognise that it is a fact that, at the end of the three-year period, the health service in Wales will have £495 million less spent on it than it did at the outset of that period?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch am dderbyn yr ymyriad. Onid ydych yn cydnabod ei bod yn ffaith, ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd, y bydd y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn cael £495 miliwn yn llai wedi ei wario arno nag yr oedd ar gychwyn y cyfnod hwn?

**Mike Hedges:** No.

**Mike Hedges:** Na.

One myth is that it is easier to cut local government expenditure, but social services provision and housing are crucial to health. If they are cut, health needs can rapidly increase—[*Interruption.*]

Un myth yw ei bod yn haws torri gwariant llywodraeth leol, ond mae darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol a thai yn hanfodol i iechyd. Os ydynt yn cael eu torri, gall anghenion iechyd gynyddu'n gyflym—*[Torri ar draws.]*

**The Presiding Officer:** Order. I am trying very hard to hear what Mike Hedges is saying. Can you be a little quieter?

**Y Llywydd:** Trefn. Rwy'n ceisio'n galed iawn i glywed yr hyn y mae a Mike Hedges yn ei ddweud. Allwch chi fod ychydig yn dawelach?

**Ieuan Wyn Jones:** Will you take an intervention?

**Ieuan Wyn Jones:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Mike Hedges:** I have taken two, I do not have time for another; I am sorry.

**Mike Hedges:** Rwyf wedi derbyn dau, nid oes gennyf amser i un arall; mae'n ddrwg gennyf.

**Ieuan Wyn Jones:** I am trying to help you, Mike, not—

**Ieuan Wyn Jones:** Rwy'n ceisio eich helpu chi, Mike nid—

**Mike Hedges:** I gather that you will speak after me anyway.

**Mike Hedges:** Rwy'n casglu y byddwch yn siarad ar fy ôl i beth bynnag.

Another myth is that central education expenditure is just wasted on administration. No, it is not: it is home-to-school transport; it is employment training; it is educational welfare officers; it is education other than in schools; it is legal, financial and personal advice to schools; it is school buildings; and

Myth arall yw bod gwariant addysg ganolog yn cael ei wastraffu ar weinyddiaeth. Na, nid ydyw: mae'n wariant ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol; ar hyfforddiant cyflogaeth; ar swyddogion lles addysgol; ar addysg heblaw addysg mewn ysgolion; ar gyngor cyfreithiol, ariannol a phersonol i ysgolion; ar

the debt on school buildings. On education and comparison with England, when you compare with England, you should remember two things: England has a substantial number of schools built under private finance initiatives and it includes London weighting.

adeiladau ysgol; a'r ddyled ar adeiladau ysgolion. O ran addysg a chymhariaeth â Lloegr, pan fyddwch yn cymharu â Lloegr, dylech gofio dau beth: mae gan Loegr nifer sylweddol o ysgolion a adeiladwyd dan fentrau cyllid preifat ac mae'n cynnwys pwysoliad Llundain.

On health, expert bodies such as the British Medical Association, the Welsh NHS Confederation and the Royal College of Nursing Wales have supported the Labour Welsh Government's approach and made clear that ring fencing the health budget in the way that the Tories have suggested would lead to consequential cuts in other budgets such as social services and housing, which would have a huge impact on the health and wellbeing of the people of Wales. You cannot talk about health in isolation: social services and housing have a huge effect on it. If the Tories want to defend the NHS in Wales, they should stop the huge real-terms cuts in public expenditure by the Tory-Lib Dem Government at Westminster.

O ran iechyd, mae cyrff arbenigol megis Cymdeithas Feddygol Prydain, Cydffederasiwn GIG Cymru a Choleg Nyrsio Brenhinol Cymru wedi cefnogi ymagwedd Llywodraeth Lafur Cymru a gwneud yn glir y byddai neilltuo'r gyllideb iechyd yn y ffordd y mae'r Torïaid wedi awgrymu yn arwain at doriadau canlyniadol mewn cyllidebau eraill fel y gwasanaethau cymdeithasol a thai, a fyddai'n cael effaith enfawr ar iechyd a lles pobl Cymru. Ni allwch sôn am iechyd ar ei ben ei hun: mae gwasanaethau cymdeithasol a thai yn cael effaith enfawr arno. Os yw'r Torïaid am amddiffyn y GIG yng Nghymru, dylent atal y toriadau enfawr termau real mewn gwariant cyhoeddus gan y Llywodraeth Dorïaidd-Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan.

This is a budget that makes the best use of the funds available. That is why it deserves to be supported; it is for the benefit of the people of Wales.

Mae hon yn gyllideb sy'n gwneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael. Dyna pam y mae'n haeddu cael ei chefnogi; mae er budd pobl Cymru.

**Nick Ramsay:** How do you follow that?

**Nick Ramsay:** Sut ydych chi'n dilyn hynna?

**Mike Hedges:** Badly, I would imagine.

**Mike Hedges:** Yn wael, byddwn yn dychmygu.

**The Presiding Officer:** Order. You do not have to, if you do not want to.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid oes rhaid i chi, os nad ydych yn dymuno gwneud hynny.

**Nick Ramsay:** If you guys had not built up the debt in the first place, the UK Government would not have had to make the cuts that are leading to the difficult financial constraints; I listened carefully to—[*Interruption.*] I do believe that, actually.

**Nick Ramsay:** Pe na fyddech chi wedi cynyddu'r ddyled yn y lle cyntaf, ni fyddai Llywodraeth y DU wedi gorfod gwneud y toriadau sy'n arwain at y cyfyngiadau ariannol anodd. Gwrandewais yn ofalus ar—[*Torri ar draws*] rwy'n credu hynny, mewn gwirionedd.

**Ann Jones** *rose*—

*Cododd* **Ann Jones** -

**Nick Ramsay:** I have not finished my first sentence yet.

**Nick Ramsay:** Nid wyf wedi gorffen fy mrawddeg gyntaf eto.

**The Presiding Officer:** Order. I am asking

**Y Llywydd:** Trefn. Rwy'n gofyn i chi p'un a

you whether you are going to take an intervention.

ydych yn mynd i dderbyn ymyriad.

**Nick Ramsay:** One moment, I want to welcome the debate first.

**Nick Ramsay:** Un funud, hoffwn groesawu'r ddadl yn gyntaf.

**The Presiding Officer:** Order. I am sorry, but you will make your mind up. Either you take an intervention, or you do not.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, ond a wnewch chi benderfynu. Naill ai rydych yn derbyn ymyriad, neu nid ydych.

**Nick Ramsay:** I will in a moment. I welcome the debate. I listened closely to the Minister for Finance's opening words and agree completely that these are difficult financial times and that we need to make sure that the maximum amount is made out of each pound that we spend. Mind you, we should do that in good times as well. It is probably a good time to learn that. I will take your intervention, Ann.

**Nick Ramsay:** Gwnaf mewn munud. Croesawaf y ddadl. Gwrandewais yn agos ar eiriau agoriadol y Gweinidog Cyllid ac rwy'n cytuno'n llwyr fod y rhain yn amseroedd ariannol anodd a bod angen inni wneud yn siŵr y gwneir y mwyaf o bob punt a wariwn. Cofiwch chi, dylem wneud hynny mewn amseroedd da yn ogystal. Mae'n debyg ei bod yn amser da i ddysgu hynny. Byddaf yn derbyn eich ymyriad, Ann.

**Ann Jones:** It was just on your opening point about the debt. Would you recognise that the Tory Government at Westminster is spending more, that the national debt is going up, and that all your punitive benefit changes are not doing any good but putting people further down the pile, making their lives a misery?

**Ann Jones:** Roedd yn ymwneud â'ch pwynt agoriadol ynghylch y ddyled. A fyddech yn cydnabod bod y Llywodraeth Dorïaidd yn San Steffan yn gwario mwy, bod y ddyled genedlaethol yn mynd i fyny, ac nad yw eich holl newidiadau budd-daliadau cosbol yn gwneud unrhyw ddaioni, ond rhoi pobl ymhellach i lawr y domen, gan wneud eu bywydau yn ddiflas?

**Nick Ramsay:** It was always predicted that the debt would go up. It is the deficit that is being reduced. Sadly, because of the debt level and the interest that has been paid on it, it takes a long time to turn a supertanker around, Ann. It has turned around faster than if your party had been in power in Westminster.

**Nick Ramsay:** Rhagwelwyd erioed y byddai'r ddyled yn mynd i fyny. Y diffyg sy'n cael ei leihau. Yn anffodus, oherwydd lefel y ddyled a'r llog sydd wedi'i dalu ar hynny, mae'n cymryd amser hir i droi llong dancer enfawr, Ann. Mae wedi troi yn gyflymach na phe byddai eich plaid chi wedi bod mewn grym yn San Steffan.

As the Chair of the Finance Committee said earlier—and I am glad to see that it is not only the Enterprise and Business Committee that holds such events—stakeholder speed dating events are exceptionally useful and give you a good idea as to where the people on the ground think that things are being done right and where they think that things could be improved. The Enterprise and Business Committee has noted that aspects of the budget and its implementation process have been improved this time around. I hate to use that expression about a focus on outputs, rather than inputs, but I think that each committee that took part in the budget

Fel y dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn gynharach—ac rwy'n falch gweld nad y Pwyllgor Menter a Busnes yn unig sy'n cynnal digwyddiadau o'r fath—mae digwyddiadau cyfarfodydd cyflym â rhanddeiliaid yn eithriadol o ddefnyddiol ac yn rhoi syniad da i chi o ran ble mae'r bobl ar lawr gwlad yn meddwl bod pethau'n cael eu gwneud yn iawn a lle maent yn credu y gellid gwella pethau. Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi nodi fod agweddau o'r gyllideb a'r broses weithredu wedi cael eu gwella y tro hwn. Mae'n gas gen i ddefnyddio'r ymadrodd hwnnw am ganolbwyntio ar allbynnau, yn hytrach na mewnbynnau, ond

process realised the importance this time around of seeing what we are actually getting out of the money that we spent.

rwy'n meddwl bod pob pwyllgor a gymerodd ran yn y broses gyllideb yn sylweddoli pwysigrwydd y tro hwn o weld yr hyn yr ydym mewn gwirionedd yn ei gael allan o'r arian yr ydym yn ei wario.

In terms of the education and universities budget, there was an issue about figures not being available on the number of students that need to be catered for. Those figures will not be available until January or February. The Enterprise and Business Committee believes that it will not be a problem to go back later in the year to see that the outputs are actually being delivered in a way that we would want.

O ran y gyllideb addysg a phrifysgolion, roedd mater ynglŷn â ffigurau heb fod ar gael ar y nifer o fyfyrwyr y mae angen darparu ar eu cyfer. Ni fydd y ffigurau hynny ar gael tan fis Ionawr neu Chwefror. Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes yn credu na fydd yn broblem i fynd yn ôl yn ddiweddarach yn y flwyddyn i weld bod y canlyniadau mewn gwirionedd yn cael eu cyflwyno mewn ffordd y byddem yn dymuno.

**David Rees:** Do you not agree that one of the reasons as to why we could not get the figures was because the Higher Education Statistics Agency returns do not come in until the end of December, and that we cannot get the accurate figures as a consequence of that? Rather than having an estimate, we wanted to know the figures when they come in accurately.

**David Rees:** Onid ydych yn cytuno mai un o'r rhesymau pam na allem gael y ffigurau oedd oherwydd nad yw ffurflenni Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn dod i mewn tan ddiwedd mis Rhagfyr, ac na allwn gael y ffigurau cywir o ganlyniad i hynny? Yn hytrach na chael amcangyfrif, rydym am wybod y ffigurau pan fyddant yn dod i mewn yn gywir.

**Nick Ramsay:** I quite agree. That was exactly why we decided that it was important, rather than just taking a view at one point now, to also look at it later in the year. This is a different way of doing the budget that has not necessarily been done in the past. You are quite right.

**Nick Ramsay:** Cytunaf yn llwyr. Dyna'n union pam y penderfynasom ei bod yn bwysig, yn hytrach na dim ond cymryd golwg ar un pwynt yn awr, i edrych arno yn ddiweddarach yn y flwyddyn hefyd. Mae hon yn ffordd wahanol o wneud y gyllideb nad yw o reidrwydd wedi cael ei gwneud yn y gorffennol. Rydych yn llygad eich lle.

As David Rees will know, we have also completed a review of apprenticeships in Wales, and concluded that apprenticeships were a vital tool for the development of the Welsh economy in dealing with the figures for those not in education, employment or training up to the age of 24. Therefore, I welcome the money allocated in the budget for apprenticeships. However, that is just one aspect of the economy.

Fel y bydd David Rees yn gwybod, rydym hefyd wedi cwblhau adolygiad o brentisiaethau yng Nghymru, a dod i'r casgliad bod prentisiaethau yn offeryn hanfodol ar gyfer datblygu economi Cymru wrth ddelio â'r ffigurau ar gyfer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant hyd at 24 oed. Felly, rwy'n croesawu'r arian a ddyrannwyd yn y gyllideb ar gyfer prentisiaethau. Fodd bynnag, dim ond un agwedd ar yr economi yw honna.

In terms of where clarification is needed on other areas, such as city regions, Powys local growth zones and next generation broadband, I am not convinced that that clarification is there as much as I would like to see. Nonetheless, as David Rees said, this is a

O ran lle mae angen eglurhad ar feysydd eraill, fel dinas-ranbarthau, ardaloedd twf lleol Powys a band eang y genhedlaeth nesaf, nid wyf yn argyhoeddedig bod yr eglurhad hwnnw cystal ag yr hoffwn ei weld. Serch hynny, fel y dywedodd David Rees, mae hon

rolling process; so, we wait with interest to see what developments happen over the next few months.

yn broses barhaus, felly, rydym yn aros yn eiddgar i weld pa ddatblygiadau fydd yn digwydd dros y misoedd nesaf.

I think that we accept that these are difficult financial times. However, the concerns that were raised by Peter Black and Paul Davies regarding the funding gap in education between England and Wales, and also the problems now of how the figures are collated—and it is becoming more and more difficult to see the consequences of that difference—need to be looked at in future years, and in future budget-setting processes. I am sad that the Liberal Democrats felt that they could not support my party's views on the health budget, but we all have our political priorities that we would like to see implemented.

Rwy'n credu ein bod yn derbyn bod y rhain yn amseroedd ariannol anodd. Fodd bynnag, o ran y pryderon a godwyd gan Peter Black a Paul Davies ynglŷn â'r bwlch cyllido mewn addysg rhwng Cymru a Lloegr, a hefyd y problemau bellach o sut y mae'r ffigurau'n cael eu llunio—ac mae'n dod yn fwy a mwy anodd i weld canlyniadau'r gwahaniaeth hwnnw—bydd angen edrych arnynt yn y blynyddoedd i ddod, ac mewn prosesau gosod cyllideb y dyfodol. Rwy'n drist bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn teimlo na allent gefnogi barn fy mhlaid ar y gyllideb iechyd, ond mae gennym i gyd ein blaenoriaethau gwleidyddol y byddem yn hoffi eu gweld ar waith.

Finally, SMEs must be at the centre of driving the Welsh economy forward. We need to look closely, in the wake of the business rate review, at how businesses can be supported.

Yn olaf, mae'n rhaid i fusnesau bach a chanolig fod yn ganolog i yrru economi Cymru ymlaen. Mae angen i ni edrych yn ofalus, yn sgil yr adolygiad ardrethi busnes, ar sut y gellir cefnogi busnesau.

**Leanne Wood:** Since my election as the leader of Plaid Cymru, I have consistently stressed the importance of improving the economy, and that that is our top priority. We remain in the throes of an economic crisis. The number of young unemployed people in Wales has risen to 50,000. That is 24% of 16 to 24-year-olds: the highest percentage of youth unemployment in any UK country. That is why I was very pleased last week to be able to come to an agreement with the Welsh Government to provide £40 million of additional funding for training and skills over the next two years. That money has the potential to provide up to 10,000 young people with a properly qualified trade, which will hopefully put them in a strong position to get a job at the end of it.

**Leanne Wood:** Ers fy ethol yn arweinydd Plaid Cymru, rwy'n gyson wedi pwysleisio pwysigrwydd gwella'r economi, ac mai hynny yw ein prif flaenoriaeth. Rydym yn dal yng nghanol argyfwng economaidd. Mae nifer y bobl ifanc ddi-waith yng Nghymru wedi codi i 50,000. Dyna 24% o rai 16 i 24 mlwydd oed: y ganran uchaf o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc mewn unrhyw wlad yn y DU. Dyna pam yr oeddwn yn falch iawn yr wythnos diwethaf i allu dod i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu £40 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer hyfforddiant a sgiliau yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Mae'r potensial gan yr arian hwnnw i ddarparu crefft â chymwysterau priodol i hyd at 10,000 o bobl ifanc, a fydd gobeithio yn eu rhoi mewn sefyllfa gref i gael swydd ar y diwedd.

We all know that the Welsh Government cannot borrow money. It faces 42% cuts to the capital budget and there have been smaller, but equally vital, real-term cuts to the revenue budget. The Party of Wales has opposed those cuts made by the Westminster Government. We do not accept the argument that cutting the deficit is more important than

Rydym i gyd yn gwybod na all Llywodraeth Cymru fenthyg arian. Mae'n wynebu toriadau o 42% i gyllideb gyfalaf ac fe fu toriadau llai, ond yr un mor hanfodol, tymor real yn y gyllideb refeniw. Mae Plaid Cymru - the Party of Wales wedi gwrthwynebu'r toriadau hynny a wnaed gan Lywodraeth San Steffan. Nid ydym yn derbyn y ddadl bod torri'r

looking after the needs of people. Little or no growth shows that this policy of austerity has failed.

diffyg yn fwy pwysig nag edrych ar ôl anghenion pobl. Mae ychydig neu ddim twf yn dangos bod y polisi hwn o gynilo wedi methu.

The Welsh Government is constrained and, given those constraints, we must be as creative as we can with the money that we have. We must not miss any opportunities to leverage additional European and private sector money so that we can get the best possible return. I am hopeful that we can optimise the new cash that has been set aside in the budget for apprenticeships with EU funds and funds from the private sector. The best apprenticeship schemes will involve working closely with industry. In its recent report, the Enterprise and Business Committee made clear in its first recommendation how important it is to,

Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei chyfyngu ac, o ystyried y cyfyngiadau hynny, mae'n rhaid i ni fod mor greadigol ag y gallwn gyda'r arian sydd gennym. Rhaid i ni beidio â cholli unrhyw gyfle i drosoli arian Ewropeaidd a sector preifat ychwanegol fel y gallwn gael yr elw gorau posibl. Rwy'n gobeithio y gallwn wneud y gorau o arian newydd sydd wedi cael ei neilltuo yn y gyllideb ar gyfer prentisiaethau ariannol gan yr UE ac arian o'r sector preifat. Bydd y cynlluniau prentisiaeth gorau yn cynnwys gweithio'n agos gyda diwydiant. Yn ei adroddiad diweddar, nododd y Pwyllgor Menter a Busnes yn glir yn ei argymhelliad cyntaf pa mor bwysig yw hi i,

'convince employers, particularly small and medium-sized enterprises, of the importance and cost-effectiveness of apprenticeships as part of a more strategic approach to planning their medium and long-term skills needs'.

argyhoeddi cyflogwyr, yn arbennig busnesau bach a chanolig, o bwysigrwydd a chost-effeithiolrwydd prentisiaethau fel rhan o ymagwedd fwy strategol tuag at gynllunio eu hanghenion sgiliau canolig a hir-dymor.

The committee also recommended that companies with well-established apprenticeship programmes should,

Mae'r pwyllgor hefyd yn argymell y dylai cwmnïau â rhaglenni prentisiaeth wedi'u hen sefydlu,

'mentor and link up with small and medium-sized employers to advise them on apprenticeship schemes'.

fentora a chysylltu â chyflogwyr bach a chanolig i'w cynghori ar gynlluniau prentisiaeth.

Another recommendation was about how important it is to,

Argymhelliad arall oedd am ba mor bwysig yw hi i,

'extend community benefits clauses in public sector contracts into subcontracting arrangements in order to promote the employment of trainees and apprentices'.

ymestyn cymalau manteision cymunedol mewn contractau sector cyhoeddus i drefniadau is-gontractio er mwyn hyrwyddo cyflogi hyfforddeion a phrentisiaid.

I am sure that those recommendations, and others, will be taken very seriously by the Welsh Government, who will be discussing further with Plaid Cymru how exactly this additional money is to be spent. We must ensure that women, as well as men, have apprenticeship opportunities in all fields. Traditionally, apprenticeships have been considered more by men than by women. I want to make sure that these opportunities are

Rwy'n siŵr y bydd yr argymhellion hynny, ac eraill, yn cael eu cymryd o ddifrif gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn trafod ymhellach gyda Phlaid Cymru sut yn union y bydd yr arian ychwanegol yn cael ei wario. Rhaid inni sicrhau bod menywod, yn ogystal â dynion, yn cael cyfleoedd prentisiaeth ym mhob maes. Yn draddodiadol, mae prentisiaethau wedi cael eu hystyried yn fwy gan ddynion na menywod. Rwyf am wneud

opened up to everyone.

yn siŵr bod y cyfleoedd hyn yn cael eu hagor i bawb.

We have also agreed £10 million for a new science park, to be brought forward in collaboration between Bangor University and Aberystwyth University. That is an exciting project that we hope will also leverage additional private and European funding. We want the science park to develop research and we want to ensure that it will equip young people with skills in science, technology, engineering and mathematics.

Rydym wedi cytuno ar £10 miliwn hefyd ar gyfer parc gwyddoniaeth newydd, i'w ddatblygu ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth. Mae hwn yn brosiect cyffrous yr ydym yn gobeithio fydd yn trosoli cyllid preifat ac Ewropeaidd ychwanegol hefyd. Rydym am i'r parc gwyddoniaeth ddatblygu ymchwil ac rydym am sicrhau y bydd yn arfogi pobl ifanc â'r sgiliau mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg.

To conclude, the Party of Wales does not agree with the cuts that are being pushed through by Westminster. We do not agree with the politics of austerity. We do not agree with all the budget priorities as set out by the Welsh Government and, therefore, we shall be abstaining on the budget vote today.

I gloi, nid yw Plaid Cymru – the Party of Wales yn cytuno â'r toriadau sy'n cael eu gwthio drwy San Steffan. Nid ydym yn cytuno â gwleidyddiaeth o gynilo. Nid ydym yn cytuno â'r holl flaenoriaethau cyllidebol fel y nodir gan Lywodraeth Cymru ac, felly, byddwn yn ymatal ar y bleidlais ar y gyllideb heddiw.

**Aled Roberts:** As has been mentioned, we cannot support the draft budget. We accept, as Nick Ramsay stated, that there are political priorities. On this occasion, the Government, which needs to secure the support of another party to see its budget through, felt it more appropriate to reach a deal with Plaid Cymru. We respect that choice. I would reiterate the comments of the Minister for Finance and Leader of the House, in that I think that discussions were conducted in good faith. At the end of the day, a deal has to be made. However, we feel that it is worth amplifying why we believed, given the deal that we reached last year on the pupil premium, as we call it, or the pupil deprivation grant, as the Welsh Government calls it—and as Simon Thomas has reminded us on numerous occasions when we table amendments that he does not feel able to support because it is part of a budget deal—that it was necessary to look at this, as we have done. We felt that there was a need to build on that in future years. That is particularly true because, in the English context, the pupil premium will expand over a three-year period. There are real concerns that the budget gap between the amount available for Welsh schools and the amount that is available in English schools will increase.

**Aled Roberts:** Fel y soniwyd eisoes, ni allwn gefnogi'r gyllideb ddrafft. Rydym yn derbyn, fel y nododd Nick Ramsay, bod blaenoriaethau gwleidyddol. Ar yr achlysur hwn, roedd y Llywodraeth, y mae angen iddi sicrhau cefnogaeth plaid arall i ddilyn ei chyllideb i'r terfyn, yn teimlo ei bod yn fwy priodol i gyrraedd cytundeb â Phlaid Cymru. Rydym yn parchu'r dewis hwnnw. Byddwn yn ailadrodd sylwadau'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, yn y ffaith fy mod yn credu bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda phob ewyllys da. Ar ddiwedd y dydd, mae'n rhaid gwneud cytundeb. Fodd bynnag, rydym yn teimlo ei bod yn werth ymhelaethu pam yr ydym yn credu, o ystyried y cytundeb y cyraeddasom y flwyddyn ddiwethaf ar y premiwm disgyblion, fel y'i gelwir, neu'r grant amddifadedd disgyblion, fel y mae Llywodraeth Cymru yn ei alw—ac fel y mae Simon Thomas wedi'n hatgoffa ar sawl achlysur pan fyddwn yn cyflwyno gwelliannau nad yw'n teimlo y gall ei gefnogi oherwydd ei fod yn rhan o gytundeb gyllideb—bod yn rhaid edrych ar hyn, fel yr ydym wedi ei wneud. Roeddem yn teimlo bod angen adeiladu ar hynny yn y blynyddoedd i ddod. Mae hynny'n arbennig o wir oherwydd, yng nghyd-destun Lloegr, bydd y premiwm disgyblion yn ehangu dros

gyfnod o dair blynedd. Mae pryderon gwirioneddol y bydd y bwlch yn y gyllideb rhwng y swm sydd ar gael ar gyfer ysgolion yng Nghymru a faint sydd ar gael mewn ysgolion yn Lloegr yn cynyddu.

5.15 p.m.

We have mentioned more than once that we believe that the budget should start to tackle the startling fact that just 23% of our children on free school meals in Wales achieve five good A* to C grades at GCSE. We also know that many of them have a reading age lower than their chronological age, even by the time they reach secondary school. So, although, as Peter Black mentioned, we are pleased that the Government retains the budget line for the pupil premium, the fact that it does not increase in this coming year does give us cause for concern. It is our belief—and we will continue to state it in our budget negotiations—that the pupil premium needs to increase year on year. The Minister for Education and Skills regularly refers to his manifesto commitments; we believe that our manifesto commitment to increase the pupil premium to £2,500 for every pupil on free school meals in Wales is achievable. The pupil premium in England will rise to over £1,200 by 2014-15, yet, in Wales, by accepting this budget, we accept that it will be less than half of this amount. We do believe that there is a need to ensure that we achieve value for money from this important investment that the pupil premium, which was secured last year, provides. I was pleased to visit a school recently whose headteacher wrote to Kirsty to thank her for securing the extra money last year. It is interesting that, in those schools that have made best use of the pupil premium, they see that it is making a difference for their poorest pupils.

Rydym wedi sôn fwy nag unwaith y credwn y dylai'r gyllideb ddechrau mynd i'r afael â'r ffaith syfrdanol mai dim ond 23% o'n plant sy'n cael prydau ysgol am ddim yng Nghymru sy'n cael pum gradd dda A* i C yn eu TGAU. Rydym hefyd yn gwybod bod llawer ohonynt ag oed darllen is na'u hoed cronolegol, hyd yn oed erbyn iddynt gyrraedd yr ysgol uwchradd. Felly, fel y soniodd Peter Black, er ein bod yn falch bod y Llywodraeth yn cadw'r llinell gyllideb ar gyfer y premiwm disgyblion, mae'r ffaith nad yw'n cynyddu yn y flwyddyn i ddod yn peri pryder. Ein cred yw—a byddwn yn parhau i ddatgan hynny yn ein trafodaethau cyllideb—bod angen cynyddu'r premiwm disgyblion o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn rheolaidd yn cyfeirio at ei ymrwymiadau maniffesto; rydym yn credu bod ein hymrwymiad maniffesto i gynyddu'r premiwm disgybl i £2,500 ar gyfer pob disgybl sy'n cael prydau ysgol am ddim yng Nghymru yn gyraeddadwy. Bydd y premiwm disgyblion yn Lloegr yn codi i dros £1,200 erbyn 2014-15, ac eto, yng Nghymru, drwy dderbyn y gyllideb hon, rydym yn derbyn y bydd yn llai na hanner y swm hwn. Rydym yn credu bod angen sicrhau ein bod yn cyflawni gwerth am arian o'r buddsoddiad pwysig hwn y mae'r premiwm disgyblion, a sicrhawyd y llynedd, yn ei ddarparu. Roeddwn yn falch o ymweld ag ysgol yn ddiweddar yr oedd ei phennaeth wedi ysgrifennu at Kirsty i ddiolch iddi am sicrhau arian ychwanegol y llynedd. Mae'n ddiddorol, yn yr ysgolion hynny sydd wedi gwneud y defnydd gorau o'r premiwm disgyblion, maent yn gweld ei fod yn gwneud gwahaniaeth i'w disgyblion tlotaf.

Our PISA scores are the lowest in the UK, and, as I have said already, too many of our children have a reading age below their actual age. As far as we are concerned, breaking the link between poverty and educational attainment is crucial for our children. It will help them to attain higher

Ein sgoriau PISA yw'r isaf yn y DU, ac, fel y dywedais eisoes, mae gormod o'n plant ag oedran darllen is na'u hoed gwirioneddol. O'n rhan ni, mae torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol yn hanfodol ar gyfer ein plant. Bydd yn eu helpu i ennill graddau uwch, mynd ymlaen i'r coleg, a

grades, to go on to college, and to take advantage of the apprenticeships that form part of the deal that Plaid Cymru has reached, and it will also break the link between low-income households and low aspirations in our country. There are too many families in Wales where generations—not just one, but two or three—within families have never worked. Helping children to see that schools are worthwhile, and that there is a future out there for them, is crucial. This budget, we believe, does not build upon the first step that was taken last year.

manteisio ar y prentisiaethau sy'n ffurfio rhan o'r cytundeb y mae Plaid Cymru wedi'i gyrraedd, a bydd hefyd yn torri'r cysylltiad rhwng aelwydydd incwm isel a dyheadau isel yn ein gwlad. Mae gormod o deuluoedd yng Nghymru lle mae cenedlaethau—dim un yn unig, ond dwy neu dair—o fewn teuluoedd heb weithio. Mae helpu plant i weld bod ysgolion yn werth chweil, a bod dyfodol iddynt, yn hanfodol. Nid yw'r gyllideb hon, rydym yn credu, yn adeiladu ar y cam cyntaf a gymerwyd y llynedd.

I also want to flag up the point that Peter Black made with regard to the cost of funding higher education. Given the assurance from the Minister that the current package is affordable until 2016, we need to start having a debate within the Assembly about the impact of the spending gap between universities in Wales and those in England. Universities need to form part of our economic recovery, and we need greater certainty over their funding in both the short term and the medium term. That is also essential for the work that this Assembly does in passing its budgets.

Rwyf hefyd yn awyddus i dynnu sylw at y pwynt a wnaeth Peter Black ynghylch y gost o ariannu addysg uwch. O ystyried y sicrwydd gan y Gweinidog bod y pecyn presennol yn fforddiadwy tan 2016, mae angen i ni ddechrau cael dadl yn y Cynulliad am effaith y bwlch cyllido rhwng prifysgolion yng Nghymru a'r rhai yn Lloegr. Mae angen i brifysgolion ffurfio rhan o'n hadferiad economaidd, ac mae angen mwy o sicrwydd ynghylch eu cyllid yn y tymor byr a'r tymor canolig. Mae hynny hefyd yn hanfodol ar gyfer y gwaith y mae'r Cynulliad yn ei wneud wrth basio ei gyllidebau.

**Lynne Neagle:** This is a budget that shows a Welsh Labour Government sticking to its guns and holding true to its values no matter how challenging the circumstances. We are proving that there is a better way of doing things, exposing the falsehood behind the politics of austerity. No doubt, so long as the coalition lasts, it will remain wedded to its disastrous economic strategy, its downright dangerous programme of welfare reform, and its dismal, divisive vision of our country's future. However, through the spending priorities laid out in this budget before us today, we are demonstrating that, no matter how hard things get, it is the Welsh Labour way to always place fairness, social justice and a sense of fair play at the heart of everything we do, showing in Government that you do not need to scapegoat the weak, target the poor or abandon the most vulnerable just because times are tough.

**Lynne Neagle:** Mae hon yn gyllideb sy'n dangos Llywodraeth Lafur Cymru yn dal at ei safbwynt ac yn cadw'n driw i'w gwerthoedd ni waeth pa mor heriol yr amgylchiadau. Rydym yn profi bod ffordd well o wneud pethau, gan ddatgelu'r anwiredd y tu ôl i wleidyddiaeth o gynilo. Nid oes amheuaeth, cyn belled ag y bydd y glymblaid yn parhau, bydd yn dal yn gwbl ymroddedig i'w strategaeth economaidd drychinebus, ei raglen gwbl beryglus o ddiwygio lles, a'i weledigaeth ddigalon, ymrannol o ddyfodol ein gwlad. Fodd bynnag, drwy'r blaenoriaethau gwariant a nodir yn y gyllideb hon ger ein bron heddiw, rydym yn dangos, ni waeth pa mor galed y bydd pethau, ffordd Lafur Cymru bob amser yw rhoi tegwch, cyfiawnder cymdeithasol ac ymdeimlad o chwarae teg wrth wraidd popeth a wnawn, gan ddangos mewn Llywodraeth nad oes angen i chi wneud bwch dihangol o'r gwan, targedu'r tlawd neu droi cefn ar y mwyaf agored i niwed dim ond am fod y cyfnod hwn yn anodd.

Of course, I accept that this is a really

Wrth gwrs, rwy'n derbyn bod hwn yn setliad

challenging settlement. Given that the Welsh Government's budget will be worth £2.1 billion less in two years' time than it was three years ago, and that the amount of money we have available for capital spending in Wales will have nearly halved, these are unquestionably swingeing, painful cuts to have to try to deal with. As the Tories and Lib Dems in this Chamber know full well, they are far deeper and have been made far faster than would have been the case under Labour's own deficit reduction plans. I believe that by remaining resolutely focused on the priorities that we have set out in our manifesto when we promised to stand up for the people of Wales—I will take your intervention in a second, Nick—by increasing the number of police community support officers, by doubling the number of children benefitting from Flying Start, by increasing access to GPs at evenings and weekends, and by investing in a jobs programme for our young people when nothing was forthcoming from Westminster, we will not only steer Wales through these difficult times, but we can start to build a better, stronger nation for the future.

heriol iawn. O gofio y bydd cyllideb Llywodraeth Cymru werth £2.1 yn llai ymhen dwy flynedd nag yr oedd dair blynedd yn ôl, ac y bydd y swm o arian sydd ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf yng Nghymru wedi haneru bron, mae'r rhain yn ddiamheuol yn doriadau llym, poenus i geisio delio â nhw. Fel y gŵyr y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid yn y Siambr hon yn dda, maent yn llawer dyfnach ac wedi cael eu gwneud yn llawer cyflymach nag a fyddai wedi bod yn wir o dan gynlluniau lleihau diffyg Llafur. Credaf, drwy ddal i ganolbwyntio'n benderfynol ar y blaenoriaethau yr ydym wedi'u pennu yn ein maniffesto pan oeddem yn addo sefyll dros bobl Cymru—byddaf yn derbyn eich ymyriad mewn eiliad, Nick—drwy gynyddu nifer swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, drwy ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar Dechrau'n Deg, drwy gynyddu mynediad at feddygon teulu gyda'r nos ac ar benwythnosau, a thrwy fuddsoddi mewn rhaglen o swyddi ar gyfer ein pobl ifanc pan nad oedd dim ar ddod o San Steffan, y byddwn nid yn unig yn llywio Cymru drwy'r cyfnod anodd hwn, ond gallwn ddechrau adeiladu cenedl well, gryfach ar gyfer y dyfodol.

**Nick Ramsay:** Do you recall, like me, a former Minister for finance, Andrew Davies, saying a few years ago that in a couple of years' time the Assembly budget was going to hit a 'brick wall'? That was under a previous Labour administration, so this is not all down to the Conservatives, is it? You have to be realistic; we were heading for a difficult situation, whatever the Government.

**Nick Ramsay:** Ydych chi'n cofio, fel fi, gyn Weinidog cyllid, Andrew Davies, yn dweud ychydig flynyddoedd yn ôl bod cyllideb y Cynulliad yn mynd i daro wal frics mewn cwpl o flynyddoedd? Roedd hynny dan y weinyddiaeth Lafur flaenorol, felly nid cyfrifoldeb y Ceidwadwyr yw hyn i gyd, naci? Mae'n rhaid i chi fod yn realistig; rydym yn symud tuag at sefyllfa anodd, beth bynnag y Llywodraeth.

**Lynne Neagle:** Of course there would have been difficult times ahead, but they would have been nothing compared with what you are inflicting on this Assembly. Just take a step back and look at what we are achieving in Government today, with little or nothing to spare. Compare and contrast what we are doing here in Wales with what the Tories are doing in England, and it should give us hope for the future.

**Lynne Neagle:** Wrth gwrs, byddai cyfnodau anodd wedi bod o'n blaenau, ond ni fyddent wedi bod yn ddim o'i gymharu â'r hyn yr ydych chi'n ei achosi i'r Cynulliad hwn. Cymerwch gam yn ôl ac edrychwch ar yr hyn yr ydym yn ei gyflawni yn y Llywodraeth heddiw, gydag ychydig neu ddim o gwbl i'w sbario. Cymharwch a chyferbynnwch yr hyn yr ydym yn ei wneud yma yng Nghymru â'r hyn y mae'r Torïaid yn ei wneud yn Lloegr, a dylai roi gobaith i ni ar gyfer y dyfodol.

In education, despite the tough settlement, we are witnessing nothing short of a standards

Ym maes addysg, er gwaethaf y setliad anodd, rydym yn gweld dim byd llai na

revolution—the most radical reform of our schools, colleges and universities that we have seen in a generation—and we are standing up for GCSE students, unlike your Government in England, and sustaining our programme of capital investment in schools when similar schemes in England have been all but abandoned. We are sticking to our free school breakfasts in the teeth of opposition from the Tories in this Chamber, who simply do not get what that means to families and children in the kind of communities that I represent. We have protected Welsh students from a tripling of tuition fees, which has seen 15,000 fewer English young people applying to go to university this year alone.

chwyldro safonau—y diwygio mwyaf radical ar ein hysgolion, colegau a phrifysgolion yr ydym wedi'i weld mewn cenhedlaeth—ac rydym yn sefyll i fyny dros fyfyrwyr TGAU, yn wahanol i'ch Llywodraeth yn Lloegr, ac yn cynnal ein rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion pan fo cynlluniau tebyg yn Lloegr wedi cael eu gadael i bob pwrpas. Rydym yn cadw at ein brecwast ysgol am ddim yn nannedd gwrthwynebiad y Torïaid yn y Siambr hon, nad ydynt yn syml yn deall yr hyn y mae hynny'n ei olygu i deuluoedd a phlant yn y math o gymunedau yr wyf yn eu cynrychioli. Rydym wedi amddiffyn myfyrwyr Cymru rhag treblu ffioedd dysgu, sydd wedi gweld 15,000 yn llai o bobl ifanc yn Lloegr yn gwneud cais i fynd i brifysgol eleni yn unig.

In the NHS, we are facing up to the need for fundamental change, but are rejecting the Tory privatisation that is seeing hospital trusts being taken over by private companies answerable to shareholders, not patients. The Tories can make as many false and undeliverable promises as they like about protecting health spending: at the UK level they have proved, yet again, that the NHS is simply not safe in their hands.

Yn y GIG, rydym yn wynebu'r angen am newid sylfaenol, ond yn gwrthod preifateiddio'r Torïaid sy'n gweld ymddiriedolaethau ysbytai yn cael eu cymryd drosodd gan gwmnïau preifat atebol i gyfranddalwyr, dim i gleifion. Gall y Torïaid wneud cymaint o addewidion ffug na ellir eu cyflawni ag y dymunant am ddiogelu gwariant ar iechyd: ar lefel y DU maent wedi profi, unwaith eto, nad yw'r GIG yn ddiogel yn eu dwylo.

We can take heart, too, from our approach to the housing challenges that we face: despite a 13% year-on-year budget cut, and the looming threat of welfare reform, we are pressing ahead with plans to build record numbers of affordable homes.

Gallwn fod yn galonogol, hefyd, gan ein hymagwedd at yr heriau tai sy'n ein hwynebu: er gwaethaf toriad cyllideb o 13% flwyddyn ar ôl blwyddyn, a bygythiad ar y gorwel o ddiwygio lles, rydym yn bwrw ymlaen â chynlluniau i adeiladu'r nifer fwyaf erioed o gartrefi fforddiadwy.

On the economy, too, I believe that there are real positives. A fortnight ago, I had the pleasure of accompanying the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science on a visit to Meritor in Cwmbran. If anyone doubts the power of genuine social partnership between business, Government and trade unions, then they should talk to the hundreds of workers there whose jobs have been secured thanks to a £36 million investment that has been supported by the Welsh Government through the single investment fund.

O ran yr economi, hefyd, rwy'n credu bod pethau cadarnhaol go iawn. Bythefnos yn ôl, cefais y pleser o fynd gyda'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar ymweliad â Meritor yng Nghwmbrân. Os oes unrhyw un yn amau pŵer partneriaeth gymdeithasol wirioneddol rhwng busnesau, y Llywodraeth a'r undebau llafur, yna dylent siarad â'r cannoedd o weithwyr yno y mae eu swyddi wedi'u diogelu diolch i fuddsoddiad o £36 miliwn sydd wedi ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru drwy'r gronfa fuddsoddi sengl.

I may not have a reputation for being its

Efallai nad oes gennyf enw da am fod y

biggest fan, but I applaud Plaid Cymru for doing the right thing by the people of Wales and providing the support today that should allow this budget to pass. I particularly welcome the increased investment in apprenticeships that was born out of the negotiations. Plaid Cymru must recognise, as we on this side of the Chamber do, that the Welsh Labour way is the right way for these times, and that is why I am proud to commend this budget to the Chamber.

cefnogwr mwyaf iddi, ond rwy'n cymeradwyo Plaid Cymru am wneud y peth iawn i bobl Cymru a darparu'r cymorth heddiw a ddylai ganiatáu i'r gyllideb hon basio. Croesawaf yn arbennig y buddsoddiad cynyddol mewn prentisiaethau a gododd o'r trafodaethau. Rhaid i Blaid Cymru gydnabod, fel yr ydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr, mai ffordd Llafur Cymru yw'r ffordd gywir ar gyfer yr amseroedd hyn, a dyna pam yr wyf yn falch o gymeradwyo'r gyllideb hon i'r Siambr.

**Antoinette Sandbach:** I welcome the chance to contribute to this debate. It is clear from some of the Labour Members' contributions that they are not in touch with reality.

**Antoinette Sandbach:** Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Mae'n amlwg o rai o gyfraniadau Aelodau Llafur nad ydynt mewn cysylltiad â realiti.

**Kenneth Skates:** Will you take an intervention?

**Kenneth Skates:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Antoinette Sandbach:** No. The facts and figures show that, in 2007, £8,489 was spent by the UK Treasury per head on services in Wales. This year, it is £9,740. We keep hearing about cuts to the capital budget, but is it recognised that the UK Government invested £57 billion in broadband services in Wales and is providing electrification of the main line to Cardiff and beyond? Are those figures taken into account by the Welsh Government when it is looking at investment in Wales?

**Antoinette Sandbach:** Na, Mae'r ffeithiau a'r ffigurau yn dangos, yn 2007, bod £8,489 y pen wedi cael ei wario gan Drysorlys y DU ar wasanaethau yng Nghymru. Eleni, mae'n £9,740. Rydym yn clywed o hyd am doriadau i'r gyllideb gyfalaf, ond a oes cydnabyddiaeth bod Llywodraeth y DU wedi buddsoddi £57 biliwn mewn gwasanaethau band eang yng Nghymru ac mae'n darparu trydaneiddio'r brif lein i Gaerdydd a thu hwnt? A gaiff y ffigurau hynny eu hystyried gan Lywodraeth Cymru pan fydd yn edrych ar fuddsoddi yng Nghymru?

**Kenneth Skates** *rose—*

**Kenneth Skates** *a gododd—*

**The Presiding Officer:** Order. I do not think that Antoinette Sandbach is taking an intervention.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid wyf yn credu bod Antoinette Sandbach yn derbyn ymyriad.

**Antoinette Sandbach:** I will take the intervention.

**Antoinette Sandbach:** Byddaf yn derbyn yr ymyriad.

**The Presiding Officer:** I beg your pardon, Antoinette.

**Y Llywydd:** Mae'n ddrwg gennyf, Antoinette.

**Kenneth Skates:** Many thanks for taking my intervention. Would you also agree with the former Deputy Prime Minister, Lord Heseltine, that the UK Government does not have a strategy for growth and wealth creation? Is that not an indictment of your own party's operations in Government?

**Kenneth Skates:** Diolch yn fawr am dderbyn fy ymyriad. A fyddech hefyd yn cytuno â'r cyn Ddirprwy Brif Weinidog, yr Arglwydd Heseltine, nad oes gan Lywodraeth y DU strategaeth ar gyfer twf a chreu cyfoeth? Onid yw hynny'n feirniadaeth ar weithrediadau eich plaid eich hun yn y

Llywodraeth?

**Antoinette Sandbach:** It is quite clear from the figures that were released recently, particularly the GDP figures, that there is a strategy and that it is working. Wales, after 13 years of a Labour Government in the Assembly, is failing. We have fallen to be the poorest part of the UK. Our GVA figures are falling and our educational standards are sliding. Our PISA results in particular show exactly how devastating the impact of 13 years of Labour policies is.

**Antoinette Sandbach:** Mae'n eithaf amlwg o'r ffigyrau a ryddhawyd yn ddiweddar, yn enwedig y ffigurau cynnyrch mewnwladol crynswth, bod strategaeth a'i bod yn gweithio. Mae Cymru, ar ôl 13 mlynedd o Lywodraeth Lafur yn y Cynulliad, yn methu. Rydym wedi cwympo i fod y rhan dlotaf o'r Deyrnas Unedig. Mae ein ffigurau GYC yn gostwng ac mae ein safonau addysgol yn llithro. Mae ein canlyniadau PISA yn benodol yn dangos yn union pa mor ddinistriol yw effaith 13 mlynedd o bolisïau Llafur.

What is more, we should remember that the Westminster Government passed on a budget that protected the health service. The Conservatives in Westminster ring-fenced the health service budget and passed that on to the Assembly, but this Government has chosen to spend the money differently. What that means for north Wales is that it will be the only region of Wales that does not have a level 3 neonatal care service. Yes, private companies may have taken over hospitals in England—as I recall, that was started by Andy Burnham, the Labour Minister for health at the time, who set out that document—but at least services are not being exported to a completely different country, which is what is happening in north Wales. There will be no level 3 services in north Wales as a result of these devastating cuts by Welsh Labour.

Ar ben hynny, dylem gofio bod Llywodraeth San Steffan wedi pasio ymlaen gyllideb sy'n gwarchod y gwasanaeth iechyd. Mae'r Ceidwadwyr yn San Steffan wedi neilltuo cyllideb y gwasanaeth iechyd ac wedi ei phasio ymlaen i'r Cynulliad, ond mae'r Llywodraeth hon wedi dewis gwario'r arian yn wahanol. Beth mae hynny'n ei olygu ar gyfer gogledd Cymru yw mai dyma fydd yr unig ranbarth o Gymru sydd heb wasanaeth gofal newyddenedigol lefel 3. Efallai'n wir fod cwmnïau preifat wedi cymryd drosodd ysbytai yn Lloegr—fel yr wyf yn cofio, dechreuwyd hynny gan Andy Burnham, y Gweinidog iechyd Llafur ar y pryd, a oedd yn gosod allan y ddogfen honno—ond o leiaf nid yw gwasanaethau'n cael eu hallforio i wlad hollol wahanol, sef yr hyn sy'n digwydd yng ngogledd Cymru. Ni fydd unrhyw wasanaethau lefel 3 yng ngogledd Cymru o ganlyniad i'r toriadau dinistriol hyn gan Lafur Cymru.

**Ann Jones:** Will you take an intervention?

**Ann Jones:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Antoinette Sandbach:** No, I am afraid not.

**Antoinette Sandbach:** Na wnaf, mae gen i ofn.

I also support what Aled Roberts said today about there being no meaningful attempt to close the funding gap between pupils in England and in Wales. The Minister can argue that this can no longer be measured because of funding changes in England, but, at the last measure, it was £604 per pupil and there is every likelihood that is not only still of that order but getting worse. The funding

Rwyf hefyd yn cefnogi'r hyn a ddywedodd Aled Roberts heddiw am y ffaith nad oes unrhyw ymdrech ystyrlon i gau'r bwlch cyllido rhwng disgyblion yn Lloegr ac yng Nghymru. Gall y Gweinidog ddadlau na ellir mesur hyn bellach oherwydd newidiadau cyllidol yn Lloegr, ond, ar y mesur olaf, roedd yn £604 y disgybl, ac mae pob tebygolrwydd nid yn unig ei fod yn dal yn

gap remains a matter of enormous concern for Welsh parents and pupils who will live with the consequences of these misallocated priorities for years to come.

rhywbeth tebyg ond yn gwaethygu. Mae'r bwlch cyllido'n dal i fod yn fater o bryder enfawr i rieni a disgyblion Cymru a fydd yn byw gyda chanlyniadau'r blaenoriaethau hyn a gam-neilltuwyd am flynyddoedd i ddod.

The Liberal Democrats' amendment 2 also highlights the failure to substantially increase the pupil deprivation grant. When this was agreed last year, we said that the Liberal Democrats had sold themselves cheaply. Of course, the intention was good, but we still await information on how this has been evaluated and monitored. There is natural concern that this policy may be a flash in the pan, in addition to concern about whether the money will make a meaningful impact.

Mae diwygiad 2 y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn tynnu sylw at y methiant i gynyddu'r grant amddifadedd disgyblion yn sylweddol. Pan gytunwyd ar hyn y llynedd, roeddem yn dweud bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwerthu eu hunain yn rhad. Wrth gwrs, roedd y bwriad yn dda, ond rydym yn dal i aros am wybodaeth am sut mae hyn wedi cael ei werthuso a'i fonitro. Mae pryder naturiol y gall y polisi hwn fod yn ddim ond tân siafins, yn ogystal â phryder ynghylch a fydd yr arian yn cael effaith ystyrlon.

We welcome the progress that the Minister for education has made in addressing the fact that roughly a third of the education budget is failing to reach front-line services. However, the Welsh Government still spends over £100 million on education support costs. That money would be far better spent on teachers and schools through direct funding.

Rydym yn croesawu'r cynnydd y mae'r Gweinidog dros addysg wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r ffaith bod tua thraean o'r gyllideb addysg yn methu â chyrraedd gwasanaethau rheng flaen. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn dal i wario dros £100 miliwn ar gostau cynnal addysg. Byddai'n well o lawer gwario'r arian hwnnw ar athrawon ac ysgolion drwy gyllid uniongyrchol.

In the environment and sustainable development portfolio, the creation of the new natural resources body has seen just over £0.75 million spent on IT infrastructure, scoping and legal advice, with £32,000 spent on public relations, and we have not even seen the cost of the branding exercise yet. It is doubtful that we will see the savings projected by the Minister. This does not seem to be a Government intent on delivering value for money.

Yn y portffolio amgylchedd a datblygiad cynaliadwy, mae creu corff adnoddau naturiol newydd wedi gweld gwario ychydig dros £0.75 miliwn ar seilwaith TG, cwmpasu a chyngor cyfreithiol, gyda £32,000 wedi ei wario ar gysylltiadau cyhoeddus, ac nid ydym hyd yn oed wedi gweld cost yr ymarfer brandio eto. Mae'n amheus a fyddwn yn gweld yr arbedion a ragwelir gan y Gweinidog. Nid yw'n ymddangos bod hyn yn fwriad y Llywodraeth mewn sicrhau gwerth am arian.

**The Presiding Officer:** Order. Wind up, please.

**Y Llywydd:** Trefn. Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

**Antoinette Sandbach:** Finally, the amount of money being spent by the Welsh Government on back-office administration is increasing to £350 million. I dare say that the impact of the delivery unit is part of that, and we are not seeing results being delivered.

**Antoinette Sandbach:** Yn olaf, mae'r swm o arian sy'n cael ei wario gan Lywodraeth Cymru ar y weinyddiaeth swyddfa gefn yn cynyddu i £350 miliwn. Mentraf ddweud bod effaith yr uned gyflenwi yn rhan o hynny, ac nid ydym yn gweld canlyniadau yn cael eu cyflawni.

**Ieuan Wyn Jones:** Rwy'n falch o gael cyfle i gyfrannu at y drafodaeth. Teimlaf—efallai y byddech yn disgwyl imi ddweud hyn—fod Plaid Cymru wedi gweithredu'n gyfrifol iawn yn y ffordd inni ymateb i'r trafodaethau ar y gyllideb eleni.

**Ieuan Wyn Jones:** I am pleased to have the opportunity to contribute to the debate. I feel—you may expect me to say this—that Plaid Cymru has acted very responsibly in the way that we have responded to the discussions on the budget this year.

Mae toriadau sylweddol, fel rydym wedi clywed eisoes, i'r bloc Cymreig. Mae'r ffigurau yn y gyllideb mewn termau *cash*, ac mae'r toriadau mewn termau real yn sylweddol iawn. O ganlyniad, yn ddigon naturiol, mae'r telerau negodi yn cyflwyno sialens. Dyna pam mae angen blaenoriaethu amlwg a ffocws clir.

There are significant cuts, as we have heard, to the Welsh block. The figures in the budget are in cash terms, and the cuts in real terms are very significant. As a result, naturally, the terms of negotiation pose a challenge. That is why we need clear prioritisation and a clear focus.

Yn ein barn ni, mae'r flaenoriaeth yn un amlwg: gwneud rhywbeth i helpu pobl ifanc i gael gwaith. Yn ystod argyfwng economaidd y 1980au, crëwyd cenhedlaeth goll o bobl ifanc. Erbyn hyn, maent yn bobl ganol oed, a nifer fawr ohonynt erioed wedi cael cyfle i weithio. Mae hynny'n drasiedi ac yn warth. Polisïau Mrs Thatcher a arweiniodd at y drasiedi honno, ac nid ydym am eu gweld yn cael eu hailadrodd yn ein cenhedlaeth ni.

In our view, the priority is very apparent: to do something to help young people to get into work. During the economic crisis in the 1980s, a lost generation of young people was created. They are now middle aged, and very many of them have never had an opportunity to work. That is a tragedy and a disgrace. It was Mrs Thatcher's policies that led to that tragedy, and we do not want to see those being repeated in our generation.

5.30 p.m.

Yn naturiol, felly, mae sialens a her fawr yn ein hwynebu. Roedd lefel y diweithdra ymhlith yr ifanc yn codi cyn y dirwasgiad diweddar, a hynny am fod anghenion yr economi'n newid o'n blaenau. Mae'r pwyslais wedi symud oddi ar economi sy'n seiliedig ar weithgynhyrchu i fod yn fwy dibynnol ar y sector gwasanaeth. O ganlyniad, mae cyflogwyr yn naturiol yn galw am sgiliau gwahanol: mae sgiliau llythrennedd a rhifedd a sgiliau rhyngbersonol cryf yn angenrheidiol mewn cynifer o feysydd erbyn hyn. Yn ychwanegol at y cynnydd a oedd yn digwydd beth bynnag, mae nifer sylweddol o bobl ifanc wedi'u hychwanegu at rengoedd y di-waith ers 2008, yn arbennig yn y grŵp oedran rhwng 16 a 24. Bellach, fel yr ydym wedi clywed yn barod, mae'r ffigur hwnnw dros 50,000, neu 24% o'n pobl ifanc.

Naturally, therefore, we are facing a very real and grave challenge. The level of unemployment among young people was increasing before the recent recession, and that was because the needs of the economy were changing before our very eyes. The emphasis has shifted from an economy based on manufacturing to one that is more dependent on the service sector. As a result, employers naturally demand different skills: literacy and numeracy skills and strong interpersonal skills are essential in so many fields nowadays. In addition to the increase in unemployment that was taking place anyway, a significant number of young people have been added to the ranks of the unemployed since 2008, particularly in the 16 to 24 age group. As we have already heard, that figure is now over 50,000, or 24% of our young people.

Mae angen rhoi mwy o adnoddau i hybu gwaith ymhlith yr ifanc. Nid prinder swyddi yw'r broblem bob tro ond diffyg sgiliau. Yn

We need to provide more resources to promote work among young people. It is not always a shortage of jobs that is the problem,

sicr, mae angen mwy o adnoddau, gyda'r arian ar gyfer sgiliau yn mynd i lawr o £89 miliwn yn ôl y gyllideb ddrafft wreiddiol i £81 miliwn y flwyddyn nesaf. Gyda'r £20 miliwn sy'n ychwanegol ar gyfer prentisiaethau a hyfforddiant, bydd y gyllideb sgiliau yn mynd i fyny i dros £100 miliwn yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

but a shortage of skills. We certainly need more resources, with funding for skills going down from £89 million according to the original draft budget to £81 million in the next year. With the additional £20 million for training and apprenticeships, the skills budget will therefore increase to more than £100 million over the next two years.

Er bod yr adnoddau yn hynod o bwysig, mae'r hyn yr ydym yn ei wneud gyda'r adnoddau lawn cyn bwysiced. Ni allwn wneud dim ond mwy o'r un peth. Dyna pam rwy'n credu bod adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar brentisiaethau yn dod ar adeg hynod amserol. Mae angen edrych ar ffyrdd newydd o weithredu, o greu perthynas fwy clòs â chyflogwyr a rhoi cyfle i bobl gael cymwysterau sy'n briodol i'r gweithle. Mae angen rhoi gwell anogaeth i gyflogwyr ac ennyn brwdfrydedd ymhlith yr ifanc bod ganddynt gyfle nid yn unig i gael hyfforddiant ond i gael swydd ar ddiwedd y cyfnod hyfforddiant. Ac ateb pwynt a wnaed gan Peter Black yn ystod ei gyfraniad, dyna pam nad ydym wedi neilltuo'r arian ychwanegol i gynlluniau penodol. Byddwn yn edrych ar ffyrdd newydd o wneud pethau, gan hyd yn oed ystyried cynlluniau peilot mewn rhai ardaloedd i weld beth sy'n llwyddo, ac yn edrych i weld beth sy'n llwyddo mewn gwledydd eraill. Bydd y Llywodraeth, fel y mae wedi cytuno, yn ymgynghori â ni cyn cyflwyno rhaglenni newydd, a byddwn yn mynnu bod y pwyslais nid ar y broses ond ar yr allbynnau.

Although the resources are extremely important, what we do with those resources is just as important. We simply cannot carry on doing the same thing. That is why I believe that the Enterprise and Business Committee report on apprenticeships came at a very timely moment. We need to look at new ways of working, of creating a closer relationship with employers and of giving people an opportunity to earn qualifications that are appropriate to the workplace. We need to provide better encouragement to employers and inspire enthusiasm among young people that they will have an opportunity not only to access training, but to have a job at the end of that training period. To respond to a point made by Peter Black during his contribution, that is why we have not allocated the additional funds to specific programmes. We will be looking at new ways of working, even considering pilot schemes in certain areas to see what actually works, as well as looking to see what works in other countries. The Government, as it has agreed, will consult us before introducing new programmes, and we will insist that the emphasis will not be on the process, but on the outputs.

Fel y gwyddom, mae cynnyrch mewnwladol crynswth Cymru yn isel iawn ar hyn o bryd, ac mae angen ei gryfhau. Mae sawl un wedi dweud bod angen rhoi mwy o bwyslais ar wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg—y pynciau STEM—os ydym am lwyddo. Rydym yn cytuno â hynny, ond mae angen llwyfan i greu llwyddiant. Mae'r ffordd y bydd yr Undeb Ewropeaidd yn dosbarthu arian ymchwil ar ôl 2014 drwy'r rhaglen Horizon 2020 yn gyfle gwirioneddol inni godi ein gêm.

As we know, Wales's gross domestic product is very low at present and needs to be strengthened. Many people have said that we need to place more emphasis on science, technology, engineering and maths—the STEM subjects—if we are to succeed. We agree with that, but you need a platform to achieve success. The way in which the European Union will deliver research funding post 2014 through the Horizon 2020 programme is a genuine opportunity for us to raise our game.

That is why we believe that the creation of the science park as part of the deal is so vitally important. We cannot forever be reliant on structural funds for our research

Dyna pam y credwn fod y broses o greu'r parc gwyddoniaeth fel rhan o'r fargen mor hanfodol bwysig. Ni allwn byth fod yn ddibynnol ar gronfeydd strwythurol ar gyfer

and development. We must be able to compete with the best for high-value, high-end research funding. That is why I believe that this science park development in the budget is so important, because Wales deserves the best, both in respect of research and the facilities to deliver and capture that research.

ein hymchwil a datblygu. Mae'n rhaid i ni fod yn gallu cystadlu â'r gorau am arian ymchwil gwerth uchel, pen ucha'r farchnad. Dyna pam yr wyf yn credu bod datblygiad y parc gwyddoniaeth yn y gyllideb mor bwysig, oherwydd mae Cymru'n haeddu'r gorau, o ran ymchwil a'r cyfleusterau i gyflwyno a chofnodi'r ymchwil hwnnw.

**Janet Finch-Saunders:** The annual allocation of the Welsh Government's budget remains the most important tool for improving the economy and services of Wales, and yet this budget is simply a case of business as usual. Instead of boosting business, protecting health and reversing decline, this Welsh Labour Government, with the help of a Plaid Cymru sell-out, has decided to cling to the status quo.

**Janet Finch-Saunders:** Mae'r dyraniad blynyddol o gyllideb Llywodraeth Cymru yn parhau i fod y dull mwyaf pwysig ar gyfer gwella economi a gwasanaethau Cymru, ac eto mater o fusnes fel arfer yw'r gyllideb hon yn unig. Yn hytrach na hybu busnes, diogelu iechyd a gwrthdroi dirywiad, mae Lywodraeth Lafur Cymru, gyda chymorth gan Blaid Cymru yn achub cyfle, wedi penderfynu glynu wrth y status quo.

On enterprise and business, the follow-up to the erroneously titled 'Budget for Growth and Jobs' contains an allocation for business, enterprise, technology and science of just 2% of the total budget. To put that into perspective, more money is spent on the Welsh Government's own empire building of expenditure on central services and administration than on business and enterprise: £348 million as opposed to £274 million. The budget lacks any detail on enterprise zones, and business leaders will be dismayed at the absence of any solid decisions on business rate relief.

O ran menter a busnes, mae'r hyn sy'n dilyn y 'Cyllideb ar gyfer Twf a Swyddi', sy'n dwyn y teitl anghywir, yn cynnwys dyraniad ar gyfer busnes, menter, technoleg a gwyddoniaeth o ddim ond 2% o gyfanswm y gyllideb. I roi hynny mewn persbectif, mae mwy o arian yn cael ei wario ar adeiladu ymerodraeth Llywodraeth Cymru ei hun o wariant ar wasanaethau canolog a gweinyddu nag ar fusnes a menter: £348 miliwn yn hytrach na £274. Mae'r gyllideb yn brin o unrhyw fanylion am ardaloedd menter, a bydd arweinwyr busnes yn cael ei siomi gan absenoldeb unrhyw benderfyniadau cadarn ar ryddhad ardrethi busnes.

The health budget over the past three years has been reduced by nearly £0.5 billion. On the ground, services are reaching crisis point, and it should be a matter of shame for the Assembly that Labour, with help from both the Lib Dems and Plaid Cymru, has allowed this to happen over the years. I call on the Minister to heed the warning of the Finance Committee that she should address the case for additional flexibility for LHBs to manage their own funding across financial years.

Mae'r gyllideb iechyd dros y tair blynedd diwethaf wedi gostwng gan bron i £0.5 biliwn. Ar lawr gwlad, mae gwasanaethau yn cyrraedd pwynt argyfwng, a dylai fod yn fater o gywilydd i'r Cynulliad bod y Blaid Lafur, gyda chymorth gan y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru, wedi caniatáu i hyn ddigwydd dros y blynyddoedd. Galwaf ar y Gweinidog i wrando ar rybudd y Pwyllgor Cyllid y dylai fynd i'r afael â'r achos dros hyblygrwydd ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol i reoli eu cyllid eu hunain ar draws blynyddoedd ariannol.

For local government, there is a challenging settlement that, on the face of it, appears better than it is. An attempted sleight of hand by the Minister means that there is top-slicing

Ar gyfer llywodraeth leol, mae setliad heriol, sydd ar yr olwg gyntaf, yn ymddangos yn well nag y mae. Mae cais gan y Gweinidog i gonsurio yn golygu bod brigdorri o bron i

of nearly £10 million from councils' own individual budget settlements to fund a collaboration agenda that is in complete disarray. That £10 million rightly belongs to those local authorities, and this top-slicing will have profound implications for their ability to borrow over the coming years, meaning deeper cuts to local services. I know this, because I have spoken to finance directors. Furthermore, invest-to-save already exists to fund innovative collaboration and reform. The creation of a separate fund can amount only to an admission of failure. Crucially, the Welsh Government has failed to commit the funding for council tax rises in Wales for a third time. Shame on you. That money has been transferred. You talk about cuts, but this is a Welsh Labour cut of the first degree.

£10 miliwn o setliadau cyllideb unigol cynghorau i ariannu agenda gydweithredu sydd mewn anhrefn llwyr. Mae'r £10 miliwn hwnnw mewn gwirionedd yn perthyn i'r awdurdodau lleol, a bydd gan y brigdorri hwn oblygiadau sylweddol o ran eu gallu i fenthyg dros y blynyddoedd nesaf, sy'n golygu toriadau dyfnach i wasanaethau lleol. Rwy'n gwybod hyn, oherwydd fy mod wedi siarad â chyfarwyddwyr cyllid. Ar ben hynny, mae buddsoddi i arbed eisoes yn bodoli i ariannu cydweithio arloesol a diwygio. Mae creu cronfa ar wahân yn gyfystyr â chyfaddefiad o fethiant yn unig. Yn hanfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi methu ag ymrwymo cyllid ar gyfer cynnydd treth y cyngor yng Nghymru am y trydydd tro. Cywilydd arnoch chi. Mae'r arian wedi cael ei drosglwyddo. Rydych yn sôn am doriadau, ond mae hwn yn doriad Llafur Cymru o'r radd flaenaf.

The 'One Wales' agreement included a commitment to protect district general hospitals and support community-level healthcare. This budget cuts health spending in real terms, meaning hospital downgrades and cuts to community healthcare. That is in spite of all the promises that we have had from the Minister for Health and Social Services, saying that she would not allow any downgrades. They are happening as I stand here now.

Mae 'Cymru'n Un' yn cynnwys ymrwymiad i warchod ysbytai dosbarth cyffredinol a chefnogaeth gymunedol ar lefel gofal iechyd. Mae'r gyllideb hon yn torri gwariant ar iechyd mewn termau real, sy'n golygu israddio ysbytai a thoriadau i ofal iechyd cymunedol. Mae hynny er gwaethaf yr holl addewidion yr ydym wedi'u cael gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a ddywedodd na fyddai'n caniatáu unrhyw israddio. Maent yn digwydd wrth imi sefyll yma yn awr.

**Ann Jones:** On the point about health, over on that side of the Chamber, you seem to think that Betsi Cadwaladr University Local Health Board has made its decisions, and yet the consultation has only recently closed. Surely we should give it time to look at the consultation results before we start predicting what it will do.

**Ann Jones:** Ar y pwynt ynglŷn ag iechyd, drosodd ar yr ochr acw i'r Siambr, ymddengys eich bod yn meddwl bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gwneud ei benderfyniadau, ac eto dim ond yn ddiweddar y mae'r ymgynghoriad wedi cau. Siawns na ddylem roi amser i edrych ar y canlyniadau ymgynghori cyn i ni ddechrau rhagweld beth fydd yn ei wneud.

**Janet Finch-Saunders:** I thank the Member for raising that point, because it provides me with the opportunity to inform the Member that I have correspondence that states that matters that were not part of the consultation, as regards Llandudno Hospital, will now be considered as part of it, so that is a complete failure and leads to a lack of trust in the process.

**Janet Finch-Saunders:** Diolch i'r Aelod am godi'r pwynt hwnnw, oherwydd mae'n rhoi'r cyfle i mi i roi gwybod i'r Aelod fod gennyf ohebiaeth sy'n datgan y bydd materion nad oedd yn rhan o'r ymgynghoriad, o ran Ysbyty Llandudno, yn awr yn cael eu hystyried fel rhan ohono, felly mae'n fethiant llwyr ac yn arwain at ddiffyg ymddiriedaeth yn y broses.

The 'One Wales' agreement promised to enhance business rate relief, and yet this budget has a complete absence of any solid rate relief proposals, which businesses and our economy so desperately need. I must be honest and say that I was amazed earlier to hear the dazed response of the First Minister to Antoinette Sandbach when she talked about bureaucracy and red tape in business in Wales. I speak to an awful lot of businesspeople and they are very disappointed with the performance of this Welsh Labour Government. The 'One Wales' agreement also contained a promise to ensure that all households in all communities, irrespective of their means, could afford a decent home. At the same time, Plaid Cymru is allowing a budget to pass that will see the housing budget cut by more than spending on administration and bureaucracy.

Roedd 'Cymru'n Un' yn addo gwella rhyddhad ardrethi busnes, ac eto yn y gyllideb hon mae absenoldeb llwyr unrhyw gynigion rhyddhad ardrethi cadarn, y mae cymaint o'i angen ar fusnesau a'n heconomi. Mae'n rhaid i mi fod yn onest a dweud fy mod wedi fy synnu'n gynharach i glywed ymateb syfrdan y Prif Weinidog i Antoinette Sandbach pan soniodd am fiwrocratiaeth ym myd busnes yng Nghymru. Byddaf yn siarad â llawer iawn o bobl fusnes ac maent yn siomedig iawn gyda pherfformiad Llywodraeth Lafur Cymru. Mae 'Cymru'n Un' hefyd yn cynnwys addewid i sicrhau bod pob aelwyd ym mhob cymuned, waeth beth fo'i hincwm, yn gallu fforddio cartref gweddus. Ar yr un pryd, mae Plaid Cymru yn caniatáu cyllideb i basio a fydd yn gweld y gyllideb tai yn cael ei thorri gan fwy na gwariant ar weinyddu a biwrocratiaeth.

This budget is devoid of new ideas. For the people of Wales, it is very much a case of business as usual, which will see health budgets being cut, services downgraded and lives put at risk. It is business as usual that will see councils lose out on millions of pounds so that the Minister can push forward with a collaboration agenda in disarray, and business as usual that will see no extra help for businesses, which are so vital for the health and prosperity of our nation. This is a lamentable budget from a lazy Labour Government, propped up by its Plaid Cymru cronies. So much for standing up for Wales. You have clearly let everybody down.

Mae'r gyllideb hon yn amddifad o syniadau newydd. Ar gyfer pobl Cymru, mae'n achos o fusnes fel arfer, a fydd yn gweld cyllidebau iechyd yn cael eu torri, gwasanaethau'n cael eu hisraddio a bywydau mewn perygl. Mae'n fusnes fel arfer a fydd yn gweld cynghorau'n colli miliynau o bunnoedd fel y gall y Gweinidog fwrw ymlaen gydag agenda gydweithio mewn anhrefn, a busnes fel arfer fydd yn gweld dim cymorth ychwanegol i fusnesau, sydd mor hanfodol ar gyfer iechyd a ffyniant ein cenedl. Mae hon yn gyllideb druenus gan Lywodraeth Lafur ddiog, yn cael ei chynnal gan ei ffrindiau Plaid Cymru. Dyna ddiwedd ar sefyll i fyny dros Gymru. Rydych yn amlwg wedi siomi pawb.

**Alun Ffred Jones:** Nid wyf am siarad yn hir. Rydym eisoes wedi clywed am brentisiaethau a'r parc gwyddoniaeth, a gobeithiaf y bydd y cynlluniau prentisiaethau, pan fyddant yn cael eu datblygu, yn gallu rhoi gobaith i filoedd o bobl ifanc.

**Alun Ffred Jones:** I do not want to speak for long. We have already heard about apprenticeships and the science park, and I hope that the apprenticeship schemes, once they are developed, can give hope to thousands of young people.

Nid yw'n amser da i fod yn ifanc ym Mhrydain nac, yn wir, yn Ewrop y dyddiau hyn, o gofio'r lefelau diweithdra annerbyniol o uchel sydd ym mhob rhan o Brydain, ond yn arbennig yng Nghymru. Ni chredaf y dylem roi'r gorau i obeithio am y gorau ar gyfer y bobl ifanc hyn. Mae'n ddyletswydd arnom, ym mhob rhan o Gymru, i sicrhau bod

It is not a good time to be young these days in Britain, or, indeed, in Europe, given the unacceptably high levels of unemployment in every part of Britain, but especially in Wales. I do not think that we should give up on hoping for the best for these young people. We have a duty, in every part of Wales, to ensure that there are opportunities for young

cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau i'r lefelau uchaf. Dyna pam yr ydym wedi rhoi cymaint o bwyslais ar hynny yn y gyllideb.

people to develop their skills to the highest level. That is why we have placed so much emphasis on that in the budget.

Wrth edrych ymlaen ymhellach, mae'n rhaid inni hefyd, fel yr oedd Ieuan Wyn Jones yn ei ddweud, ddatblygu sylfaen yn yr economi a chreu economi iachach, gryfach sy'n gallu wynebu heriau'r presennol a'r dyfodol. Un o'r pethau y gallwn ac y dylem ei wneud yn y tymor byr yw sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb gyfalaf sy'n datblygu fwyfwy oherwydd y toriadau i'r gyllideb graidd. Rhaid inni chwilio am ffyrdd amgenach o ddarganfod arian ar gyfer cynlluniau cyfalaf gan eu bod yn rhoi gobaith i gwmnïau cynhenid ym Mhrydain a chan eu bod hwythau, yn eu tro, yn cyflogi pobl ifanc ac yn datblygu eu sgiliau. Yn yr ochr honno o bethau, sy'n gyfochrog â'r gyllideb hon, mae fy niddordeb i.

In looking further ahead, as Ieuan Wyn Jones said, we need to develop the foundations of the economy, too, and create a healthier, stronger economy that can face the challenges of the present time and the future. One thing that we could and should do in the short term is ensure that we get to grips with the shortfall in the capital budget, which is growing more and more as a result of the cuts to the core funding. We need to seek alternative ways of finding funding for capital programmes given that they give hope to indigenous companies in Britain and that they, in turn, employ young people and develop their skills. It is in that side of things, side by side with the budget, that I am interested.

Hoffwn gyfeirio'n gryno at yr angen i gael pwerau benthyg i Gymru, eu cael yn fuan a chael yr un pwerau benthyg ag a roddwyd i'r Alban. Bydd yr Alban yn gallu benthyg dros £2 biliwn o arian cyfalaf a £0.5 biliwn o arian refeniw. Mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn cael yr un pwerau i Gymru. Dylid cofio hefyd, wrth gwrs, fod yr Alban eisoes â dyled fawr oherwydd ei bod, yn ogystal â Lloegr, wedi dilyn llwybr y fenter cyllid preifat. Llwyddodd Plaid Cymru, pan oedd hi mewn llywodraeth â'r Blaid Lafur—pan sylweddolodd hefyd y camgymeriadau a oedd yn digwydd yn San Steffan—i beidio â mynd ar hyd llwybr y fenter i'r fath raddau. Pan edrychwch ar gynlluniau ysbytai, fel Ysbyty Castell-nedd Port Talbot a gweld yr arian aruthrol sy'n cael ei wario ar y cynllun hwnnw oherwydd cynllun PFI gwallus, rydych yn sylweddoli pa mor ddoeth y buom yng Nghymru i beidio â dilyn y llwybr hwnnw. Felly, mae cael pwerau benthyg yn eithriadol o bwysig.

I want to refer briefly to the need for Wales to have borrowing powers, to have them soon and to have the same borrowing powers as were given to Scotland. Scotland will be able to borrow more than £2 billion of capital and £0.5 billion of revenue. We have to ensure that we get the same powers for Wales. We should also bear in mind, of course, that Scotland is already in a lot of debt because it went down the private finance initiative route, as did England. Plaid Cymru, when we were in government with the Labour Party—once it realised the mistakes being made at Westminster—succeeded in not going down the PFI route to the same extent. When you consider the schemes for hospitals, such as Neath Port Talbot Hospital, and see the huge amount of money being spent on that scheme because of an erroneous PFI scheme, you realise how prudent we were in Wales not to go down that path. Therefore, having borrowing powers is extremely important.

Rhaid inni hefyd—

We must also—

**Nick Ramsay:** Thanks for giving way, Ffred. While I agree with you that borrowing powers can be an important tool, would you agree with me that, on their own, they are nowhere near enough and what we need to do is grow businesses and small and medium-

**Nick Ramsay:** Ffred Diolch am ildio**.** Er fy mod yn cytuno â chi y gall pwerau benthyca fod yn arf pwysig, a fyddech yn cytuno â mi nad ydynt, ar eu pen eu hunain, yn agos at fod yn ddigon a beth sydd angen ei wneud yw tyfu busnesau a mentrau bach a chanolig?

sized enterprises? That is what will generate the future wealth that will give us the money that we need to spend on all the things that we want.

Dyna beth fydd yn cynhyrchu cyfoeth yn y dyfodol a fydd yn rhoi i ni yr arian yr ydym ei angen i wario ar yr holl bethau yr ydym eu heisiau.

**Alun Ffred Jones:** Dyna pam, wrth gwrs, yr oeddwn yn cyfeirio at y parc gwyddoniaeth sy'n cael ei ddatblygu fel un enghraifft o'r hyn yr ydym yn gobeithio ei wneud, oherwydd mae buddsoddiad gan y sector preifat yn hollbwysig yn hynny o beth. Mae'r arian hwn am gynlluniau cyfalaf yr wyf yn sôn amdano nid ar gyfer datblygu isadeiledd Cymru yn unig, wrth gwrs, ond hefyd i roi hwb i gwmnïau o Gymru. Dyna pam yr ydym hefyd yn gobeithio y bydd adroddiad Silk yn dod â phwerau inni allu codi trethi yng Nghymru, nid yn unig er mwyn inni godi arian ein hunain ond er mwyn dod â disgyblaeth i weinyddiaeth a llywodraeth yng Nghymru a stopio'r gêm wirion hon o roi'r bai ar Lundain am bob peth sy'n digwydd yma yng Nghymru ac yn y Llywodraeth. Mae'n rhaid inni ddechrau cymryd mwy o gyfrifoldeb am ein gweithredoedd ein hunain.

**Alun Ffred Jones:** That is why, of course, I was referring to the science park that is being developed as one example of what we are hoping to achieve, because private sector investment is crucial in this regard. The money for capital schemes that I am talking about would be not just for the development of infrastructure in Wales, of course, but to give Welsh companies a boost. That is why we are also hoping that the Silk report will lead to tax-levying powers being given to Wales, not only for us to be able to generate income ourselves, but to bring a discipline to administration and government in Wales and to stop the stupid game of blaming London for everything that happens in Wales and in Government. We have to take more responsibility for our own actions.

Yn olaf, mae'n rhaid inni hefyd chwilio am ddulliau eraill o godi arian. Un o'r cynlluniau y mae Plaid Cymru wedi'i awgrymu yw'r cynllun Adeiladu dros Gymru. Mae'n rhaid inni weld datblygiad o ran hynny. Byddai hynny'n golygu benthyca arian ar y marchnadoedd, wrth gwrs, a gallai hynny, gan ddibynnu ar y sefyllfa, fod yn ddrutach na chynllunio i fenthyg drwy'r Trysorlys. Serch hynny, bydd gwneud hynny'n rhoi disgyblaeth arnom yng Nghymru wrth inni chwilio am ffyrdd o adeiladu ein hisadeiledd, sydd, yn ei dro, nid yn unig yn rhoi hwb i fusnesau Cymru ond, gobeithio, yn datblygu ein gallu i wneud gwaith ymchwil gwreiddiol sy'n bwydo i'r sector preifat, sydd wedyn yn gallu creu cyflogaeth dda, ddibynadwy yng Nghymru. Heb hynny, gallwn wario'r holl arian rydym eisiau ac ni fyddwn ddim elwach.

Finally, we have to look for other ways of generating income. One of the schemes put forward by Plaid Cymru is Build 4 Wales and we need to see development taking place in that direction. This would mean borrowing money on the markets, of course, which could, depending on the situation, be more expensive than borrowing via the Treasury. However, doing that would bring a discipline to our efforts in Wales in finding ways of building our infrastructure, which, in turn, will not only give Welsh businesses a boost but, hopefully, develop our ability to undertake original research that feeds into the private sector where, as a result, good, sustainable employment can be created in Wales. Without that, we can spend all the money that we want, but we will not be better off for it.

5.45 p.m.

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the opportunity to speak in the budget debate today. It lacks the tension that we had last year, given the deal that was announced last

**Andrew R.T. Davies:** Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl ar y gyllideb heddiw. Nid yw'r un tensiwn yma ag a gawsom y llynedd, o ystyried y fargen a gyhoeddwyd yr wythnos

week between Plaid Cymru and the Government.

diwethaf rhwng Plaid Cymru a'r Llywodraeth.

I do not think that this budget has the ambition or will have the action, and, above all, the achievement that the Welsh economy needs today, tomorrow and in the future. What we need is a budget that will address the uncompetitiveness of the Welsh economy, the chronic pressure on our health service, and, above all, the pressure on household budgets. With more imagination, we could have had a budget before us today that could have achieved all four of those goals.

Nid wyf yn credu bod gan y gyllideb hon yr uchelgais ac ni fydd ganddi'r camau gweithredu, ac, yn anad dim, y cyflawniad sydd eu hangen ar economi Cymru heddiw, yfory ac yn y dyfodol. Yr hyn yr ydym ei angen yw cyllideb a fydd yn mynd i'r afael â diffyg cystadleurwydd economi Cymru, y pwysau cronig ar ein gwasanaeth iechyd, ac, yn anad dim, y pwysau ar gyllidebau cartrefi. Gyda mwy o ddychymyg, gallem fod wedi cael cyllideb ger ein bron heddiw a allai fod wedi cyflawni pob un o'r pedwar o'r amcanion hynny.

On the economy, our longstanding pledge on business rates is no secret, and it is a pledge that Plaid Cymru, now in opposition, has joined us in supporting. It is vital that businesses in Wales allow themselves to have money left so that they can create employment opportunities and invest. There would have been no better way to help businesses in Wales than to have a more attractive business rates policy that would have helped many small and medium-sized businesses.

O ran yr economi, nid yw ein haddewid ers tro byd ar gyfraddau busnes yn gyfrinach, ac mae'n addewid y mae Plaid Cymru, sydd bellach yn wrthblaid, wedi ymuno â ni i'w chefnogi. Mae'n hanfodol bod busnesau yng Nghymru yn caniatáu eu hunain i gael arian yn weddill er mwyn iddynt greu cyfleoedd cyflogaeth a buddsoddi. Ni ellid bod wedi cael gwell ffordd i helpu busnesau yng Nghymru nag i gael polisi ardrethi busnes mwy deniadol a fyddai wedi helpu llawer o fusnesau bach a chanolig .

I worry about the apprenticeship schemes that are coming out of the Welsh Government, particularly the enhanced apprenticeship schemes. You cannot criticise the ability to create apprenticeships, but ultimately it is about the jobs at the end of the process—the real jobs in the economy. Sadly, for the last 59 months, Wales has not managed to create the same number of jobs that the rest of the UK economy has. I do not believe that this budget will rectify that problem.

Rwy'n pryderu am y cynlluniau prentisiaeth sydd yn dod gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig y cynlluniau prentisiaeth gwell. Ni allwch feirniadu'r gallu i greu prentisiaethau, ond yn y pen draw mae'n ymwneud â'r swyddi ar ddiwedd y broses—y swyddi go iawn yn yr economi. Yn anffodus, am y 59 mis diwethaf, nid yw Cymru wedi llwyddo i greu'r un nifer o swyddi ag y mae gweddill economi'r DU. Nid wyf yn credu y bydd y gyllideb hon yn unioni'r broblem honno.

My colleague Paul Davies touched on the severe underfunding of the Welsh NHS—£495 million—and this budget will do little or nothing to address the pressures that LHBs, clinicians and patients face.

Cyfeiriodd fy nghydweithiwr, Paul Davies at danariannu difrifol GIG Cymru—£495 miliwn—a bydd y gyllideb hon yn gwneud ychydig neu ddim i fynd i'r afael â'r pwysau y mae Byrddau Iechyd Lleol, clinigwyr a chleifion yn eu hwynebu.

It was interesting to hear the opening remarks of the Chair of the Finance Committee about the very serious concerns that have been levelled by the all-party committee that is the Finance Committee, and in the evidence that

Roedd yn ddiddorol clywed sylwadau agoriadol Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid am y pryderon difrifol iawn sydd wedi cael eu cyfeirio gan y pwyllgor hollbleidiol sef y Pwyllgor Cyllid, ac yn y dystiolaeth y mae

it has taken. I regret that the Minister for Finance has not taken this opportunity—she might do so in her summing up—to address those concerns, and, in particular, give us a hint as to whether there will be additional money available for the LHBs now that we are going into a period of winter pressure, but also for next year and the spending commitments that this budget will support. Time and again, the rhetoric from the Government benches is not borne out by the reality that many of our clinicians and patients face. Considering that 40% of the budget that we are discussing today is allocated to the Department for Health and Social Services, it is vital that these very serious concerns are addressed so that we can have confidence that the plans before us are robust enough to meet those challenges. However, I and my colleagues on this side of Chamber do not believe that that will be the case, and we believe that the pressure on the health budget will go on and on until this Government wakes up to the very real calls for it to start joining in with what other parts of the United Kingdom are doing, namely protecting the health service. It was interesting to hear the director of the Royal College of Nursing supporting our position, a position that she originally did not support.

wedi'i chymryd. Rwy'n gresynu nad yw'r Gweinidog Cyllid wedi cymryd y cyfle hwn—gallai wneud hynny wrth grynhoi—i fynd i'r afael â'r pryderon hynny, ac, yn benodol, i roi awgrym i ni a fydd arian ychwanegol ar gael ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol nawr ein bod yn mynd i mewn i gyfnod o bwysau'r gaeaf, ond hefyd ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r ymrwymiadau gwario y bydd y gyllideb yn eu cefnogi. Dro ar ôl tro, nid yw'r rhethreg o feinciau'r Llywodraeth yn cael ei chadarnhau gan y realiti y mae llawer o'n clinigwyr a chleifion yn ei wynebu. O ystyried bod 40% o'r gyllideb yr ydym yn ei thrafod heddiw yn cael ei dyrannu i'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'n hanfodol bod y pryderon difrifol iawn hyn yn cael eu trin fel y gallwn fod yn hyderus bod y cynlluniau ger ein bron yn ddigon cadarn i wynebu'r heriau. Fodd bynnag, nid wyf i a fy nghydweithwyr ar yr ochr hon i'r Siambr yn credu y bydd hynny'n digwydd, ac rydym yn credu y bydd y pwysau ar y gyllideb iechyd yn mynd ymlaen ac ymlaen hyd nes y bydd y Llywodraeth hon yn deffro i'r galwadau go iawn iddi ddechrau ymuno â'r hyn y mae rhannau eraill y Deyrnas Unedig yn ei wneud, sef amddiffyn y gwasanaeth iechyd. Roedd yn ddiddorol clywed cyfarwyddwr y Coleg Nyrsio Brenhinol yn cefnogi ein sefyllfa, sefyllfa nad oedd yn ei chefnogi'n wreiddiol.

It is regrettable that the Minister for Finance has not chosen to use the additional money that could come forward via the council tax freeze in England. Scotland has enjoyed a council tax freeze for the last four years. In England, they are into year 2 of the freeze. This would have put real money in people's pockets that could have been spent in communities the length and breadth of Wales. Who is best placed to spend that money? Our view as Conservatives, unsurprisingly, is that it is the individuals who, day in, day out, earn that money who are best placed to spend it, and that money, as it is a Barnett consequential, could have been delivered to households up and down Wales, therefore alleviating the constant upward pressure of council tax in Wales since 1997.

Mae'n drueni nad yw'r Gweinidog Cyllid wedi dewis defnyddio'r arian ychwanegol a allai ddod ymlaen drwy rewi'r dreth gyngor yn Lloegr. Mae'r Alban wedi mwynhau rhewiad yn y dreth gyngor am y pedair blynedd diwethaf. Yn Lloegr, maent ym mlwyddyn 2 y rhewi. Byddai hyn wedi rhoi arian go iawn ym mhocedi pobl a allai fod wedi cael ei wario mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru. Pwy sydd yn y sefyllfa orau i wario'r arian hwnnw? Ein barn ni fel Ceidwadwyr, nid yw'n syndod, yw mai'r unigolion sydd, ddydd ar ôl dydd, yn ennill yr arian hwnnw sydd yn y sefyllfa orau i'w wario, a gellid bod wedi dosbarthu'r arian hwnnw, gan ei fod yn swm canlyniadol Barnett, i gartrefi ar hyd a lled Cymru, gan felly liniaru pwysau cyson tuag i fyny y dreth gyngor yng Nghymru ers 1997.

This budget also does little or nothing to address the increasing funding gap across the education portfolio. Many examples have been offered today of the amount of money that is held back in the centre, rather than it achieving the best effect by being delivered to the front door of schools. Again, we believe that a great opportunity has been missed in drafting and working this budget so that the very precious resources that we have can be delivered to our schools across Wales. This is a typical lazy Labour budget that, ultimately, will continue to leave Wales at the bottom of the economic table, the bottom of the health table and the bottom of the education table. It is deeply regrettable that Plaid Cymru has nailed its colours to the mast because that will continue that lazy Labour attitude that has achieved so little for Wales in the early years of devolution.

Mae'r gyllideb hon hefyd yn gwneud ychydig neu ddim i fynd i'r afael â'r bwlch cyllido cynyddol ar draws y portffolio addysg. Mae llawer o enghreifftiau wedi cael eu cynnig heddiw o'r swm o arian sy'n cael ei ddal yn ôl yn y canol, yn hytrach nag yn cael yr effaith orau drwy gael ei gyflwyno i ddrws ffrynt ysgolion. Unwaith eto, rydym yn credu bod cyfle gwych wedi ei golli wrth ddrafftio a gweithio'r gyllideb hon fel y gall yr adnoddau gwerthfawr iawn sydd gennym gael eu cyflwyno i'n hysgolion ledled Cymru. Mae hon yn gyllideb Lafur nodweddiadol ddiog fydd, yn y pen draw, yn parhau i adael Cymru ar waelod y tabl economaidd, gwaelod y tabl iechyd a gwaelod y tabl addysg. Mae'n anffodus iawn bod Plaid Cymru yn dal yn gyndyn yn ei barn oherwydd bydd hynny'n parhau â'r agwedd Llafur ddiog sydd wedi cyflawni cyn lleied i Gymru ym mlynyddoedd cynnar datganoli.

**The Presiding Officer:** Order. Time is up.

**Y Llywydd:** Trefn. Amser ar ben.

**Andrew R.T. Davies:** I urge support of our amendments and rejection of the draft budget before us this afternoon.

**Andrew R.T. Davies:** Fe'ch anogaf i gefnogi ein gwelliannau a gwrthod y gyllideb ddrafft ger ein bron y prynhawn.

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** Overall, as I said in my opening remarks, the spirit of this debate has been that there is more that unites us than divides us in this Chamber. I want to start by thanking the Chair of the Finance Committee for the report she presented today. As many Members across the Chamber have said, midway through the current spending review period, these budget plans are set at a very challenging time. We have been clear that our overriding priorities in this financial climate are jobs and the economy, to revive our economy with community benefits and deliver better, more efficient public services, and to deliver a balanced budget at the toughest of times.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Ar y cyfan, fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, ysbryd y ddadl hon yw bod mwy sy'n ein huno nag sy'n ein rhannu yn y Siambr hon. Rwyf am ddechrau drwy ddiolch i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid am yr adroddiad a gyflwynwyd ganddi heddiw. Fel y mae nifer o Aelodau ar draws y Siambr wedi dweud, hanner ffordd drwy'r cyfnod adolygu gwariant presennol, mae'r cynlluniau cyllideb hyn yn cael eu pennu ar adeg heriol iawn. Rydym wedi bod yn glir mai ein blaenoriaethau pwysicaf yn yr hinsawdd ariannol yw swyddi a'r economi, i adfywio ein heconomi gyda manteision cymunedol a darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell, mwy effeithlon, ac i gyflawni cyllideb gytbwys ar yr adegau mwyaf anodd.

In responding to the debate, I want to start with the financial pressures on the Welsh NHS. At the time of the spending review we took a holistic view, which was shared substantially across the Chamber although not by the Welsh Conservatives, and

Wrth ymateb i'r ddadl, rwyf am ddechrau gyda'r pwysau ariannol ar y GIG yng Nghymru. Ar adeg yr adolygiad o wariant roeddem yn cymryd golwg gyfannol a rannwyd yn sylweddol ar draws y Siambr er nad gan y Ceidwadwyr Cymreig, a daethom

concluded that improving health outcomes for people in Wales required investment in a range of policies, as Mike Hedges said. So not only did we protect the health budget from cash reductions, we invested in a range of policies such as education, housing and particularly social services—policies that have an impact on people's health. However, we said at the time that we would keep the NHS settlement under review and, in last year's budget, we allocated an additional £288 million over three years up to 2014-15 to place the NHS on a sustainable financial footing. A budget of £6.36 billion for the NHS in Wales has been protected. We are still spending more than 40% of the total Welsh Government budget on health, despite deep cuts to our budget by the UK Government rising to £2.1 billion in the period of this budget.

i'r casgliad bod angen buddsoddiad mewn amrywiaeth o bolisïau er mwyn gwella canlyniadau iechyd i bobl yng Nghymru, fel y dywedodd Mike Hedges. Felly, nid yn unig y gwnaethom amddiffyn y gyllideb iechyd rhag gostyngiadau arian parod, gwnaethom fuddsoddi mewn ystod o bolisïau fel addysg, tai ac yn enwedig y gwasanaethau cymdeithasol—polisïau sy'n cael effaith ar iechyd pobl. Fodd bynnag, roeddem yn dweud ar y pryd y byddem yn cadw'r setliad GIG dan sylw ac, yng nghyllideb y llynedd, dyrannwyd £288 miliwn ychwanegol dros dair blynedd hyd at 2014-15 i roi'r GIG ar sylfaen ariannol gynaliadwy. Mae cyllideb o £6.36 biliwn ar gyfer y GIG yng Nghymru wedi cael ei diogelu. Rydym yn dal i wario mwy na 40% o gyllideb Llywodraeth Cymru yn llwyr ar iechyd, er gwaethaf toriadau dwfn i'n cyllideb gan Lywodraeth y DU yn codi i £2.1 biliwn yn ystod cyfnod y gyllideb hon.

I want to focus for a moment on social services protection because, since the Assembly was formed, funding for local government has more than doubled. The funding we provide has kept pace with the increase in local authorities' expenditure. In real terms, local government funding has increased by 54%, and that is over the current spending review period. It will continue to increase while the settlement in England on a like-for-like basis will decrease, and decrease in the poorest regions. Overall, it is a difference of 1.3% over the spending review period. Providing local government with a good settlement despite the financial conditions ensures that funding is available to deliver those key services for which they are responsible. From 2011-12 to 2013-14, we have provided a level of protection to social services akin to 1% better than the changes to the Welsh budget overall. The plans mean that, by 2014-15, social services budgets and the revenue support grant will be £35 million higher than they were in 2010-11. That is to support the vulnerable; that is to support our communities; that is to support our carers, our elderly, our children and disabled people.

Rwyf am ganolbwyntio am eiliad ar amddiffyn gwasanaethau cymdeithasol oherwydd, ers i'r Cynulliad gael ei ffurfio, mae cyllid ar gyfer llywodraeth leol wedi mwy na dyblu. Mae'r gyllid yr ydym yn ei darparu wedi cadw i fyny gyda'r cynnydd mewn gwariant awdurdodau lleol. Mewn termau real, mae cyllid llywodraeth leol wedi cynyddu gan 54%, ac mae hynny dros gyfnod yr adolygiad gwario presennol. Bydd yn parhau i gynyddu tra bydd y setliad yn Lloegr ar sail cyfatebol yn gostwng, ac yn gostwng yn y rhanbarthau tlotaf. Yn gyffredinol, mae'n wahaniaeth o 1.3% dros y cyfnod adolygu gwariant. Mae darparu setliad da i lywodraeth leol er gwaethaf yr amodau ariannol yn sicrhau bod cyllid ar gael i ddarparu'r gwasanaethau allweddol hynny y maent yn gyfrifol amdanynt. O 2011-12 i 2013-14, rydym wedi darparu lefel o ddiogelu i wasanaethau cymdeithasol tebyg i 1% yn well na'r newidiadau i gyllideb Cymru yn gyffredinol. Mae'r cynlluniau yn golygu, erbyn 2014-15, y bydd cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol a'r grant cynnal refeniw £35 miliwn yn uwch nag yr oeddent yn 2010-11. Mae hynny er mwyn cefnogi'r rhai agored i niwed; er mwyn cefnogi ein cymunedau, er mwyn cefnogi ein gofalwyr, ein henoed, ein plant a phobl anabl.

However, of course, going back to the

Fodd bynnag, wrth gwrs, gan fynd yn ôl at

response of the Welsh Conservatives to the spending review, do you recall that they wanted to cut the local government revenue settlement? That would have been a cut in social services, a cut in support for the vulnerable. As the Chair of the Finance Committee Chair did, Lynne Neagle referred to the UK Government programme of welfare reform. Analysis from the Institute for Fiscal Studies, following the spending review, estimated that the impact of the tax and benefit changes to be implemented by 2014-15 by the UK Government will be that, on average, households in Wales can expect to lose 4.1% of their income. This compares to a UK average loss of 3.8%. Families with children are expected to be hit hardest, with the poorest households with children losing the largest proportion of their income as a result of tax and benefit changes. Non-working lone parents and workless couples with children are expected to suffer disproportionately. That is why we support the vulnerable. That is why we invest in social services. That is why we invested in universal benefits.

ymateb y Ceidwadwyr Cymreig i'r adolygiad o wariant, a ydych yn cofio eu bod eisiau torri'r setliad refeniw llywodraeth leol? Byddai hynny wedi bod yn doriad mewn gwasanaethau cymdeithasol, toriad yn y cymorth i bobl agored i niwed. Fel y gwnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, cyfeiriodd Lynne Neagle at raglen Llywodraeth y DU o ddiwygio lles. Roedd dadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, yn dilyn yr adolygiad o wariant, yn amcangyfrif mai effaith y newidiadau mewn treth a budd-daliadau fyddai'n cael ei gweithredu erbyn 2014-15 gan Lywodraeth y DU fydd, ar gyfartaledd, y gall aelwydydd yng Nghymru ddisgwyl colli 4.1% o'u hincwm. Mae hynny'n cymharu â cholled gyfartalog o 3.8% ar gyfer y DU. Disgwylir mai teuluoedd â phlant fydd yn cael eu taro galetaf, gyda'r aelwydydd tlotaf â phlant yn colli'r gyfran fwyaf o'u hincwm o ganlyniad i newidiadau treth a budd-daliadau. Mae disgwyl i rieni unigol nad ydynt yn gweithio a chyplau heb waith â phlant ddioddef yn anghyfartal. Dyna pam yr ydym yn cefnogi pobl agored i niwed. Dyna pam yr ydym yn buddsoddi yn y gwasanaethau cymdeithasol. Dyna pam yr oeddem yn buddsoddi mewn budd-daliadau cyffredinol.

The Liberal Democrats' education spokesperson, Peter Black, has welcomed the fact that we are maintaining our investment in the pupil deprivation grant. We are, of course, proud of that agreement. We are going further by increasing the total funding in 2013-14 to £36.8 million, which is an increase of £4.4 million on the amount available this year.

Mae llefarydd addysg y Democratiaid Rhyddfrydol, Peter Black, wedi croesawu'r ffaith ein bod yn cynnal ein buddsoddiad yn y grant amddifadedd disgyblion. Rydym, wrth gwrs, yn falch o'r cytundeb hwnnw. Rydym yn mynd ymhellach drwy gynyddu cyfanswm y cyllid yn 2013-14 i £36.8 miliwn, sy'n gynnydd o £4.4 miliwn ar y swm sydd ar gael eleni.

**Peter Black:** The fact is that you have not increased the deprivation grant but widened the gap between England and Wales. Do you not feel remotely guilty about that?

**Peter Black:** Y ffaith yw nad ydych wedi cynyddu'r grant amddifadedd, ond wedi ymestyn y bwlch rhwng Cymru a Lloegr. Onid ydych yn teimlo braidd yn euog am hynny?

**Jane Hutt:** I am sure that you will be welcoming—and I would have anticipated your going on to welcome, Peter—the fact that we are maintaining our commitment to grow investment in schools by an additional 1% above overall changes to the Welsh budget as a whole for 2013-14 and 2014-15. This means that, over the spending review

**Jane Hutt:** Rwy'n siŵr y byddwch yn croesawu—a byddwn wedi rhagweld y byddech yn mynd ymlaen i groesawu, Peter—y ffaith ein bod yn cynnal ein hymrwymiad i dyfu buddsoddiad mewn ysgolion gan 1% ychwanegol uwchlaw'r newidiadau cyffredinol i gyllideb Cymru yn ei chyfanrwydd ar gyfer 2013-14 a 2014-15.

period, we will invest an additional £185 million in schools. I know that you would welcome that with regard to our investment in our schools and education.

Mae hyn yn golygu, dros y cyfnod adolygu gwariant, y byddwn yn buddsoddi swm ychwanegol o £185 miliwn mewn ysgolion. Gwn y byddech yn croesawu hynny o ran ein buddsoddiad yn ein hysgolion ac addysg.

In response to Aled Roberts's contribution, it is important that we recognise again that there is more that unites us than divides us. In terms of our investment in children and young people, we are creating a young people's jobs and training fund, we are giving an extra £25 million each year, and we are not only recognising front-line spending in schools, but doubling the number of children benefitting from free childcare and health visiting. We are also giving an extra £55 million to Flying Start. There is more that unites us than divides us with regard to this budget. In total, 36,000 children a year will benefit from Flying Start. This is a responsible Government in charge of a tough budget. The Welsh Liberal Democrats would find it difficult not to support Plaid Cymru's support for increasing expenditure in apprenticeships. It is quite clear that young people—

Mewn ymateb i gyfraniad Aled Roberts, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod unwaith eto bod mwy yn ein huno nag sy'n ein rhannu. O ran ein buddsoddiad mewn plant a phobl ifanc, rydym yn creu cronfa swyddi a hyfforddiant i bobl ifanc, rydym yn rhoi £25 miliwn ychwanegol bob blwyddyn, ac rydym nid yn unig yn cydnabod gwariant rheng flaen mewn ysgolion, ond yn dyblu nifer y plant sy'n elwa ar ofal plant ac ymweliadau iechyd am ddim. Rydym hefyd yn rhoi swm ychwanegol o £55 miliwn i Dechrau'n Deg. Mae yna fwy sy'n ein huno nag sy'n ein rhannu mewn perthynas â'r gyllideb. Yn gyfan gwbl, bydd 36,000 o blant y flwyddyn yn elwa o Dechrau'n Deg. Mae hon yn Llywodraeth sy'n gyfrifol sy'n rheoli cyllideb anodd. Byddai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ei chael yn anodd peidio â chefnogi cefnogaeth Plaid Cymru ar gyfer cynyddu gwariant mewn prentisiaethau. Mae'n eithaf amlwg bod pobl ifanc—

**Peter Black** *rose—*

**Peter Black** *a gododd-*

**Jane Hutt:** You have had your say, Peter.

**Jane Hutt:** Rydych wedi cael dweud eich dweud, Peter.

Young people in the 16-24 age group are finding it particularly hard to find jobs, as Alun Ffred Jones and Ieuan Wyn Jones said. The biggest challenge we face is ensuring they have the opportunities to equip themselves with the right skills in order to ensure that they have those employment prospects in the future. That means that we look at all the policy opportunities. Indeed, I remember listening to Nick Ramsay on the radio, talking very positively about his committee's report on apprenticeships. That will be valuable in ensuring that we work together to get the best deal in terms of that £20 million.

Mae pobl ifanc yn y grŵp oedran 16-24 yn ei chael hi'n arbennig o anodd dod o hyd i swyddi, fel y dywedodd Alun Ffred Jones a Ieuan Wyn Jones. Yr her fwyaf sy'n ein hwynebu yw sicrhau eu bod yn cael y cyfle i baratoi eu hunain gyda'r sgiliau cywir er mwyn sicrhau eu bod yn cael y rhagolygon cyflogaeth hynny yn y dyfodol. Mae hynny'n golygu ein bod yn edrych ar yr holl gyfleoedd polisi. Yn wir, rwy'n cofio gwrando ar Nick Ramsay ar y radio, yn siarad yn gadarnhaol iawn am adroddiad ei bwyllgor ar brentisiaethau. Bydd hynny'n werthfawr o ran sicrhau ein bod yn gweithio gyda'i gilydd i gael y fargen orau o ran yr £20 miliwn hwnnw.

**Nick Ramsay:** I am glad that you listened to what I said on the radio, Minister. [*Laughter.*] I hear what you say about apprenticeships,

**Nick Ramsay:** Rwy'n falch eich bod yn gwrando ar yr hyn a ddywedais ar y radio, Weinidog. [*Chwerthin.*] Rwy'n clywed yr

and I have already said that I support moves to support them. Are you convinced that this will lead to permanent, sustainable jobs and that it is not just money to massage the figures in the short term? We need sustainability in the long term.

hyn a ddywedwch am brentisiaethau, ac rwyf eisoes wedi dweud fy mod yn cefnogi camau i'w cefnogi. A ydych yn argyhoeddedig y bydd hyn yn arwain at swyddi parhaol, cynaliadwy ac nad yw'n arian i ystwytho'r ffigurau yn unig yn y tymor byr? Mae angen cynaliadwyedd yn y tymor hir.

**Jane Hutt:** That is why it is important that the report and its findings can help to influence the way in which we take this forward. We are continuingly reviewing policy on apprenticeship delivery, and that is about sustainability across Wales. We are making sure that those programmes are fit for purpose and the best in class. That is why, as Ieuan Wyn Jones said, it is important that we are open about the prospects for this investment. We believe that the success of apprenticeships in Wales depends on achieving that best possible match of supply and demand. We have that suite of apprenticeship programmes. That will be flexible when it comes to the way in which we meet the additional investment that we need to make with regard to these opportunities.

**Jane Hutt:** Dyna pam y mae'n bwysig y gall yr adroddiad a'i ganfyddiadau helpu i ddylanwadu ar y ffordd yr ydym yn gweithredu hyn. Rydym yn barhaus yn adolygu'r polisi ar ddarparu prentisiaethau, ac mae hynny'n ymwneud â chynaliadwyedd ar draws Cymru. Rydym yn gwneud yn siŵr bod y rhaglenni yn addas at y diben a'r gorau yn y dosbarth. Dyna pam, fel y dywedodd Ieuan Wyn Jones, y mae'n bwysig ein bod yn agored am y rhagolygon ar gyfer y buddsoddiad hwn. Rydym yn credu bod llwyddiant y prentisiaethau yng Nghymru yn dibynnu ar gyflawni'r paru gorau posibl o gyflenwad a galw. Mae'r gyfres o raglenni prentisiaeth honno gennym. Bydd hynny'n hyblyg pan ddaw at y ffordd yr ydym yn diwallu'r buddsoddiad ychwanegol y mae angen i ni ei wneud o ran y cyfleoedd hyn.

With regard to our support for business, is it clear that our budget for growth and jobs builds on the approach that we set out last year to stimulate the economy and create job opportunities. That includes investment in Welsh business, innovation and entrepreneurship, and an increase in the budget for business, enterprise, technology and science. Alun Ffred Jones mentioned the focus on infrastructure and our opportunities with the infrastructure plan and the borrowing powers that we now have, the innovative financing opportunities with the science park, and investing in skills to support businesses and job creation. Again, I remind Members of the Welsh Conservatives' so-called budget for 2011-12. They set out to cut the former economy and transport budget by 30% in their proposed draft budget for 2011-12.

O ran ein cefnogaeth i fusnes, mae'n amlwg bod ein cyllideb ar gyfer twf a swyddi yn adeiladu ar y dull a bennwyd gennym y llynedd i ysgogi'r economi a chreu cyfleoedd gwaith. Mae hynny'n cynnwys buddsoddiad mewn busnesau Cymru, arloesi ac entrepreneuriaeth, a chynnydd yn y gyllideb ar gyfer busnes, menter, technoleg a gwyddoniaeth. Soniodd Alun Ffred Jones am y ffocws ar seilwaith a'n cyfleoedd gyda'r cynllun seilwaith a'r pwerau benthyca sydd gennym yn awr, y cyfleoedd ariannu arloesol gyda'r parc gwyddoniaeth, a buddsoddi mewn sgiliau i gefnogi busnesau a chreu swyddi. Unwaith eto, hoffwn atgoffa'r Aelodau o gyllideb bondigrybwyll y Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer 2011-12. Roedden nhw'n bwriadu torri'r gyllideb economi a thrafnidiaeth flaenorol gan 30% yn eu cyllideb ddrafft arfaethedig ar gyfer 2011-12.

6.00 p.m.

Finally, I come back to my point that there is more that unites us than divides us in the Chamber. As the challenges that we face in

Yn olaf, rwy'n dod yn ôl at fy mhwynt bod mwy yn ein huno nag sy'n ein rhannu yn y Siambr. Gan fod yr heriau sy'n ein hwynebu

Wales concern the way that we are responding to the reductions and assessing the equality impact of our decisions, which are part of our commitment to delivering on priorities in our programme for government, we are united in our focus on health and education.

yng Nghymru yn ymwneud â'r ffordd yr ydym yn ymateb i'r gostyngiadau ac yn asesu effaith ein penderfyniadau ar gydraddoldeb, sy'n rhan o'n hymrwymiad i ddarparu ar flaenoriaethau yn ein rhaglen lywodraethu, rydym yn unedig yn ein ffocws ar iechyd ac addysg.

However, we will take no lessons from the Welsh Conservatives on the NHS, when there are GPs in London making millions out of the sell-off of GP practices to private healthcare providers. There is privatisation in England and a national health service in Wales backed by a Welsh Labour Government. Both the leader of the opposition and Paul Davies mentioned the Royal College of Nursing. More than 6,000 nursing posts have been lost in England since May 2010, and the leader of the Royal College of Nursing says that the NHS in England is spiralling into a crisis.

Fodd bynnag, ni fyddwn yn cymryd unrhyw wersi gan y Ceidwadwyr Cymreig ar y GIG, pan fo meddygon teulu yn Llundain yn gwneud miliynau allan o werthu practisiau meddygon teulu i ddarparwyr gofal iechyd preifat. Ceir preifateiddio yn Lloegr a gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Lafur Cymru. Soniodd arweinydd yr wrthblaid a Paul Davies am y Coleg Nyrsio Brenhinol. Mae mwy na 6,000 o swyddi nyrsio wedi cael eu colli yn Lloegr ers mis Mai 2010, ac mae arweinydd y Coleg Nyrsio Brenhinol yn dweud bod y GIG yn Lloegr yn wynebu argyfwng.

**Andrew R.T. Davies:** Will you take an intervention?

**Andrew R.T. Davies:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Jane Hutt:** No, I will not take any more interventions.

**Jane Hutt:** Na, nid wyf am dderbyn rhagor o ymyriadau.

We are looking at the prospect of the health technologies fund and we will look into that proposal carefully. I hope and believe that this will mean that the Liberal Democrats will not oppose our budget as they have said that they will, but that they will come onside with this side of the Chamber. More unites us than divides us. This Government is determined not to deliver the politics of austerity, but the politics of social justice and fair play. This budget reflects and supports Wales's economic, social and environmental priorities. We work together to deliver our vision for Wales now and in the longer term. I commend the motion to you.

Rydym yn edrych ar ragolygon y gronfa technolegau iechyd a byddwn yn archwilio'r cynnig hwnnw'n ofalus. Rwy'n gobeithio ac yn credu y bydd hyn yn golygu na fydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gwrthwynebu ein cyllideb fel y maent wedi dweud y byddant, ond y byddant yn dod yn gytûn â'r ochr hon i'r Siambr. Mae mwy yn ein huno nag sy'n ein rhannu. Mae'r Llywodraeth hon yn benderfynol o beidio â chyflwyno gwleidyddiaeth o gynilo, ond gwleidyddiaeth cyfiawnder cymdeithasol a chwarae teg. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu ac yn cefnogi blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Cymru yn awr ac yn y tymor hwy. Cymeradwyaf y cynnig ichi.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Is there any objection? I see that there is. Therefore, I will defer all voting until voting time.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw cytuno gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Business Committee agreed that voting would take place immediately after the last debate. Unless any Member objects, I intend to move straight to voting. Is there any objection? I see that there is none.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddwn yn pleidleisio yn syth ar ôl y ddadl ddiwethaf. Oni bai bod unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, bwriadaf symud yn syth i bleidleisio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM5087: O blaid 11, Ymatal 10, Yn erbyn 32.*
*Amendment 1 to NDM5087: For 11, Abstain 10, Against 32.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Gruffydd, Llyr Huws
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay

Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM5087: O blaid 5, Ymatal 21, Yn erbyn 27.*
*Amendment 2 to NDM5087: For 5, Abstain 21, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*

*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM5087: O blaid 16, Ymatal 10, Yn erbyn 26.*
*Amendment 3 to NDM5087: For 16, Abstain 10, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Gruffydd, Llyr Huws
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM5087: O blaid 27, Ymatal 10, Yn erbyn 16.*
*Motion NDM5087: For 27, Abstain 10, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Drakeford, Mark

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Davies, Suzy

Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Gruffydd, Llyr Huws
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

**The Presiding Officer:** That brings today’s business to close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.03 p.m.*
*The meeting ended at 6.03p.m.*

**Aelodau a’u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)

Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru Annibynnol – Independent Plaid Cymru)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)